

# CABINET

## CYNGOR GWYNEDD

<b>DYDDIAD</b>	Dydd Mawrth, 18fed Chwefror, 2020
<b>AMSER</b>	1.00 y.h.
<b>LLEOLIAD</b>	Siambwr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH
<b>PWYNT CYSWLLT</b>	Annes Siôn 01286 679490 cabinet@gwynedd.llyw.cymru

### AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

<b>Aelodau</b>	
Dyfrig L. Siencyn	Arweinydd
Dafydd Meurig	Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Craig ab Iago	Aelod Cabinet Tai
Gareth Wyn Griffith	Aelod Cabinet Amgylchedd
Nia Wyn Jeffreys	Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol
Dilwyn Morgan	Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc
Gareth Thomas	Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned
Ioan Thomas	Aelod Cabinet Cyllid
Catrin Wager	Aelod Cabinet Prifffyrdd a Bwrdeistrefol
Cemlyn Rees Williams	Aelod Cabinet Addysg



## RHAGLEN

	Eitem	Cyflwynir gan	Swyddog	Tud.
1	YMDDIHEURIADAU			
2	DATGAN BUDDIANT PERSONOL			
3	MATERION BRYD			
4	MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU			
5	COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWDYD AR 21 A 28 IONAWR			5 - 19
6	YSGOL LLANAELHAEARN	Cyng/Cllr Cemlyn Williams	Gwern ap Rhisiart	20 - 125
7	CYNLLUN Y CYNGOR	Cyng/Cllr Dyfrig Siencyn	Dewi Jones	126 - 269
8	CYLLIDEB 2020/21	Cyng/Cllr Ioan Thomas	Dafydd L Edwards	270 - 315
9	DEMENTIA GO	Cyng / Cllr Dafydd Meurig	Aled Davies	316 - 319
10	<p><b>CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD</b></p> <p>Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinir ym maragraff 14 ac 16 o Atodiad 12A o Deddf Llywodraeth Leol 1972</p> <p>Gofynnir i gadw'r eitem yn eithriedig o dan yr adran isod:  14.10.2 Gwybodaeth Eithriedig – Disgresiwn i Wahardd y Cyhoedd  (a) Ceir gwahardd y cyhoedd o gyfarfodydd pryd bynnag y bo'n debygol, oherwydd natur y busnes sydd i'w drafod, neu natur y trafodion, y byddai gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei ddatgelu.</p> <p>Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn</p>			

	<p>bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn a materion ariannol cyrff eraill a thrafodaethau cysylltiedig Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cyngor. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau . Am y rhesymau yma mae'r Swyddog Monitro yn fodlon fod y mater yn gaeedig er y budd cyhoeddus.</p>			
11	CYMDEITHAS DAI PWYLEG	Cyng/Cllr Dafydd Meurig	Arwel Wyn Owen	



---

## Y CABINET DYDD MAWRTH, 21 IONAWR 2020

---

### Yn bresennol-

Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Dilwyn Morgan, Gareth Thomas, Ioan Thomas a Catrin Wager

### Hefyd yn bresennol-

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Rhun ap Ieth (Uwch Gyfreithiwr), Dewi Morgan (Pennaeth Cynorthwyol - Refeniw a Risg), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), ac Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6: Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol) a Catrin Love (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Iechyd, Diogelwch a Llesiant).

Eitem 7: Roland Evans (Pennaeth Cynorthwyol Diwylliant, Economi a Chymuned) a Hugh Edwin Jones (Rheolwr Digwyddiadau)

Eitem 8 – 10: Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriad gan Cyng. Cemlyn Williams.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw faterion bryd

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 17 RHAGFYR 2019

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 17 Rhagfyr 2019 fel rhai cywir.

## 6. POLISI IECHYD A DIOGELWCH A LLESIANT

Cyflwynwyd gan Cyng. Nia Jeffreys

## PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd y Polisi Iechyd Diogelwch a Llesiant newydd.

## **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan bwysleisio fod cael Polisi Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn ofyniad cyfreithiol. Ychwanegwyd oherwydd maint y Cyngor fod angen i'r polisi fod yn gwbl glir. Mynegwyd fod y polisi cyfredol yn dyddio yn ôl i 2015 ac fod llawer o newidiadau wedi bod dros y pedair blynedd diwethaf. Amlygwyd fod y polisi yn adlewyrchu y newidiadau hyn ac yn symud tu hwnt i'r ymrwymiad cyfreithiol gofynnol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod y maes yn un pwysig ac yn ganolog i waith y Cyngor. Ychwanegwyd pwysigrwydd o gael polisiâu cadarn.
- Amlygwyd nad oedd sylwad gan yr undeb a gofynnwyd os oedd hyn yn rhywbeth anarferol. Mynegwyd nad oedd ac nad oedd sylwad na gwrthwynebiad i'r polisi.
- Tynnwyd sylw at siart llif o'r drefn o gynnal ymgynghoriad gan bwysleisio fod trefn cadarn i'w ddilyn.
- Mynegwyd fod digwyddiadau Iechyd a Diogelwch yn digwydd a bod y polisi yno i roi arweiniad i'r staff

## **7. CYNLLUN GWYNEDD 2018-23 - ADNODDAU I'R CYNLLUN 'CYNFYDDU BUDD DIGWYDDIADAU MAWRION'**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Gareth Thomas

## **PENDERFYNIAD**

Cytunwyd i ymrwymo £50,000 o'r Gronfa Trawsffurfio'r Cyngor er mwyn galluogi'r adran i wireddu'r weledigaeth o gefnogi digwyddiadau yn unol â Chynllun Gwynedd 2018-23.

## **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod swyddog penodol yn edrych ar ddigwyddiadau'r sir. Ychwanegwyd fod rôl benodol er mwyn denu digwyddiadau ac i sicrhau budd gorau i fusnesau Gwynedd. Mynegwyd er mai cyfraniad cymharol fychan sy'n cael ei gynnig i drefnwyr digwyddiadau tynnwyd sylw at y manteision a oedd yn cynnwys cyfleoedd i gymunedau a phobl ifanc a lle canolog i'r Gymraeg a diwylliant Gwynedd.

Amlygwyd rhestr o uchafbwyntiau yn y maes digwyddiadau yn ystod y flwyddyn diwethaf. Ychwanegwyd fod trafodaethau yn cael ei cynnal am mewn amrywiol leoliadau ar draws Gwynedd ac felly nid yw trafodaethau am lleoliad y Faenol yn drafodaeth tu hwnt i'r arferol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd sut mae digwyddiadau yn derbyn ffigyrau niferoedd. Nodwyd drwy

drafodaeth a'r trefnwyr ac yna gwerthuso ac addasu.

- Trafodwyd sut mae'r adran yn edrych ar effaith digwyddiadau ar yr iaith. Mynegwyd o ran yr elfen trefnu fod cyfarfodydd yn cael ei cynnal gyda'r trefnwyr ac fod cytundeb yn cael ei arwyddo ganddynt. O ran monitro, nodwyd fod y Swyddog Digwyddiadau yn mynychu rhan helaeth o'r digwyddiadau ac rhoddwyd esiampl o ddiwyddiad 'Red Bull Hardline' ble mae mwy o Gymraeg i'w gweld yno yn flynyddol.
- Tynnwyd sylw at werth am arian gan amlygu i pob £1 mae'r Cyngor wedi ei fuddsoddi mewn digwyddiadau mae'n dod a elw o £140.26 i'r sir. Holwyd sut oedd modd mesur hyn. Nodwyd fod cyfrifiannell wedi ei greu gan Lywodraeth Cymru sydd yn cael ei greu ar sail tybiaethau sydd eu hunain yn deillio o waith maintoli budd sy'n deillio o'r fath ddiwyddiadau

## 8. CYLLIDEB REFENIW - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD

Cyflwynwyd gan Cyng. Ioan Thomas

### PENDERFYNIAD

Penderfynwyd i:

- Dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd 2019 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.
- Nodi fod gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant eleni, gan bod angen egluro manylder cymhleth yn y darlun yma yng ngofal Oedolion, mae'r Prif Weithredwr eisoes wedi galw cyfarfod o'r swyddogion perthnasol a chomisiynu gwaith er mwyn cael gwell dealltwriaeth a rhaglen glir i ymateb. I geisio cyfarch y gorwariant i'r dyfodol, mae adnodd ychwanegol wedi ei ddyrannu fel rhan o'r drefn bidiau ar gyfer cyllideb 2020/21.
- Nodi fod Tasglu Cyllideb Plant wedi ei gomisiynu gan y Prif Weithredwr i roi sylw i faterion ariannol dyrys yr Adran Plant a Theuluoedd fel bod modd mynd at wraidd gorwariant yr Adran, gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad gerbron y Cabinet fydd yn manylu ar y cynllun ymateb. I geisio cyfarch y gorwariant i'r dyfodol, mae adnodd ychwanegol wedi ei ddyrannu fel rhan o'r drefn bidiau ar gyfer cyllideb 2020/21.
- Ar gyllidebau Corfforaethol, fod:
  - (£198k) o gynnyrch treth ychwanegol ar Bremiwm Treth y Cyngor yn cael ei ychwanegu at y £2.7 miliwn sydd eisoes wedi ei neilltuo yn 2019/20 i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai.
  - (£75k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei neilltuo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf.
  - (£500k) o danwariant Corfforaethol yn cael ei neilltuo i gyllido diffyg grant yn y maes gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy.
  - (£312k) i'w ddefnyddio i gyllido bidiau un-tro sydd wedi eu cyflwyno gan yr Adrannau ar gyfer gwariant yn 2020/21.

— y gweddill sef (£502k) yn mynd i falansau cyffredinol y Cyngor.

## **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod rhai arwyddion o drafferthion cyflawni arbedion yn cael eu hamlygu yn yr adroddiad. Mynegwyd fod rhai adrannau a fydd yn gorwario a trafodwyd yr adrannau yma yn unigol.

Adran Oedolion Iechyd a Llesiant – mynegwyd fod yr rhagolygon diweddaraf yn awgrymu dros £1.8miliwn o orwariant gan yr adran. Ychwanegwyd fod y gorwariant yn cael ei leddfu yn rhannol i £658k yn dilyn derbyniad grant a defnydd o gyllid un tro.

Adran Plan a Cefnogi Teuluoedd – nodwyd fod lefel y gorwariant yn yr adran wedi dwysau ymhellach i £3.2miliwn gyda £2.6 miliwn yn y maes lleoliadau, gyda cyfran sylweddol o'r gorwariant yn deillio o leoliadau all sirol. Ychwanegwyd fod tasglu Cyllideb wedi ei sefydlu er mwyn rhoi sylw i faterion ariannol yr adran a nodwyd nad oedd y sefyllfa hon yn anghyffredin os yn edrych ar draws Cymru.

Adran Prifffyrdd – mynegwyd fod gwariant yn parhau yn y maes casglu a gwaredu gwastraff eleni, gan nodi mae costau trosiannol cyn symud i drefniadau newydd sydd wedi arwain at y gorwariant.

Tynnwyd sylw at tanwariant yn maes corfforaethol gyda rhagolygon ffafriol o gynnyrch treth ychwanegol ar Dreth Cyngor a Premiwm Treth Cyngor er hyn amlygwyd fod parhad yn y tueddiad i ôl ddyddio trosglwyddiadau o Dreth Cyngor i Drethi Annomestig. Pwysleisiwyd yn ogystal fod niferoedd sy'n hawlio gostyngiadau Treth Cyngor ar ei lefel isaf am y bedwaredd blynedd yn olynol. Ychwanegwyd fod tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol, ac nad yw'r pwysau ar nife ro o gyllidebau mor ddwys â'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol.

Rhoddodd y Prif Weithredwr grynoded o'r gwaith oedd yn mynd ymlaen i ymchwilio i'r gorwariant ym meysydd Plant a Cefnogi Teuluoedd a'r Adran Oedolion. Byddai dod i gasgliad a darganfod y cyfleoedd neillog yn y maes Plant yn cymryd yn hirach na'r hyn a ragwelir ar gyfer maes Oedolion, ond 'roedd y Pennaeth Cyllid yn gwneud darpariaeth briodol wrth lunio cyllideb 2020/21.

Adroddodd ymhellach nad oedd yn poeni yn ormodol am orwariant yn yr Adran Brifffyrdd ar hyn o bryd gan fod cynllun yn ei le yn barod i sicrhau y bydd y maes gwastraff yn gweithio mor effeithlon a phosib er mwyn dod a'r gorwariant yma dan reolaeth.

## **9. RHAGLEN CYFALAF - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

Cyflwynwyd gan Cyng. Ioan Thomas

### **PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd (sefyllfa 30 Tachwedd 2019) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r

adroddiad, sef:

- £50,000 lleihad mewn defnydd o fenthyca
- £1,072,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- £114,000 cynnydd mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- £23,000 o leihad mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- Dim newid mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
- £228,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

## **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r penderfyniad. Amlygwyd fod yr adroddiad diwygiedig yn amlygu cyfanswm o £89.1miliwn dros y tair blynedd nesaf. Ychwanegwyd fod £1.341miliwn o gynnydd yn yr y gyllideb ers y adolygiad blaenorol.

Pwysleisiwyd fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi £31.8 miliwn yn 2019/20 ar gynlluniau cyfalaf. Ategwyd fod £13miliwn ohono wedi ei ariannu drwy grantiau. Mynegwyd fod £9.2miliwn ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ailbroffilio o 2019/20 i 2020/21 ond nad yw'r newid hwn wedi achosi unrhyw golled ariannol i'r Cyngor.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Trafodwyd hawliadau gweithwyr sydd yn gweithio ar gynlluniau sydd yn cael eu hariannu yn benodol gan grantiau a mynegwyd fod angen trafodaeth bellach ar y mater.
- Mynegwyd fod angen llawenhau yn y £31.7miliwn o gynlluniau cyfalaf ar gyfer 2019/20, a diolchwyd i'r staff am gynllunio prosiectau o flaen llaw fel bod modd manteisio ar arian munud olaf.
- Tynnwyd sylw at £1.9miliwn fydd ar gael i wella adeiladau ysgolion a fydd a oblygiadau i'r cynllun asedau.

## **10. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS GYLLID**

Cyflwynwyd gan Cyng. Ioan Thomas

### **PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad wedi ei seilio am gyfarfodydd herio perfformiad yr adran ble roedd aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yno hefyd. Tynnwyd sylw at y prif faterion oedd yn cynnwys y Strategaeth Technoleg Gwybodaeth gan nodi fod y cynnydd yn araf ar hyn o bryd gan fod yr adran yn canolbwyntio ar brosiect grant addysg sydd ag amserlen dynn.

Nodwyd o ran system rheoli dogfennau a chofnodion electronig fod y cynllun yn

mynd yn bositif iawn ond fod ychydig o broblemau wedi codi. Nodwyd fod angen cylchredeg neges i'r holl ddefnyddwyr i ofyn am adborth am y system. Tynnwyd sylw at y Gwasanaeth Technegol Gwybodaeth a mynegwyd fod amser wedi ei fuddsoddi i hyfforddi'r staff fel eu bod wedi'i harfogi i ymateb a datrys problemau defnyddiwr dros y ffon ar y cyswllt cyntaf. Amlygwyd yn ogystal fod cyfnod o 3 wythnos ym mis Tachwedd fod systemau'r Cyngor wedi gweithredu oddi ar y gweinydd wrth gefn ar dri achlysur oherwydd toriad. Pwysleisiwyd nad oedd y defnyddiwr yn ymwybodol o hynny ac nad oedd unrhyw effaith ar eu gwaith.

Mynegwyd fod gwerth holl ddyledion amrywiol dros 6 mis oed gohiriedig a dyledion a gyfeiriwyd am weithrediad pellach i wasanaethau eraill yn uwch ar 30 Medi 2019 ac yr oedd ar 31 Mawrth 2019. Nodwyd mai un o'r rhesymau dros hyn yw arafwch y Bwrdd lechyd yn talu gan fod trafodaethau yn cael eu cynnal ar bwy ddylai fod yn talu.

Amlygwyd un o brif ddarnau gwaith yr adran dros y misoedd diwethaf sef prisiant o'r Gronfa Bensiwn. Nodwyd fod cynnydd yn y lefel ariannu'r gronfa o 91% yn 2016 i 108% eleni. Golygiad hyn yw y gallwn weld elfen o leihad yng nghyfraniad y Cyngor fel cyflogwr.

Nodwyd fod yr Aelod Cabinet yn fodlon â pherfformiad yr adran ond fod lle i wella.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd fod busnesau bach yn gwerthfawrogi fod anfonebau yn cael eu talu yn syth gan y Cyngor.
- Trafodwyd fod 9 o bobl wedi dod i gyswllt a'r tîm adfer ac a gyfeiriwyd at fudiad CAB am gyngor dyledion sydd yn ffigwr llawer is nag mewn blynyddoedd blaenorol. Mynegwyd efallai fod angen annog pobl i drafod â'r staff, fel bod modd eu cyfeirio i'r gefnogaeth gywir.

## **11. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS AMGLYCHEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Gareth Griffith

### **PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r gwaith mae'r adran wedi bod yn ei wneud dros y misoedd a fu. Mynegwyd fod y cyfarfod herio perfformiad wedi bod gyda'r Aelod Cabinet ynghyd a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol.

Amlygwyd fod yr Adran Amgylchedd wedi sefydlu system newydd, sef Tascomi a fydd yn cael ei ddefnyddio gan amryw o wasanaethau o fewn yr adran a fydd yn rhoi gwasanaethau gwell i'r trigolion. Ychwanegwyd fod arbedion wedi neu ar drac i gael eu gwireddu a bod yr adran yn debygol o danwario am eleni.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Tynnwyd sylw at y mesurydd nifer o apeliadau i'r beirniaid annibynnol sy'n cael eu caniatáu gan nodi fod y nifer yn parhau yn 0. Amlygwyd fod hyn yn dangos disgresiwn swyddogion yn gywir. Ychwanegwyd efallai fod angen nodi faint sydd yn mynd i banel pan mae cwyn yn codi.

## **12. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dafydd Meurig

### **PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan dynnu sylw at y prif bwyntiau yn yr adroddiad. Tynnwyd sylw at un o brif fesuryddion yr adran 'a wnaethom yr hyn sydd yn bwysig i'r unigolyn?' a phwysleisiwyd mai hyn sydd yn gyrru'r gwasanaeth.

Mynegwyd fod rhai o'r mesurau yn fesurau statudol gan Lywodraeth Cymru megis cyfradd oediad mewn gofal am resymau gofal cymdeithasol. Ategwyd fod y mesur hwn yn gyrru gweithgaredd ond ddim yn adlewyrchu ar brofiad y dinesydd. Mynegwyd fod Gweithlu a Recriwtio yn y maes gofal yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r adran. Ychwanegwyd ar y cyfan fod yr aelod yn hapus a pherfformiad yr adran.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd i'r staff gan aelod o'r Cabinet am y gwasanaeth a gafwyd gan yr adran a'i brofiad ef o hynny oedd ei fod yn wasanaeth clodwiw.
- Mynegwyd nad oes gan yr adran unrhyw graffiau yn dangos eu perfformiad ond bod yna straeon fel hyn yn adlewyrchu ar ansawdd y gwasanaeth.
- Amlygwyd mai'r gyfrinach fyddai ystyried sut mae modd trosi'r profiadau unigolion yn fesur i dangos ansawdd y gwasanaeth

## **13. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS DDATBYLGU'R ECONOMI**

Cyflwynwyd yr adroddan gan Cyng. Gareth Thomas

### **PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi eu bod yn nodi'r prif bwyntiau yn yr adroddiad. Mynegwyd fod llyfrgelloedd wedi bod yn gweithio yn agos iawn gyda'r trigolion gyda diweddarau cardiau teithio bws. Ychwanegwyd fod Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru wedi creu darlun calonogol o Lyfrgelloedd Gwynedd.

Rhoddwyd diweddariad ar waith Neuadd Dwyfor gan nodi fod tîm defnyddwyr wedi ei sefydlu er mwyn ymgynghori gyda phobl leol. Codwyd pryder am orwariant yn Storiol ond nodwyd fod y gwasanaeth yn adolygu'r trefniadau ar hyn o bryd.

Tynnwyd sylw at gynllun 'busnesau'n cael cymorth i ffynnu' sydd yn sicrhau dull gweithredu yn y Cyngor sy'n rhoi anghenion busnes yn ganolog ac yn lleihau rhwystrau.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Tynnwyd sylw at oedi yn gynllun arbedion parcio gan nodi fod rhai adrannau yn credu fod codi incwm yn lleihau'r arbedion. Ychwanegwyd os nad oes codiad mewn incwm fod dod o hyd i ddatrysiaid yn gallu bod yn anodd.

#### **14. BLAEN RAGLEN Y CABINET**

Cyflwynwyd gan Cyng. Dyfrig Siencyn

##### **PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo'r Blaen raglen a gynhwyswyd yn y papurau i'r cyfarfod yn ddarostyngedig i addasu man addasiadau.

##### **TRAFODAETH**

Nodwyd fod man addasiadau angen ei gwneud i'r blaen raglen cyn ei chyhoeddi ar y wefan. Mynegwyd fod angen i Adrannau adael i'r Tîm Gwasanaethau Democratiaeth wybod am yn amserol am eitemau fydd angen ei rhoi ar y blaen raglen ac os eitemau yn llithro.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.30 y.h.

##### **CADEIRYDD**



---

## Y CABINET DYDD MAWRTH, 28 IONAWR 2020

---

### **Yn bresennol-**

Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Dilwyn Morgan, Gareth Thomas, Ioan Thomas a Catrin Wager

### **Hefyd yn bresennol-**

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), ac Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 8: Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)

Eitem 9: Garem Jackson (Pennaeth Adran Addysg)

Eitem 10: Dafydd Gibbard (Pennaeth Adran Tai ac Eiddo)

Eitem 11: Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid)

### **1. YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.  
Derbyniwyd ymddiheuriad gan Cyng. Cemlyn Williams.

### **2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

### **3. MATERION BRYD**

Nid oedd unrhyw faterion bryd

### **4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu

### **5. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR ARWEINYDD A DIRPRWY ARWEINYDD AR Y BYRDDAU RHAGLEN**

Cyflwynwyd gan Cyng. Dyfrig Siencyn a Cyng. Dafydd Meurig

#### **PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

#### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y Cabinet wedi penderfynu ffurfio dau

ffwrdd trawsadrannol yn edrych ar ddau faes penodol – Adfywio a Cefnogi Pobl.

Mynegwyd o ran y Maes Adfywio eu bod wedi casglu gwybodaeth am y sir ac wedi rhannu'r sir yn 13 ardal. Ychwanegwyd fod angen ystyried pa waith sydd angen ei wneud ym mhob cymuned er mwyn anelu at y 'gymuned berffaith'. Ategwyd fod angen ymgysylltu a thrigolion er mwyn bod yn ymwybodol o'u blaenoriaethau ac y bydd y gwaith ymgysylltu yn cychwyn yn fuan.

Nodwyd o ran y Maes Cefnogi Pobl ei bod wedi bod yn ddiddorol i weld y mapio ffrydiau gwaith yn y maes hwn. Ychwanegwyd ar rai adegau nad oedd yna gysylltiadau digonol rhwng y ffrydiau ond fod llawer o'r gwaith yn tynnu pobl at ei gilydd yn fwy effeithlon er mwyn edrych ar y gefnogaeth yr ydym yn ei roi drwy safbwynt y dinesydd.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd pwysigrwydd o ffocysu ar y trigolion yn y byrddau rhaglen a holwyd o ran y Bwrdd Cefnogi Pobl os oedd asiantaethau neu awdurdodau eraill yn rhan o'r drafodaeth. Mynegwyd fod y Cyngor yn mynychu Byrddau'r Gogledd mewn amryw faes ond fod y bwrdd hwn yn canolbwyntio ar waith y cyngor yn y lle cyntaf cyn ei ymestyn yn ehangach er y byddai hynny yn angenrheidiol maes o law.
- Nodwyd fod y byrddau yma yn mynd at wraidd Ffordd Gwynedd gan nodi y bydd yn trawsnewid y ffordd o weithio a sut mae adrannau yn edrych ar wasanaethau a ffrydiau gwaith.
- Nodwyd y bydd argymhelliad yn dod ger bron y Cabinet i newid yr Is Grwp Hinsawdd sydd yn cyfarfod ar hyn o bryd yn fwrdd newydd a fydd yn canolbwyntio ar yr Argyfwng Hinsawdd yn drawsadrannol. Mynegwyd y bydd trafodaeth bellach ar y mater bryd hynny.

## **6. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABIET DROS GRNOGAETH CORFFORAETHOL A CHYFREITHIOL**

Cyflwynwyd gan Cyng. Nia Jeffreys

### **PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi y bydd yn canolbwyntio ar rai penawdau yn yr adroddiad. Nodwyd y bu i'r Cabinet dderbyn Cynllun Cydraddoldeb Drafft ym mis Tachwedd ac fod y gwaith ymgynghori ar y ddogfen yn mynd rhagddi. Tynnwyd sylw fod cynnydd yn nifer y digwyddiadau ble mae gwybodaeth am unigolion wedi ei ddwyn neud golli. Pwysleisiwyd fod gwaith ar droed i edrych ar y polisïau gweithredu er mwyn ymateb i'r achosion.

Nodwyd fod adolygiad wedi ei wneud o drefniadau ceisiadau Bathodynau Glas. Ychwanegwyd fod y Cyngor wedi bod yn cynorthwyo'r Llywodraeth er mwyn gwella'r gwasanaeth. Diolchwyd i staff yr adran gyfreithiol am eu gwaith caled dros gyfnod yr etholiad.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd pam fod y Cyngor wedi bod yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i sicrhau fod gwasanaeth ar gael yn ddwyieithog. Mynegwyd fod y ffurflenni Bathodynnau Glas wedi bod ar gael yn ddwyieithog ond fod y Cyngor wedi bod yn eu cynorthwyo i sicrhau eu bod yn defnyddio Cymraeg clir fel fod trigolion yn eu deall.
- Trafodwyd y maes Caffael gan nodi pwrpas yr uned sef i gael y prisiau gorau i'r cyngor ynghyd a chadw'r budd yn lleol. Mynegwyd os nad yw contract yn mynd i fusnesau lleol, yna rydym wedi methu ar yr ail bwrpas, a bod felly angen gwneud adolygiadau yn gofyn pam.

## **7. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS BRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL AC YMGYNGHORIAETH GWYNEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Catrin Wager

### **PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod targed o wastraff a gesglir sydd yn cael ei aildddefnyddio, ailgylchu neu compostio oed gan y Cyngor wedi ei gyrraedd ac y bydd y targed yn codi o 64% i 70% erbyn 2025. Amlygwyd fod canran y gwastraff sydd yn cael ei anfon i dirlenwi yn ogystal wedi lleihau i 18% a mynegwyd y bydd y ffigwr am leihau unwaith eto gan y bydd yn cael ei anfon i'r Parc Adfer unwaith y bydd yn agor. Esboniwyd y bydd y gwastraff yn cael ei losgi i greu egni yn y parc hwn ac o ganlyniad ni fydd yn cael ei anfon i dirlenwi o gwbl.

Tynnwyd sylw at y maes casgliadau gwastraff gan nodi ymddiheuriad fod problemau wedi codi yn dilyn newid trefniadau casglu gwastraff yn Arfon. Ychwanegwyd fod cyfnod y Nadolig, tywydd gwael a problemau cerbydau wedi arwain at lawer o gasgliadau yn cael eu methu. Pwysleisiwyd mai cyfnod trosiannol yw'r cyfnod hwn ac eu bod yn gobeithio y bydd yn gwella.

Mynegwyd o ran Newid Hinsawdd fod newid goleuadau stryd i dechnoleg LED yn parhau ac mae 1,700 o lampau wedi ei newid yn ystod 2019/20. Pwysleisiwyd fod hyn yn lleihau allyriadau carbon i lawr o 3,435 yn 2014.15 i 685 erbyn eleni. Nodwyd fod y cynllun i foderneiddio Teledu Cylch Cyfyng yn dirwyn i ben a diolchwyd i staff am eu gwaith caled. Ychwanegwyd ei fod yn ogystal wedi dod i mewn o dan gyllideb.

Tynnwyd sylw at y maes Ymgynghoriaeth gan nodi fod diffyg ariannol mewn incwm am eleni ac fod hyn oherwydd ansicrwydd yn y maes o ganlyniad i Brexit. Er hyn pwysleisiwyd fod yr Adran Dŵr ac Amgylchedd wedi llwyddo i gael grantiau ar gyfer ardaloedd llifogydd.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Tynnwyd sylw at y methiannau yn y maes casglu Gwastraff gan bwyslesio fod y niferoedd mor isel yn y miliynau o gasgliadau sydd yn cael eu casglu. Pwysleisiwyd fod y niferoedd sydd yn cael eu methu oddeutu 0.01% o'r holl gasgliadau.
- Mynegwyd fod codi gwastraff sydd yn cael eu hailgylchu i 70% yn darged realistig ond efallai fod angen pwyslesio i gwmnïau fod angen lleihau y defnydd o blastig ac annog pobl i ail ddefnyddio yn hytrach 'na prynu o'r newydd.

## **8. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS BLANT A CEFNOGI TEULUOEDD**

Cyflwynwyd gan Cyng. Dilwyn Morgan

### **PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad gan ofyn i'r Prif Weithredwr ystyried y sefyllfa gyda swyddi sy'n cael eu hariannu o grantiau blynyddol a'r trafferthion y mae hynny yn ei greu i wasanaethau ac i'r staff eu hunain.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn adrodd ar waith y Cyngor ac ar y cyfan fod yr Aelod Cabinet yn hapus ar cynnydd mewn prosiectau. Ychwanegwyd ei bod yn her i'r adran i wireddu'r cynlluniau arbedion.

Tynnwyd sylw at y Strategaeth Cefnogi Teuluoedd gan fynegi fod y gwaith o adnabod y galw a mapio pa gefnogaeth sydd ar gael wedi ei gwblhau. Ategwyd fod yr adran wedi cyflawni eu rhaglen waith tymor byd, wrth sefydlu Hwb Teulu Gwynedd sy'n rhoi gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael. Amlygwyd blaenoriaeth yr adran am weddill y flwydd sef i gytuno ar weledigaeth glir gyda'r partneriaid allweddol i er mwyn sicrhau cyd-gynllunio yn y gwasanaethau i deuluoedd.

Mynegwyd o ran Perfformiad yr adran fod y trefniadau diogelu yn rhai cadarn. Nodwyd fod ymestyn gwaith sgrinio teclyn Welcomm yn y maes Blynyddoedd Cynnar yn cael ei wneud a fydd yn ceisio gwella datblygiadau iaith plentyn. Amlygwyd llwyddiant cynllun Pontio'r Cenedlaethau ble mae sesiynau wedi eu cynnal rhwng trigolion cartref gofal Bryn Seiont ynghyd â phlant meithrinfa Plas Pawb. Pwysleisiwyd fod pryder am gynlluniau sydd yn cael ei ariannu gan grantiau. Ychwanegwyd fyn aml fod yr arian yn cael ei dderbyn am gyfnod byr ac ei bod yn mynd yn anos i gadw staff profiadol gan nodi oes modd cael cytundeb tymor hir neu barhaol. Gofynnwyd am greu darn o waith i ystyried y sefyllfa.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd bod y nifer swyddi sydd yn cael eu hariannu o grantiau blynyddol yn ei gwneud yn anodd i gadw staff ac yn creu anesmwythdod blynyddol iddynt. Mae angen anfon neges i Lywodraeth Cymru yn nodi ein pryderon am y swyddi sy'n cael eu hariannu o grantiau blynyddol. Gofynnwyd i'r Prif Weithredwr i ystyried y sefyllfa a'r trafferthion mae

hynny yn ei greu i wasanaethau ac i'r staff eu hunain er mwyn gallu cyflwyno tystiolaeth gadarn i'r Llywodraeth.

- Gofynnwyd am ddiweddariad o waith y Gwasanaeth Ieuencid o ran gweithio a mudiadau ieuencid eraill. Mynegwyd fod gwaith yn cael ei wneud a'r mudiadau ac fod y ddarpariaeth ieuencid bellach yn cyrraedd mwy o lefydd ac erioed o'r blaen.
- Trafodwyd sefyllfa ariannol yr adran gan fynegi fod pwysau ariannol i'w gweld ar draws y wlad. Ychwanegwyd fod nifer y lleoliadau all-sirol yn uwch o'i gymharu a blynyddoedd diwethaf, ac fod y gost yn uchel. Mynegwyd fod trafodaethau yn cael ei cynnal er mwyn gweld os oes modd dod a darpariaeth yn nes at adref ar draws rhanbarth y Gogledd. Yn ychwanegol at hyn mynegwyd fod gwaith yn cael ei wneud a Chyngor Ynys Môn er mwyn datblygu gwasanaeth i weithio a teuluoedd a drwy hyn lleihau'r angen am leoliadau all sirol.

## 9. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET ADDYSG

Cyflwynwyd gan Cyng. Gareth Griffith

### PENDERFYNIAD

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad, a chymeradwyo'r cynlluniau arbedion amgen sydd yn rhan 5 o'r adroddiad, sef defnyddio tan wariant y gyllideb 'Disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n mynychu Ysgolion All-Sirol'

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r penderfyniad gan yr Aelod Cabinet dros Amgylchedd yn absenoldeb yr Aelod Cabinet Addysg. Ychwanegwyd i nodi fod yr Aelod Cabinet dros Amgylchedd wedi bod yn eistedd yn y cyfarfodydd herio perfformiad gyda'r Aelod Cabinet Addysg ac wedi cael bore diddorol yn edrych ar waith yr adran.

Tynnwyd sylw at yr prosiect TRAC gan nodi fod yr cynllun wedi cael ei weithredu ers oddeutu tair blynedd ac y bydd y grant yn dod i ben. Mynegwyd fod angen adroddiad pellach er mwyn edrych yn fanylach ar y mater. Os yw'n effeithiol mae'n rhaid i'r cyngor ystyried a ddylid parhau – grant neu beidio – ond mae angen tystiolaeth i gefnogi hynny.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Codwyd pryderon am y Siarter Iaith yn parhau i greu baich gwaith benaethiaid. Mynegwyd fod lefel y gwaith papur bellach wedi codi yn dilyn y cynllun yn cael ei fabwysiadu yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru. Mynegwyd gobeithio y bydd cyfle i ail edrych ar hyn yn sgil Fframwaith Siarter iaith a fydd yn dod i rym ym Medi 2020.
- Mynegwyd pryder am gynllun TRAC a fydd yn dod i ben ymhen dwy flynedd. Ymhelaethwyd gan nodi fod y plant sydd yn rhan o'r cynllun hwn yn bobl ifanc bregus ac yr angen i amlygu hyn.
- Nodwyd fod niferoedd sydd yn cael cinio ysgol yn tueddu i fod yn is a

gofynnwyd a oes oblygiadau i hyn. Ategwyd fod tystiolaeth yn dangos fod codi'r pris yn y gorffennol wedi bod yn rhannol reswm dros y lleihad. Ychwanegwyd fod yr adran yn awyddus i edrych yn fanylach ar hyblygrwydd yn y maes. Amlygwyd yn ogystal fod gostyngiad mewn demograffi cynradd yn ogystal sydd yn amlwg yn golygu lleihad mewn niferoedd.

## **10. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS DAI AC EIDDO**

Cyflwynwyd gan Cyng. Craig ab Iago

### **PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adran yn gobeithio y bydd modd mynd a Strategaeth Tai i'r Pwyllgor Craffu yn ystod yr wythnosau nesaf ac i'r Cabinet cyn y Pasg. Nodwyd fod y nifer o bobl sydd yn cyflwyno eu hunain yn ddigartref yn parhau i godi. Pwysleisiwyd fod y gwasanaeth yn ddibynnol ar grantiau ac o ganlyniad ei bod yn anodd cynllunio. Ychwanegwyd fod angen arian i sicrhau ateb hir dymor sydd yn mynd at wraidd problemau.

Nodwyd fod prosiect newydd ar y cyd â'r asiantaeth trydydd sector Cais a Grŵp Cynefin wedi bod yn llwyddiannus yng Ngwobrau Cymorth Cymru yn y categori atal digartrefedd. Amlygwyd mai cynnig cefnogaeth i bobl sy'n gadael carchar a phobl ag anghenion dwys sydd wedi bod yn cysgu allan oedd y prosiect hwn. Nodwyd fod derbyn y wobr hon yn amlygu'r gwaith sydd yn gallu cael ei wneud. Amlygwyd fod gwaith Ffordd Gwynedd angen ei wneud yn y Gwasanaeth Cyflenwad a Gorfodaeth Tai sydd yn gyfrifol am ddarparu grantiau addasu tai ar gyfer pobl ag anableddau. Gobeithir drwy gynnal adolygiad Ffordd Gwynedd y bydd modd ymchwilio i'r llyf gwaith i adnabod rhwystrau.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd pwysigrwydd o greu adolygiadau Ffordd Gwynedd ar y gwasanaethau gan, yn y maes hwn, yn holl bwysig i feddwl am dyheadau a anghenion yr unigolion. Pwysleisiwyd gyda chynnydd mewn digartrefedd ac yn benodol digartrefedd cudd fod angen sicrhau fod y pecynnau sydd ar gael yn benodol i'r unigolyn.
- Amlygwyd fod maes tai yn faes anodd pan fo 10% o stoc tai yr ardal yn dai haf. Mynegwyd fod angen cyflenwad o dai sydd ar gael ar gyfer byw ynddynt. Ychwanegwyd fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi codi sylw am hyn a'r gobaith yw y byddai'n cael ei drafod yng Nghyfarfod nesaf o Gabinet y Gogledd.

## **11. TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas

## **PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd calonogol tuag ar wireddu cynlluniau arbedion 2019/20 a blynyddoedd blaenorol.

## **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod gwerth £32m o arbedion wedi eu cymeradwyo i'w gwireddu yn ystod cyfnod 2015/16 i 2019/20. Ychwanegwyd drwy nodi fod yr atodiad yn nodi cyrhaeddiad pob adran yn erbyn y targed arbedion oedd wedi ei osod sydd yn gyfanswm o bron i £27m.

Amlygwyd fod risgiau sylweddol i gyflawni arbedion 2019/20 gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd sef Adolygiad Dechrau i'r diwedd. Mynegwyd fod Tasglu Cyllideb Plant wedi ei gomisiynu er mwyn rhoi sylw i faterion ariannol yn yr Adran sydd yn cynnwys y maes yma. Tynnwyd sylw ar risgiau o gyflawni arbedion yn yr Adran Tai yn ogystal yn y cynllun Adolygu'r Strwythurau a Lleoliadau presennol gan nodi fod yr adran yn edrych i ddod o hyd i gynlluniau amgen.

Nodwyd fod atodiad dau yn crynhoi'r sefyllfa o ran gwireddu cynlluniau arbedion 2019/20. Pwysleisiwyd fod 48% wedi eu gwireddu a 23% ar drac. Amlygwyd fod 22 o gynlluniau yn llithro neu a risgiau i gyflawni. Mynegwyd fod y cyfnod yn gyfnod heriol ond fod y cynlluniau ar y cyfan yn rhai boddhaol.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.30 y.h.

## **CADEIRYDD**

# Eitem 6

<b>CYFARFOD</b>	<b>Cabinet Cyngor Gwynedd</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>18 Chwefror 2020</b>
<b>AELOD CABINET</b>	<b>Cynghorydd Cemlyn Rees Williams</b>
<b>SWYDDOG</b>	<b>Gwern ap Rhisiart</b>
<b>TEITL YR EITEM</b>	<b>Ysgol Llanaelhaearn</b>

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cabinet ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol a'r ymateb i'r sylwadau hynny, a phenderfynu os dylid:

- i. Cymeradwyo'r cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr o 1 Medi 2020.
- ii. Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig yn (i) uchod yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.
- iii. Cymeradwyo trefniadau cludiant ar gyfer y cyfnod trawsnewidiol yn unig, pryd bydd cludiant di-dâl i'r disgyblion hynny sydd wedi cofrestru yn Ysgol Llanaelhaearn ar hyn o bryd, i Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr neu Ysgol Chwilog yn benodol, os yn byw dros 2 filltir i'r ysgol a ddewisir, neu yn derbyn cludiant am ddim oherwydd natur y ffordd yn unol â pholisi cludiant cyfredol Cyngor Gwynedd.

## 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

- 2.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw adrodd i'r Cabinet yn dilyn cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020, a darparu lle i'r disgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr o 1 Medi 2020.

## 3. CYFLWYNIAD

- 3.1. Cyflwynwyd adroddiad gerbron y Cabinet ar 4 Mehefin 2019, a phenderfynwyd, *'rhoi caniatâd i'r Adran Addysg i gynnal cyfarfodydd ffurfiol gyda'r corff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill i drafod ystod o opsiynau posibl ar gyfer dyfodol yr ysgol'*.
- 3.2. Cynhaliwyd tri cyfarfod rhwng Mehefin a Hydref 2019. Yn ystod y cyfarfod cyntaf, bu cyfle i'r Corff Llywodraethu a rhan-ddeiliaid perthnasol eraill gyfrannu at opsiynau posibl i ddatrys y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu. Yn dilyn asesiad manwl o'r opsiynau, cynhaliwyd ail gyfarfod lleol gan amlinellu cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau'r opsiynau, gyda mewnbwn y corff llywodraethu a'r rhan-ddeiliaid. Defnyddiwyd y wybodaeth hon i bwysu a mesur yr opsiynau ar y sail os oeddent yn diwallu'r heriau sy'n wynebu'r ysgol. Cynhaliwyd trydydd cyfarfod lleol i gyflwyno'r opsiynau hynny.
- 3.3. Yn ystod y cyfarfodydd, ystyriwyd sawl opsiwn ar gyfer addysg gynradd yn nalgylch Llanaelhaearn er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy i'r dyfodol gan ymateb yn benodol i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu.
- 3.4. Mewn cyfarfod Cabinet ar 5 Tachwedd 2019 cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet lle cymeradwywyd y penderfyniad i *'gychwyn cyfnod o ymgynghori statudol, yn unol ag Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr o'r 1af Medi 2020'*.



## 4. CEFNDIR

### 4.1. Y Prif Heriau y mae'r ysgol yn wynebu

- 4.1.1. Mae cwmp sylweddol mewn niferoedd yn mynychu'r ysgol yn ddiweddar sydd wedi arwain at sefyllfa argyfyngus gyda 8 disgybl ar y gofrestr yng nghyfrifiad Medi 2019, a dengys rhagamcanion y bydd cwmp pellach dros y 5 mlynedd nesaf. Mae'r 8 disgybl hyn yn cael eu haddysgu mewn dau ddsbarth sydd yn fychain o ran niferoedd.
- 4.1.2. O ganlyniad i'r niferoedd isel presennol, mae'r ysgol mewn sefyllfa fregus ac o dan bwysau cyllidebol cynyddol, yn benodol:
- Mae niferoedd yr ysgol yn peri pryder. Ym Medi 2019, 8 o ddisgyblion oedd wedi eu cofrestru yn yr ysgol.
  - Mae maint y dosbarthiadau yn fychan – gydag un dosbarth o 3 ac un dosbarth o 5 disgybl.
  - Mae rhagolygon yn dangos 7 o ddisgyblion yn 2020, 5 o ddisgyblion yn 2021, a 5 o ddisgyblion yn 2022.
  - Dengys data 2019 fod 36 o blant yn byw yn nalgylch Llanaelhaearn gyda 28 ohonynt yn mynychu ysgolion eraill.
  - Mae Ysgol Llanaelhaearn yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio. Mae cyfanswm y swm ychwanegol hwn yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20 yn £43,774. Nid oes ond digon o gyllid i gyflogi Pennaeth a chymhorthydd i'r dyfodol. Ar hyn o bryd, mae'r Ysgol yn rhannu Pennaeth gyda dwy Ysgol arall, yn ogystal â chyflogi athro a chymhorthydd llawn amser.
  - Cost fesul disgybl Ysgol Llanaelhaearn yn y flwyddyn ariannol 2019/20 yw £12,671 (seiliedig ar niferoedd Medi 2018 o 11 disgybl, sef sail eu dyraniad cyllidol), o gymharu â chyfartaledd Sirol cost y disgybl am yr un cyfnod yn £3,884.
  - Nifer o lefydd gweigion – 83% o lefydd gweigion (39 Derbyn i Flwyddyn 6, a 6 o lefydd gweigion Meithrin).

### 4.2. Cyd-destun Strategol

- 4.2.1. Yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2018, bu i'r Cabinet gymeradwyo egwyddorion '*Addysg Addas i Bwrpas*' a fydd yn sail ar gyfer gwireddu gweledigaeth yr Adran Addysg a datblygu'r gyfundrefn er sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, yn benodol drwy resymoli ystod oedran dosbarthiadau a rhoi tegwch i benaethiaid i ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth mewn ysgolion cynradd.
- 4.2.2. Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithredu Strategaeth '*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd*' ers ei mabwysiadu yn Ebrill 2009. O fewn y strategaeth hon nodir ffactorau i gefnogi'r broses o adolygu dalgylchoedd neu sefyllfaoedd penodol. Gweler manylion y ffactorau hyn yn nes ymlaen yn yr adroddiad (Rhan 4.3.2).

### 4.3. Dewis opsiwn ffafriedig

- 4.3.1. Yn ystod y cyfarfodydd lleol, cynigwyd a thrafodwyd nifer o opsiynau posibl, yn benodol:
- Gwneud dim (y 'Status quo')
  - Newid strwythur staffio
  - Sefydlu uned Arsylwi Blynnyddoedd Cynnar yn yr ysgol
  - Ffederaleiddio yn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill
  - Yr Awdurdod i roi gwarant fod yr ysgol am fod ar agor am 5 mlynedd er mwyn rhoi cyfle i godi niferoedd

- vi. Sefydlu clwb gofal plant ar safle'r ysgol
- vii. Caffi cymunedol yn yr ysgol
- viii. Cau yr ysgol, a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen.

Mae gwerthusiad o'r opsiynau hyn i'w gweld yn Atodiad A. Adolygwyd y gwerthusiad wedi'r cyfnod ymgynghori.

4.3.2. Yn unol â strategaeth 'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd' ystyriwyd nifer o ffactorau wrth werthuso'r opsiynau ar gyfer y sefyllfa, yn benodol:

- i. Maint dosbarthiadau
- ii. Niferoedd disgyblion
- iii. Arweinyddiaeth a Staffio
- iv. Y Gymuned
- v. Adnoddau Ariannol
- vi. Yr Iaith Gymraeg
- vii. Ffactorau Daearyddol

4.3.3. Bu i'r Corff Llywodraethu a budd-ddeiliaid perthnasol eraill gynnig mewnbyn a sylwadau wrth werthuso'r opsiynau. Yn dilyn y gwerthusiad daeth dau o'r opsiynau i'r amlwg fel y rhai a fyddai i'r hystyried ar gyfer sefyllfa'r ysgol, sef:

- i. Ffederaleiddio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos
- ii. Cau ysgol Llanaelhaearn gyda'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen

4.3.5. Roedd adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar y 5 Tachwedd yn manylu'r herion oedd yn wynebu'r ysgol a'r angen i gymryd camau pellach i'w gyfarch. Tra bod yr opsiwn o gynnal y sefyllfa gyfredol wedi ei ystyried, nid oedd yr Awdurdod o'r farn y byddai'n mynd i'r afael â'r problemau sydd angen sylw.

4.3.6. Roedd nifer o'r opsiynau eraill yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer defnydd amgen o rannau o'r adeilad, megis sefydlu Uned Arsylwi Blynyddoedd Cynnar, Agor Caffi neu Glwb Gofal Plant. Er hynny, nid oedd yr opsiynau yn cael eu hystyried fel rhai oedd yn diwallu'r angen i ddatrys y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu.

4.3.7. Cynhaliwyd Aseidiadau Effaith yn unol â chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, gan roi sylw penodol i'r ystyriaethau perthnasol yn ymwneud a'r 'Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgol wledig' ar gyfer yr opsiynau (mae fersiynau diwygiedig yn dilyn y cyfnod ymgynghori wedi eu cynnwys yn Atodiad D).

#### **4.4. OPSIYNAU RHESYMOL I'W YSTYRIED AR GYFER YR YSGOL**

##### Ffederaleiddio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos.

4.4.1. Dangoswyd gall ffederaleiddio gynnig manteision i ysgolion gwledig mewn rhai sefyllfaoedd, yn benodol gan gryfhau arweinyddiaeth a chyfleoedd gydweithio.

4.4.2. O dan drefniant model ffederal ffurfiol, byddai Ysgol Llanaelhaearn yn cydweithio gydag ysgol neu ysgolion lleol o dan un pennaeth (neu fwy) ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai un corff llywodraethu newydd yn cael ei sefydlu ar gyfer y ffederasiwn. Bydd hunaniaeth yr ysgolion cael eu cadw. Mae'r model o ffederaleiddio yn galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, TG, adeiladau ac arbenigrwydd.

4.4.3. Fodd bynnag, nid oedd yr opsiwn hwn yn ymateb i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu. Byddai niferoedd yr ysgol yn parhau i fod yn isel, a maint y dosbarthiadau hefyd yn parhau i fod yn fychan (mae manylion wedi eu cynnwys yn Atodiad A).

4.4.4. Ystyriwyd y posibilrwydd o ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos yn benodol Yr Eifl, Bro Plenydd, Llangybi, Pentreuchaf a Chwilog. Gan fod niferoedd Ysgol Llanaelhaearn wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus gyda 8 disgybl ar y gofrestr, dengys yr asesiad ffederaleiddio nad oedd manteision eglur i ysgolion eraill o ffederaleiddio gydag Ysgol Llanaelhaearn. Ystyrir felly nad yw'r opsiwn hwn yn ddatrasiad i sefyllfa'r ysgol.

Cau Ysgol Llanaelhaearn a'r plant i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen.

4.4.5. Mae'r opsiwn yma yn golygu cau Ysgol Llanaelhaearn a symud y disgyblion i'w haddysgu yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr a fyddai'n cael ei henwi fel yr 'ysgol amgen' am resymau penodol, megis:

- Mae'r ysgol sydd agosaf yn ddaearyddol at ysgol a chanol pentref Llanaelhaearn, sef Ysgol Yr Eifl, Trefor, yn llawn. Ni fyddai'r ysgol yma yn gallu ymdopi gyda 8 o ddisgyblion ychwanegol.
- Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr yw'r ysgol sydd ddaearyddol agosaf wedi hynny.
- Mae'r ffordd i gyrraedd Ysgol Bro Plenydd o bentref Llanaelhaearn yn hwylus gyda chyswllt cludiant cyhoeddus ac ni fyddai'r daith i gyrraedd ysgolion eraill cyfagos mor rhwydd o bentref Llanaelhaearn. Mae Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr, 3.6 milltir o Ysgol Llanaelhaearn, ac yn fwy na 2 filltir o holl gartrefi dalgylch Llanaelhaearn.
- Gall Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr ymdopi gyda niferoedd ychwanegol o ddisgyblion, mae 30 o lefydd gweigion gan gynnwys meithrin yno ar hyn o bryd (*cyfrifiad Medi 2019*).

4.4.6. Ar sail hyn, cynigir ymestyn dalgylch Ysgol Bro Plenydd i gynnwys dalgylch Ysgol Llanaelhaearn ar gyfer y dyfodol.

#### 4.5. Y Cynnig

4.5.1. Mae'r cynnig hwn yn golygu y bydd Ysgol Llanaelhaearn yn cau a darparu lle i'r disgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr.

4.5.2. Y nod yw bydd y cynnig yn arwain at gyfleoedd mwy cyson i blant y dalgylch, drwy anelu at ddyheadau strategol Cyngor Gwynedd i '*gynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn*', byddai hyn yn cynnwys:

- Maint Dosbarthiadau - disgyblion i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy addas na'r sefyllfa bresennol. Byddai gweithredu'r cynnig yn arwain at well cysondeb mewn maint dosbarthiadau a lleihau'r ystod oedran o fewn dosbarthiadau ysgolion cynradd yr ardal.
- Poblogaeth a Niferoedd disgyblion - disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol ble mae'r niferoedd a rhagamcanion yn fwy cadarn a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol, a lleihau'r gyfradd o lefydd gweigion yn ysgolion yr ardal.
- Arweinyddiaeth - arweinyddiaeth a rheolaeth gadarn mewn ysgol sydd â niferoedd yn caniatáu i Bennaeth gael tegwch i arwain a rheoli yn broffesiynol yn yr ysgol.
- Y Gymuned - disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol sydd yn ganolbwynt i weithgareddau cymunedol gan gyfoethogi profiadau a chyfleoedd i'r disgyblion, fel y sefyllfa bresennol.
- Adnoddau Ariannol - Rhesymoli cost fesul disgybl mewn ysgolion a fyddai'n lleihau'r amrediad mewn cost y disgybl i holl blant Gwynedd. Amcangyfrifir y byddai gwireddu'r cynnig yn arwain at gost fesul disgybl o £3,975 yn Ysgol Bro Plenydd o gymharu â'r £12,671 y disgybl presennol yn Ysgol Llanaelhaearn. Y cyfartaledd sirol ar gyfer yr un cyfnod yw £3,884 y disgybl.
- Adnoddau Ariannol - Amcangyfrifir y byddai gwireddu'r cynnig yn arwain at arbedion refeniw o £100,518 y flwyddyn. Amcangyfrifir y costau cludiant ychwanegol yn £11,400 ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Llanaelhaearn, neu £25,000 petai plant y dalgylch i gyd yn mynychu Ysgol Bro Plenydd

i'r dyfodol. O ganlyniad byddai arbedion net arfaethedig rhwng £75,518 a £89,118, yn ddarostyngedig ar y niferoedd a fyddai'n derbyn cludiant am ddim.

- Yr Iaith Gymraeg – disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, fel y sefyllfa bresennol, ac mewn ysgol ble mae defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn gryf.
- Ffactorau Daearyddol - byddai'r disgyblion yn parhau i dderbyn eu haddysg mewn ysgol o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi ac yn derbyn cludiant yn unol â pholisi'r Cyngor.


4.5.3. Fel rhan o'r cynnig hwn, bydd lle yn cael ei warantu i ddisgyblion presennol Ysgol Llanaelhaearn yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr. Yn unol â pholisi mynediad yr Awdurdod, mae gan rieni hawl i ddewis a gwneud cais am le mewn unrhyw ysgol i'w plentyn, ac nid o reidrwydd yr ysgol honno fyddai'r ysgol ddalgylch. Pe wireddir y cynnig hwn, byddai gan rieni hawl i wneud cais i unrhyw ysgol y dymunant. Nid oes gwarant fod lle i blentyn yn eu hysgol ddewisol.

4.5.4. Yn sgil y cynnig hwn byddai dalgylch Ysgol Bro Plenydd yn cael ei addasu i gynnwys dalgylch presennol yr Ysgol, a hefyd dalgylch Ysgol Llanaelhaearn. O ganlyniad, byddai disgyblion sydd yn byw o fewn dalgylch Ysgol Llanaelhaearn yn derbyn cludiant yn unol â Pholisi Cludiant Cyngor Gwynedd.

**Map 1: Sefyllfa bresennol dalgylchoedd yr ardal**



**Map 2: Dalgylch Ysgol Bro Plenydd os fydd newid**



## 5. Yr ymgynghoriad statudol

5.1. Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion statudol y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliwyd cyfnod ymgynghori statudol ar y cynnig gydag ymgynghorai perthnasol rhwng 16 Rhagfyr 2019 a 13:00 o'r gloch ar 29 Ionawr 2020.

5.2. Lluniwyd dogfen ymgynghori statudol yn unol â gofynion ac arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) a dosbarthwyd copi o'r ddogfen i'r holl ymgynghorai perthnasol, unai ar ffurf copi caled neu drwy anfon e-bost oedd yn cynnwys linc at dudalen arbennig ar wefan y Cyngor ([www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg](http://www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg)).

- 5.3. Anfonwyd copïau caled o'r ddogfen ymgynghori at y ddwy ysgol sydd yn rhan o'r ymgynghoriad, gan wneud cais i'r penaethiaid eu dosbarthu i rieni/gwarchodwyr disgyblion, aelod o staff ac aelodau corff llywodraethwyr yr ysgolion.
- 5.4. Cyhoeddwyd pecyn cefndirol yn ogystal, oedd yn cynnwys asesiadau effaith y cynnig ar yr iaith, y gymuned, cydraddoldeb, yn ogystal ag asesiadau ar effaith debygol ar drefniadau teithio, ansawdd a safonau addysg, ac asesiad yn erbyn nodau'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Dosbarthwyd copïau caled o'r pecynnau cefndirol a'r ddogfen ymgynghori i'r ysgolion yn ymwneud a'r cynnig, y llyfrgell leol, a Siop Gwynedd Pwllheli, fel eu bod ar gael i'w harchwilio gan unrhyw aelod o'r cyhoedd. Roedd y ddogfen hefyd ar gael i'w lawr lwytho oddi ar wefan y Cyngor.
- 5.5. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliodd swyddogion Cyngor Gwynedd sesiynau "galw heibio" ar 15 Ionawr 2020 yng Nghanolfan y Babel, Llanaelhaearn, er mwyn trafod y cynnig gyda'r Llywodraethwyr, staff addysgu ac ategol, a rhieni/gwarchodwyr Ysgol Llanaelhaearn. Yn ystod y sesiynau roedd swyddogion o adrannau perthnasol ar gael i egluro ac ymateb i ymholiadau. Roedd yna hefyd gyfle i rai oedd yn mynychu dderbyn copi caled o unrhyw ddogfennaeth berthnasol i'r cynnig ac i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Mynychodd 15 o bobl y sesiynau galw heibio.
- 5.6. Yn ogystal, crëwyd dogfen ymgynghorol i blant cynradd gyda holiaduron cysylltiedig. Trefnwyd bod hwylusydd yn ymweld ag ysgolion oedd yn rhan o'r ymgynghoriad i gynnal sesiynau gyda'r disgyblion i ganfod eu barn drwy ymgynghori gyda holl blant Ysgol Llanaelhaearn a Chyngor Ysgol Bro Plenydd. Mae dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y sesiynau wedi ei gynnwys yn Atodiad C.
- 5.7. Derbyniwyd wyth ymateb i'r ymgynghoriad statudol gan gynnwys ymatebion gan lywodraethwyr, rhieni ac Estyn ynghyd ac ymatebion disgyblion.

## **6. Sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol**

6.1. Mae'r adran hon yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol. Ceir copi o dabl sy'n cynnwys yr holl sylwadau yn ogystal ag ymateb y Cyngor yn Atodiad B. Gellir gweld copïau o'r ymatebion ar [www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg](http://www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg) - mae'r wybodaeth bersonol ar rai o'r ymatebion wedi eu duo er mwyn cydymffurfio a gofynion y Ddeddf Diogelu Data 2008 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn manylu ar y materion a ganlyn

- Dymuniad i drosglwyddo disgyblion presennol i Ysgol Chwilog
- Sylwadau Estyn

### **6.2. Dymuniad i drosglwyddo disgyblion presennol i Ysgol Chwilog**

6.2.1. Ers 2017, mae Ysgol Llanaelhaearn wedi bod yn rhannu pennaeth gydag Ysgol Garndolbenmaen. Yn Medi 2018, cytunodd y pennaeth i fod yn bennaeth ar Ysgol Chwilog yn ogystal. Mae'r pennaeth yn treulio un diwrnod yr wythnos yn arwain Ysgol Llanaelhaearn. Ers Medi 2018, mae'r pennaeth wedi gweithredu trefniant o gydweithio agos rhwng Ysgol Llanaelhaearn ac Ysgol Chwilog, ble mae disgyblion y ddwy ysgol yn ymuno ar ddau brynawn yn wythnosol. Mae disgyblion Llanaelhaearn felly eisoes yn adnabod yr athrawon a'r disgyblion eraill.

6.2.2. Cyflwynwyd 7 ymateb i'r ymgynghoriad yn ystod y sesiwn galw heibio. Yr oedd ymatebion a dderbyniwyd yn y sesiwn galw heibio yn nodi dymuniad i'r plant sydd yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd i drosglwyddo i Ysgol Chwilog, yn hytrach na'r ysgol amgen a enwir yn y cynnig hwn, sef Ysgol Bro Plenydd. Nodir mewn sawl ymateb mai'r rheswm dros hyn yw bod y plant eisoes yn mynychu Ysgol Chwilog dwywaith yr wythnos yn sgil trefniant

o gyd-weithio rhwng yr ysgolion, ac wedi dod i adnabod yr athrawon a gwneud ffrindiau yn yr ysgol. Mynegwyd mewn rhai o'r ymatebion yn ogystal eu dymuniad i dderbyn cludiant am ddim i Ysgol Chwilog.

- 6.2.3. Fel nodir yn adran 4.4.7 o'r adroddiad, mae rhesymeg glir dros enwi Ysgol Bro Plenydd fel yr ysgol amgen. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod o'r farn fod disgyblion Ysgol Llanaelhaearn wedi ennill profiadau cadarnhaol yn sgil y trefniadau o gydweithio gydag Ysgol Chwilog, a chan fod y berthynas yn bodoli eisoes, rhaid ystyried unrhyw gyfle i leihau aflonyddwch i'r disgyblion presennol.
- 6.2.4. Mae Polisi Cludiant Cyngor Gwynedd yn nodi fod posib gwneud cais am gludiant am ddim os yw'r plentyn yn mynychu'r ysgol neu safle ysgol agosaf, neu'r ysgol neu safle ysgol yn eu dalgylch, a bod y daith i'r ysgol neu safle ysgol yn fwy na 2 filltir o'u cartref - mae'r siwrnai o'r cartref i'r ysgol neu safle ysgol yn cael ei fesur fel y daith fyrraf ar hyd llwybr saff.
- 6.2.5. Fel nodir yn 6.2.3., gan y byddai trosglwyddo i Ysgol Chwilog yn debygol o leihau'r aflonyddwch i ddisgyblion presennol Ysgol Llanaelhaearn, y mae'r Adran Addysg yn cefnogi y cais am gludiant i Ysgol Chwilog ar gyfer y disgyblion a fyddai ar gofrestr Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020.

### 6.3. Ymatebion i'r ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc

- 6.3.1. Fel y nodwyd ym mharagraff 5.6 uchod, cynhaliwyd sesiynau ymgynghori gyda chynrychiolaeth o ddisgyblion cynradd sydd yn destun i'r ymgynghoriad statudol hwn. Trefnwyd bod hwylusydd plant a phobl ifanc yn ymweld â'r ysgolion i gynnal sesiynau gyda'r disgyblion i ganfod eu barn. Dyma'r prif bwyntiau gododd yn ystod yr ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc:

Ysgol Llanaelhaearn	Ysgol Bro Plenydd
Pawb yn erbyn y newid.	Pawb a ymatebodd o blaid y newid.
Pe byddai'r plant yn cael dewis byddai pob un yn dewis mynychu Ysgol Chwilog.	Disgyblion yn awyddus iawn i roi croeso i ddisgyblion Ysgol Llanaelhaearn ac yn edrych ymlaen i wneud ffrindiau newydd.
Colli cyfeillgarwch ffrindiau o Ysgol Chwilog wrth fynychu Ysgol Bro Plenydd yn poeni pob un o'r disgyblion.	Disgyblion yn gweld manteision o ran cynyddu nifer yr ysgol ac yn awyddus i dderbyn adnoddau Ysgol Llanaelhaearn (ee bws mini, Technoleg a llyfrau ayyb) yn ogystal â'i disgyblion.
Gorfod teithio mewn car/bws i'r ysgol yn hytrach na cherdded yn poeni pob un o'r disgyblion ac un wedi dweud nad oedd yn deg ar ei fam/mam.	Disgyblion yn awyddus i ddeall fod disgyblion Ysgol Llanaelhaearn yn rhannu yr un gwerthoedd â nhw mewn perthynas ag ymddygiad da a pharch at eraill a phethau'r ysgol.

- 6.3.2. Yn yr adroddiad ymgynghori a phlant a phobl ifanc, daeth yr Hwylusydd i gasgliad:

*"Beth ddaeth yn amlwg o'r broses ymgynghori oedd bod disgyblion Ysgol Llanaelhaearn yn gweld Ysgol Chwilog fel eu dewis o ysgol pe byddai eu hysgol yn cau gan egluro eu bod eisoes yn adnabod y plant yn yr ysgol honno yn dda oherwydd eu bod yn gweld ei gilydd bob pŵawn Mawrth a lau ers rhai blynyddoedd. Roedd sylwadau disgyblion Ysgol Llanaelhaearn yn tueddu tuag at wrthod y dewis o ysgol fis Medi nesa yn*

*hytrach na gwrthwynebu y bwriad o gau eu hysgol bresennol er bod hynny yn amlwg yn eu poeni a'u tristau.*

*"Roedd yn amlwg fod disgyblion Bro Plenydd yn awyddus iawn i roi croeso cynnes i'r disgyblion newydd gan ddangos empathi a dealltwriaeth aeddfed o amgylchiadau anodd Ysgol Llanaelhaearn."*

- 6.3.3. Fel canlyniad i'r trefniant presennol sy'n galluogi plant presennol Llanaelhaearn i ymweld ag Ysgol Chwilog yn lled reolaidd, nid oes gan yr Adran Addysg wrthwynebiad i wireddu'r dymuniad i ddisgyblion presennol Ysgol Llanaelhaearn dderbyn cludiant i Ysgol Chwilog. Trefniant dros dro yn unig fyddai hyn ac ar gyfer disgyblion sydd ar gofrestr Ysgol Llanaelhaearn yn unig ac am eu cyfnod yn yr ysgol.

#### **6.4. Estyn**

- 6.4.1. Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 yn ei wneud yn ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fel corff yr ymgynghorir ag ef, mae Estyn yn rhoi eu barn ar yr ymgynghoriad.

- 6.4.2. Mynegodd Estyn fel ymateb i ddisgrifiad a manteision y cynnig ac wrth ystyried fod yr ysgol y cynigir ei gau wedi ei dynodi yn ysgol wledig:

*"Gan fod y cynigiwr yn cynnig cau ysgol wledig mae'n nodi'n glir y rhesymau dros lunio'r cynnig a'r ystyriaethau gofalus y tu ôl i hyn. Mae hefyd yn nodi manteision eraill yn ogystal, fel yr effaith bositif o ran cost-ffeithiolrwydd i'r awdurdod addysg a lleihau llefydd gweigion. Mae'n nodi'r heriau allweddol mae'r ysgol yn ei hwynebu a sut maent am fynd i'r afael â nhw trwy gynnig gau'r ysgol."*

*"Mae'r cynigiwr yn nodi'n glir y manteision a'r anfanteision disgwylidig o gymharu â'r sefyllfa bresennol. Mae'n ystyried opsiynau eraill posib ac wedi rhoi rhesymau priodol ynghylch pam mae'r rhain wedi cael eu diystyru."*

- 6.4.3. Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, bu i Estyn nodi:

*"Mae'r cynigiwr yn nodi bod gan adeilad Ysgol Bro Plenydd gyfleusterau cyfystyr ac Ysgol Llanaelhaearn i gynnig darpariaeth arbenigol sy'n addas ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw'n nodi'n ddigon clir yr effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig ac nid yw'r cynnig yn ystyried trefniadau hygyrchedd i ddisgyblion ag anabledd."*

*"Ar y cyfan mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith a chost y cynigion ar drefniadau teithio disgyblion ond nid ar hygyrchedd y ddarpariaeth deithio ar gyfer disgyblion ag anghenion arbennig"*

Nodir yr Awdurdod fel ymateb i'r sylwad am ddiffyg ystyriaeth i drefniadau hygyrchedd i ddisgyblion ac anabledd, yn yr un modd a'r hyn sydd yn digwydd ar hyn o bryd, fe fyddai gofyn i Ysgol Bro Plenydd adolygu Cynlluniau'r disgyblion gydag ADY ac yna mapio'r anghenion ar ddarpariaeth yr ysgol. Byddai'r Panel Cymedroli yn ystyried darpariaeth ar gyfer disgyblion gyda Datganiad neu Gynllun Datblygu Unigol (CDU) i sicrhau darpariaeth addas yn yr ysgol newydd. Byddai'r fforwm yn trafod CDU plant sydd yn derbyn mewnbwn y Tîm Integredig ADY a Chynhwysiad, gan sicrhau parhad gwasanaeth.

Mewn perthnasedd i ystyriaethau hygyrchedd, mae'r ddwy safle wedi eu hasesu yn yr un categori. Pe byddai unigolyn ac anableddau yn gwneud cais mynediad neu drosglwyddo i Ysgol Bro Plenydd yn y dyfodol, y byddai'r Awdurdod yn ymdrin a'r cais fel y byddai i unrhyw ysgol arall yng Ngwynedd.

Mewn ymateb i'r sylwad am ystyriaeth i ddarpariaeth deithio ar gyfer disgyblion ag anghenion arbennig, nodir yr Awdurdod pe byddai disgybl yn methu a defnyddio cludiant arferol, y byddai unrhyw gludiant ychwanegol yn cael ei drafod gan y Panel Cymedroli ar sail sefyllfaoedd unigol.

- 6.4.4. Wrth ystyried effaith y cynnig ar gydraddoldeb, nodir Estyn:

*“Mae’r cynigiwr wedi cynnal asesiad o effaith y cynnig ar gydraddoldeb ac yn honni’n rhesymol na ddylai’r cynnig gael effaith andwyol ar unrhyw grwpiau penodol. Fodd bynnag, nid cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth briodol i aflonyddwch posibl ar ddisgyblion presennol.”*

Fel ymateb i’r sylwad uchod, ac fel sydd wedi ei nodi yn 6.2.5, mae’r Adran Addysg yn cefnogi cais am gludiant i drosglwyddo i Ysgol Chwilog, a fyddai’n lleihau’r aflonyddwch posibl ar ddisgyblion presennol Ysgol Llanaelhaearn.

## **6.5. Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgol wledig**

6.5.1. Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 wedi cyflwyno trefniadau newydd, arbennig mewn perthynas ag ysgolion gwledig, gan sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau. Nid yw hyn yn golygu na fydd ysgol wledig byth yn cau ond bod rhaid i’r achos dros ei chau fod yn gryf, a bod pob opsiwn ymarferol arall wedi’u hystyried yn gydwybodol. Mae Ysgol Llanaelhaearn wedi ei dynodi yn ‘ysgol wledig’ at ddiben y Cod. Golyga hyn fod rhaid dilyn cyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio cynnig i gau.

Fel yr adroddwyd i’r Cabinet ar 5 Tachwedd 2019, cynhaliwyd asesiadau penodol ychwanegol, yn unol â gofynion y Cod, o’r opsiwn i gau ysgol wledig a’r opsiynau rhesymol eraill sydd wedi eu hadnabod, sef yn yr achos yma ffederaleiddio.

Mae’r Cod hefyd yn gosod gofynion arbennig mewn perthynas a pharatoi’r adroddiad yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol. Mae’n ofynnol felly i gynnal asesiadau pellach sef ar:

- *Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg*
- *Yr effaith debygol ar y gymuned*
- *Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio.*

Diben yr asesiad pellach hwn yw ystyried unrhyw wybodaeth bellach a ddaeth i law yn sgil yr ymgynghoriad neu fel arall. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cynhaliwyd asesiad pellach o’r cynnig a’r opsiynau rhesymol eraill gan ystyried unrhyw wybodaeth bellach ddaeth i law yn ymwneud a’r ymatebion yn ystod yr ymgynghoriad (Atodiad D). Ni dderbyniwyd unrhyw wybodaeth penodol a fyddai’n cael effaith ar gasgliadau’r asesiad o’r cynnig a’r opsiynau rhesymol yn erbyn y prif heriau y mae’r Ysgol yn eu hwynebu (niferoedd isel, dosbarthiadau bychain, a rhagamcanion niferoedd i’r dyfodol). Mae’r Awdurdod o’r farn felly mai gweithredu’r cynnig yw’r ymateb mwyaf priodol i’r rhesymau a nodwyd dros y cynnig. Manylir hyn ymhellach yn yr adroddiad (Adran 9).

6.5.2. Amlygwyd yn y broses ymgynghori ei fod yn debygol y byddai rhieni disgyblion presennol Ysgol Llanaelhaearn yn gwneud cais i drosglwyddo i Ysgol Chwilog, yn hytrach na throsglwyddo i’r ysgol amgen. Fel nodir yn 6.2.5., mae’r Awdurdod yn gefnogol i gynnig trefniadau trosiannol ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Llanaelhaearn i dderbyn cludiant i Ysgol Chwilog, er y bydd Ysgol Bro Plenydd yn parhau fel yr “Ysgol Amgen”.

## **7. Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.**

7.1. Cynhaliwyd asesiad Llesiant ar yr opsiynau gan ystyried amcanion lles Cyngor Gwynedd, a diweddarwyd yr asesiad wedi i’r cyfnod ymgynghori ddod i ben.

7.2. Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg disgyblion y Sir drwy ei weithgareddau a’i brosiectau. Mae’r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o’r ddyletswydd mae’r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy’n amlinellu sut y byddwn yn gwella llesiant yn “Cynllun Gwynedd 2018-2023”.



7.3. Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol a gofynion y ddeddf llesiant, deuir i gasgliad fod y cynnig yn bodloni 7 nod llesiant y Ddeddf, ynghyd ag amcanion llesiant y cyngor. Bydd y cynnig hwn yn caniatáu i ni ymateb i a diwallu anghenion y plant heddiw, ac hefyd cryfhau eu llesiant i'r dyfodol. Bydd y cynnig arfaethedig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleon o gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion (mae copi o'r asesiad wedi ei gynnwys yn Atodiad D).

## 8. Cydraddoldeb

8.1. Mae polisiâu a threfniadau mewn lle a fyddai yn sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd ag hawliau cyfartal.

8.2. Cynhaliwyd asesiad cydraddoldeb ar yr opsiynau, sydd yn rhoi sylw i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Mae fersiwn diwygiedig o'r asesiad yn Atodiad D.

8.3. Bu i'r asesiad cydraddoldeb nodi pwysigrwydd hyrwyddo cyfleoedd cyfartal yn gadarnhaol yn sgil y cynnig a bod mesurau mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol ac aflonyddu. Mae trefniadau mewn lle yn ogystal fydd yn monitro ac yn adolygu'r sefyllfa.

## 9. Casgliad

9.1. Argymhellir felly rhyddhau rhybudd statudol ar y cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar y 31 Awst 2020, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr o 1 Medi 2020.

9.2. Deuir i'r casgliad mai'r cynnig hwn yw'r ymateb mwyaf priodol i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu a hynny am y rhesymau a nodir yn Adrannau 4.4 a 4.5 o'r adroddiad yma.

9.3. Ymhellach i hyn, argymhellir cadarnhau trefniadau trosiannol ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Llanaelhaearn i dderbyn cludiant i Ysgol Chwilog, pe byddai rhieni yn dewis gwneud cais i'w plant drosglwyddo yma o'r 1af Medi 2020 (a'u bod dal ar gofrestr Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020). Y rhesymau dros hyn yw:

- i. Mae disgyblion presennol Ysgol Llanaelhaearn wedi bod yn mynychu Ysgol Chwilog ar ddau brynhawn yr wythnos ers dros flwyddyn.
- ii. O ganlyniad i'r trefniant uchod, maent eisoes yn adnabod athrawon a disgyblion Ysgol Chwilog a byddai trosglwyddo i Ysgol Chwilog yn lleihau'r aflonyddwch ar y disgyblion.
- iii. Mae plant Ysgol Llanaelhaearn wedi nodi yn ystod y sesiwn ymgynghori a phlant, eu dymuniad i drosglwyddo i Ysgol Chwilog.
- iv. Mae Ysgol Bro Plenydd wedi ei leoli ar y ffordd o bentref Llanaelhaearn i bentref Chwilog. Amcangyfrifir felly na fyddai'r gost o gludo disgyblion Ysgol Llanaelhaearn i Ysgol Chwilog yn amrywio o'r hyn a nodwyd i'w cludo i Ysgol Bro Plenydd, sef oddeutu £11,400 y flwyddyn ar gyfer disgyblion presennol yr ysgol.

9.4. Mae'r argymhelliad i gymeradwyo'r cynnig yn dilyn ystyriaeth o ystod o opsiynau a gwerthuswyd yr opsiynau yma'n llawn wrth gymharu prif fanteision ac anffanteision yn erbyn ffactorau penodol. Defnyddiwyd uchelgais y strategaeth '*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd*', ffactorau yn y Cod Trefniadaeth, a ffactorau perthnasol eraill.

Roedd y ffactorau yn cynnwys:

- Maint dosbarthiadau
- Poblogaeth a Niferoedd disgyblion
- Arweinyddiaeth
- Yr effaith debygol ar y Gymuned

- Adnoddau Ariannol
- Yr Iaith Gymraeg
- Ffactorau Daearyddol a'r effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio
- Ansawdd a Safonau yr Addysg
- Ardrawiad Cydraddoldeb
- Ardrawiad Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol
- Y sefyllfa argyfyngus y mae'r ysgol yn ei wynebu
- Ymatebion i'r Ymgynghoriad Statudol

9.5. Mae'r gwerthusiad opsiynau llawn yma eisoes wedi ei gyflwyno i'r Cabinet am ystyriaeth ar 5 Tachwedd 2019 ac i'w weld yn Atodiad A.

9.6. Mae'r asesiadau effaith yn Atodiad D, a'r holl ddogfennaeth gefndirol y cynnig ar gael ar wefan y Cyngor [www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg](http://www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg).

9.7. Yn dilyn ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, ystyrir fod y cynnig ymgynghorwyd arno yn parhau i gynnis yr opsiwn orau ar gyfer dyfodol addysg dalgylch Llanaelhaearn, gyda threfniadau trosiannol ar gyfer disgyblion presennol yr ysgol a ddewisir trosglwyddo i Ysgol Chwilog yn ddibynnol ar ddewis rhieni. Mae dadansoddiad o'r sylwadau a dderbyniwyd yn cael sylw yn Adran 6 ac Atodiad B, ac mae'r ymatebion ar gael yn llawn yn Atodiad Ch ac ar wefan y Cyngor [www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg](http://www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg)

## 10. Camau Nesaf

10.1. Os bydd y Cabinet yn penderfynu cefnogi'r argymhellion a gyflwynir yn yr adroddiad hwn – bydd angen cyhoeddi rhybudd statudol yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

10.2. Byddai'r rhybuddion statudol yn cael eu cyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a bydd cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod o pan gyhoeddir y rhybuddion. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig.

10.3. Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad terfynol. Rhaid cofio bod rhai sefyllfaoedd lle bydd penderfyniad terfynol y Cyngor yn gallu cael ei gyfeirio at y Gweinidog Addysg, Llywodraeth Cymru yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

10.4. Yn ddarostyngedig ar benderfyniadau'r Cabinet, dyma gamau nesaf y broses gydag amserlen amlinellol;

<b>Mawrth 2020</b>	<b>Cyhoeddi Rhybudd Statudol:</b> os bydd y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen a'r cynnig, cyhoeddir hysbysiad statudol ac fe gynhelir cyfnod gwrthwynebu. Rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiad o fewn y cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod.
<b>Mai 2020</b>	<b>Y Cabinet:</b> Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, bydd y Cabinet yn trafod yr adroddiad gwrthwynebiadau a phenderfynu a ddylid cadarnhau'r cynnig ai peidio.
<b>Mehefin 2020</b>	<b>Cyfeirio'r penderfyniad i Weinidogion Cymru:</b> Yn unol ag adran 54 o Ddeddf 2013, o fewn 28 diwrnod i benderfyniad y Cabinet, gall y cyrff canlynol gyfeirio'r cynnig i Weinidogion Cymru i'r benderfynu: <ul style="list-style-type: none"> <li>i. Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;</li> <li>ii. Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni;</li> <li>iii. Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion;</li> </ul>

	iv. Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion; v. Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arni.
<b>31 Awst 2020</b>	<b>Gweithredu'r cynnig:</b> Ysgol Llanaelhaearn yn cau yn swyddogol, yn ddarostyngedig ar benderfyniadau'r Cabinet.

## 11. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Y Swyddog Monitro:

Mae cynnwys yr adroddiad yma wedi bod yn destun cyngor cyfreithiol gan y Gwasanaeth Cyfreithiol. Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb.

### Y Pennaeth Cyllid:

Mae rhesymau amlwg (gan gynnwys rhai ariannol) yn cefnogi'r cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn. Cadarnhaf fod y ffigyrau ariannol sydd yn rhannau 4.1.2, 4.5.2 ac 9.3 o'r adroddiad – ynghyd â'r rhai yn Atodiad A – unai yn wir gostau cywir, neu yn amcangyfrifon teg (lle'n briodol).

### Yr Aelod Lleol:

Rwyf yn falch o weld fod yr Awdurdod yn cydnabod y byddai trosglwyddo i Ysgol Chwilog yn creu llai o aflonyddwch i'r disgyblion, a'u bod yn argymhell cefnogi dymuniad rhieni i ddarparu cludiant i ddisgyblion presennol Ysgol Llanaelhaearn i Ysgol Chwilog yn ogystal.

### Atodiadau:

**Atodiad A:** Cymhariaeth o nodweddion yr opsiynau yn erbyn ffactorau'r strategaeth.

**Atodiad B:** Dadansoddiad o ymatebion yr Ymgynghoriad

**Atodiad C:** Ymgynghoriad Plant a phobl ifanc

**Atodiad Ch:** Ymatebion

**Atodiad D:** Aseidiadau Effaith:

- Aseiad Effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg
- Aseiad Effaith debygol ar drefniadau teithio
- Aseiad Effaith debygol ar y Gymuned
- Aseiad Effaith leithyddol
- Aseiad Llesiant
- Aseiad Cydraddoldeb

# Atodiad D

## Cymharu'r Opsiynau

Allwedd: **Glas** = Manteision **Coch** = Anfanteision **Du** = Sylwadau a Ffeithiau

Cymharu'r Opsiynau								
Ystyriaethau	Cadw'r 'Status Quo'	Newid Strwythur Staffio	Sefydlu Uned Arsylwi Blynnyddoedd Cynnar	Ffederaleiddio	Gwarant o 5 mlynedd	Sefydlu darpariaeth gofal plant ar y safle	Agor caffï i gyfrannu at gostau cynnal	Cau'r Ysgol a symud y plant i Ysgol Amgen
<b>1. Maint Dosbarthiadau</b>	Disgyblion Ysgol Llanaelhaearn yn parhau i gael eu haddysgu mewn dau ddosbarth – 3 disgybl yn y cyfnod sylfaen a 5 yn CA2 yn 2019-20.	Disgyblion Ysgol Llanaelhaearn yn parhau i gael eu haddysgu mewn dau ddosbarth – 3 disgybl yn y cyfnod sylfaen a 5 yn CA2 yn 2019-20.	Disgyblion Ysgol Llanaelhaearn yn parhau i gael eu haddysgu mewn dau ddosbarth – 3 disgybl yn y cyfnod sylfaen a 5 yn CA2 yn 2019-20.	Disgyblion Ysgol Llanaelhaearn yn parhau i gael eu haddysgu mewn dau ddosbarth – 3 disgybl yn y cyfnod sylfaen a 5 yn CA2 yn 2019-20.	Disgyblion Ysgol Llanaelhaearn yn parhau i gael eu haddysgu mewn dau ddosbarth – 3 disgybl yn y cyfnod sylfaen a 5 yn CA2 yn 2019-20. Rhagolygon tair mlynedd: 2020: 2 ddosbarth – 3 a 4 disgybl 2021: 1 dosbarth o 5 2022: 1 dosbarth o 5	Disgyblion Ysgol Llanaelhaearn yn parhau i gael eu haddysgu mewn dau ddosbarth – 3 disgybl yn y cyfnod sylfaen a 5 yn CA2 yn 2019-20.	Disgyblion Ysgol Llanaelhaearn yn parhau i gael eu haddysgu mewn dau ddosbarth – 3 disgybl yn y cyfnod sylfaen a 5 yn CA2 yn 2019-20.	Disgyblion i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy addas.  Disgyblion i gymysgu yn ddyddiol a chael eu haddysgu gyda phlant eraill o'r un oedran.
<b>2. Niferoedd Disgyblion</b>  Tud. 32	Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Llanaelhaearn.  39 o lefydd gweigion (83%).  Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran nifer.  Cyfle i ymgyrchu i godi niferoedd.	Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Llanaelhaearn.  39 o lefydd gweigion (83%).  Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran nifer.  Cyfle i ymgyrchu i godi niferoedd.	Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Llanaelhaearn.  39 o lefydd gweigion (83%).  Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran nifer.  Yn arferol, nid yw Uned ABC yn denu plant i ysgol.	Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Llanaelhaearn.  39 o lefydd gweigion (83%).  Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran nifer.  Cyfle i ymgyrchu i godi niferoedd.	Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran nifer.  39 o lefydd gweigion (83%) yn 2019-20 ac yn debygol o gynyddu yn ôl y rhagamcanion.  Cyfle i ymgyrchu i godi niferoedd.	Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Llanaelhaearn.  39 o lefydd gweigion (83%).  Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran nifer.  Gall yr opsiwn hwn ddenu mwy i'r ysgol yn y dyfodol.	Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Llanaelhaearn.  39 o lefydd gweigion (83%).  Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran nifer.	Niferoedd yr ysgol a fydd yn darparu addysg ar gyfer yr ardal yn fwy cadarn a chynaliadwy i'r dyfodol.  Cyfradd llai o lefydd gweigion yn y dalgylch.
<b>4. Arweinyddiaeth a Staffio</b>	Bydd y Pennaeth yn dysgu 1 diwrnod yr wythnos yn Ysgol Garndolbenmaen o fis Medi 2019, sy'n golygu ei fod yn arwain tair ysgol dros 4 diwrnod.  Risg y gallai Ysgol Garndolbenmaen ddod ar trefniant o gydweithio i ben.	Byddai denu ymgeisydd i swydd Pennaeth ar ysgol sydd a 8 o ddisgyblion yn her.  Pe na byddai Pennaeth yn cael ei benodi, a hynny yn gadael yr ysgol heb Bennaeth, ni fyddai modd agor drysau'r ysgol.  Risg o beidio a phenodi Pennaeth a cholli staff yn y cyfamser.	Cyfrifoldebau ychwanegol i Reolwr Safle.  Bydd y Pennaeth yn dysgu 1 diwrnod yr wythnos yn Ysgol Garndolbenmaen o fis Medi 2019, sy'n golygu ei fod yn arwain tair ysgol dros 4 diwrnod.  Risg y gallai Ysgol Garndolbenmaen ddod ar trefniant o gydweithio i ben	Arbed amser y Pennaeth - byddai ffederaleiddio yn golygu y gall y Pennaeth gynllunio ar draws y ffederasiwn, yn hytrach na ysgolion unigol.  Pe byddai angen recriwtio Pennaeth newydd yn y dyfodol gallai wneud y swydd yn fwy deniadol i ymgeiswyr.  Byddai model ffederaleiddio ffurfiol yn rhoi strwythur pendant ac y buasai yn rhaid i unrhyw newydd gytuno i fod yn bennaeth ar y 'ffederasiwn'.	Bydd y Pennaeth yn dysgu 1 diwrnod yr wythnos yn Ysgol Garndolbenmaen o fis Medi 2019, sy'n golygu ei fod yn arwain tair ysgol mewn 4 diwrnod.  Rhagolygon Chwilog yn dangos cynnydd mewn niferoedd dros y tair mlynedd nesaf, a Garndolbenmaen yn gostwng dros y tair mlynedd, felly nid yw sefyllfa dysgu y Pennaeth yn debygol o newid.	Cyfrifoldebau ychwanegol i Reolwr Safle.  Bydd y Pennaeth yn dysgu 1 diwrnod yr wythnos yn Ysgol Garndolbenmaen o fis Medi 2019, sy'n golygu ei fod yn arwain tair ysgol dros 4 diwrnod.  Risg y gallai Ysgol Garndolbenmaen ddod ar trefniant o gydweithio i ben	Bydd y Pennaeth yn dysgu 1 diwrnod yr wythnos yn Ysgol Garndolbenmaen o fis Medi 2019, sy'n golygu ei fod yn arwain tair ysgol dros 4 diwrnod.  Risg y gallai Ysgol Garndolbenmaen ddod ar trefniant o gydweithio i ben	Niferoedd yr ysgol amgen yn rhoi tegwch i'r Pennaeth fedru arwain a rheoli yn broffesiynol yn yr ysgol.  Diswyddo staff

Cymharu'r Opsiynau								
Ystyriaethau	Cadw'r 'Status Quo'	Newid Strwythur Staffio	Sefydlu Uned Arsylwi Blynnydoedd Cynnar	Ffederaleiddio	Gwarant o 5 mlynedd	Sefydlu darpariaeth gofal plant ar y safle	Agor caffï i gyfrannu at gostau cynnal	Cau'r Ysgol a symud y plant i Ysgol Amgen
<b>5. Y Gymuned</b>	<p>Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynladwyedd darpariaeth addysg Ysgol Llanaelhaearn.</p> <p>Cadw presenoldeb ysgol ym mhentref Llanaelhaearn.</p> <p>Canran uchel o blant yn mynychu ysgolion all-dalgylch</p>	<p>Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynladwyedd darpariaeth addysg Ysgol Llanaelhaearn.</p> <p>Cadw presenoldeb ysgol ym mhentref Llanaelhaearn.</p> <p>Canran uchel o blant yn mynychu ysgolion all-dalgylch</p>	<p>Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynladwyedd darpariaeth addysg Ysgol Llanaelhaearn.</p> <p>Cadw presenoldeb ysgol ym mhentref Llanaelhaearn.</p> <p>Canran uchel o blant yn mynychu ysgolion all-dalgylch</p>	<p>Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynladwyedd darpariaeth addysg Ysgol Llanaelhaearn.</p> <p>Cadw presenoldeb ysgol ym mhentref Llanaelhaearn.</p> <p>Canran uchel o blant yn mynychu ysgolion all-dalgylch</p>	<p>Cadw presenoldeb ysgol ym mhentref Llanaelhaearn am o leiaf 5 mlynedd.</p> <p>Canran uchel o blant yn mynychu ysgolion all-dalgylch</p>	<p>Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynladwyedd darpariaeth addysg Ysgol Llanaelhaearn.</p> <p>Cadw presenoldeb ysgol ym mhentref Llanaelhaearn.</p> <p>Canran uchel o blant yn mynychu ysgolion all-dalgylch</p>	<p>Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynladwyedd darpariaeth addysg Ysgol Llanaelhaearn.</p> <p>Cadw presenoldeb ysgol ym mhentref Llanaelhaearn.</p> <p>Canran uchel o blant yn mynychu ysgolion all-dalgylch</p> <p>Hybu defnydd cymunedol o'r adeilad.</p> <p>Cyfyngu oriau agor i du allan i oriau ysgol oherwydd risg cymysgu cyhoedd a disgyblion heb wiriadau DBS.</p> <p>Risg o faint o ddefnydd o gaffi fyddai mewn gwirionedd.</p>	<p>Pentref Llanaelhaearn yn colli ysgol.</p>
<b>6. Adnoddau Ariannol</b>	<p>Ysgol Llanaelhaearn yn parhau yn anghynladwy yn ariannol ac felly'n derbyn swm tuag at warchodaeth lleiafswm staffio. Mae'r ysgol wedi derbyn £43,744 o gyllid ychwanegol yn 2019/20. Gan fod y polisi rhwyd diogelu yn gwarantu staffio o Bennaeth a chymhorthydd, nid yw'n cyfarch holl gostau staff yr ysgol, ac felly rhaid llenwi'r bwloch drwy ailosod y gyllideb.</p> <p>Cyfartaledd y disgybl Ysgol Llanaelhaearn yn parhau'n uchel (£12,671 y pen) sydd dair gwaith yn fwy na'r cyfartaledd sirol.</p>	<p>Ysgol Llanaelhaearn yn parhau yn anghynladwy yn ariannol ac felly'n derbyn swm tuag at warchodaeth lleiafswm staffio. Mae'r ysgol wedi derbyn £43,744 o gyllid ychwanegol yn 2019/20.</p> <p>Byddai costau staffio y model yma yn lleihau, ac yn cael eu cyfarch gan y 'rhwyd diogelu'.</p> <p>Cyfartaledd y disgybl Ysgol Llanaelhaearn yn parhau'n uchel (£12,671 y pen) sydd dair gwaith yn fwy na'r cyfartaledd sirol.</p>	<p>Ysgol Llanaelhaearn yn parhau yn anghynladwy yn ariannol ac felly'n derbyn swm tuag at warchodaeth lleiafswm staffio. Mae'r ysgol wedi derbyn £43,744 o gyllid ychwanegol yn 2019/20. Gan fod y polisi rhwyd diogelu yn gwarantu staffio o Bennaeth a chymhorthydd, nid yw'n cyfarch holl gostau staff yr ysgol, ac felly rhaid llenwi'r bwloch drwy ailosod y gyllideb.</p> <p>Cyfartaledd y disgybl Ysgol Llanaelhaearn yn parhau'r uchel (£12,671 y pen) sydd dair gwaith yn fwy na'r cyfartaledd sirol.</p> <p>Ni fyddai'r opsiwn yn creu incwm.</p>	<p>Ysgol Llanaelhaearn yn parhau yn anghynladwy yn ariannol ac felly'n derbyn swm tuag at warchodaeth lleiafswm staffio. Mae'r ysgol wedi derbyn £43,744 o gyllid ychwanegol yn 2019/20. Gan fod y polisi rhwyd diogelu yn gwarantu staffio o Bennaeth a chymhorthydd, nid yw'n cyfarch holl gostau staff yr ysgol, ac felly rhaid llenwi'r bwloch drwy ailosod y gyllideb.</p> <p>Cyfartaledd y disgybl Ysgol Llanaelhaearn yn parhau'r uchel (£12,671 y pen) sydd dair gwaith yn fwy na'r cyfartaledd sirol.</p> <p>Cyfle i wneud arbedion drwy rannu adnoddau a chyflogi staff ar draws y ffederasiwn wrth benodi yn y dyfodol.</p>	<p>Ysgol Llanaelhaearn yn parhau yn anghynladwy yn ariannol ac felly'n derbyn swm tuag at warchodaeth lleiafswm staffio. Mae'r ysgol wedi derbyn £43,744 o gyllid ychwanegol yn 2019/20. Gan fod y polisi rhwyd diogelu yn gwarantu staffio o Bennaeth a chymhorthydd, nid yw'n cyfarch holl gostau staff yr ysgol, ac felly rhaid llenwi'r bwloch drwy ailosod y gyllideb.</p> <p>Cyfartaledd y disgybl Ysgol Llanaelhaearn yn parhau'r uchel (£12,671 y pen) sydd dair gwaith yn fwy na'r cyfartaledd sirol.</p> <p>Rhagolygon 3 blynedd y gyllideb yn dangos y bydd yr ysgol yn mynd i ddyled.</p>	<p>Posibilrwydd o godi ffi ar ddarparwr gofal plant i greu incwm.</p> <p>Ysgol Llanaelhaearn yn parhau yn anghynladwy yn ariannol ac felly'n derbyn swm tuag at warchodaeth lleiafswm staffio. Mae'r ysgol wedi derbyn £43,744 o gyllid ychwanegol yn 2019/20.</p> <p>Cyfartaledd y disgybl Ysgol Llanaelhaearn yn parhau'r uchel (£12,671 y pen) sydd dair gwaith yn fwy na'r cyfartaledd sirol.</p>	<p>Ysgol Llanaelhaearn yn parhau yn anghynladwy yn ariannol ac felly'n derbyn swm tuag at warchodaeth lleiafswm staffio. Mae'r ysgol wedi derbyn £43,744 o gyllid ychwanegol yn 2019/20.</p> <p>Cyfartaledd y disgybl Ysgol Llanaelhaearn yn parhau'r uchel (£12,671 y pen) sydd dair gwaith yn fwy na'r cyfartaledd sirol.</p> <p>Posibilrwydd o greu incwm.</p> <p>Angen buddsoddi yn y gegin er mwyn ei ddefnyddio eto.</p>	<p>Costau cludiant i'r Awdurdod os yw'r ysgol amgen yn fwy na 2 filltir o gartrefi disgyblion.</p> <p>Ni fydd yr ysgol yn parhau yn y rhwyd diogelu staffio.</p> <p>Lleihau'r gost y disgybl o addysgu.</p>
<b>8. Yr Iaith Gymraeg</b>	<p>Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol.</p>	<p>Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol.</p>	<p>Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol.</p>	<p>Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol.</p>	<p>Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol.</p>	<p>Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol.</p>	<p>Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol.</p>	<p>Addysg cyfrwng Gymraeg yn cael ei gynnig fel y sefyllfa bresennol.</p>

Cymharu'r Opsiynau								
Ystyriaethau	Cadw'r 'Status Quo'	Newid Strwythur Staffio	Sefydlu Uned Arsylwi Blynnydoedd Cynnar	Ffederaleiddio	Gwarant o 5 mlynedd	Sefydlu darpariaeth gofal plant ar y safle	Agor caffi i gyfrannu at gostau cynnal	Cau'r Ysgol a symud y plant i Ysgol Amgen
<b>9. Ffactorau Daearyddol</b>	Dim newid Ni fydd unrhyw ddisgybl yr ardal angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	Dim newid Ni fydd unrhyw ddisgybl yr ardal angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	Dim newid Ni fydd unrhyw ddisgybl yr ardal angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	Dim newid Ni fydd unrhyw ddisgybl yr ardal angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	Dim newid Ni fydd unrhyw ddisgybl yr ardal angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	Dim newid Ni fydd unrhyw ddisgybl yr ardal angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	Dim newid Ni fydd unrhyw ddisgybl yr ardal angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	Bydd angen i rai o'r disgyblion deithio ymhellach nac y gwnaent ar hyn o bryd.  Ni fydd unrhyw ddisgybl yr ardal angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.
<b>10. Ystyriaethau eraill</b>	<p>Ansawdd addysg</p> <p>Buddiannau ac adnoddau'r ysgol.</p> <p>Dosbarthiadau bychain.</p> <p>Cynnig profiadau achlysurol i ddisgyblion gymdeithasu a phlant eraill o'r un oed drwy gydweithio ac ysgol Chwilog.</p> <p>Nid yw niferoedd presennol yr ysgol yn caniatáu i ddisgyblion gymdeithasu a chydweithio yn dyddiol gyda chyfoedion i fanteisio ar amrediad amrywiol o brofiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol.</p> <p>Niferoedd yn anfantais wrth i ddisgyblion drosglwyddo i Ysgol Uwchradd.</p>	<p>Ansawdd addysg</p> <p>Buddiannau ac adnoddau'r ysgol.</p> <p>Dosbarthiadau bychain.</p> <p><b>Drwy ddod a'r trefniant presennol o gydweithio i ben, byddai'r cyfleon a'r profiadau sy'n cael eu cynnig i blant drwy ymweld ac Ysgol Chwilog yn dod i derfyn.</b></p> <p>Niferoedd yn anfantais wrth i ddisgyblion drosglwyddo i Ysgol Uwchradd.</p>	<p>Ansawdd addysg</p> <p>Buddiannau ac adnoddau'r ysgol.</p> <p>Dosbarthiadau bychain.</p> <p>Cynnig profiadau achlysurol i ddisgyblion gymdeithasu a phlant eraill o'r un oed drwy gydweithio ac ysgol Chwilog.</p> <p>Nid yw niferoedd presennol yr ysgol yn caniatáu i ddisgyblion gymdeithasu a chydweithio yn dyddiol gyda chyfoedion i fanteisio ar amrediad amrywiol o brofiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol.</p> <p>Niferoedd yn anfantais wrth i ddisgyblion drosglwyddo i Ysgol Uwchradd.</p> <p>Mwy o ddefnydd o'r adeilad.</p> <p>Aberthu gofod dysgu.</p>	<p>Ffurfioli y trefniant presennol o gydweithio a rhannu Pennaeth.</p> <p>Ansawdd addysg</p> <p>Buddiannau ac adnoddau'r ysgol.</p> <p>Dosbarthiadau bychain.</p> <p>Cynnig profiadau achlysurol i ddisgyblion gymdeithasu a phlant eraill o'r un oed drwy gydweithio ac ysgol Chwilog.</p> <p>Nid yw niferoedd presennol yr ysgol yn caniatáu i ddisgyblion gymdeithasu a chydweithio yn dyddiol gyda chyfoedion i fanteisio ar amrediad amrywiol o brofiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol.</p> <p>Niferoedd yn anfantais wrth i ddisgyblion drosglwyddo i Ysgol Uwchradd.</p> <p>Diffyg diddordeb gan ysgolion cyfagos.</p>	<p>Ansawdd addysg</p> <p>Buddiannau ac adnoddau'r ysgol.</p> <p>Dosbarthiadau bychain.</p> <p>Cynnig profiadau achlysurol i ddisgyblion gymdeithasu a phlant eraill o'r un oed drwy gydweithio ac ysgol Chwilog.</p> <p>Nid yw niferoedd presennol yr ysgol yn caniatáu i ddisgyblion gymdeithasu a chydweithio yn dyddiol gyda chyfoedion i fanteisio ar amrediad amrywiol o brofiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol.</p> <p>Niferoedd yn anfantais wrth i ddisgyblion drosglwyddo i Ysgol Uwchradd.</p>	<p>Ansawdd addysg</p> <p>Buddiannau ac adnoddau'r ysgol.</p> <p>Dosbarthiadau bychain.</p> <p>Cynnig profiadau achlysurol i ddisgyblion gymdeithasu a phlant eraill o'r un oed drwy gydweithio ac ysgol Chwilog.</p> <p>Nid yw niferoedd presennol yr ysgol yn caniatáu i ddisgyblion gymdeithasu a chydweithio yn dyddiol gyda chyfoedion i fanteisio ar amrediad amrywiol o brofiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol.</p> <p>Niferoedd yn anfantais wrth i ddisgyblion drosglwyddo i Ysgol Uwchradd.</p> <p>Proses o gofrestru gyda AGC – oddeutu 6 mis.</p> <p>Angen sicrhau defnyddwyr rheolaidd i gyflogi 2 aelod o staff – oddeutu 10 o blant.</p>	<p>Ansawdd addysg</p> <p>Buddiannau ac adnoddau'r ysgol.</p> <p>Dosbarthiadau bychain.</p> <p>Cynnig profiadau achlysurol i ddisgyblion gymdeithasu a phlant eraill o'r un oed drwy gydweithio ac ysgol Chwilog.</p> <p>Nid yw niferoedd presennol yr ysgol yn caniatáu i ddisgyblion gymdeithasu a chydweithio yn dyddiol gyda chyfoedion i fanteisio ar amrediad amrywiol o brofiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol.</p> <p>Niferoedd yn anfantais wrth i ddisgyblion drosglwyddo i Ysgol Uwchradd.</p>	<p>Ansawdd addysg</p> <p>Buddiannau ac adnoddau'r ysgol.</p> <p>Cynnig profiadau i ddisgyblion gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.</p>

Tud. 34

**Allwedd:**    **Glas** = Manteision    **Coch** = Anfanteision    **Du** = Sylwadau a Ffeithiau

Adolygwyd y ddogfen hon wedi i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben ar 29 Ionawr 2020.

Ni ddaeth sylwadau na gwybodaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad a oedd yn newid cynnwys y ddogfen hon.



## **Ymatebion Ymgynghoriad Statudol Ysgol Llanaelhaearn**

### **Ymatebion Ymgynghoriad Statudol**

Y cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020, a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr o'r 1 Medi 2020.

Ymatebion i'r Ymgynghoriad Statudol i gau Ysgol Llanaelhaearn ar y 31 Awst 2020, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr o'r 1 Medi 2020.

(Cyfnod Ymgynghori Statudol 16 Rhagfyr 2019 – 29 Ionawr 2020)

Derbyniwyd 8 ymateb ysgrifenedig yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol

Tud. 36

	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
<b>1.</b>	<b>Dymuniad i'r plant fynychu Ysgol Chwilog</b>	
1.1	Hoffwn weld plant yr ysgol yn bresennol gael dewis symud i ysgol Chwilog, a chludiant yn cael ei drefnu i'r plant hynny.	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwadau.
1.2	Rwyf yn hollol gefnogol i gais y rhieni i'r disgyblion fynychu Ysgol Chwilog ar ôl cau Ysgol Llanaelhaearn ac eu bod yn cael cludiant. A bydd plant sydd yn dechrau ysgol o Medi 2020 yn UNIG yn cael cludiant i'r ysgol ac nid y rhai a symudodd ysgol cyn hyn.	Mae rhesymau dilys dros enwi Ysgol Bro Plenydd fel yr Ysgol amgen, a manylir y rhain yn y ddogfen ymgynghori.  Er hyn, cydnabyddir fod plant Ysgol Llanaelhaearn eisoes yn mynychu Ysgol Chwilog ar gyfer sesiynau penodol, ac y byddai trosglwyddo i ysgol ble maent eisoes yn adnabod yr athrawon a disgyblion eraill yn debygol o leihau'r aflonyddwch a fyddai trosglwyddo i ysgol newydd yn ei gael ar y disgyblion presennol.
1.3	Hoffwn i'r plant gael mynd i ysgol Gynradd Chwilog yn hytrach na y Ffôr a cael cludiant i'r perwyl yma.	
1.4	Rydym yn dymuno i XX fynd i Ysgol Chwilog o Fedi 2020 ac i drafnidiaeth gael ei threfnu i fynd â'r plant bob dydd.	Am y rhesymau uchod, yn ddarostyngedig ar argaeledd llefydd yn Ysgol Chwilog, nid oes gan yr Adran Addysg wrthwynebiad i ddisgyblion presennol Ysgol Llanaelhaearn dderbyn cludiant i Ysgol Chwilog.
1.5	Hoffwn i XX gael eu lleoli yn Ysgol Chwilog ac fod trafnidiaeth gael eu darparu yn ôl ac ymlaen i'r ysgol.	
1.6	Hoffwn i XX fynd i Ysgol Chwilog gan ei bod yn mynd yno yn barod gydag Ysgol Llanaelhaearn ac wedi ymgartrefu'n dda. Ni fyddem ni fel rhieni eisiau gwahanu'r plant. Hoffwn hefyd drafnidiaeth gan nad wyf yn gyrru.	



1.7	Hoffwn i'm plant fynd i Chwilog gan y bydd fy mab XX yn mynd i Ysgol Glan y Môr yn 2021 ac wedi setlo ac nid wyf am iddo newid ysgolion yn ei flynyddoedd olaf. Mae fy mhlant wedi gwneud ffrindiau ac yn adnabod yr athrawon ac yn hapus iawn yn Chwilog.	
<b>2.</b>	<b>Crynodeb Estyn</b>	
2.1	Ym marn Estyn mae'r cynnig hwn o leiaf yn debygol o gynnal y safonau addysg presennol.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau
2.2	Gan fod y cynigiwr yn cynnig cau ysgol wledig mae'n nodi'n glir y rhesymau dros llunio'r cynnig a'r ystyriaethau gofalus y tu ôl i hyn. Mae hefyd yn nodi manteision eraill yn ogystal, fel yr effaith bositif o ran cost-effeithiolrwydd i'r awdurdod addysg a lleihau llefydd gweigion.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau
2.3	Mae'n nodi'r heriau allweddol mae'r ysgol yn ei hwynebu a sut maent am fynd i'r afael â nhw trwy gynnig gau'r ysgol.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau
2.4.	Mae'r cynigiwr yn nodi'n glir y manteision a'r anfanteision disgwylidig o gymharu â'r sefyllfa bresennol. Mae'n ystyried opsiynau eraill posib ac wedi rhoi rhesymau priodol ynghylch pam mae'r rhain wedi cael eu diystyru.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau
2.5	Mae'r cynnig yn ystyried y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn briodol. Mae'n cyfeirio at weithredu Polisi Iaith yr awdurdod lleol. Ymddengys na fyddai effaith negyddol ar ddarpariaeth y Gymraeg i'r disgyblion hyn.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau
2.6	Cwblhaodd y cynigiwr asesiad defnyddiol o effaith cymunedol yr opsiynau. Dengys yr asesiad y bydd peth effaith negyddol o gau'r ysgol ar y gymuned gan fod yr ysgol yn ymwneud a'i chymuned ac yn defnyddio cyfleusterau'r gymuned, megis Canolfan y Babell yn gyson. I geisio lliniaru'r effaith ar y gymuned nodir rai cyfleoedd posib i sicrhau fod cymuned Llanaelhaearn yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Bro Plenydd a chymuned Llanaelhaearn, lle'n briodol.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau
2.7	Mae'r cynigiwr yn nodi bod gan adeilad Ysgol Bro Plenydd gyfleusterau cyfystyr ac Ysgol Llanaelhaearn i gynnal darpariaeth arbenigol sy'n addas ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd	Nodir yr Awdurdod fel ymateb i'r sylwad am ddiffyg ystyriaeth i drefniadau hygyrchedd i ddisgyblion ac anabledd, yn yr un modd a'r hyn sydd yn digwydd ar hyn o bryd, fe fyddai gofyn i Ysgol Bro Plenydd

	<p>bynag, nid yw'n nodi'n ddigon clir yr effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig ac nid yw'r cynnig yn ystyried trefniadau hygyrchedd i ddisgyblion ag anabledd.</p>	<p>adolygu Cynlluniau'r disgyblion gydag ADY ac yna mapio'r anghenion ar ddarpariaeth yr ysgol. Byddai'r Panel Cymedroli yn ystyried darpariaeth ar gyfer disgyblion gyda Datganiad neu Gynllun Datblygu Unigol (CDU) i sicrhau darpariaeth addas yn yr ysgol newydd. Byddai'r fforwm yn trafod CDU plant sydd yn derbyn mewnbwn y Tîm Integredig ADY a Chynhwysiad, gan sicrhau parhad gwasanaeth</p> <p>Mewn perthnasedd i ystyriaethau hygyrchedd, mae'r ddwy safle wedi eu hasesu yn yr un categori. Pe byddai unigolyn ac anableddau yn gwneud cais mynediad neu drosglwyddo i Ysgol Bro Plenydd yn y dyfodol, y byddai'r Awdurdod yn ymdrin a'r cais fel y byddai i unrhyw ysgol arall yng Ngwynedd.</p>
2.8	<p>Mae'r cynigiwr wedi nodi'r anfanteision o'r cynnig hwn, yn cynnwys adleoli disgyblion, diswyddo staff, diddymu'r corff llywodraethol, a chodiad yng nghostau cludiant.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau</p>
2.9	<p>Ar y cyfan mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith a chost y cynigion ar drefniadau teithio disgyblion ond nid ar hygyrchedd y ddarpariaeth deithio ar gyfer disgyblion ag anghenion arbennig.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.</p> <p>Mewn ymateb i'r sylwad, nodir yr Awdurdod pe byddai disgybl yn methu a defnyddio cludiant arferol, y byddai unrhyw gludiant ychwanegol yn cael ei drafod gan y Panel Cymedroli ar sail sefyllfaoedd unigol.</p>
2.10	<p>Mae'r cynigiwr yn rhoi ystyriaeth bwrpasol i effaith y cynigion ar ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth yn yr ysgolion. Mae'n cyfeirio'n berthnasol at ddeilliannau adroddiadau arolygu diweddaraf Estyn ar Ysgol Llanaelhaearn ac Ysgol Bro Plenydd, a'u categorïau a band cymorth. Yn mesurau hyn i gyd mae Ysgol Bro Plenydd yn gryfach nac Ysgol Llanaelhaearn.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau</p>
2.11	<p>Mae'n debygol y bydd yr opsiwn o gau Ysgol Llanaelhaearn yn datrys y sefyllfa fregus o ran diffyg trefniadau arweinyddiaeth wydn yn yr ysgol honno. Byddai gwireddu'r opsiwn hefyd yn debygol o wella profiadau cymdeithasol ac addysgu'r disgyblion drwy roi cyfleoedd i ddisgyblion</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau</p>

	gael eu haddysgu mewn grwpiau o gyfoedion sydd â llawer llai o amrediad oedran.	
2.12	Noda'r cynigiwr hefyd yr amrywiaeth ehangach o gyfleusterau a fydd ar gael, a mynediad gwell at adnoddau a staffio. Mae'n cyfeirio y gall ysgolion gyda niferoedd uwch o blant gynnig strwythur mwy cadarn i gynllunio a darparu'r cwricwlwm.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau
2.13	Mae'r cynigiwr wedi cynnal asesiad o effaith y cynnig ar gydraddoldeb ac yn honni'n rhesymol na ddylai'r cynnig gael effaith andwyol ar unrhyw grwpiau penodol. Fodd bynnag, nid cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth briodol i aflonyddwch posibl ar ddisgyblion presennol.	<p>Derbyniwyd sawl ymateb i'r ymgynghoriad (gan gynnwys yr ymgynghoriad a phlant) yn nodi dymuniad rhieni y disgyblion presennol i'w plant fynychu Ysgol Chwilog a derbyn cludiant i'r perwyl hynny. Fel nodir yn y ddogfen ymgynghori, mae rhesymeg clir dros enwi Ysgol Bro Plenydd fel yr ysgol amgen.</p> <p>Fodd bynnag, mae'r Awdurdod o'r farn fod disgyblion Ysgol Llanaelhaearn wedi ennill profiadau cadarnhaol yn sgil trefniadau o gydweithio gydag Ysgol Chwilog, a chan fod y berthynas yn bodoli eisoes, rhaid ystyried unrhyw gyfle i leihau aflonyddwch i'r disgyblion presennol. Am y rheswm hyn, y mae'r Adran Addysg yn cefnogi cais am gludiant i Ysgol Chwilog ar gyfer y disgyblion a fyddai ar gofrestr Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020.</p>

# Atodiad C

## Appendix C

### Cynnig i ad-drefnu Ysgol Llanaelhaearn Ymgynghori gyda Phlant a Phobl Ifanc

Mewn cyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd ar y 5 Tachwedd 2019, penderfynodd y Cabinet i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol ar gynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020, a darparu addysg i ddysgwyr yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr o'r 1af Medi 2020, yn unol â gofynion Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol rhwng 16 Rhagfyr 2019 a 29 Ionawr 2020, yn seiliedig ar gynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar y 31 Awst 2020, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr ar y 1 Medi 2020.

Paratowyd dogfennau priodol ar gyfer disgyblion Ysgol Llanaelhaearn a Cyngor Ysgol Bro Plenydd yn ogystal â disgyblion Blwyddyn 5 a 6 Ysgol Bro Plenydd, a trefnwyd bod hwylysydd yn mynychu y ddwy ysgol i drafod y cynnig gyda'r plant er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr hyn oedd yn cael ei gynnig ac er mwyn rhoi cyfle i'r plant ddatgan barn am y cynnig.

Esboniwyd bod y newid yn golygu:

- Y bydd Ysgol Llanaelhaearn yn cau;
- Y bydd disgyblion Ysgol Llanaelhaearn yn trosglwyddo i Ysgol Bro Plenydd ym Medi 2020.

Roedd pob sesiwn yn cymryd hanner awr i awr i'w gwblhau. Roedd yn cynnwys esbonio'r cynnig a chwblhau holiadur.

Roedd 26 o blant a phobl ifanc wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad

Gweler isod amserlen y sesiynau ymgynghori, rhestr yr ysgolion perthnasol a nifer yr ymatebwyr:

<b>Dydd Llun, 20 Ionawr 2020</b>	<b>9.30am Ysgol Llanaelhaearn</b>	<b>11.00am Ysgol Bro Plenydd</b>
--------------------------------------	---------------------------------------	--------------------------------------

#### Ysgolion:

1. Ysgol Llanaelhaearn - 6
2. Ysgol Bro Plenydd - 20

## **Proposal to reorganise Ysgol Llanaelhaearn Consultation with Children and Young People**

*At a Gwynedd Council Cabinet meeting on 5 November 2019, the Cabinet agreed to undertake a period of statutory consultation process on a proposal to close Ysgol Llanaelhaearn on 31 August 2020, and provide education for learners at Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr from 1st September 2020, in accordance with the requirements of Section 48 of the Standards Act aSchool Organization 2013.*

*The statutory consultation was held between 16 December 2019 and 29 January 2020, based on a proposal to close Ysgol Llanaelhaearn on 31 August 2020, and offer pupils a place at Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr on 1 September 2020.*

*Appropriate documentation were prepared for Ysgol Llanaelhaearn and Ysgol Bro Plenydd Council as well as Ysgol Bro Plenydd's Year 5 and 6 pupils, and it was arranged that a facilitator attend both schools to discuss the proposal with the children to ensure that they understand what was offered and to give the children an opportunity to express their opinion on the proposal.*

*It was explained that the change meant:*

- *Ysgol Llanaelhaearn will close;*
- *That Ysgol Llanaelhaearn pupils will transfer to Ysgol Bro Plenydd in September 2020.*

*Each session took half an hour to an hour to complete. It included explaining the proposal and completing a questionnaire.*

*26 children and young people participated in the consultation*

*Please find below the timetable of consultation sessions, the list of relevant schools and the number of respondents:*

<b>Monday 20 January 2020</b>	<b>9.30am Ysgol Llanaelhaearn</b>	<b>11.00am Ysgol Bro Plenydd</b>
-----------------------------------	---------------------------------------	--------------------------------------

### **Ysgolion:**

1. *Ysgol Llanaelhaearn - 6*
2. *Ysgol Bro Plenydd - 20*

## Gweler isod yr ymatebion a dderbyniwyd gan y disgyblion

### Below are the responses received from the pupils

NODER - Mae sylwadau'r plant a'r bobl ifanc wedi eu dyfynnu'n uniongyrchol o'u hymatebion.

NOTE - The comments of the children and young people have been quoted directly from their responses.

<b>Sut wyt ti'n teimlo am hyn?</b> <i>How do you feel about this?</i>			
<u>Ysgol</u> <i>School</i>	<u>Hapus</u> <i>Happy</i>	<u>Ddim yn Sicr</u> <i>Not Sure</i>	<u>Anhapus</u> <i>Not Happy</i>
Ysgol Llanaelhaearn	0	0	6
Ysgol Bro Plenydd	17	3	0
<b>Cyfanswm</b> <i>Total</i>	17	3	6

<b>Cwestiwn 1 – Sut wyt ti yn teimlo am hyn?</b> <i>Question 1 - How do you feel about this?</i>		
<b>Ysgol Llanaelhaearn</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ddim ishau mynd i ysgol Ffôr.</li> <li>• Collir teimlad o deulu bach</li> <li>• Colli'r tripiâu</li> <li>• Timlon drist</li> <li>• Ddim eisiau mynd i Ysgol Bro Plenydd</li> <li>• Dwi'n teimlo drist mae ysgol Llanaelhaearn (...yn cau)</li> <li>• Dwi ddim eisiau mynd i Ysgol Ffôr</li> <li>• Colli mynd ar dripiâu</li> <li>• Teimlo'n drist.</li> <li>• Ddim eisiau mynd i ysgol Bro Plenydd</li> </ul> <p><b>Ymatebion llafar ychwanegol yn ystod sgwrs hwylsydd yw'r isod:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Teimlo ceindo drist fod yr ysgol yn mynd i gau.</li> <li>• Pam ddim ysgol arall, agosach?</li> <li>• Mae ysgol yma yn Llanaelhaearn yn barod, pam mae'n rhaid i ni symud pan mae hi yma yn barod</li> <li>• *Dwi'n nabod tri chwarter o Ysgol Chwilog a dwi'n poeni y byddai wedi anghofio am fy ffrindiau yno pan fyddai'n fawr.</li> <li>• Dim hefo ffrindiau yna, ond un (mae'n enwi'r plentyn)</li> <li>• *Byddai'n methu gweld y ffrindiau hynny (yn Ysgol Chwilog)</li> </ul> <p><b>*NODYN eglurhaol</b> – ers sawl blwyddyn mae trefniant mewn lle i blant Ysgol</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Don't want to go to Ysgol Ffôr</li> <li>• Losing the feeling of a small family</li> <li>• Miss the trips</li> <li>• Feeling sad</li> <li>• Don't want to go to Ysgol Bro Plenydd</li> <li>• I feel sad that Ysgol Llanaelhaearn (...is closing)</li> <li>• I don't want to go to Ysgol Ffôr</li> <li>• Miss going on trips</li> <li>• I feel sad</li> <li>• Don't want to go to Ysgol Bro Plenydd</li> </ul> <p><b>Below are notes taken during facilitator discussion:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• I feel kind of sad that the school is going to close.</li> <li>• Why not another school, closer (to us)?</li> <li>• There is already a school in Llanaelhaearn, why do we have to move when there is already a school here?</li> <li>• *I know three quarters of Ysgol Chwilog and I'm worried I'll forget about my friends there when I am older</li> <li>• Don't have friends there, except one (names that child)</li> <li>• *I will miss the friends I have made (at Ysgol Chwilog)</li> </ul>

	<p>Llanaelhaearn ymuno a phlant Ysgol Chwilog ar ddau brynhawn – Dydd Mawrth yn Ysgol Chwilog, dydd Iau mewn gwern nofio.</p>	<p><b>*EXPLANATORY NOTE</b> - for a number of years an arrangement has been in place for the children of Ysgol Llanaelhaearn to join the children of Ysgol Chwilog on two afternoons - Tuesdays at Ysgol Chwilog, Thursday in a swimming lesson.</p>
<p><b>Ysgol Bro Plenydd</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mi faswn i'n hoffi gwneud ffrindiau newydd.</li> <li>• Mwy o ffrindiau.</li> <li>• Cyfarfod pobl eraill.</li> <li>• Oherwydd rwyf i yn cael ffrindiau newydd.</li> <li>• Rwyf yn hollol hapus ond mae yna un broblem, beth os oes disgybl bl.6 yna fydden nhw ddim yn adnabod neb yn yr ysgol uwchradd. Felly roeddwn yn meddwl ella fydden nhw yn medru dod cyn y gwyliau haf. <i>(yn dilyn gweld y sylw hyn, eglurodd yr hwylysydd i'r Cyngor Ysgol mai disgybl Blwyddyn 5 oedd yr hynaf yn Ysgol Llanaelhaearn)</i></li> <li>• Dwi'n meddwl fod y cynnig yma yn un iawn felly rwy'n hapus hefo'r syniad yma.</li> <li>• Rwyf wedi dewis y gwyneb (hapus) yma oherwydd rwyf eisiau gwneud mwy o ffrindiau Ac yn edrych ymlaen i mwy o blant yn ysgol Bro Plenydd.</li> <li>• Rwyf wedi dewis y gwyneb (hapus) hwn oherwydd       <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Rwyf am wneud ffrindiau newydd.</li> <li>2. Cael mwy o blant yn yr ysgol.</li> <li>3. Cael offer newydd.</li> <li>4. Rwyf hefyd yn gweld y sefyllfa yn drist oherwydd aeth fy nhad i'r ysgol ac i'r ysgol yna y roeddwn i fod i fynd yn y lle cyntaf</li> </ol> </li> <li>• Y rheswm dwi wedi dewis y boc (wyneb hapus) yma ydi oherwydd fydd o yn well i'r plant yn ysgol Llanaelhaearn.</li> <li>• Y rheswm pam rwyf wedi dewis y gwyneb yma yw oherwydd mi fydd o yn profiadau dda iddynt ac i disgyblion Ysgol Llanaelhaearn cael mwy o ffrindiau eu oedran nhw</li> <li>• Dwi'n edrych ymlaen i gael mwy o blant.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• I would like to make new friends.</li> <li>• More friends.</li> <li>• Meet other people.</li> <li>• Because I will have new friends.</li> <li>• I am totally happy but there is one problem, what if there is a year 6 pupil then they will not know anyone in the secondary school. Therefore, I think it would be best if they could come before the summer holiday. <i>(Following up on this remark the facilitator explained that the eldest pupil at Ysgol Llanaelhaearn was in Year 5)</i></li> <li>• I think this proposal is correct and I am happy with this idea</li> <li>• I have chosen this (happy) face because I want to make more friends and look forward to seeing more children at ysgol Bro Plenydd.</li> <li>• I have chosen this (happy) face because:       <ol style="list-style-type: none"> <li>1. I want to make new friends</li> <li>2. Have more children in the school</li> <li>3. Have new equipment</li> <li>4. I also see the situation as a sad one as my father went to the school and I was supposed to go to the school as well in the first place.</li> </ol> </li> <li>• The reason I have chosen this box (happy face) is because this is best for the children at Ysgol Llanaelhaearn.</li> <li>• The reason I have chosen this face is because it will be a good experience for them and for Ysgol Llanaelhaearn pupils to have more friends their own age.</li> <li>• I look forward to having more children.</li> <li>• The reason I have chosen this face was because I would like Ysgol Llanaelhaearn to have the best education and to have friends from the same year.</li> <li>• Because I want to meet other children</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y rheswm rwyf wedi dewis yr gwyneb yma yw rwyf eisiau ysgol Llanaelhaearn cael yr addysg gorau a cael ffrindiau yn yr un blwyddyn.</li> <li>• Oherwydd dwi eisiau cyfarfod plant eraill</li> <li>• Edrych yn mlaen i gael ffrindiau newydd</li> <li>• Rydw i wedi dewis yr gwyneb yma oherwydd rydw i yn edrych ymlaen i wneud ffrndiau</li> <li>• Y rheswm rwyf yn ddweud hyn yw rwyf yn meddwl fydda'n ni fel ysgol yn gallu dysgu allan o helpu pobl eraill hefyd bydd plant ysgol Llanaelhaearn (gobeithio) yn mwynhau chwarae yr un oed na nhw</li> <li>• Rwyf wedi dewis y gwyneb hapus oherwydd rwyf eisiau cyfarfod plant eraill ac rwyf yn edrych ymlaen i plant Ysgol Llanaelhaearn i gael ffrindiau newydd.</li> <li>• Dwi'n hollol hapus ei bod nhw yn dod oherwydd mi fydd yn handi i'r plant. (Wyneb pryderus)</li> <li>• Oherwydd ella fydd na ddim digon o le yn y dosbarthiadau.</li> <li>• Oherwydd ei fod yn ddryslyd</li> <li>• Oherwydd bod yna ddisgyblion gwahanol o ysgolion gwahanol.</li> <li>• Dewisiais y wyneb yma oherwydd dwi'n poeni ella wnaiff rhai ohonynt peidio siarad efo ni ond wedyn rydwi yn teimlo bechod drost nhw oherwydd tydio ddim yn peth hawdd. Mae'n brofiad annifyr iawn i orfod symud ysgolion mi faswn i'n meddwl.</li> </ul> <p><b>Ymatebion llafar ychwanegol yn ystod sgwrs hwylsydd yw'r isod</b> Dim sylwadau ychwanegol wedi codi</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Look forward to having new friends</li> <li>• I have chosen this face as I am looking forward to making friends</li> <li>• The reason I say this is because we as a school will be able to learn from helpu others and also the children of Ysgol Llanaelhaearn (hopefully) will enjoy playing with children of the same age as them</li> <li>• I have chosen th happy face as I want to meet other children and I am looking forward to Ysgol Llanaelhaearn children so that I can have new friends</li> <li>• I am totally happy that they are coming as it will be handy for the children (anxious face).</li> <li>• Because there may not be enough room in the classrooms.</li> <li>• Because its confusing</li> <li>• Because there is different pupils from different schools</li> <li>• I chose this face because I am worried that some of them won't speak with us but I also feel sorry for them as it can't be easy. I should think it is a very unpleasant experience to have to move schools.</li> </ul> <p><b>Below are notes taken during facilitator discussion:</b> No extra comments offered.</p>
--	---	---



**Cwestiwn 2 – Beth hoffet ti weld yn digwydd fel rhan o’r cynnig yma?**

**Question 2 - What would you like to see happen as part of this proposal?**

<p><b>Ysgol Llanaelhaearn</b></p>	<p><b>Ymatebion llafar ychwanegol yn ystod sgwrs hwylsyydd yw’r isod</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dwi eisiau mynd i Ysgol Chwilog</li> <li>• Mynd i Ysgol Chwilog</li> <li>• Dwi eisiau mynd i Ysgol Chwilog.</li> <li>• Eisiau mynd i Ysgol Chwilog.</li> </ul> <p><b>Dwi’n licio plant bach (Chwilog) a dwi isio mynd i’r ysgol yna.</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• I want to go to Ysgol Chwilog</li> <li>• Go to Ysgol Chwilog</li> <li>• I want to go to Ysgol Chwilog.</li> <li>• Want to go to Ysgol Chwilog.</li> </ul> <p><b>Below are notes taken during facilitator discussion:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• I like the little children (at Chwilog) and want to go to that school.</li> </ul>
<p><b>Ysgol Bro Plenydd</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Os gwelwch yn dda gawn ni yr offer o Ysgol Llanaelhaearn os yw’r plant yn dod i Bro Plenydd.</li> <li>• Beth sydd yn digwydd i’r adnoddau dysgu</li> <li>• Cael y bws mini os fedra nhw</li> <li>• Dod ar offer or ysgol</li> <li>• Ydan ni yn cael offer yr ysgol?</li> <li>• Os ydwi yn byw yn Llanaelhaearn gai fynd ar y bws mini?</li> <li>• Os mai’r plant yn symud yma ella bydd Ysgol Bro Plenydd yn gallu cael ychydig o adnoddau Ysgol Llanaelhaearn.</li> <li>• Bws mini ysgol Llanaelhaearn yn mynd i ysgol Bro plenydd</li> <li>• Os mae Ysgol Llanaelhaearn yn dod i ein ysgol rwy’n hoffi gweld y pethau rhain: miniu bus; offer ysgrifennu; offer TG</li> <li>• Mi faswn hoffi gael offer ee eu cyfrifaduron os gwelwch yn dda. Yn ychwanegol at hynny buaswn yn hoffi bws mini Llanaelhaearn os gwelwch yn dda</li> <li>• Bws; llyfra; pensiliau, pren mesyr; technoleg eg cyfryddiadyr o ysgol Llanaelhaearn.</li> <li>• Y peth yr hoffaf ei weld o’r cynnig yma iw ydi bws mini Ysgol Llanaelhaearn yn dod i Ysgol Bro Plenydd?</li> <li>• Fuaswn yn hoffi gweld mwy o adnoddau a offer. Hefyd byswn yn hoffi gael mwy o athrawon i gael mwy o addysg a plant Llanaelhaearn i gael mwy o addysg.</li> <li>• Buaswn yn hoffi gweld offer ac adnoddau yn dod wedyn efallai fydd hi’n bosib i’r plant cael gwneud mwy o</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Could we please have the equipment from Ysgol Llanaelhaearn if the children come to Bro Plenydd.</li> <li>• What is going to happen to the learning resources?</li> <li>• Bring the mini bus if they can</li> <li>• Bring the equipment from the school</li> <li>• Will we receive the school’s equipment?</li> <li>• If I live in Llanaelhaearn will I be allowed to travel on the mini bus?</li> <li>• If the children move here maybe Ysgol Bro Plenydd could have some of Ysgol Llanaelhaearn’s resources.</li> <li>• Ysgol Llanaelhaearn’s mini bus to go to Ysgol Bro Plenydd</li> <li>• If Ysgol Llanaelhaearn come to our school then I would like to see these things: mini bus; writing resources; IT resources.</li> <li>• I would like to have their equipment eg their computers please. Also I would like their mini bus please.</li> <li>• Bus; books; rulers, technology eg computer from Ysgol Llanaelhaearn</li> <li>• The thing I’d like to see from this proposal is that Ysgol Llanaelhaearn’s mini buss comes to Ysgol Bro Plenydd.</li> <li>• I would like to see more equipment and resources. Also I would like to have more teachers to have more education and also I would like the children of Llanaelhaearn to have more education</li> <li>• I would like to see equipment and resources coming, then it could be possible for the children to do more activities and have more experiences</li> </ul>

	<p>gweithgareddau a cael mwy o brofiadau</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rydw i yn meddwl y dylai ni cael eu offer technoleg oherwydd fydd gennym ni ddim digon i rannu rhwng pawb.</li> <li>• Os basa ni yn cael adnoddau'r ysgol</li> <li>• Yr dau peth hoffwn i weld yw yr 8 plant sydd yn cynnig i ddod yma fydda nhw yn hoff or ysgol ac yn ffrindiau i bawb!</li> </ul> <p><b>Ymatebion llafar ychwanegol yn ystod sgwrs hwylsydd yw'r isod</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Da ni angen mwy o offer technoleg yn ein hysgol ni ac efallai bydd hyn yn un ffordd o gael mwy.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• I think we should have the technology equipment as we will not have enough to share with everyone.</li> <li>• If we could have there school supplies</li> <li>• The two things I'd like to see is that the 8 children that are in the proposal like the school and are friends with everyone!</li> </ul> <p><b>Below are notes taken during facilitator discussion:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• We need more technology equipment in our school and this may be one way of getting more.</li> </ul>
--	--	---

Cwestiwn 3 – Beth sy'n dy boeni am hyn? Question 3 - What worries you about this?		
<p><b>Ysgol Llanaelhaearn</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Teimlo'n ofnus gorfod mynd mewn tacsï</li> <li>• Dim yn deg ar mam yn gorfod mynd â ni i ysgol arall.</li> <li>• Gorfod cychwyn eto yn blwyddyn 6 .</li> <li>• Ddim yn cael a gallu cerdded i'r ysgol.</li> </ul> <p><b>Ymatebion llafar ychwanegol yn ystod sgwrs hwylsydd yw'r isod</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dim hefo ffrindïau yna.</li> <li>• Ofn colli ffrindïau Ysgol Chwilog</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Feeling afraid of going in a taxi</li> <li>• Not fair on mum having to take us to another school.</li> <li>• Having to start again in year 6</li> <li>• Not being able to and allowed to walk to school</li> </ul> <p><b>Below are notes taken during facilitator discussion:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Don't have friends there</li> <li>• Afraid of losing their friends at Ysgol Chwilog</li> </ul>
<p><b>Ysgol Bro Plenydd</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Does dim yn fy mhoeni am hyn – 15 wedi gwneud sylw cyffelyb</li> <li>• Y plant bl6 os oes na</li> <li>• Pa fath o blant ydun nhw</li> <li>• Ella bysa plant yn bod yn ddrwg yn gynta</li> <li>• Yr unig beth sydd yn fy poeni fi yw agwedd y plant ac os ydynt am parchu ein pethau</li> <li>• Y peth rwy'n poeni am yw: beth os ydyn nhw cau cyfathrebu hefo ni; beth os mae nhwn cychwyn bod yn gas a cambyhafio.</li> <li>• Dwi ddim eisiau plant malu pethau/Gwaith</li> <li>• Dwi ddim eisiau plant malu pethau yn yr ysgol,</li> </ul> <p><b>Ymatebion llafar ychwanegol yn ystod sgwrs hwylsydd yw'r isod</b></p> <p>Dim sylwadau ychwanegol wedi codi</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nothing worries me about this – 15 made the same remark</li> <li>• The year 6 children if there are any</li> <li>• What type of children are they</li> <li>• Maybe the children will misbehave at the beginning</li> <li>• The only thing that worries me is the children's attitude and will they respect our things</li> <li>• The thing I am worried about is: what if they refuse to communicate with us; what if they start to become nasty and misbehave</li> <li>• I don't want the children to break things/work</li> <li>• I don't want children to damage things in the school</li> </ul> <p><b>Below are notes taken during facilitator discussion:</b></p> <p>No extra comments offered.</p>

**Cwestiwn 4 – Beth yw'r pethau pwysicaf i chi yn yr ysgol?**

**Question 4 - What are the most important things for you at school?**

<p><b>Ysgol Llanaelhaearn</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwneud mathemateg</li> <li>• Ffrindia da</li> <li>• Iago y pysgodyn</li> <li>• Athrawon a staf</li> <li>• Ffrindiau a Iago y Sgodyn</li> </ul> <p><b>Ymatebion llafar ychwanegol yn ystod sgwrs hwylsydd yw'r isod</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cael mynd i'r tent</li> <li>• Yr ysgol yma</li> <li>• Dwi'n hoffi lliwio bob bore a chwarae yn y twb tywod</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Doing mathematics</li> <li>• Good friends</li> <li>• Iago the fish</li> <li>• The teachers and staff</li> <li>• Friends and Iago the fish</li> </ul> <p><b>Below are notes taken during facilitator discussion:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Being allowed in the tent</li> <li>• This school</li> <li>• I like colouring every morning and playing in the sand pit</li> </ul>
<p><b>Ysgol Bro Plenydd</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rwy'n hoffi popeth yn yr ysgol ond rwy'n hoff o wersi TGCh hefo Miss Parry ar gwersai dawnsio. Mae rheini yn bwysig iawn i mi a tydwi ddim eisiau i hynny newid\stopio.</li> <li>• Addysg – ddim yn newid; ffrindiau-mwy; mwynhau; gweithgareddau/profiadau</li> <li>• Dwi ddim eisiau gweld yr ysgol yn cau a dwi ddim eisiau gweld gormod o blant yn dod at yr ysgol</li> <li>• Y peth pwysicaf i mi yn yr ysgol yw yr athrawon a ffrindiau, os does ddim athrawon does dim addysg.</li> <li>• Y peth pwysicaf i fi yn yr ysgol ydi ffrindiau.</li> <li>• Y pethau pwysicaf i mi ywr addysg, Athrawon ac y Disgyblion. Fy rheswm pam dwi yn dweud hyn yw oherwydd heb Athrawon mi fydd yna dim addysg a heb addysg fydd yna dim disgyblion.</li> <li>• Y pethau pwysicaf yn yr ysgol i fi yw – prif Athrawes sef Mrs Hughes; y prif iard y maes; lle parcio.</li> <li>• Yr athrawon, y bwyd, sut rydwi yn dysgu.</li> <li>• Yr addysg; athrawon; cinio ysgol; ffrindiau; dosbarth lliwgar.</li> <li>• Ffrindiau; athrawon sydd yn ein dysgu ni yn dda ac yr addysg.</li> </ul> <p><b>Ymatebion llafar ychwanegol yn ystod sgwrs hwylsydd yw'r isod:</b></p> <p>Sylwadau'r plant yn dwyn sylw at bwysigrwydd athrawon, ffrindiau ac addysg dda fel thema gyson yn llafar ac ysgrifenedig.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• I like everything in the school but I like IT lessons with Miss Parry and the dance lessons. These are very important to me and I don't want these to change\stop.</li> <li>• Education – not to change; friends – more; enjoyment; activities and experiences.</li> <li>• I don't want to see the school close and I don't want too many children coming to the school</li> <li>• The most important thing to me is the teachers and friends, without teachers there is no education.</li> <li>• The most important thing to me in school is my friends</li> <li>• The most important thing to me is education. Teachers and Pupils. My reason for saying this is that without Teachers there is no education and without education there are no pupils.</li> <li>• The most important thing to me in school is the headteacher which is Mrs Hughes; the main yard and play area; parking space.</li> <li>• The teachers, the food, how I learn.</li> <li>• Education; teachers; school dinner; friends; a colourful classroom</li> <li>• Friends; teachers that teach us well and education</li> </ul> <p><b>Below are notes taken during facilitator discussion:</b></p> <p>Children's comments highlight the importance of good teachers, friends and education as a consistent theme both orally and in writing</p>

Beth ddaeth yn amlwg o'r broses ymgynghori oedd bod disgyblion Ysgol Llanaelhaearn yn gweld Ysgol Chwilog fel eu dewis o ysgol pe byddai eu hysgol yn cau gan egluro eu bod eisioes yn adnabod y plant yn yr ysgol honno yn dda oherwydd eu bod yn gweld ei gilydd bob pwn Mawrth a lau ers rhai blynyddoedd. Roedd sylwadau disgyblion Ysgol Llanaelhaearn yn tueddu tuag at wrthod y dewis o ysgol fis Medi nesa yn hytrach na gwrthwynebu y bwriad o gau eu hysgol bresennol er bod hynny yn amlwg yn eu poeni a'u tristau.

Roedd yn amlwg fod disgyblion Bro Plenydd yn awyddus iawn i roi croeso cynnes i'r disgyblion newydd gan ddangos empathi a dealltwriaeth aeddfed o amgylchiadau anodd Ysgol Llanaelhaearn.

*What emerged from the consultation process was that pupils at Ysgol Llanaelhaearn saw Ysgol Chwilog as their preferred school were their school to close and explained that they already knew the children well at that school after visiting them every Tuesday and Thursday afternoon for some years. The comments of pupils at Ysgol Llanaelhaearn tended towards rejecting the choice of school next September rather than opposing the proposed closure of their current school although this clearly concerned and saddened them. It was clear that the pupils of Bro Plenydd were very keen to give a warm welcome to the new pupils showing empathy and a mature understanding of the difficult circumstances of Ysgol Llanaelhaearn.*

**Prif bwyntiau'r ymgynghori:**

**Key points from the consultation:**

Ysgol Llanaelhaearn	Ysgol Bro Plenydd
<p>Pawb yn erbyn y newid. <i>All against the change.</i></p>	<p>Pawb a ymatebodd o blaid y newid. <i>All those who responded in favour of the change.</i></p>
<p>Pe byddai'r plant yn cael dewis byddai pob un yn dewis mynychu Ysgol Chwilog. <i>If the children were given a choice everyone would choose to attend Ysgol Chwilog.</i></p>	<p>Disgyblion yn awyddus iawn i roi croeso i ddisgyblion Ysgol Llanaelhaearn ac yn edrych ymlaen i wneud ffrindiau newydd. <i>Pupils are very keen to welcome the pupils of Ysgol Llanaelhaearn and look forward to making new friends.</i></p>
<p>Colli cyfeillgarwch ffrindiau o Ysgol Chwilog wrth fynychu Ysgol Bro Plenydd yn poeni pob un o'r disgyblion. <i>Losing the friendship of friends from Ysgol Chwilog whilst attending Ysgol Bro Plenydd worries all pupils.</i></p>	<p>Disgyblion yn gweld manteision o ran cynyddu nifer yr ysgol ac yn awyddus i dderbyn adnoddau Ysgol Llanaelhaearn (ee bws mini, Technoleg a llyfrau ayyb) yn ogystal a'i disgyblion. <i>Pupils see benefits in terms of increasing the number of schools and are eager to receive the resources of Ysgol Llanaelhaearn (eg minibuses, Technology and books etc) as well as its pupils.</i></p>
<p>Gorfod teithio mewn car/bws i'r ysgol yn hytrach na cherdded yn poeni pob un o'r disgyblion ac un wedi dweud nad oedd yn deg ar ei fam/mam. <i>Having to travel by car / bus to school instead of walking worried all the pupils and one said it wasn't fair to his / her mother.</i></p>	<p>Disgyblion yn awyddus i ddeall fod disgyblion Ysgol Llanaelhaearn yn rhannu yr un gwerthoedd â nhw mewn perthynas ac ymddygiad da a pharch at eraill a phethau'r ysgol. <i>Pupils were keen to understand that the pupils of Ysgol Llanaelhaearn shared the same values as they did in relation to good behavior and respect for others and school's equipment etc.</i></p>



**Derbyniodd Cyngor Gwynedd 8 ymateb  
i'r Cyfnod Ymgynghori Statudol ar y  
cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn  
16 Rhagfyr 2019 – 29 Ionawr 2020**

---

**Gwynedd Council received 8 responses  
to the Statutory Consultation Period on the  
proposal to close Ysgol Llanaelhaearn  
16 December 2019 – 29 January 2020**

## Ffurflen Ymateb

Cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar y 31 Awst 2020, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr o 1 Medi 2020 yn unol ag adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013

Eich Manylion		Dyddiad: 15   1   20	
Erw	ALED JONES		
Cyfeiriad	LLWYNIER WYD, TREFOR		
Cyfeiriad E-bost	cynghor-ydd, ALEDWYNJONES @ Gwynedd. LLYW - CYMRU		
Rwy'n ymateb fel... (Cylchwch yr ymateb perthnasol)	Rhiant	Staff	Disgybl
	Arall (nodwch):		LLYWODRAETHOL
Os dymunwch dderbyn hysbysiad pan galff yr adroddiad ymgynghori ei gyhoeddi, tichwch y blwch priodol gyferbyn		<input checked="" type="checkbox"/> Hoffwn gael fy hysbysu <input type="checkbox"/> Na, nid wyf yn dymuno cael fy hysbysu	

**Yn unol â gofynion deddfwriaeth diogelu data, mae'n ofynnol i ni eich hysbysu o'r canlynol:**

Mae Cyngor Gwynedd yn celsio eich barn ar y cynnig hwn fel rhan o broses ymgynghori statudol. Defnyddir y manylion a ddarperir gennych i'r pwrpas hwn yn unig. Efallai y bydd y wybodaeth yn cael ei rannu gydag asiantaethau sy'n ymwneud a'r ymgynghoriad (e.e. Llywodraeth Cymru) ond dim ond at ddiben ymateb i faterion penodol gall eich bod wedi eu nodi yn eich ymateb. Byddwn yn parhau i ystyried eich sylwadau pa bynnag opsiwn a ddewisir. Cedwir eich manylion personol am 7 mlynedd.

Gyda'ch caniatâd, mae'n bosib y bydd eich sylwadau yn cael eu rhyddhau, yn llawn neu heb gynnwys manylion personol fel enwau a chyfeiriadau, mewn adroddiad i'r Cabinet ar yr ymgynghoriad. Os nad ydych yn dymuno i'r Cyngor gyhoeddi eich ymateb, nodwch isod trwy roi ✓ yn y blwch perthnasol os gwelwch yn dda:

- Cytunaf i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb yn llawn, gan gynnwys fy ngwybodaeth bersonol.
- Cytunaf i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb, heb gynnwys fy ngwybodaeth bersonol.
- Nid wyf yn cytuno i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb.

Am fwy o wybodaeth am eich hawliau a manylion Swyddog Diogelu Data'r Cyngor ewch i'r Adran Prefsatrydd ar wefan y Cyngor.

**Anfonwch eich ymateb at:**

Swyddfa Moderneiddio Addysg,  
Adran Addysg, Cyngor Gwynedd,  
Caernarfon  
LL55 1SH  
neu [ModerneiddioAddysg@gwynedd.llyw.cymru](mailto:ModerneiddioAddysg@gwynedd.llyw.cymru)

**Dyddiad cau: 13:00 ar ddydd Mercher, 29 Ionawr 2020**

Nodwch mai syllwadau yw'r ymatebion ac nid gwrthwynebiad i'r cynnig.

Bydd cyfle i wrthwynebu'r cynnig os bydd rhybudd statudol yn cael ei gyhoeddi.

**Syllwadau:**

HOFFWN WELD PLANT YR YSGOL YN BRESNOL GAEL DENIS SYMUD I YSGOL CAWILOG, A CAHUDIANT YN CAEL EI DREFNU I'R PLANT HYNNY.

## Ffurflen Ymateb

Cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar y 31 Awst 2020, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr o 1 Medi 2020 yn unol ag adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013

Eich Manylion		Dyddiad: 15.01.2020	
Enw	LYNDA COX		
Cyfeiriad	8 MAES GLAS LLANAELHAERN LLS4 SAR		
Cyfeiriad E-bost	lynda.cox @ llanaelhaearn.com		
Rwy'n ymateb fel... (Cylchwch yr ymateb perthnasol)	Rhiant	Staff	Disgybl
	Arall (nodwch):		LLYWODRAETHWR
Os dymunwch dderbyn hysbysiad pan gaiff yr adroddiad ymgynghori ei gyhoeddi, ticlwch y blwch priodol gyferbyn		<input checked="" type="checkbox"/> Hoffwn gael fy hysbysu <input type="checkbox"/> Na, nid wyf yn dymuno cael fy hysbysu	

## Yn unol â gofynion deddfwriaeth diogelu data, mae'n ofynnol i ni eich hysbysu o'r canlynol:

Mae Cyngor Gwynedd yn ceisio eich barn ar y cynnig hwn fel rhan o broses ymgynghori statudol. Defnyddir y manylion a ddarperir gennych i'r pwrpas hwn yn unig. Efallai y bydd y wybodaeth yn cael ei rannu gydag asiantaethau sy'n ymwneud a'r ymgynghoriad (e.e. Llywodraeth Cymru) ond dim ond at ddiben ymateb i faterion penodol gall eich bod wedi eu nodi yn eich ymateb. Byddwn yn parhau i ystyried eich sylwadau pa bynnag opsiwn a ddewisir. Cedwir eich manylion personol am 7 mlynedd.

Gyda'ch caniatâd, mae'n bosib y bydd eich sylwadau yn cael eu rhyddhau, yn llawn neu heb gynnwys manylion personol fel enwau a chyfeiriadau, mewn adroddiad i'r Cabinet ar yr ymgynghoriad. Os nad ydych yn dymuno i'r Cyngor gyhoeddi eich ymateb, nodwch isod trwy roi ✓ yn y blwch perthnasol os gwelwch yn dda:

- Cytunaf i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb yn llawn, gan gynnwys fy ngwybodaeth bersonol.
- Cytunaf i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb, heb gynnwys fy ngwybodaeth bersonol.
- Nid wyf yn cytuno i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb.

Am fwy o wybodaeth am eich hawliau a manylion Swyddog Diogelu Data'r Cyngor ewch i'r Adran Preifatrwydd ar wefan y Cyngor.

Anfonwch eich ymateb at:  
Swyddfa Moderneiddio Addysg,  
Adran Addysg, Cyngor Gwynedd,  
Caernarfon  
LL55 1SH  
neu [ModerneiddioAddysg@gwynedd.llyw.cymru](mailto:ModerneiddioAddysg@gwynedd.llyw.cymru)

Dyddiad cau: 13:00 ar ddydd Mercher, 29 Ionawr 2020

Nodwch mai syllwadau yw'r ymatebion ac nid gwrthwynebiad i'r cynnig.

Bydd cyfle i wrthwynebu'r cynnig os bydd rhybudd statudol yn cael ei gyhoeddi.

## Syllwadau:

Rwyf yn hysbysu gogfodol i gais y rhieni  
i'r disgyblion yn ysgol YSGOL CHWILOG a'r ol  
cau ysgol Llanaelhaearn, ac eu bod yn  
cael eiddiant. A bydd plant sydd yn dodrae  
ysgol o Medi 2020 yn UNIG yn cael  
eiddiant i'r ysgol ac nid yr hrai a symydodd  
ysgol cyn dyn.



**3**

**Nid yw'r ymatebydd yn fodlon i'r  
ymateb gael ei gyhoeddi**

---

**3**

**The respondent does not want the  
response to be published**

## Ffurflen Ymateb

Cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar y 31 Awst 2020, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr o 1 Medi 2020 yn unol ag adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013

Eich Manylion		Dyddiad: 15.1.2020	
Enw	Tracey Jones		
Cyfeiriad	Garreg 1 Llan fain Llanaelhaearn		
Cyfeiriad E-bost	traceyjones@hotmail.com		
Rwy'n ymateb fel... (Cylchwch yr ymateb perthnasol)	Rhiant <input checked="" type="checkbox"/>	Staff	Disgybl
	Arall (nodwch):		
Os dymunwch dderbyn hysbysiad pan gaiff yr adroddiad ymgynghori ei gyhoeddi, ticlwch y blwch priodol gyferbyn		<input checked="" type="checkbox"/> Hoffwn gael fy hysbysu <input type="checkbox"/> Na, nid wyf yn dymuno cael fy hysbysu	

Yn unol â gofynion deddfwriaeth diogelu data, mae'n ofynnol i ni eich hysbysu o'r canlynol:

Mae Cyngor Gwynedd yn ceisio eich barn ar y cynnig hwn fel rhan o broses ymgynghori statudol. Defnyddir y manylion a ddarperir gennych i'r pwrpas hwn yn unig. Efallai y bydd y wybodaeth yn cael ei rannu gydag asiantaethau sy'n ymwneud a'r ymgynghoriad (e.e. Llywodraeth Cymru) ond dim ond at ddiben ymateb i faterion penodol gall eich bod wedi eu nodi yn eich ymateb. Byddwn yn parhau i ystyried eich sylwadau pa bynnag opsiwn a ddewisir. Cedwir eich manylion personol am 7 mlynedd.

Gyda'ch caniatâd, mae'n bosib y bydd eich sylwadau yn cael eu rhyddhau, yn llawn neu heb gynnwys manylion personol fel enwau a chyfeiriadau, mewn adroddiad i'r Cabinet ar yr ymgynghoriad. Os nad ydych yn dymuno i'r Cyngor gyhoeddi eich ymateb, nodwch isod trwy roi  yn y blwch perthnasol os gwelwch yn dda:

- Cytunaf i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb yn llawn, gan gynnwys fy ngwybodaeth bersonol.
- Cytunaf i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb, heb gynnwys fy ngwybodaeth bersonol.
- Nid wyf yn cytuno i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb.

Am fwy o wybodaeth am eich hawliau a manylion Swyddog Diogelu Data'r Cyngor ewch i'r Adran Preifatrwydd ar wefan y Cyngor.

Anfonwch eich ymateb at:  
Swyddfa Moderneiddio Addysg,  
Adran Addysg, Cyngor Gwynedd,  
Caernarfon  
LL55 1SH  
neu [ModerneiddioAddysg@gwynedd.llyw.cymru](mailto:ModerneiddioAddysg@gwynedd.llyw.cymru)

Dyddiad cau: 13:00 ar ddydd Mercher, 29 Ionawr 2020

Nodwch mai syllwadau yw'r ymatebion ac nid gwrthwynebiad i'r cynnig.

Bydd cyfle i wrthwynebu'r cynnig os bydd rhybudd statudol yn cael ei gyhoeddi.

Syllwadau:

Rydym yn dymuno i [redacted] fynd i Ysgol Cawilog o Fedi 2020 ac i drefniadaeth seil ei threfnu i fynd â'r plant bob dydd [redacted]

## Response Form

Proposal to close Ysgol Llanaelhaearn on 31 August 2020, and offer a place for the pupils at Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr from 1 September 2020 in accordance with section 48 of the School Standards and Organisation Act 2013

In accordance with data protection legislation requirements, we are required to inform you of the following:

Gwynedd Council is seeking your views on this proposal as part of a statutory consultation process. The details you provide will be used for this purpose only. The information may be shared with agencies involved in the consultation (e.g. the Welsh Government) solely in order to respond to specific matters that you may have raised. We will continue to consider your comments, whichever option is chosen. Your personal details will be kept for 7 years.

With your permission, we may reproduce responses, in full or having taken out personal details such as names and addresses, in a report to the Cabinet on the statutory consultation. If you do not wish the Council to publish your response, please state below by placing a ✓ in the relevant box, please:

I agree that the Council can publish my response in full including my personal information.

I agree that the Council can publish my response, after removing my personal information.

No, the Council should not publish my response.

For further information about your rights and the Council's Data Protection Officer visit the Privacy section on the Council website.

Please return your response to:  
 Modernising Education Office,  
 Education Department, Gwynedd Council,  
 Caernarfon  
 LL55 1SH  
 or [ModernisingEducation@gwynedd.llyw.cymru](mailto:ModernisingEducation@gwynedd.llyw.cymru)

Closing Date: 13:00 on Wednesday, 29 January 2020

Please note that these responses are comments and not  
objections to the proposal.

There will be an opportunity to object to the proposal  
 should a statutory notice be published.

Comments: I would like [redacted] to be  
 Placed at ysgol Chwilog and transport to be provided to  
 and from school.

## Response Form

Proposal to close Ysgol Llanaelhaearn on 31 August 2020, and offer a place for the pupils at Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr from 1 September 2020 in accordance with section 48 of the School Standards and Organisation Act 2013

In accordance with data protection legislation requirements, we are required to inform you of the following:

Gwynedd Council is seeking your views on this proposal as part of a statutory consultation process. The details you provide will be used for this purpose only. The information may be shared with agencies involved in the consultation (e.g. the Welsh Government) solely in order to respond to specific matters that you may have raised. We will continue to consider your comments, whichever option is chosen. Your personal details will be kept for 7 years.

With your permission, we may reproduce responses, in full or having taken out personal details such as names and addresses, in a report to the Cabinet on the statutory consultation. If you do not wish the Council to publish your response, please state below by placing a ✓ in the relevant box, please:

- I agree that the Council can publish my response in full including my personal information.
- I agree that the Council can publish my response, after removing my personal information.
- No, the Council should not publish my response.

For further information about your rights and the Council's Data Protection Officer visit the Privacy section on the Council website.

Please return your response to:  
Modernising Education Office,  
Education Department, Gwynedd Council,  
Caernarfon  
LL55 1SH  
or [ModernisingEducation@gwynedd.llyw.cymru](mailto:ModernisingEducation@gwynedd.llyw.cymru)

Closing Date: 13:00 on Wednesday, 29 January 2020

Please note that these responses are comments and not objections to the proposal.

There will be an opportunity to object to the proposal should a statutory notice be published.

Comments:

I would like [REDACTED] to attend ysgol chwilog as he already goes there now with ysgol Llanaelhaearn and has settled in well us as parents wouldn't want to separate the children. I would also like transport as I don't drive - [REDACTED]



## Response Form

Proposal to close Ysgol Llanaelhaearn on 31 August 2020, and offer a place for the pupils at Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr from 1 September 2020 in accordance with section 48 of the School Standards and Organisation Act 2013

In accordance with data protection legislation requirements, we are required to inform you of the following:

Gwynedd Council is seeking your views on this proposal as part of a statutory consultation process. The details you provide will be used for this purpose only. The Information may be shared with agencies involved in the consultation (e.g. the Welsh Government) solely in order to respond to specific matters that you may have raised. We will continue to consider your comments, whichever option is chosen. Your personal details will be kept for 7 years.

With your permission, we may reproduce responses, in full or having taken out personal details such as names and addresses, in a report to the Cabinet on the statutory consultation. If you do not wish the Council to publish your response, please state below by placing a ✓ in the relevant box, please:

- I agree that the Council can publish my response in full including my personal information.
- I agree that the Council can publish my response, after removing my personal information.
- No, the Council should not publish my response.

For further information about your rights and the Council's Data Protection Officer visit the Privacy section on the Council website.

Please return your response to:  
 Modernising Education Office,  
 Education Department, Gwynedd Council,  
 Caernarfon  
 LL55 1SH  
 or [ModernisingEducation@gwynedd.llyw.cymru](mailto:ModernisingEducation@gwynedd.llyw.cymru)

Closing Date: 13:00 on Wednesday, 29 January 2020

Please note that these responses are comments and not objections to the proposal.

There will be an opportunity to object to the proposal should a statutory notice be published.

Comments: I would wish for my children to go to Chwilog School as my [REDACTED] will be going to Ysgol Gŵen-y-mor in 2021. and as settled and as don't want him to change from schools in his last years. my children have made friends and know the teachers and very happy at Chwilog.

## **Ymateb Estyn i'r cynnig gan Gyngor Gwynedd i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020.**

### **Cyflwyniad**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

### **Crynodeb/Casgliad**

Dyma gynnig ymgynghorol gan Gyngor Sir Gwynedd. Y cynnig yw:

- cau ysgol Llanaelhaearn ar y 31 Awst 2020
- cynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Bro Plenydd o 1 Medi 2020

Mae'r Cyngor wedi ystyried ystod o opsiynau'n briodol ac wedi dewis y cynnig uchod.

Ym marn Estyn mae'r cynnig hwn o leiaf yn debygol o gynnal y safonau addysg presennol.

### **Disgrifiad a manteision**

Gan fod y cynigiwr yn cynnig cau ysgol wledig mae'n nodi'n glir y rhesymau dros llunio'r cynnig a'r ystyriaethau gofalus y tu ôl i hyn. Mae hefyd yn nodi manteision eraill yn ogystal, fel yr effaith bositif o ran cost-effeithiolrwydd i'r awdurdod addysg a lleihau llefydd gweigion. Mae'n nodi'r heriau allweddol mae'r ysgol yn ei hwynebu a sut maent am fynd i'r afael â nhw trwy gynnig gau'r ysgol. Y prif heriau a nodir yw:

- sefyllfa fregus yr ysgol yn dilyn cwmp sylweddol mewn niferoedd gydag wyth disgybl ar y gofrestr yng nghyfrifiad Medi 2019
- diffyg profiadau i'r disgyblion o gymdeithasu a chydweithio yn ddyddiol gyda chyfoedion mewn parau a grwpiau
- dengys rhagamcanion y bydd cwmp pellach gyda 5 o ddisgyblion ar y gofrestr erbyn 2021.
- dosbarthiadau bychain iawn gan yr addysgir yr wyth disgybl hyn mewn dau ddosbarth (un dosbarth o dri disgybl ac un dosbarth o bum disgybl)
- cost fesul disgybl sylweddol cynnal yr ysgol (£12,671 o gymharu â chost cyfartaledd sirol o £3,884)
- ansicrwydd ynghylch arweinyddiaeth barhaol
- colli plant i ysgolion cyfagos (14 yn mynd i dair ysgol arall Medi 2018)

Mae'r cynigiwr yn nodi'n glir y manteision a'r anfanteision disgwylidig o gymharu â'r sefyllfa bresennol. Mae'n ystyried opsiynau eraill posib ac wedi rhoi rhesymau priodol ynghylch pam mae'r rhain wedi cael eu diystyru. Sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol (PAY) Llanaelhaearn yn cynnwys pennaeth yr ysgol, llywodraethwyr, Aelod Lleol, rhieni, a staff. Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd i ystyried wyth o opsiynau. Mae'r rhain yn cynnwys gwneud dim, newid y strwythur staffio, sefydlu uned arsylwi blynyddoedd cynnar, ffederaleiddio, sefydlu darpariaeth gofal plant neu gau'r ysgol. Penderfynwyd ymchwilio ymhellach i ddau opsiwn sef ffederaleiddio neu gau'r ysgol.

Mae'r cynigiwr yn amlinellu'r buddion, yr anfanteision a'r risgiau posibl yn briodol ac yn nodi'r opsiwn mae'n ei ffafrio, sef cau Ysgol Llanaelhaearn ar y 31 Awst 2020 a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Bro Plenydd o 1 Medi 2020.

Ystyriwyd y posibilrwydd o ffederaleiddio gydag amrywiaeth o ysgolion cyfagos, yn benodol Yr Eifl, Bro Plenydd, Llanybi, Pentreuchaf a Chwilog. Cynigir rhesymau dilys tros ddewis Ysgol Bro Plenydd fel yr 'ysgol amgen'. Fodd bynnag, gan fod niferoedd Ysgol Llanaelhaearn wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus gyda 8 disgybl ar y gofrestr, dengys yr asesiad ffederaleiddio nad oedd yr opsiwn hwn yn ymateb i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu. Byddai niferoedd yr ysgol yn parhau i fod yn isel, a maint y dosbarthiadau hefyd yn parhau i fod yn fychan. Cyfeiriwyd hefyd nad oedd manteision eglur i ysgolion eraill o ffederaleiddio gydag Ysgol Llanaelhaearn.

Mae'r cynigiwr yn datgan yn gadarn pam ei fod yn ffafrio'r cynnig o gau Ysgol Llanaelhaearn ac yn cyfeirio at y manteision amlwg:

- sicrhau arweinyddiaeth barhaol
- cynnig profiadau i ddisgyblion i gymdeithasu a chydweithio yn ddyddiol gyda chyfoedion
- galluogi'r disgyblion i fanteisio ar ystod o brofiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol
- addysgu'r plant mewn dosbarthiadau o faint mwy addas
- lleihau niferoedd llefydd gweigion (83% yn Ysgol Llanaelhaearn)
- lleihau'r amrediad o lwfans y pen ar gyfer holl ddisgyblion y Sir

Mae'r cynnig yn ystyried y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn briodol. Mae'n cyfeirio at weithredu Polisi Iaith yr awdurdod lleol. Ymddengys na fyddai effaith negyddol ar ddarpariaeth y Gymraeg i'r disgyblion hyn. Byddai'r disgyblion yn derbyn addysg mewn ysgol sydd â chanran uwch o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn y cartref, ac mewn ward (Abererch) ble mae canran uwch o siaradwyr Cymraeg na Ward Llanaelhaearn.

Cwblhaodd y cynigiwr asesiad defnyddiol o effaith cymunedol yr opsiynau. Dengys yr asesiad y bydd peth effaith negyddol o gau'r ysgol ar y gymuned gan fod yr ysgol yn ymwneud a'i chymuned ac yn defnyddio cyfleusterau'r gymuned, megis Canolfan y Babell yn gyson. I geisio lliniaru'r effaith ar y gymuned nodir rai cyfleoedd posib i sicrhau fod cymuned Llanaelhaearn yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Bro Plenydd a chymuned Llanaelhaearn, lle'n briodol.

Mae'r cynigiwr yn nodi bod gan adeilad Ysgol Bro Plenydd gyfleusterau cyfystyr ac Ysgol Llanaelhaearn i gynnig darpariaeth arbenigol sy'n addas ar gyfer disgyblion ag

anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw'n nodi'n ddigon clir yr effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig ac nid yw'r cynnig yn ystyried trefniadau hygyrchedd i ddisgyblion ag anabledd.

Mae'r cynigiwr wedi nodi'r anfanteision o'r cynnig hwn, yn cynnwys adleoli disgyblion, diswyddo staff, diddymu'r corff llywodraethol, a chodiad yng nghostau cludiant. Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried yr anfanteision ac yn nodi y byddant yn darparu cludiant i ddisgyblion cymwys yn unol â'u polisi cludiant. Byddant hefyd yn ymgynghori yn benodol â staff a chynrychiolwyr yr undebau fel rhan o'r cyfnod ymgynghori statudol. Bydd unrhyw ddiswyddiadau sy'n deillio o'r cynnig yn cydymffurfio â'r gyfraith gyflogaeth angenrheidiol a chynllun diswyddo Gwynedd a bydd cyfleoedd i staff drafod eu sefyllfa gydag aelodau o'r gwasanaeth adnoddau dynol .

Ymddengys bod y cynnig yn darparu cyfleoedd buddiol i randdeiliaid, sefydliadau ac aelodau'r cyhoedd ymateb i'r cynnig. Mae cyfle i gynrychiolwyr sefydliadau ymateb i'r ymgynghoriadau.

Ar y cyfan mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith a chost y cynigion ar drefniadau teithio disgyblion ond nid ar hygyrchedd y ddarpariaeth deithio ar gyfer disgyblion ag anghenion arbennig. Mae Ysgol Llanaelhaearn wedi ei leoli 3.6 milltir o safle presennol Ysgol Bro Plenydd a rhagwelir y byddai'r daith oddeutu 5 munud bob ffordd mewn car neu fws. Byddai cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant ysgolion y Sir.

### **Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'r cynigiwr yn rhoi ystyriaeth bwrpasol i effaith y cynigion ar ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth yn yr ysgolion. Mae'n cyfeirio'n berthnasol at ddeilliannau adroddiadau arolygu diweddaraf Estyn ar Ysgol Llanaelhaearn ac Ysgol Bro Plenydd, a'u categorïau a band cymorth. Yn mesurau hyn i gyd mae Ysgol Bro Plenydd yn gryfach nac Ysgol Llanaelhaearn. Mae'n dod i'r casgliad rhesymol nad yw'n rhagweld unrhyw effeithiau negyddol ar ansawdd safonau addysg, lles, profiadau dysgu neu arweinyddiaeth. O ganlyniad, mae tebygolrwydd cryf y bydd y cynnig hwn o leiaf yn debygol o gynnal, os nad gwella, y safonau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth bresennol.

Mae'n debygol y bydd yr opsiwn o gau Ysgol Llanaelhaearn yn datrys y sefyllfa fregus o ran diffyg trefniadau arweinyddiaeth wydn yn yr ysgol honno. Byddai gwireddu'r opsiwn hefyd yn debygol o wella profiadau cymdeithasol ac addysgu'r disgyblion drwy roi cyfleoedd i ddisgyblion gael eu haddysgu mewn grwpiau o gyfoedion sydd â llawer llai o amrediad oedran.

Noda'r cynigiwr hefyd yr amrywiaeth ehangach o gyfleusterau a fydd ar gael, a mynediad gwell at adnoddau a staffio. Mae'n cyfeirio y gall ysgolion gyda niferoedd uwch o blant gynig strwythur mwy cadarn i gynllunio a darparu'r cwricwlwm. Yn ogystal, gellir canoli nifer o gyfrifoldebau megis rhai yn ymwneud a'r cwricwlwm a materion rheolaethol, sy'n gallu bod yn faich i sefydliadau bach, e.e. trefniadau arfarnu, cynlluniau datblygu, rheoli perfformiad..



Mae'r cynigiwr wedi cynnal asesiad o effaith y cynnig ar gydraddoldeb ac yn honni'n rhesymol na ddylai'r cynnig gael effaith andwyol ar unrhyw grwpiau penodol. Fodd bynnag, nid cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth briodol i aflonyddwch posibl ar ddisgyblion presennol.

## **Estyn's response to the proposal by Gwynedd Council to close Ysgol Llanaelhaearn on 31<sup>st</sup> August 2020.**

### **Introduction**

This report has been prepared by Her Majesty's Inspectors of Education and Training in Wales.

Under the terms of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 and its associated Code, proposers are required to send consultation documents to Estyn. However Estyn is not a body which is required to act in accordance with the Code and the Act places no statutory requirements on Estyn in respect of school organisation matters. Therefore as a body being consulted, Estyn will provide their opinion only on the overall merits of school organisation proposals.

Estyn has considered the educational aspects of the proposal and has produced the following response to the information provided by the proposer.

### **Summary/Conclusion**

This is a consultation proposal by Gwynedd County Council. The proposal is as follows:

- to close Ysgol Llanaelhaearn on 31<sup>st</sup> August 2020
- to provide a place for pupils as Ysgol Bro Plenydd

The Council has considered a range of appropriate options and chosen the above proposal.

Estyn is of the opinion that this proposal is likely to at least maintain the current standard of education.

### **Description and benefits**

As the proposer is proposing to close a rural school, it has identified clearly the reasons for the proposal and the careful considerations behind it. It also identifies other benefits, such as the positive effect in terms of cost-effectiveness to the education authority and reducing the number of surplus places. It identifies the key challenges that the school faces and how it will address them through the proposal to close the school. The main challenges that are identified are as follows:

- the school's vulnerable situation following a significant decline in pupil numbers, with eight pupils on roll in September 2019
- the lack of experiences for pupils to socialise and work in pairs and groups on a daily basis
- projections show that there will be a further decline, with 5 pupils on roll by 2021
- very small class sizes, as the eight pupils are taught in two classes (one class of three pupils and one class of five pupils)
- the significant cost per pupil of maintaining the school (£12,671 compared with the county-wide average of £3,884)
- uncertainty in terms of permanent leadership

- losing children to nearby schools (14 went to three other schools in September 2018)

The proposer identifies clearly the expected advantages and disadvantages in comparison with the status quo. It considers other possible options and has given appropriate reasons why these have been disregarded. Llanaelhaearn School Review Panel (SRP) was established, including the school's headteacher, governors the Local Member, parents and staff. A series of meetings were held to consider eight options. These include do nothing, change the staffing structure, establish an early years observation unit, federalisation, establish childcare provision or close the school. It was decided to explore two options, namely federalise or close the school.

The proposer outlines the benefits, disadvantages and potential risks appropriately and identifies its favoured option, which is to close Ysgol Llanaelhaearn on 31<sup>st</sup> August 2020 and provide a place for pupils at Ysgol Bro Plenydd from 1<sup>st</sup> September 2020.

The possibility of federating with a variety of nearby schools was considered, specifically Yr Eifl, Bro Plenydd, Llangybi, Pentreuchaf and Chwilog. Valid reasons are provided for selecting Ysgol Bro Plenydd as the 'alternative school'. However, as pupil numbers at Ysgol Llanaelhaearn have reached a critical situation with 8 pupils on roll, the federalisation assessment showed that this option did not respond to the main challenges that the school faces. School numbers would remain low and class sizes would also continue to be small. It was also noted that there were no clear advantages to other schools of federating with Ysgol Llanaelhaearn.

The proposer states firmly why it favours the proposal of closing Ysgol Llanaelhaearn and refers to the clear benefits:

- to ensure permanent leadership
- to provide experiences for pupils to socialise and work with their peers on a daily basis
- to enable pupils to benefit from a range of curricular and extra-curricular experiences
- to educate children in classes of a more suitable size
- to reduce the number of surplus places (83% at Ysgol Llanaelhaearn)
- to reduce the cost per head range for all pupils in the county

The proposal gives appropriate consideration to provision for the Welsh language. It refers to implementing the local authority's Language Policy. It appears that there will be no negative effect on Welsh language provision for these pupils. Pupils would receive education in a school in which a higher percentage of pupils come from Welsh-speaking homes, and in a ward (Abererch) in which there is a higher percentage of Welsh speakers than in the Llanaelhaearn ward.

The proposer completed a useful assessment of the community impact of the option. The assessment shows that closing the school would have some negative effect, as the school is involved with its community and uses its community's facilities, such as Canolfan y Babell, on a regular basis. In order to try to mitigate the effect on the community, some potential opportunities are identified to ensure that the community

of Llanaelhaearn is aware of the alternative school's activities, and community co-operation will be encouraged between Ysgol Bro Plenydd and the community of Llanaelhaearn, where appropriate.

The proposer notes that Ysgol Bro Plenydd has similar facilities to Ysgol Llanaelhaearn to provide specialist provision that is suitable for pupils with additional learning needs. However, it does not identify clearly enough the effect on SEN pupils and the proposal does not consider accessibility arrangements for disabled pupils.

The proposer has identified the disadvantages of this proposal, including relocating pupils, staff redundancies, dissolving the governing body and an increase in transport costs. The local authority has considered the disadvantages and has noted that it will provide transport for eligible pupils in line with its transport policy. It will also consult specifically with staff and union representatives as part of the statutory consultation period. Any redundancies that derive from the proposal will comply with necessary employment law and Gwynedd redundancy scheme, and there will be opportunities for staff to discuss their situation with members of human resources.

The proposal appears to provide beneficial opportunities for stakeholders, organisations and members of the public to respond to the proposal. There is an opportunity to representatives of organisations to respond to the consultations.

On the whole, the proposer has given sufficient consideration to the effect and cost of the proposals on pupils' travel arrangements, but not to the accessibility of transport provision for pupils with special needs. Ysgol Llanaelhaearn is located 3.6 miles from the current site of Ysgol Bro Plenydd and it is anticipated that the journey would take around 5 minutes each way by car or bus. Transport would be provided in line with the county's School Transport Policy.

### **Educational aspects of the proposal**

The proposer gives purposeful consideration to the effect of the proposals on the quality of outcomes, provision and leadership at the schools. It refers relevantly to the most recent Estyn inspection reports for Ysgol Llanaelhaearn and Ysgol Bro Plenydd, and their categories and support bands. In all of these measures, Ysgol Bro Plenydd is stronger than Ysgol Llanaelhaearn. The proposer comes to the reasonable conclusion that it does not anticipate any negative effects on standards of education, wellbeing, learning experiences and leadership. As a result, there is a strong likelihood that this proposal is at least likely to maintain, if not improve, the existing standards, provision and leadership.

It is likely that the option to close Ysgol Llanaelhaearn will solve the vulnerable situation in terms of the lack of robust leadership arrangements at the school. Implementing this option would also be likely to improve pupils' social and educational experiences by providing opportunities for pupils to be taught in peer groups with much smaller age ranges.

The proposer also identifies the wider variety of facilities that would be available, in addition to better access to resources and staffing. It refers to the fact that schools with a higher number of pupils are able to provide a more robust structure for planning and delivering the curriculum. In addition, a number of responsibilities can be centralised, such as those relating to the curriculum and management issues, which can be a burden for small organisations e.g. evaluation arrangements, development plans, performance management.


The proposer has conducted an equality impact assessment and asserts reasonably that the proposal should not have a detrimental effect on any particular group. However, the proposer has not given appropriate consideration to the possible disruption for existing pupils.

# Atodiad D



## Aseidiadau Effaith Ysgol Llanaelhaearn

Aseiad Effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg
Aseiad Effaith debygol ar drefniadau teithio
Aseiad Effaith debygol ar y Gymuned
Aseiad Effaith Ieithyddol
Aseiad Llesiant
Aseiad Cydraddoldeb



# **Adroddiad Asesu Ansawdd a Safonau Addysg - Ysgol Llanaelhaearn**

- Chwefror 2020

1. CYFLWYNIAD
2. CRYNODEB
3. ASESIAD O EFFAITH AR SAFONAU AC ANSAWDD ADDYSG
4. CASGLIAD



## 1. CYFLWYNIAD

---

Ar y 4ydd o Fehefin 2019, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd ganiatáu i'r Adran Addysg 'gynnal cyfarfodydd ffurfiol gyda'r corff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill i drafod ystod o opsiynau posibl ar gyfer dyfodol yr ysgol' o ganlyniad i bryderon yr Adran Addysg ynghylch cwmp sylweddol mewn niferoedd yn mynychu'r ysgol.

Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, sydd yn cynnwys 'Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig', mae angen gwneud asesiad ar yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg ar unrhyw opsiwn rhesymol a ellir datrys y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu. At ddiben y Cod, mae Ysgol Llanaelhaearn wedi ei dynodi fel 'Ysgol Wledig'.

*"Mae'r ail fersiwn hon o'r Cod yn gwneud trefniadau arbennig mewn perthynas ag ysgolion gwledig, gan sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn eu cau. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr ddilyn cyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig, wrth ymgynghori ar benderfyniad ynghylch a ddylid gweithredu cynnig i gau ysgol wledig ac wrth wneud y penderfyniad."*

*"Nid yw hyn yn golygu na fydd ysgol wledig byth yn cau, ond bod yn rhaid i'r achos dros ei chau fod yn gryf, a bod pob opsiwn ymarferol arall wedi'u hystyried yn gydwybodol gan y cynigydd, gan gynnwys ffedereiddio."*

Ffynhonnell: Cod Trefniadaeth Ysgolion 011 /2018

Mae Ysgol Llanaelhaearn wedi ei lleoli yng nghanol pentref Llanaelhaearn sydd rhwng Pwllheli a Chaernarfon. Mae gan yr Ysgol gapasiti Meithrin i Flwyddyn 6 o 53, gyda 8 o ddisgyblion rhwng 3-11 oed yn mynychu'r ysgol (Cyfrifiad Medi 2019). Mae'r disgyblion i gyd yn byw yn nalgylch Llanaelhaearn.

Mae niferoedd disgyblion sydd yn mynychu'r ysgol wedi lleihau yn sylweddol ers 2013, pan fu dros 40 o ddisgyblion yn yr ysgol. Mae'r 8 disgybl sydd bellach yn mynychu yn cael eu haddysgu mewn dau ddsbarth gyda thri disgybl mewn un dosbarth a pum disgybl yn y llall.

Ar y 24ain o Fehefin 2019, cynhaliwyd cyfarfod i adolygu sefyllfa'r ysgol, ble cynigwyd nifer o opsiynau i'w hystyried ar gyfer dyfodol yr ysgol. Bu cyfarfodydd pellach ym mis Medi i werthuso'r opsiynau gan adnabod yr opsiynau a fyddai'n rhesymol i geisio datrys yr her y mae'r ysgol yn ei wynebu, sef niferoedd isel o ddisgyblion.

Ar y 5ed o Dachwedd 2019, cytunodd Cabinet Cyngor Gwynedd i gychwyn cyfnod o ymgynghori statudol yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020 a darparu lle i'r disgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffor, ar y 1af Medi 2020.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol rhwng 16 Rhagfyr 2019 a 29 Ionawr 2020, a derbyniwyd 8 ymateb i'r ymgynghoriad.

## 2. CRYNODEB

---

Bu i Ysgol Llanaelhaearn gael ei harolygu gan Estyn diwethaf yn 2015 ble daethpwyd i'r casgliad mai digonol oedd perfformiad presennol yr ysgol ynghyd a'r rhagolygon gwella. Cydnabyddir fod yr ysgol wedi bod ar daith gwella ers cyfnod yr arolygiad a bod sawl Pennaeth wedi arwain yr ysgol ers hynny.

Yn 2019 gosodwyd yr ysgol yn y categori melyn o ran cefnogaeth a gallu'r ysgol i wella gan Lywodraeth Cymru.

Mae crynodeb isod o arolygon diweddaraf ysgolion cyfagos, neu ysgolion sydd yn destun unrhyw un o'r opsiynau rhesymol ar gyfer dyfodol Ysgol Llanaelhaearn.

## 2.1 Ysgol Llanaelhaearn

Mae Ysgol Llanaelhaearn wedi ei lleoli yng nghanol pentref Llanaelhaearn, sydd rhwng Pwllheli a Chaernarfon yng Ngwynedd. Mae dalgylch yr ysgol yn cynnwys y pentref ac ardal gyfagos, sydd wedi ei leoli rhwng dalgylchoedd Ysgolion yr Eifl (Trefor), Ysgol Llangybi, Ysgol Bro Plenydd (Y Ffôr) ac Ysgol Pentreuchaf.

Bu i Ysgol Llanaelhaearn gael ei harolygu diwethaf yn 2015, pan oedd 28 o ddisgyblion ar y gofrestr, oedd yn cael eu haddysgu mewn dau ddsbarth cymysg eu hoedran.

Cydnabyddir yn ogystal, oherwydd cymhareb isel disgybl i athro sydd ar hyn o bryd yn Ysgol Llanaelhaearn, fod y plant yn gwneud cynnydd da.

Ysgol	Blwyddyn yr archwiliad	Pa mor dda yw'r deilliannau?	Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Lefel y Dilyniant (os yn briodol)		Categori Cefnogaeth Llywodraeth Cymru 2019
Llanaelhaearn	Ebrill 2015	Digonol	Digonol	Anfoddhaol	Hydref 2016	Cynnydd Da	Melyn

## 2.2 Ysgolion eraill yr ardal

Ysgol	Blwyddyn yr archwiliad	Pa mor dda yw'r deilliannau?	Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Lefel y Dilyniant (os yn briodol)		Categori Cefnogaeth Llywodraeth Cymru 2019
Yr Eifl	Rhagfyr 2014	Digonol	Da	Digonol	Mehefin 2016	Cynnydd Da	Melyn
Bro Plenydd	Chwefror 2015	Da	Da	Da	-	-	Gwyrdd
Chwilog	Ionawr 2013	Digonol	Digonol	Anfoddhaol	Ebrill 2014	Gwelliant Sylweddol	Melyn

Mae'r tabl isod yn crynhoi adroddiad arolwg Estyn yr ysgol sydd wedi cael eu harolygu ers Medi 2017, pan fu i Estyn gyflwyno'r pum maes adolygu:

Ysgol	Blwyddyn yr archwiliad	Safonau	Lles ac agweddau at ddysgu	Addysgu a phrofiadau dysgu	Gofal, cymorth ac arweiniad	Arweinyddiaeth a rheolaeth	Categori Cefnogaeth Llywodraeth Cymru 2019
Llangybi	Rhagfyr 2018	Da	Da	Da	Da	Da	Melyn
Pentreuchaf	Ebrill 2019	Da	Da	Da	Da	Da	Gwyrdd

### 3. ASESIAID O EFFAITH AR ANSAWDD A SAFONAU ADDYSG

---

Mae'r asesiad hwn wedi ei gynnal, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, ar ddau opsiwn a fyddai'n cynnig manteision o gymharu â sefyllfa bresennol yr ysgol, sef ffederaleiddio gydag ysgol neu ysgolion eraill, neu gau'r ysgol a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen.

Mae'r opsiwn hynny, yn ychwanegol i wneud dim a pharhau gyda'r sefyllfa bresennol, wedi eu manylu isod.

- *Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.*

Byddai cadw'r drefn bresennol yn golygu fod Ysgol Llanaelhaearn yn parhau yn yr un modd, gyda'r un strwythur staffio. Byddai Pennaeth Strategol ar Ysgol Llanaelhaearn, Garndolbenmaen a Chwilog a byddai'n treulio 1 diwrnod yr wythnos yn arwain Ysgol Llanaelhaearn.

Byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu gan athrawes lawn amser ac uwch-gymhorthydd.

- *Ffederaleiddio gydag Ysgol / Ysgolion eraill*

Byddai Ysgol Llanaelhaearn yn ffurfio model ffederal ffurfiol, gyfreithiol gydag ysgol neu ysgolion eraill cyfagos. Yn ddaearyddol, yr ysgolion a fyddai'n rhesymol i'w hystyried byddai un neu fwy o'r ysgolion canlynol; Yr Eifl, Llanybi, Bro Plenydd, Chwilog, neu Pentreuchaf.

Golyga hyn fod yr ysgolion yn parhau ar wahân ond fod y Cyrff Llywodraethu yn cael eu diddymu, a bod un Corff Llywodraethol yn cael ei ethol ar gyfer y Ffederasiwn. Byddai cyllidebau'r ysgolion yn parhau fel y maen nhw.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynyddu ar gyfleon y disgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

- *Cau Ysgol Llanaelhaearn a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen*

Golyga hyn fod Ysgol Llanaelhaearn yn cau, a'r disgyblion presennol yn trosglwyddo i Ysgol Bro Plenydd (yr ysgol amgen).

**Mae rhai o'r ymatebion a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn awgrymu y byddai rhai rhieni yn dewis gwneud cais i drosglwyddo eu plant i Ysgol Chwilog yn hytrach na iddynt fynychu Ysgol Bro Plenydd. Mae gan rieni hawl i ddewis i ymgeisio am le i'w plentyn mewn ysgol o'u dewis, yn unol â pholisi mynediad yr Awdurdod.**

Nodir Estyn yn ei ymateb i'r ymgynghoriad:

*"Mae'r cynigiwr yn rhoi ystyriaeth bwrpasol i effaith y cynigion ar ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth yn yr ysgolion. Mae'n cyfeirio'n berthnasol ar ddeilliannau adroddiadau arolygu diweddaraf Estyn ar Ysgol Llanaelhaearn ac Ysgol Bro Plenydd, a'r categorïau a band cymorth. Yn y mesurau hyn i gyd mae Ysgol Plenydd yn gryfach nac Ysgol Llanaelhaearn. Mae'n dod i'r casgliad rhesymol nad yw'n rhagweld unrhyw effeithiau negyddol ar ansawdd safonau addysg, lles, profiadau dysgu neu arweinyddiaeth. O ganlyniad, mae tebygolrwydd cryf y bydd y cynnig hwn o leiaf yn debygol o gynnal, os nad gwella safonau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth bresennol."*

**GWNEUD DIM - ASESIAID O'R EFFAITH AR ANSAWDD A SAFONAU ADDYSG**

<b>Positif</b>	<b>Niwtral</b>	<b>Negyddol</b>
----------------	----------------	-----------------

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Dim newid	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Dim newid	Niwtral
Profiadau addysgu a dysgu	Dim newid	Niwtral
Arweiniad a chymorth gofal	Dim newid	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Dim newid	Niwtral
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Dim newid	Niwtral
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Dim newid	Niwtral

*Mae'r asesiad uchod wedi'i wneud yn seiliedig ar wybodaeth adroddiad Estyn Ysgol Llanaelhaearn Ebrill 2015.*

**FFEDERALEIDDIO - ASESIAD O'R EFFAITH AR ANSAWDD A SAFONAU ADDYSG**

<b>Positif</b>	<b>Niwtral</b>	<b>Negyddol</b>
----------------	----------------	-----------------

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos. Mae pob un o'r ysgolion dan sylw wedi eu gosod yn yr un categori a Llanaelhaearn, fan lleiaf.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddyngu	Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos. Mae pob un o'r ysgolion dan sylw wedi eu gosod yn yr un categori a Llanaelhaearn, fan lleiaf.	Niwtral
Profiadau addysgu a dysgu	Mae'r trefniant presennol o gyd-weithio gydag Ysgol Chwilog yn rhoi profiadau a chyfleon pontio i'r disgyblion. Byddai model ffederal yn debygol o gynnwys yr un cyfleon, gyda'r posibilrwydd o ehangu ar hyn.	Positif
Arweiniad a chymorth gofal	Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos. Mae pob un o'r ysgolion dan sylw wedi eu gosod yn yr un categori a Llanaelhaearn, fan lleiaf.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Arbed amser y Pennaeth drwy gynllunio ar draws y ffederasiwn yn hytrach nac ar gyfer ysgolion unigol.	Positif
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Ni fyddai darpariaethau i grwpiau agored i niwed yn newid o dan fodel ffederal.	Niwtral
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Dim newid gan y bydd Ysgol Llanaelhaearn yn parhau.	Niwtral

*Mae'r asesiad uchod wedi'i wneud yn seiliedig ar wybodaeth adroddiad Estyn Ysgol Llanaelhaearn Ebrill 2015; Ysgol Bro Plenydd Chwefror 2015; Ysgol Chwilog, Ebrill 2014; Ysgol Llanybi 2018, Ysgol Yr Eifl 2014 ac Ysgol Pentreuchaf 2019.*

**CAU YSGOL LLANAELHAERN A'R PLANT I'W HADDYSGU MEWN YSGOL AMGEN - ASESIAD O'R EFFAITH  
AR ANSAWDD A SAFONAU ADDYSG**

<b>Positif</b>	<b>Niwtral</b>	<b>Negyddol</b>
----------------	----------------	-----------------

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	'Digonol' oedd canlyniad arolwg estyn ar gyfer y dangosyddion safonau Ysgol Llanaelhaearn, tra bo Ysgol Bro Plenydd yn 'Dda'. Yn seiliedig ar wybodaeth yr arolygon diwethaf (2015) felly byddai addysgu'r plant yn Ysgol Bro Plenydd yn effaith positif.	Positif
Llesiant ac agweddau at ddysgu	'Digonol' oedd canlyniad y dangosydd 'Lles' ar gyfer Ysgol Llanaelhaearn, ac Ysgol Bro Plenydd yn ystod eu harolwg diweddaraf (2015), felly yn seiliedig ar yr adroddiadau hyn ni ragwelir unrhyw effaith.	Niwtral
Profiadau addysgu a dysgu	'Digonol' oedd canlyniad y dangosyddion hyn ar gyfer Ysgol Llanaelhaearn yn 2015, a 'Da' oedd canlyniad y dangosyddion yn ôl Estyn ar gyfer Ysgol Bro Plenydd yn 2015. Rhagwelir felly y gallai'r model hwn gael effaith positif ar brofiadau addysgu a dysgu. Byddai addysg yn Ysgol Bro Plenydd yn golygu addysgu mewn grwpiau mwy a gyda chyfoedion i ehangu ar eu profiadau.	Positif
Arweiniad a chymorth gofal	'Digonol' oedd canlyniad y dangosyddion hyn ar gyfer Ysgol Llanaelhaearn yn 2015, a 'Da' oedd canlyniad y dangosyddion yn ôl Estyn ar gyfer Ysgol Bro Plenydd yn 2015. Rhagwelir felly y gallai'r model hwn gael effaith positif ar brofiadau addysgu a dysgu.	Positif
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Yn ystod eu hadolygiad diwethaf gan Estyn, yn Chwefror 2015, fe wnaeth Ysgol Bro Plenydd gael eu rhoi yn y categori 'Da' ar gyfer holl agweddau 'arweinyddiaeth a rheolaeth'. Cafodd Ysgol Llanaelhaearn eu rhoi yn y categori 'digonol' gyda'r maes 'Arweinyddiaeth' yn benodol yn 'anfodhaol'. Er hynny, bu i'r ysgol gyflawni'r rhagolygon gwella.	Positif
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol a pholisi yr Awdurdod, fel ym mhob ysgol yng Ngwynedd.	Niwtral
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Mae'r ysgol amgen wedi ei roi mewn categori 'A' o ran cyflwr, o gymharu ag Ysgol Llanaelhaearn sydd wedi'i roi yng nghategori 'B'.	Positif

*Mae'r asesiad uchod wedi'i wneud yn seiliedig ar wybodaeth adroddiad Estyn Ysgol Llanaelhaearn Ebrill 2015, ac Ysgol Bro Plenydd, Chwefror 2015.*

## 4. CASGLIAD

---


Dengys yr asesiad hwn o'r effaith ar ansawdd a safonau addysg, y byddai cyflwyno opsiynau o ffederaleiddio, neu gau Ysgol Llanaelhaearn a throsglwyddo'r plant i Ysgol Bro Plenydd yn debygol o fod yn bositif.

Er hynny, cydnabyddir fod niferoedd isel Ysgol Llanaelhaearn bellach yn golygu fod cymhareb isel disgybl i athro yno ar hyn o bryd, ac o ganlyniad y mae'r plant yn gwneud cynnydd da.

Mae'r wybodaeth yn yr asesiad hwn yn dilyn arolygon diweddaraf Estyn yn yr ysgolion dan sylw yn nodi fod pob un o'r ysgolion wedi eu gosod mewn categori cyfatebol fan lleiaf i Ysgol Llanaelhaearn, a phob un o'r ysgolion wedi eu gosod yn y categori melyn, neu wyrdd o safbwynt lefel cefnogaeth Llywodraeth Cymru.

Ni ddaeth ymatebion na gwybodaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori a oedd yn newid canlyniad yr asesiad yma.

Er fod awgrym cryf y byddai rhai o rieni disgyblion presennol Ysgol Llanaelhaearn yn gwneud cais i drosglwyddo i ysgol arall, mae'r Cyngor yn dal o'r farn mai Ysgol Bro Plenydd a enwir fel yr ysgol amgen, am resymau clir a nodir yn y ddogfen ymgynghori. Serch hynny, y mae'r Awdurdod yn nodi dymuniad y rhieni, a bydd angen iddynt drafod argaeledd llefydd i blant yn Ysgol Chwilog ymhellach gyda'r pennaeth.



# **Adroddiad Aseu yr Effaith Debygol ar Drefniadau Teithio- Ysgol Llanaelhaearn**

- Chwefror 2020



- 1. CYFLWYNIAD**
- 2. OPSIYNAU**
- 3. ASESIAD O'R EFFAITH AR DREFNIADAU TEITHIO**
- 4. CASGLIAD**

## 1. CYFLWYNIAD

---

Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, sydd yn cynnwys 'Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gweledig', mae angen gwneud asesiad ar yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio ar unrhyw opsiwn rhesymol a ellir datrys y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu. At ddiben y Cod, mae Ysgol Llanaelhaearn wedi ei dynodi fel 'Ysgol Wledig'.

*"Mae'r ail fersiwn hon o'r Cod yn gwneud trefniadau arbennig mewn perthynas ag ysgolion gwledig, gan sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn eu cau. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr ddilyn cyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig, wrth ymgynghori ar benderfyniad ynghylch a ddyliid gweithredu cynnig i gau ysgol wledig ac wrth wneud y penderfyniad."*

*"Nid yw hyn yn golygu na fydd ysgol wledig byth yn cau, ond bod yn rhaid i'r achos dros ei chau fod yn gryf, a bod pob opsiwn ymarferol arall wedi'u hystyried yn gydwobodol gan y cynigydd, gan gynnwys ffedereiddio."*

Ffynhonnell: Cod Trefniadaeth Ysgolion 011 /2018

Mae Ysgol Llanaelhaearn wedi ei lleoli yng nghanol pentref Llanaelhaearn sydd rhwng Pwllheli a Chaernarfon. Mae gan yr Ysgol gapasiti Meithrin i Flwyddyn 6 o 53, gyda 8 o ddisgyblion rhwng 3-11 oed yn mynychu'r ysgol (Cyfrifiad Medi 2019). Mae'r disgyblion i gyd yn byw yn nalgylch Llanaelhaearn.

Mae niferoedd disgyblion sydd yn mynychu'r ysgol wedi lleihau yn sylweddol ers 2013, pan fu dros 40 o ddisgyblion yn yr ysgol. Mae'r 8 disgybl sydd bellach yn mynychu yn cael eu haddysgu mewn dau ddsbarth gyda thri disgybl mewn un dosbarth a pum disgybl yn y llall.

Ar y 24ain Mehefin 2019, cynhaliwyd cyfarfod i adolygu sefyllfa'r ysgol, ble cynigwyd nifer o opsiynau i'w hystyried ar gyfer dyfodol yr ysgol. Bu cyfarfodydd pellach ym mis Medi i werthuso'r opsiynau gan adnabod yr opsiynau a fyddai'n rhesymol i geisio datrys yr her y mae'r ysgol yn ei wynebu, sef niferoedd isel o ddisgyblion.

Ar y 5ed o Dachwedd 2019, cytunodd Cabinet Cyngor Gwynedd i gychwyn cyfnod o ymgynghori statudol yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020 a darparu lle i'r disgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffor, ar y 1af Medi 2020.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol rhwng y 16 Rhagfyr 2019 a 29 Ionawr 2020, a derbyniwyd 8 ymateb i'r ymgynghoriad.

### 1.1 Polisi Cludiant Cyngor Gwynedd

Mae strategaeth 'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd' yn anelu at gyfyngu teithio o'r cartref i'r ysgol i daith un ffordd sydd heb fod yn fwy na 30 munud.

Mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant di-dâl i ddysgwyr sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf (ddim yn cynnwys disgyblion meithrin). Disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd. Mae'r polisi cludiant i'w weld yn y llawlyfr i rieni:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dogfennau-trigolion/Ysgolion-a-dysgu---dogfennau/Talu-eich-ysgol/Gwybodaeth-i-Rieni-2019-20-2.pdf>

## 1.2 Cyd-destun Ysgol Llanaelhaearn

Ar ddiwrnod cyfrifiad Medi 2018, roedd 38 o blant oed Ysgol Cynradd yn byw yn nalgylch Ysgol Llanaelhaearn. Roedd 27 o'r rheini yn mynychu ysgolion all-dalgylch ac 11 yn mynychu Ysgol Llanaelhaearn. Nid oes plant sydd yn byw tu allan i ddalgylch Llanaelhaearn yn mynychu'r ysgol, fel gwelir yn y tabl isod:

		Dalgylch Cartref / Home Catchment Area (Medi / September 2018)						Cyfanswm Ysgol School Total	
		Llanaelhaearn	Bro Plenydd	Llangybi	Yr Eifl	Chwilog	Pentreuchaf		Arall
Mynychu Ysgol / School Attending (Medi / September 2018)	Llanaelhaearn	11	-	-	-	-	-	-	11
	Bro Plenydd	6	38	12	-	6	2	13	77
	Llangybi	3	-	29	-	2	1	3	38
	Yr Eifl	-	-	-	58	-	-	1	59
	Chwilog	-	-	1	-	47	-	4	52
	Pentreuchaf	5	5	-	1	3	39	44	97
	Arall	14	6	5	5	12	15		
Cyfanswm Dalgylch Catchment Area Total		39	49	47	64	70	57		

Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2018\*

\*nid yw'r wybodaeth uchod yn gyflawn ar gyfer 2019

## 2. OPSIYNAU

Mae'r asesiad yma, yn unol a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, wedi ei gynnal ar ddau opsiwn a fyddai'n cynnig manteision o gymharu â sefyllfa bresennol yr ysgol, sef ffederaleiddio gydag ysgol neu ysgolion eraill, neu gau'r ysgol a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen.

Mae'r opsiynau hynny, yn ychwanegol i wneud dim a pharhau gyda'r sefyllfa bresennol, wedi eu manylu isod.

- *Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.*

Byddai cadw'r drefn bresennol yn golygu fod Ysgol Llanaelhaearn yn parhau yn yr un modd, gyda'r un strwythur staffio. Byddai Pennaeth Strategol ar Ysgol Llanaelhaearn, Garndolbenmaen a Chwilog a fyddai'n treulio 1 diwrnod yr wythnos yn arwain Ysgol Llanaelhaearn.

Byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu gan athro llawn amser a chymhorthydd.

**Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol, gan y byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Llanaelhaearn.**

📄 *Ffederaleiddio gydag Ysgol / Ysgolion eraill*

Byddai Ysgol Llanaelhaearn yn ffurfio model ffederal ffurfiol, gyfreithiol gydag ysgol neu ysgolion eraill cyfagos. Yn ddaearyddol, yr ysgolion a fyddai'n rhesymol i'w hystyried byddai un neu fwy o ysgolion yr Eifl, Llangybi, Bro Plenydd, Chwilog, neu Pentreuchaf.

Golyga hyn fod yr ysgolion yn parhau ar wahân ond fod y Cyrff Llywodraethu yn cael eu diddymu, a bod un Corff Llywodraethol yn cael ei ethol ar gyfer y Ffederasiwn. Byddai cyllidebau'r ysgolion yn parhau fel y maen nhw.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynyddu ar gyfleon y disgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

**Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol, gan y byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Llanaelhaearn.**

- *Cau Ysgol Llanaelhaearn a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen*

Golyga hyn fod Ysgol Llanaelhaearn yn cau, a'r disgyblion presennol yn trosglwyddo i ysgol amgen.

Byddai'r opsiwn hwn yn cael effaith ar drefniadau teithio, gan y byddai'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn ysgol amgen. Enwir Ysgol Bro Plenydd, y Ffôr fel yr ysgol amgen. Manylir effaith yr opsiwn yma ar drefniadau teithio yn rhan 3 o'r asesiad.

**Gan fod Ysgol Bro Plenydd 3.6 milltir o Ysgol Llanaelhaearn, byddai angen i Gyngor Gwynedd ddarparu cludiant i'r disgyblion a fyddai'n mynychu Ysgol Bro Plenydd ac yn byw fwy na 2 filltir o'r ysgol, yn unol â Pholisi Cludiant yr Awdurdod.**

### 3. ASESIAID O'R EFFAITH AR DREFNIADAU TEITHIO

#### 3.1. Lleoliad yr ysgol amgen

Mae Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr, 3.6 milltir o Ysgol Llanaelhaearn. Mae'r ysgol wedi ei lleoli yn agos i'r A499 gyda mynediad i safle'r ysgol oddi ar y ffordd yma. Golyga hyn ei bod yn hwylus i deithio rhwng pentref Llanaelhaearn a Y Ffôr mewn car neu drwy ddefnyddio cludiant cyhoeddus.

#### 3.2. Opsiynau cludiant

Yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd, byddai'r Awdurdod yn trefnu tacsis neu fws mini i gludo'r disgyblion o ddalgyrch Llanaelhaearn i'r ysgol amgen, ac fel nodir yn y polisi hwn, disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd neu uwchradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ar hyd y llwybr byrraf.

Y llwybr byrraf sydd ar gael yw'r un nad yw'r Cyngor yn ei ystyried yn arbennig o beryglus, ar ôl asesu'r llwybrau eraill y gellid eu defnyddio, a byddai'r llwybrau hyn yn cael eu hasesu yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.

Nodir fod nifer o fsysus ysgol yn rhedeg yn yr ardal. Nid oes yr un o'r bysus ysgolion cynradd yn rhedeg rhwng Llanaelhaearn ac Y Ffôr, i fedru manteisio ar un o'r rhan. Mae bws Ysgol Glan y Môr yn mynd drwy'r ddau bentref, er hynny, nid yw'n arferiad i blant cynradd ddefnyddio bysiau ysgolion Uwchradd.

<b>TREFOR - YSGOL GLAN Y MÔR</b>		<b>311</b>	
Cerbydau Berwyn - 01286 660 315			
Trefor	0810	Ysgol Glan Y Mor	1525
Llanaelhaearn	0815	Y Ffor	1535
Y Ffor	0820	Llanaelhaearn	1540
Ysgol Glan Y Mor	0830	Trefor	1545

***Amserlen bws Ysgol Glan y Môr***

Yn ogystal, nodir fod bws cyhoeddus yn gwasanaethu rhwng y ddau bentref (amserlen isod).

Pwllheli - Trefor - Caernarfon		BERWYN / CLYNNOC AND TREFOR 12															
Llun i Sadwrn Dim ar Wyliau Cyhoeddus		o/ffrom 01/04/18 Monday to Saturday Except Public Holidays															
PWLLHELI, Gorsaf Bws/Bus Station (C)	....	0740	0840	0940	1040	1140	1240	1340	1440	1550	1640	1740	1825	1945	2115	2240	
Pwllheli, Ysbyty Bryn Beryl	....	0745	0845	0945	1045	1145	1245	1345	1445	1555	1645	1745	1830	1950	2120	2245	
Y Ffôr	....	0748	0848	0948	1048	1148	1248	1348	1448	1558	1648	1748	1833	1953	2123	2248	
Llanaelhaearn	....	0754	0854	0954	1054	1154	1254	1354	1454	1604	1654	1754	1839	1959	2129	2254	
Llanaelhaearn	0711	0801	0906	1011	1111	1211	1311	1411	1511	1611	1711	1811	1931	2104	2229	....	
Y Ffôr	0717	0807	0912	1017	1117	1217	1317	1417	1517	1617	1717	1817	1937	2107	2232	....	
Pwllheli, Ysbyty Bryn Beryl	0720	0810	0915	1020	1120	1220	1320	1420	1520	1620	1720	1820	1940	2110	2235	....	
PWLLHELI, Gorsaf Bws/Bus Station (C)	0725	0815	0920	1025	1125	1225	1325	1425	1525	1625	1725	1825	1945	2115	2240	....	

### Amserlen cludiant cyhoeddus

### 3.3. Effaith ariannol

Mae crynodeb isod o'r effaith ariannol ar drefniadau teithio:

Ysgol amgen (opsiwn)	Pellter oddi wrth Ysgol Llanaelhaearn (milltiroedd)	Costau cludiant o ganol pentref Llanaelhaearn i'r ysgol amgen
Bws mini / tacsï ar gyfer 8 disgybl.	3.6	£11,400

	Yr effaith debygol ar drefniadau teithio i ddysgwyr	Yr effaith debygol ariannol blyneddol ar drefniadau teithio i'r Awdurdod
Gwneud dim	Dim newid	£0
Ffederaleiddio yn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill	Dim newid	£0
Cau ysgol Llanaelhaearn a'r disgyblion i'w haddysgu yn Ysgol Bro Plenydd, y Ffôr – cludiant ar gyfer 8 disgybl.	Ymgynnull mewn man fydd wedi ei gytuno er mwyn dal y bws.	£11,400

Nodir fod 7 o ddisgyblion yn byw yn nalgylch Llanaelhaearn eisoes yn mynychu Ysgol Bro Plenydd (data 2018).

Pe byddai dalgylch Ysgol Bro Plenydd yn newid i gynnwys dalgylch Ysgol Llanaelhaearn yn y dyfodol, yna amcangyfrifir y byddai:

- Costau cludiant ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Llanaelhaearn yn ogystal â'r disgyblion hynny sydd yn mynychu Ysgol Bro Plenydd eisoes, oddeutu £19,000 y flwyddyn.
- Costau cludiant ar gyfer holl ddisgyblion dalgylch Ysgol Llanaelhaearn, petaent i gyd yn dewis mynychu Ysgol Bro Plenydd yn y dyfodol, oddeutu £25,000 y flwyddyn.

### 3.4. Ymatebion i'r Ymgynghoriad Statudol

Derbyniwyd 8 ymateb i'r ymgynghoriad statudol ynghyd ac ymatebion i'r ymgynghoriad plant. Yr oedd nifer o'r ymatebion hyn yn awgrymu y byddai nifer o'r rhieni yn debygol o wneud cais i'w plant drosglwyddo i Ysgol Chwilog, yn hytrach na throsglwyddo yn awtomatig i Ysgol Bro Plenydd.

Mae gan rieni hawl i ymgeisio i drosglwyddo neu wneud cais mynediad i unrhyw ysgol yn unol â pholisi mynediad yr Awdurdod.

Rhoddir rhesymau teg am hyn, gan fod disgyblion Ysgol Llanaelhaearn wedi bod yn mynychu Ysgol Chwilog ar ddau brynhawn yn wythnosol ers dros flwyddyn, a'u bod eisoes yn adnabod yr athrawon a phlant eraill yr Ysgol. Awgrymir y byddai trosglwyddo i Ysgol Chwilog yn creu llai o aflonyddwch i ddisgyblion Ysgol Llanaelhaearn, ac am y rhesymau hyn y mae'r Awdurdod yn ystyried darparu cludiant i blant presennol Ysgol Llanaelhaearn i Ysgol Chwilog yn ogystal ag Ysgol Bro Plenydd o 1 Medi 2020. Ni fyddai hyn yn newid yr ysgol a enwir fel yr 'Ysgol Amgen' yn y cynnig.

Rhagwelir na fyddai gwireddu hyn yn arwain at gostau cludiant yn ychwanegol, am y rheswm y gellir rhannu cludiant gyda sawl fyddai yn mynychu Ysgol Bro Plenydd. Mae Ysgol Chwilog 2.5 o Ysgol Bro Plenydd, ac mae oriau'r ysgolion yn wahanol a fyddai'n hwyluso hyn.

## 4. CASGLIAD

---

Ni fyddai unrhyw effaith ar y trefniadau teithio a chludiant presennol wrth gyflwyno model o ffederaleiddio yn ffurfiol, gan y byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Llanaelhaearn.


Pe byddai'r opsiwn o gau Ysgol Llanaelhaearn a chynnig addysg i'r disgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, y Ffôr yn cael ei wireddu, yna byddai effaith ar drefniadau teithio i'r plant ac i'r Awdurdod.

Yn unol â'r data diweddaraf, sef Medi 2018, mae 38 o blant yn byw yn y dalgylch gyda 27 yn dewis mynychu ysgolion eraill, a 7 o'r rheini yn mynychu Ysgol Bro Plenydd eisoes.

Byddai'r opsiwn hwn yn golygu y bydd bws neu dacsï yn cael ei drefnu ar gyfer y dysgwyr, a fyddai'n gollwng y plant ym maes parcio Ysgol Bro Plenydd.

Byddai'r opsiwn yn golygu costau ychwanegol i'r Awdurdod. Amcangyfrifir i'r costau hyn fod oddeutu £11,400 i gludo'r 8 disgybl presennol i Ysgol Bro Plenydd, a hyd at oddeutu £25,000 petai plant dalgylch Ysgol Llanaelhaearn i gyd yn penderfynu mynychu Ysgol Bro Plenydd (yn ddarostyngedig ar addasu'r dalgylchoedd ar gyfer y dyfodol).

Ni ragwelir y byddai costau cludiant i blant presennol Ysgol Llanaelhaearn fynychu Ysgol Chwilog yn uwch na'r amcangyfrifon i'w cludo i Ysgol Bro Plenydd.



# Adroddiad Aesu Effaith ar y Gymuned Ysgol Llanellhaearn

- Chwefror 2020

- 1. CYFLWYNIAD**
- 2. OPSIYNAU**
- 3. CRYNODEB O'R DALGYLCH**
- 4. YSGOLION Y DALGYLCH**
- 5. ASESIAD O'R EFFAITH DEBYGOL AR Y GYMUNED**
- 6. CASGLIAD**



## 1. CYFLWYNIAD

---

Ar y 4ydd o Fehefin 2019, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd ganiatáu i'r Adran Addysg 'gynnal cyfarfodydd ffurfiol gyda'r corff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill i drafod ystod o opsiynau posibl ar gyfer dyfodol yr ysgol' o ganlyniad i bryderon yr Adran Addysg ynghylch cwmp sylweddol mewn niferoedd yn mynychu'r ysgol.

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 yn cynnwys 'Rhagdybiaeth yn erbyn Cau Ysgol Wledig'. Mae Ysgol Llanaelhaearn wedi ei ddynodi fel Ysgol Wledig at ddiben y Cod.

Golyga hyn, fel rhan o'r broses statudol, mae angen asesu'r effaith debygol ar y gymuned, yn achos pob opsiwn rhesymol, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Mae'r asesiad hwn yn deillio o ganllawiau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer ad-drefnu ysgolion, yn cynnwys ystyriaethau ynglŷn ag anghenion unigryw ardaloedd gwledig.

*"Mewn rhai ardaloedd, efallai mai ysgol fydd y prif ganolbwynt ar gyfer gweithgarwch cymunedol hefyd, a gallai ei chau arwain at oblygiadau y tu hwnt i ddarparu addysg. Gall hyn fod yn nodwedd benodol mewn ardaloedd gwledig os defnyddir adeiladau ysgolion fel man i ddarparu gwasanaethau i'r gymuned leol."*

*"Dylai'r achos a gaiff ei baratoi gan y rhai sy'n cyflwyno'r cynigion ddangos bod effaith cau'r ysgol ar y gymuned wedi'i hasesu drwy lunio Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, a dangos sut y gellid cynnal unrhyw gyfleusterau cymunedol a ddarperir gan yr ysgol ar hyn o bryd."*

Ffynhonnell: Cod Trefniadaeth Ysgolion 011 /2018

Mae Ysgol Llanaelhaearn wedi ei lleoli yng nghanol pentref Llanaelhaearn sydd rhwng Pwllheli a Chaernarfon. Mae gan yr Ysgol gapasiti Meithrin i Flwyddyn 6 o 53, gyda 8 o ddisgyblion rhwng 3-11 oed yn mynychu'r ysgol (Cyfrifiad Medi 2019). Mae'r disgyblion i gyd yn byw yn nalgylch Llanaelhaearn.

Mae niferoedd disgyblion sydd yn mynychu'r ysgol wedi lleihau yn sylweddol ers 2013, pan fu dros 40 o ddisgyblion yn yr ysgol. Mae'r 8 disgybl sydd bellach yn mynychu yn cael eu haddysgu mewn dau ddsbarth gyda thri disgybl mewn un dosbarth a pum disgybl yn y llall.

Ar y 24ain o Fehefin 2019, cynhaliwyd cyfarfod i adolygu sefyllfa'r ysgol, ble cynigwyd nifer o opsiynau i'w hystyried ar gyfer dyfodol yr ysgol. Bu cyfarfodydd dilynol ym mis Medi i werthuso'r opsiynau gan adnabod yr opsiynau a fyddai'n rhesymol i geisio datrys yr her y mae'r ysgol yn ei wynebu, sef niferoedd isel o ddisgyblion.

Ar y 5ed o Dachwedd 2019, cytunodd Cabinet Cyngor Gwynedd i gychwyn cyfnod o ymgynghori statudol yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffor, ar y 1af Medi 2020.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol rhwng y 16 Rhagfyr 2019 a 29 Ionawr 2020, a derbyniwyd 8 ymateb i'r ymgynghoriad.

## 2. OPSIYNAU

---

Mae'r asesiad hwn wedi ei wneud ar ddau opsiwn a fyddai'n cynnig manteision o gymharu â sefyllfa bresennol yr Ysgol, sef ffederaleiddio gydag ysgol neu ysgolion eraill, neu gau'r ysgol a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen.

Mae'r modelau hynny, yn ychwanegol i wneud dim a pharhau gyda'r sefyllfa bresennol, wedi eu manylu isod.

- *Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.*

Byddai cadw'r drefn bresennol yn golygu fod Ysgol Llanaelhaearn yn parhau yn yr un modd, gyda'r un strwythur staffio. Byddai Pennaeth Strategol ar Ysgol Llanaelhaearn, Garndolbenmaen a Chwilog a byddai'n treulio 1 diwrnod yr wythnos yn arwain Ysgol Llanaelhaearn.

Byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu gan athro llawn amser ac uwch-gymhorthydd.

#### *Ffederaleiddio gydag Ysgol / Ysgolion eraill*

Byddai Ysgol Llanaelhaearn yn ffurfio model ffederal ffurfiol, gyfreithiol gydag ysgol neu ysgolion eraill cyfagos. Yn ddaearyddol, yr ysgolion a fyddai'n rhesymol i'w hystyried byddai un neu fwy o'r ysgolion canlynol; Yr Eifl, Llanybi, Bro Plenydd, Chwilog, neu Pentreuchaf.

Golyga hyn fod yr ysgolion yn parhau ar wahân ond fod y Cyrff Llywodraethu yn cael eu diddymu, a bod un Corff Llywodraethol yn cael ei ethol ar gyfer y Ffederasiwn.

Byddai cyllidebau'r ysgolion yn parhau fel y maen nhw, ond gyda chyfleon i gryfhau arweinyddiaeth o fewn yr ysgolion a chynyddu ar gyfleon i gydweithio ar draws y ffederasiwn.

- *Cau Ysgol Llanaelhaearn a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen*

Golyga hyn fod Ysgol Llanaelhaearn yn cau, a'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Bro Plenydd (yr ysgol amgen).

## 3. CRYNODEB O'R DALGYLCH

---

### 3.1 Yr Ardal

Mae Ysgol Llanaelhaearn wedi ei lleoli yng nghanol pentref Llanaelhaearn, sydd rhwng Pwllheli a Chaernarfon yng Ngwynedd. Mae dalgyrch yr ysgol yn cynnwys y pentref ac ardal gyfagos, sydd wedi ei leoli rhwng dalgyrchodd Ysgolion Yr Eifl (Trefor), Ysgol Llanybi, Ysgol Bro Plenydd (Y Ffôr) ac Ysgol Pentreuchaf.

Dengys data diweddaraf (cyfrifiad 2011) fod poblogaeth ward Llanaelhaearn yn 1,683.

### 3.2 Yr Economi

Mae 65.9% o bobl rhwng 16 a 74 mlwydd oed o fewn ward Llanaelhaearn yn weithgar yn economaidd, a 5.8% o'r rhain yn ddi-waith. Mae 34.1% o bobl yn yr un grŵp oedran yn anweithgar yn economaidd gyda 17.6% o'r rhain yn sâl neu'n anabl am gyfnod hir.

Mae'r math o ddiwydiant y mae'r boblogaeth yn weithgar ynddo yn amrywiol yn yr ardal, gyda'r gyfradd uchaf (15.3%) yn gweithio yn y maes iechyd a gwaith cymdeithasol.

Yn ôl data 'Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014)' mae cyfradd cyflogaeth ward Llanaelhaearn o gymharu â wardiau eraill yng Nghymru yn rhoi ranc o 1095 allan o 1909 o wardiau. Nid yw ward Llanaelhaearn felly o fewn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Yn 1974, sefydlwyd Antur Aelhaearn, menter gymdeithasol, gyda'r nod o greu gwaith yn lleol i gadw teuluoedd a phobl ifanc yn yr ardal, gan gyflwyno nifer o brosiectau, a chynlluniau yn lleol. Mae'r Antur yn dal yn weithredol heddiw ac yn weithgar ar brosiectau megis datblygu'r capel nad yw bellach mewn defnydd.

Mae nifer o fusnesau yn weithredol yn y pentref, gan gynnwys becws, modurdy, tŷ gwely a brecwast, a chwmni harddwch anifeiliaid anwes.

### 3.3 Amddifadedd

Mae Ward Llanaelhaearn (sydd yn ardal ehangach nac arwynebedd daearyddol dalgylch yr ysgol) yn y 40% o wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru (ranc o 622 allan o 1909 o wardiau).

Mae nifer o feysydd yn llunio'r mynegai cyffredinol yma, gan gynnwys incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad i wasanaethau, diogelwch cymunedol, amgylchedd ffisegol a thai.

Nodir fod ward Llanaelhaearn o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'Tai'. Dangosyddion y maes hwn yw'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi gorlawn (defnydd ystafelloedd gwely), a'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi heb wres canolog.

Yn ogystal, mae ward Llanaelhaearn o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'mynediad i wasanaethau', h.y. amddifadedd am nad yw pobl yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer byw o ddydd i ddydd. Mae'r dangosyddion yn cynnwys cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i nifer o wasanaethau megis siopau bwyd, meddygfa, ysgolion cynradd ac uwchradd, swyddfa bost, llyfrgell gyhoeddus, fferyllfa, canolfan hamdden ac amser teithio preifat i orsaf betrol.

Mae crynodeb isod o sut mae ardal Llanaelhaearn wedi ei leoli yng nghyd-destun ardaloedd eraill yng Nghymru yn ôl y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014):

Maes	Ranc yng Nghymru, allan o 1909 o ardaloedd. 1 = mwyaf difreintiedig 1909 = lleiaf difreintiedig	Mwyaf difreintiedig % yng Nghymru
Cyflogaeth	1095	
Incwm	778	O fewn y 40-50% mwyaf difreintiedig
Iechyd	1075	
Addysg	994	O fewn y 40-50% mwyaf difreintiedig
Tai	88	O fewn y 0-10% mwyaf difreintiedig
Amgylchedd ffisegol	1651	
Mynediad i wasanaethau	15	O fewn y 0-10% mwyaf difreintiedig
Diogelwch cymunedol	1046	

### 3.4 Y Gymuned

Mae nifer o weithgareddau yn cael eu cynnal yn Llanaelhaearn, gan gynnwys;

- Merched y Wawr
- Cyrsiau amrywiol yn y Ganolfan
- Pwyllgor Cae Chwarae
- Eisteddfod Gadeiriol Aelhaearn
- Pwyllgor Cofeb Aelhaearn
- Pwyllgor Llywio
- Cyngor Plwyf

Yn ogystal, mae nifer o gyfleusterau yn y pentref, gan gynnwys Eglwys St Aelhaearn / Mynwent, Meddygfa, Cartref Henoed, Becws, Canolfan y Babell, Cae Chwarae, Cae Pêl droed ac Antur Aelhaearn. Mae Aelodau Antur Aelhaearn hefyd wedi bod yn gweithio ar brosiect i ddatblygu'r Capel yn adnodd i'r gymuned, sydd drws nesaf i'r Ganolfan ac mae'r gwaith ail doi wedi'i wneud. Hefyd, mae prosiect gardd ar y gweill.

## 4. YSGOLION Y DALGYLCH

### 4.1 Cyd-destun yr ysgolion yn ôl Adroddiadau Arolygon Estyn

Fel rhan o adroddiadau Estyn bydd awduron yr adroddiadau, sef yr arolygwyr, yn gosod yr ysgolion o fewn cyd-destun ac yn manylu ar eu cysylltiadau cymunedol. Dyma'r cyd-destun a roddwyd i Ysgol Llanaelhaearn gan arolygwyr Estyn.

#### Ysgol Llanaelhaearn

*“Lleolir Ysgol Gymunedol Llanaelhaearn ym mhentref Llanaelhaearn sydd rhwng Pwllheli a Chaernarfon yng Ngwynedd. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal gyfagos”*

Ffynhonnell: Adroddiad Estyn, Ebrill 2015

### 4.2 Gwybodaeth ystadegol yr ysgolion

Dengys y tabl isod niferoedd ysgol Llanaelhaearn, a'r ysgolion cyfagos eraill, o Flwyddyn Meithrin i Flwyddyn 6. Gwelir yn ogystal yn y tabl hwn beth yw capasiti'r ysgolion, a'r nifer o lefydd gweigion. Mae pob un o'r ysgolion hyn yn ysgol gymunedol, ac yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ysgol	Capasiti Llawn (M – B16)	Nifer ar y gofrestr Medi 2019 (M – B16)	Nifer o Lefydd Gwag 2019 (M – B16)	Categori Cyfreithiol
Llanaelhaearn	53	8	45	Ysgol gymunedol
Bro Plenydd	104	74	30	Ysgol gymunedol
Llangybi	80	34	46	Ysgol gymunedol
Pentreuchaf	119	98	21	Ysgol gymunedol
Yr Eifl	62	56	6	Ysgol gymunedol
Chwilog	74	52	22	Ysgol gymunedol

Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2019

### 4.3 Gwybodaeth lleoliad annedd a dewis ysgolion disgyblion

Mae gan bob ysgol ddalgylch penodol y mae'n gwasanaethu ac sydd yn bwysig o ran polisi mynediad a chluddiant y Cyngor. Nid oes rhaid i ddisgyblion fynychu eu hysgol dalgylch, mae'r dewis i fyny i rieni (yn unol â'r polisi mynediad).

I gymharu â dalgylchoedd eraill yr ardal, mae nifer o ddisgyblion sy'n symud tu allan i ddalgylch yr ysgol yn uchel. Dengys data diweddaraf o gartrefi disgyblion fod 39 o blant yn byw yn nalgylch Llanaelhaearn llynedd (*data Medi 2018*), ac roedd 11 ohonynt yn mynychu'r ysgol. Mae hyn bellach wedi lleihau i 8 disgybl. Golyga hyn fod 72% o blant sy'n byw yn nalgylch Ysgol Llanaelhaearn yn mynychu ysgolion all-dalgylch, yn unol â data 2018.

Ysgol arall yn yr ardal sydd â nifer uchel o blant yn mynychu ysgolion all-dalgylch yw dalgylch Ysgol Llangybi, gyda 38% o blant dalgylch Ysgol Llangybi yn mynychu ysgolion all-dalgylch yn 2018, er hynny, mae 9 disgybl yn mynychu ysgol Llangybi sydd yn byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol. Does dim un disgybl sydd yn byw tu allan i ddalgylch Ysgol Llanaelhaearn yn mynychu'r ysgol.

		Dalgyrch Cartref / Home Catchment Area (Medi / September 2018)						Arall	Cyfanswm Ysgol School Total
		Llanaelhaearn	Bro Plenydd	Llangybi	Yr Eifl	Chwillog	Pentreuchaf		
Mynychu Ysgol / School Attending (Medi / September 2018)	Llanaelhaearn	11	-	-	-	-	-	-	11
	Bro Plenydd	6	38	12	-	6	2	13	77
	Llangybi	3	-	29	-	2	1	3	38
	Yr Eifl	-	-	-	58	-	-	1	59
	Chwillog	-	-	1	-	47	-	4	52
	Pentreuchaf	5	5	-	1	3	39	44	97
	Arall	14	6	5	5	12	15		
Cyfanswm Dalgyrch Catchment Area Total		39	49	47	64	70	57		

**Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2018\***

\* nid yw'r data uchod ar gael yn gyflawn ar gyfer 2019

Mae'r tabl uchod yn dangos y wybodaeth gyflawn o ran lleoliadau byw disgyblion a'i dewis ysgol. Mae'r tabl isod yn crynhoi faint o ddisgyblion sy'n byw ym mhob dalgyrch, y nifer sy'n byw yn y dalgyrch ac yn mynychu'r ysgol, a'r nifer o ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol ond yn byw tu allan i'r dalgyrch.

Ysgol	Nifer yn byw yn y Dalgyrch	Nifer o blant y Dalgyrch sy'n mynychu'r ysgol	Niferoedd sy'n mynychu'r ysgol o du allan i'r Dalgyrch
Llanaelhaearn	39	11	0
Yr Eifl	67	58	1
Llangybi	47	29	9
Bro Plenydd	49	38	38
Chwillog	70	47	5
Pentreuchaf	57	39	58

**Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2018**

#### 4.4 Crynodeb o'r amrywiol gyfleusterau sydd yn y cymunedau gwledig

Mae'r wybodaeth isod wedi ei gasglu ar ardaloedd yr ysgolion a all gael ei effeithio gan unrhyw un o'r opsiynau.

	Llanaelhaearn	Trefor	Chwillog	Y Ffôr	Pentreuchaf	Llangybi
Canolfan Gymuned Neuadd Bentref	✓	✓	✓	✓	✓	
Capel/Eglwys	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Trafnidiaeth Gyhoeddus	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Siop	✓ (Becws)	✓	✓ (Cigydd)	✓	✓	
Caffi/Tafarn		✓			✓	✓
Swyddfa Bost	✓ (Fan)	✓	✓ (Neuadd Bentref)	✓	✓ (Fan)	
Meddygfa/Fferyllfa	✓	✓		✓		
Llyfrgell	✓ (Fan)	✓ (Fan)	✓ (Fan)	✓	✓ (Fan)	

Cae Chwarae Plant	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Banc						
Cartref Henoed	✓			Tai Henoed CG		
Canolfan Hamdden						
Garej	✓	✓				
Atyniad Twristaidd	✓ (Tre'r Ceiri)	✓				
Cylch Ti a Fi + Meithrin	✓	✓	✓		✓	

**Ffynhonnell: Holiaduron Penaethiaid Medi 2019**

Mae gan Ysgol Llanaelhaearn, a'r ysgolion eraill sydd yn rhan o'r asesiad hwn, 'Gyfeillion yr Ysgol' sydd yn cynnal gweithgareddau er mwyn codi arian er budd yr ysgol a'r disgyblion. Gan nad oes neuadd yn Ysgol Llanaelhaearn, mae'r ysgol yn gwneud defnydd cyson o Ganolfan y Babell sydd gyfagos.

Cydnabyddir mewn holiadur o'r ardrawiad ar y gymuned fod aelodau'r gymuned yn ymweld ag Ysgol Llanaelhaearn yn rheolaidd i gynorthwyo gyda'r profiadau dysgu, a bod gan yr Ysgol fws mini, sydd yn cyfoethogi profiadau y plant drwy eu galluogi i ymweld ag ysgolion a safleoedd eraill. Yn wir, mae aelodau o gymuned pob un o'r ysgolion sydd yn rhan o'r asesiad hwn yn ymweld â'r ysgolion i gynnal gweithgareddau gyda'r disgyblion megis clwb garddio neu ddarllen.

**4.5 Crynodeb o ddefnydd yr ysgolion y tu allan i oriau craidd yr ysgol**

Nid oes defnydd cymunedol o adeilad ysgol Llanaelhaearn ar hyn o bryd. Mae crynodeb o ddefnydd cymunedol neu all-gwricwlaidd o adeiladau'r ysgolion lleol isod:

	Llanaelhaearn	Trefor	Chwilog	Y Ffôr	Pentreuchaf	Llangybi
Grwpiau Chwarae (Gwyliau'r ysgol)						✓
Aelwyd yr Urdd		✓	✓	✓	✓	✓
Dramâu						
Grwpiau Gwirfoddol						
Bore/Noson Goffi			✓			
Arwerthiant Cymunedol						
Llyfrgell Gymunedol						
Ymarfer Côr						
Cymraeg i Oedolion						
Cyfarfod Cyngor Tref/Gymuned						
Cylch/Ysgol Feithrin			✓	✓	✓	✓
Clwb/Gweithgaredd Chwaraeon					✓	✓
Clwb ar ôl Ysgol		✓				
Clwb Diddordeb Lleol						

**Ffynhonnell: Holiaduron Penaethiaid Medi 2019**

#### 4.6 Crynodeb o weithgareddau neu grwpiau y mae'r ysgol yn ymwneud yn rheolaidd a nhw:

	Llanaelhaearn	Trefor	Chwilog	Y Ffôr	Pentreuchaf	Llangybi
Cylchoedd Meithrin/Ti a Fi			✓	✓	✓	✓
Eisteddfodau (Lleol/Sirol/Cenedlaethol)	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Adrannau'r Urdd		✓	✓	✓	✓	✓
Ymweliadau a Glan Llyn / Llangrannog / Caerdydd	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Gweithgareddau eraill (chwaraeon, clybiau)		✓	✓	✓	✓	✓

**Ffynhonnell: Holiaduron Penaethiaid Medi 2019**

#### 4.7 Os darperir adeiladau, ystafelloedd, cyfleusterau neu wasanaethau gan ysgol ar ran y gymuned, ble y byddent yn cael eu darparu os caiff ysgol ei chau?

Ysgol	Ble darparir cyfleusterau pe bai'n cau
Llanaelhaearn	Nid oes defnydd cymunedol o adeilad Ysgol Llanaelhaearn ar hyn o bryd, ac felly ni fyddai newid petai'r ysgol yn cau.  Petai gofyn am ddefnydd o adeilad cymunedol, yna mae Canolfan y Babell, sef neuadd gymunedol, wedi ei leoli o fewn 50m o'r ysgol.

#### 4.8 Gwybodaeth am bellter ac amser teithio i ysgolion eraill y dalgylch

Mae'r tabl isod yn nodi pellter ac amser teithio rhwng ysgolion yr ardal. Gwelwn mai Ysgol Yr Eifl yw'r agosaf at Ysgol Llanaelhaearn, gyda Ysgol Bro Plenydd yr agosaf wedi hynny. Mae'r amseroedd teithio isod yn ystyried natur y lonydd a'r effaith y gall hynny ei gael ar amser teithio mewn ardal gwledig.

Ysgol		Chwilog	Bro Plenydd	Llanaelhaearn	Llangybi	Pentreuchaf	Eifl
Chwilog	Milltir						
	Munudau						
Bro Plenydd	Milltir	2.5					
	Munudau	6					
Llanaelhaearn	Milltir	6.1	3.6				
	Munudau	12	6				
Llangybi	Milltir	2.9	2.0	3.9			
	Munudau	7	5	9			
Pentreuchaf	Milltir	5.5	3.3	4.6	5.3		
	Munudau	11	6	10	11		
Eifl	Milltir	7.9	5.3	1.9	5.7	6.3	
	Munudau	16	10	6	12	14	

#### 4.9 Ymatebion i'r ymgynghoriad statudol

Derbyniwyd 8 ymateb i'r ymgynghoriad statudol. Awgrymir mewn nifer o'r ymatebion y byddai rhieni yn dewis gwneud cais i drosglwyddo i ysgol arall, yn hytrach na throsglwyddo i'r ysgol amgen. Mae rhesymau dilys dros enwi Ysgol Bro Plenydd fel yr ysgol amgen ac yn sgil y cynnig byddai dalgylch presennol Ysgol Bro Plenydd yn ymgorffori dalgylch Ysgol Llanaelhaearn ar gyfer y dyfodol. Mae dymuniad rhieni i'w plant fynychu Ysgol Chwilog yn seiliedig ar y ffaith eu bod wedi bod yn ymuno ac Ysgol Chwilog ar ysgol brynawn yn wythnosol ers peth amser, ac wedi

dod i adnabod yr athrawon a'r disgyblion, ac y byddai mynychu Ysgol Chwilog yn lleihau'r aflonyddwch a achosir i'r plant.

Mae gan rieni hawl i ymgeisio i drosglwyddo, neu i wneud cais mynediad i'w plant i unrhyw ysgol yn unol â pholisi mynediad yr Awdurdod.

Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, nodir Estyn:

*“Cwblhaodd y cynigiwr asesiad defnyddiol o effaith cymunedol yr opsiynau. Dengys yr asesiad y bydd peth effaith negyddol o gau'r ysgol ar y gymuned gan fod yr ysgol yn ymwneud a'i chymuned ac yn defnyddio cyfleusterau'r gymuned, megis Canolfan y Babell yn gyson. I geisio lliniaru'r effaith ar y gymuned nodir rai cyfleoedd posib i sicrhau fod cymuned Llanaelhaearn yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Bro Plenydd a chymuned Llanaelhaearn, lle'n briodol.”*

## 5. ASESIAD O EFFAITH DEBYGOL AR Y GYMUNED

Er mwyn asesu effaith cymunedol yr opsiynau posib, penderfynwyd creu meini prawf yn unol ag argymhellion ystyriaethau asesiad cymunedol y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

### MODEL 1 – PARHAU GYDA'R 'STATUS QUO'

Positif	Niwtral	Negyddol
---------	---------	----------

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar lechyd a llesiant	Dim newid	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Dim newid	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Dim newid	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Dim newid	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Dim newid	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Dim newid	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Dim newid	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Dim newid	Niwtral



## MODEL 2 – FFEDERALEIDDIO AC YSGOL NEU YSGOLION ERAILL

Positif	Niwtral	Negyddol
---------	---------	----------

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a Llesiant	Dim newid o'r sefyllfa bresennol	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Dim newid o'r sefyllfa bresennol	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Dim newid o'r sefyllfa bresennol	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Dim newid o'r sefyllfa bresennol	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Dim newid o'r sefyllfa bresennol	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Dim newid o'r sefyllfa bresennol	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Dim newid o'r sefyllfa bresennol	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Dim newid o'r sefyllfa bresennol, ond nodir cyfleoedd i gymuned Llanaelhaearn a'r ysgol arall a fyddai'n rhan o'r model ffederal i ddod at eu gilydd.	Niwtral

### MODEL 3 – CAU YSGOL LLANAELHAERN A'R PLANT I'W HADDYSGU YN YSGOL BRO PLENYDD

Positif	Niwtral	Negyddol
---------	---------	----------

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a llesiant	<p>Gan fod yr ysgol amgen y fwy na 2 filltir o Ysgol Llanaelhaearn a chartrefi'r disgyblion, ni fyddant yn debygol o gerdded i'r ysgol.</p> <p>Er hynny, mae lleoliad yr ysgol yn agos i'r briff ffordd rhwng Pwllheli a Chaernarfon. Mae posib i ollwng plant yn y maes parcio, boed hynny mewn car neu darsi / bws mini, ac mae safle bws (gwasanaeth bws cyhoeddus) tu allan i ffiniau'r ysgol. Felly, os yw disgyblion yn llai abl i gerdded neu feicio, ni ragwelir anhawster i gyrraedd yr ysgol.</p>	Negyddol
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Mae bws cyhoeddus (rhif 12) yn rhedeg rhwng pentref Llanaelhaearn a'r ysgol amgen. Gall rhai teuluoedd fod yn ddibynnol ar gludiant cyhoeddus i gyrraedd yr ysgol amgen, er hynny, ni ragwelir effaith sylweddol ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus gan mai 8 disgybl sydd yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Nid oes unrhyw ddefnydd o'r ysgol yn ychwanegol i ddefnydd addysgol.	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni ragwelir effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Ni ragwelir y byddai teuluoedd a phlant ifanc yn gadael y gymuned, ar sail fod rhan fwyaf o blant y dalgylch eisoes yn mynd i ysgolion eraill.	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Gan fod nifer uchel o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill eisoes, ni ellir ddod i gasgliad y byddai cau yr ysgol yn cael effaith ar wasanaethau eraill.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Eto, gan fod y rhan fwyaf o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill, ni ragwelir y byddai colli ysgol yn cael effaith ar economi ehangach y gymuned.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	<p>Byddai'r ysgol leol yn bellach o gartrefi o fewn dalgylch presennol ysgol Llanaelhaearn, ac o safbwynt amddifadedd –golyga fod un o ddangosyddion 'mynediad i wasanaethau' yn pellhau oddi wrth drigolion y pentref.</p> <p>Gan fod canran uchel o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill eisoes, ni allwn fynegi yn gadarnhaol y byddai'r effaith gyffredinol o gau'r ysgol ar y gymuned leol yn negyddol na phositif.</p>	Negyddol

## 6. CASGLIAD

---

Dengys cynnwys yr adroddiad hwn na fyddai'r opsiwn i barhau gyda'r sefyllfa bresennol, neu ffederaleiddio gydag ysgol arall, yn cael effaith ar y gymuned, gan fod y ddau opsiwn yn golygu parhau gydag ysgol yn Llanaelhaearn gydag addasiadau i lywodraethu a chydweithio â'r ysgol arall o dan fodel ffederal. Golyga y byddai presenoldeb ysgol yn parhau yng nghymuned Llanaelhaearn gan ymgymryd yr un gweithgareddau a defnyddio'r un cyfleusterau ac y maent yn bresennol.

Pe byddai cyflwyno'r opsiwn o gau Ysgol Llanaelhaearn a'r disgyblion i'w haddysgu yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr, bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio.


Ni ddaeth gwybodaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad statudol sydd yn newid casgliad yr asesiad yma.

Er nad oes defnydd cymunedol o adeilad yr ysgol, gwelir yn yr asesiad hwn fod yr ysgol yn ymwneud a'i chymuned ac yn defnyddio cyfleusterau y gymuned, megis Canolfan y Babel yn gyson. Mae Canolfan y Ffôr ynghlwm ac adeilad y neuadd ac mae Ysgol Bro Plenydd yn defnyddio'r adnodd hwn. Pe byddai gwireddu yr opsiwn hwn yna gellid hybu Ysgol Bro Plenydd i wneud defnydd o gyfleusterau pentref Llanaelhaearn yn ogystal, yn achlysurol.

Ni ragwelir y byddai cau'r ysgol yn annog teuluoedd o oedran ysgol i adael y gymuned, gan fod cyfran helaeth o'r plant sydd yn byw yn nalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill. Yn yr un modd, ni ragwelir y byddai teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned.

Bydd yn hanfodol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen a rhieni disgyblion Ysgol Llanaelhaearn fel bod modd i rieni a disgyblion fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog yr ysgol amgen i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Llanaelhaearn yn ogystal.

Dengys yr asesiad hwn y bydd peth effaith negyddol o gau'r ysgol ar y gymuned. I liniaru'r effaith ar y gymuned nodir cyfleon i sicrhau fod cymuned Llanaelhaearn yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir gydweithio cymunedol rhwng Ysgol Bro Plenydd a chymuned Llanaelhaearn, lle'n briodol.



# Adroddiad Asesiad Effaith Ieithyddol Ysgol Llanaelhaearn

- Chwefror 2020

<b>1.</b>	<b>CYFLWYNIAD</b>
<b>2.</b>	<b>PROFFIL IEITHYDDOL DALGYLCH LLANAELHAEARN</b>
<b>3.</b>	<b>EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG</b>
<b>4.</b>	<b>CASGLIAD</b>

## 1. CYFLWYNIAD

---

Ar y 4ydd o Fehefin 2019, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd ganiatáu i'r Adran Addysg 'gynnal cyfarfodydd ffurfiol gyda'r corff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill i drafod ystod o opsiynau posibl ar gyfer dyfodol yr ysgol' o ganlyniad i bryderon yr Adran Addysg ynghylch cwmp sylweddol mewn niferoedd yn mynychu'r ysgol.

Mae Ysgol Llanaelhaearn wedi ei lleoli yng nghanol pentref Llanaelhaearn sydd rhwng Pwllheli a Chaernarfon. Mae gan yr Ysgol gapasiti Meithrin i Flwyddyn 6 o 53, gyda 8 o ddisgyblion rhwng 3-11 oed yn mynychu'r ysgol (Cyfrifiad Medi 2019). Mae'r disgyblion i gyd yn byw yn nalgylch Llanaelhaearn.

Mae niferoedd disgyblion sydd yn mynychu'r ysgol wedi lleihau yn sylweddol ers 2013, pan fu dros 40 o ddisgyblion yn yr ysgol. Mae'r 8 disgybl sydd bellach yn mynychu yn cael eu haddysgu mewn dau ddsbarth gyda thri disgybl mewn un dosbarth a pum disgybl yn y llall.

Ar y 24ain o Fehefin 2019, cynhaliwyd cyfarfod i adolygu sefyllfa'r ysgol, ble cynigwyd nifer o opsiynau i'w hystyried ar gyfer dyfodol yr ysgol. Bu cyfarfodydd dilynol ym mis Medi i werthuso'r opsiynau gan adnabod yr opsiynau a fyddai'n rhesymol i geisio datrys yr her y mae'r ysgol yn ei wynebu, sef niferoedd isel o ddisgyblion.

Ar y 5ed o Dachwedd 2019, cytunodd Cabinet Cyngor Gwynedd i gychwyn cyfnod o ymgynghori statudol yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffor, ar y 1af Medi 2020.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol rhwng y 16 Rhagfyr 2019 a 29 Ionawr 2020, a derbyniwyd 8 ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae cefnogi a datblygu gallu plant Gwynedd i ddysgu a defnyddio eu sgiliau iaith yn allweddol bwysig i strategaethau addysg y Sir a datblygwyd yr asesiad ardrawiad ieithyddol yma yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

### 1.1 Y Sefyllfa yng Ngwynedd

Mae ffigyrau yng Nghyfrifiad 2011 yn nodi fod 65,900 (56%) o bobl dros dair oed yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg. Mae Cyfrifiad 2011 hefyd yn nodi bod 65% yn siarad Cymraeg sydd yn ostyngiad ers y cyfrifiad blaenorol, pan oedd y ffigur yn 69%.

Yng Ngwynedd, fel mewn sawl Awdurdod Lleol eraill yng Nghymru, mae cryn wahaniaeth yng nghanran y siaradwyr Cymraeg o fewn gwahanol wardiau. Ar un eithaf, mewn wardiau megis Aberdyfi, Tywyn a ward Menai ym Mangor, mae rhwng 18% a 38% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, tra bod cymaint â 78% yn siarad Cymraeg yn yr ardaloedd mwyaf Cymreig e.e. Llanrug.

## 1.2 Polisi Iaith

### Cynradd

Yr un yw nod y Polisi Iaith ar draws holl ysgolion cynradd y Sir, sef datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyderus yn y ddwy iaith erbyn diwedd CA2. Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd Cyfnod Sylfaen. Yn CA2, parheir i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith.

### Uwchradd

Yn yr uwchradd, disgwylir i bob disgybl sydd wedi cyrraedd y lefel angenrheidiol, sef lefel 3+ ar ddiwedd CA2 ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA3 er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol. Y gobaith yw y gall y disgyblion hyn astudio'r Gymraeg a'r Saesneg fel pynciau hyd at ddiwedd blwyddyn 11.

Mae ysgolion uwchradd yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau fod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid yw'r Sir yn diffinio ysgolion uwchradd yn ôl categorïau ieithyddol gan fod yr un disgwyliad mewn perthynas â'r Polisi Iaith, sef rhoi cyfle i holl ddisgyblion y Sir fod yn hyfedr ddwyieithog.

## 1.3 Cefndir Addysgol

Mabwysiadwyd strategaeth "Addysg Gynradd o Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd" gan y Cyngor yn Ebrill 2009. Datblygwyd a chefnogwyd uwch strategaeth "Rhaglen Strategol - Tuag at 2025" gan y Cyngor yn Hydref 2010. Darparwyd y ddogfen fel sylfaen strategol i osod cyfeiriad i ddatblygiadau ym maes addysg a hyfforddiant yng Ngwynedd am y 15 mlynedd nesaf. Cyflwynwyd y rhaglen yng nghyd-destun y polisiâu a chynlluniau sydd ar y gweill, yn lleol a chenedlaethol i drawsnewid gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Cyhoeddwyd "Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer 2017-2020" yn Rhagfyr 2017 sydd yn gosod gweledigaeth, ymrwymiad a chyfeiriad ar gyfer sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi yn lleol.

## 2. PROFFIL IAITH DALGYLCH LLANAELHAERN

---

### 2.1 Cefndir Proffil Iaith Gwynedd

Mae bron i dri chwarter poblogaeth y Sir wedi eu geni yng Nghymru (66.8%). Mae 65.4% o'r boblogaeth sydd dros dair oed yn siaradwyr Cymraeg – sylweddol uwch na'r ffigur trwy Gymru gyfan o 19%. Yn gyffredinol, ceir cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg a'r rheini a gaiff eu geni yng Nghymru tuag at y gorllewin a symud yn fewndirol o'r ardaloedd mwy poblog ar yr arfordir. Yng Ngwynedd, mae'r gallu i siarad Cymraeg uchaf yn ward Llanrug (mae 87.8% yn siarad Cymraeg), ac ar ei isaf yn ardal Menai o Fangor (18.6%).

### 2.2 Wardiau

#### 2.2.1 Wardiau Llanaelhaearn, Abererch, Llanystumdwy ac Efailnewydd

Mae dalgylch presennol ysgolion Llanaelhaearn, Yr Eifl a rhan o ddalgylch ysgol Llanybi o fewn ward Llanaelhaearn (Swyddfa Ystadegol Gwladol), gyda dalgylch Ysgol Bro Plenydd a rhan o ddalgylch Ysgol Pentreuchaf o fewn ward Abererch, dalgylch ysgolion Chwilog a rhan o ddalgylch Llanybi o fewn ward Llanystumdwy, a gweddill dalgylch Ysgol Pentreuchaf o fewn ward Efailnewydd/Buan. Mae proffil ieithyddol wardiau'r ysgolion hyn wedi ei grynhoi yn y tabl isod:

	Llanaelhaearn	Abererch	Llanystumdwy	Efailnewydd / Buan	Gwynedd	Cymru
Hunaniaeth Gymreig yn unig	1,157 (68.7%)	928 (68.5%)	1,392 (66.9%)	832 (65.3%)	71,931 (59.0%)	1,761,673 (57.5%)
Dim hunaniaeth Gymreig	460 (27.3%)	337 (24.9%)	580 (27.9%)	371 (29.1%)	42,566 (34.9%)	1,045,775 (34.1%)
Aelwydydd ble mae gan o leiaf un person iaith gyntaf arall i Gymraeg neu Saesneg	8 (0.5%)	11 (0.8%)	6 (0.3%)	6 (0.5%)	1,463 (1.2%)	42,581 (1.4%)
Poblogaeth 3+ mlwydd oed	1,621 (96.3%)	1,315 (97.1%)	2,017 (97%)	1,231 (96.5%)	117,789 (96.6%)	2,995,841 (96.5%)
Gallu siarad Cymraeg	1,197 (73.8%)	1,050 (79.8%)	1,553 (77%)	915 (74.3%)	77,000 (65.4%)	562,016 (19.0%)
Dim sgiliau Cymraeg	315 (19.4%)	185 (14.1%)	347 (17.2%)	260 (21.1%)	31,177 (26.5%)	2,167,987 (73.3%)
Gallu deall Cymraeg ar lafar yn unig	90 (5.6%)	70 (5.3%)	100 (5%)	50 (4.1%)	8,125 (6.9%)	157,792 (5.3%)
Gallu siarad ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg	98 (6.0%)	80 (6.1%)	76 (3.8%)	58 (4.7%)	6,838 (5.8%)	80,429 (2.7%)
Gallu siarad a darllen Cymraeg ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg	45 (2.8%)	42 (3.2%)	64 (3.2%)	41 (3.3%)	3,947 (3.4%)	45,524 (1.5%)
Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	1,049 (64.7%)	926 (70.4%)	1,406 (69.7%)	814 (66.1%)	65,921 (56.0%)	430,717 (14.6%)
Cyfuniad arall o sgiliau Cymraeg	24 (1.5%)	12 (0.9%)	24 (1.2%)	8 (0.6%)	1,781 (1.5%)	73,392 (2.5%)

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegol Gwladol

### 2.3 Ysgol Llanaelhaearn

Ysgol Cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Llanaelhaearn.

Dengys y tabl isod bod nifer y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn rhugl gartref yn 6, sydd yn 55% o'r disgyblion (PLASC 2019).

#### Gwybodaeth ieithyddol ar gyfer Ysgol Llanaelhaearn

Ysgol	Siarad Cymraeg yn rhugl gartref	Dim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl	Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg gartref a dim yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg o gwbl	Cyfanswm
Llanaelhaearn	6 (55%)	1 (9%)	1 (9%)	3 (27%)	0 (0%)	11

Ffynhonnell: Data gan Benaethiaid PLASC Ionawr 2019

### 2.4 Ysgolion cyfagos

Ysgolion cyfrwng Cymraeg yw ysgolion Bro Plenydd, yr Eifl, Llangybi, Pentreuchaf a Chwilog, fel gweddill ysgolion Gwynedd. Mae data ieithyddol yr ysgolion hyn i'w gweld yn y tabl isod:



Ysgol	Siarad Cymraeg yn rhugl gartref	Dim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl	Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg gartref a dim yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg o gwbl	Cyfanswm
Bro Plenydd	62 (83%)	5 (6%)	2 (3%)	2 (3%)	4 (5%)	<b>75</b>
Yr Eifl	48 (83%)	2 (3%)	3 (5%)	1 (2%)	4 (7%)	<b>58</b>
Llangybi	21 (57%)	0 (0%)	7 (19%)	2 (5%)	7 (19%)	<b>37</b>
Pentreuchaf	83 (84%)	9 (9%)	3 (3%)	3 (3%)	1 (1%)	<b>99</b>
Chwilog	41 (84%)	3 (6%)	0 (0%)	2 (4%)	3 (6%)	<b>49</b>

Ffynhonnell: Data gan Benaethiaid PLASC Ionawr 2019

## 2.5 Lefel Cyrhaeddiad

Ysgolion	% y disgyblion sydd wedi cyrraedd y lefel disgwylidig – Cymraeg (iaith gyntaf)					
	Cyfnod Sylfaen (Cyrraedd canlyniad 5+)			CA2 (cyrraedd o leiaf lefel 4)		
	2017	2018	2019	2017	2018	2019
Llanaelhaearn	100%	-*	0%	-*	100%	100%
Bro Plenydd	100%	92.3%	100%	100%	90.9%	100%
Yr Eifl	80%	75%	66.7%	62.5%	100%	83.3%
Llangybi	75%	71.4%	66.7%	100%	100%	75%
Pentreuchaf	92.9%	84.2%	83.3%	100%	100%	100%
Chwilog	100%	66.7%	87.5%	100%	100%	100%

\*Nid oedd disgyblion yn y flwyddyn addysgol berthnasol y flwyddyn hon.

Ffynhonnell: GwE (Medi 2019)

Gwelwn fod amrediad eang o lwyddiant pan mae'n dod i gyrraedd academaidd ysgolion yr ardal. Mae dros 75% o ddisgyblion CA2 wedi llwyddo i gyrraedd y lefel disgwylidig (Cymraeg – iaith) ym mhob ysgol llynedd, gan gynnwys 100% o Ysgolion Llanaelhaearn a Bro Plenydd. Mae amrediad eang o ganlyniadau yn y Cyfnod Sylfaen rhwng Ysgol Llanaelhaearn ac Ysgol Bro Plenydd.

Fel rhan o weithredu'r Siarter Iaith, mae holl ddisgyblion CA2 pob ysgol gynradd yng Ngwynedd yn cwblhau holiadur gwe iaith am eu defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol ddwywaith y flwyddyn. Dyma ystadegau Hydref 2018 am y defnydd mae'r disgyblion yn ei wneud o'r Gymraeg gyda'u hathrawon:

Canran y plant sy'n siarad Cymraeg efo'r athrawon (ar wahân i wersi Saesneg)					
	Bob Amser	Yn Aml	Weithiau	Ychydig iawn	Byth
Ysgol Llanaelhaearn	100%	0%	0%	0%	0%
Ysgol Bro Plenydd	100%	0%	0%	0%	0%
Ysgol Yr Eifl	96%	0%	4%	0%	0%
Ysgol Pentreuchaf	98%	2%	0%	0%	0%
Ysgol Chwilog	95%	0%	2.5%	0%	2.5%

Canran y plant sy'n siarad Cymraeg efo'r cymhorthyddion (ar wahân i wersi Saesneg)

	Bob Amser	Yn Aml	Weithiau	Ychydig lawn	Byth
Ysgol Llanaelhaearn	100%	0%	0%	0%	0%
Ysgol Bro Plenydd	100%	0%	0%	0%	0%
Ysgol Yr Eifl	100%	0%	0%	0%	0%
Ysgol Pentreuchaf	95%	3%	0%	0%	2%
Ysgol Chwilog	95%	0%	5%	0%	0%

Canran y plant sy'n siarad Cymraeg efo gweddill staff yr ysgol

	Bob Amser	Yn Aml	Weithiau	Ychydig lawn	Byth
Ysgol Llanaelhaearn	100%	0%	0%	0%	0%
Ysgol Bro Plenydd	100%	0%	0%	0%	0%
Ysgol Yr Eifl	100%	0%	0%	0%	0%
Ysgol Pentreuchaf	98%	2%	0%	0%	0%
Ysgol Chwilog	95%	0%	5%	0%	0%

Canran y plant sy'n siarad Cymraeg efo plant yn y dosbarth

	Bob Amser	Yn Aml	Weithiau	Ychydig lawn	Byth
Ysgol Llanaelhaearn	40%	60%	0%	0%	0%
Ysgol Bro Plenydd	95%	5%	0%	0%	0%
Ysgol Yr Eifl	88.5%	11.5%	0%	0%	0%
Ysgol Pentreuchaf	83%	17%	0%	0%	0%
Ysgol Chwilog	91%	0%	4.5%	0%	4.5%

Canran y plant sy'n siarad Cymraeg efo'r plant ar y coridor ac yn y neuadd ginio

	Bob Amser	Yn Aml	Weithiau	Ychydig lawn	Byth
Ysgol Llanaelhaearn	60%	40%	0%	0%	0%
Ysgol Bro Plenydd	92%	8%	0%	0%	0%
Ysgol Yr Eifl	81%	4%	15%	0%	0%
Ysgol Pentreuchaf	75%	25%	0%	0%	0%
Ysgol Chwilog	91%	0%	4.5%	0%	4.5%

Canran y plant sy'n siarad Cymraeg ar iard yr ysgol

	Bob Amser	Yn Aml	Weithiau	Ychydig lawn	Byth
Ysgol Llanaelhaearn	0%	100%	0%	0%	0%
Ysgol Bro Plenydd	86%	14%	0%	0%	0%
Ysgol Yr Eifl	46%	31%	11.5%	11.5%	0%
Ysgol Pentreuchaf	50%	40%	10%	0%	0%
Ysgol Chwilog	77%	18%	0%	0%	5%

Canran y plant sy'n hyderus wrth siarad Cymraeg

	Hyderus iawn	Hyderus	Gweddol hyderus	Ddim yn hyderus	Ddim yn hyderus o gwbl
Ysgol Llanaelhaearn	100%	0%	0%	0%	0%

Ysgol Bro Plenydd	92%	5%	3%	0%	0%
Ysgol Yr Eifl	88%	8%	4%	0%	0%
Ysgol Pentreuchaf	82%	13%	5%	0%	0%
Ysgol Chwilog	95%	5%	0%	0%	0%

Canran y plant sy'n meddwl ei bod hi'n bwysig siarad Cymraeg					
	Pwysig iawn	Pwysig	Gweddol bwysig	Ddim yn bwysig	Ddim yn bwysig o gwbl
Ysgol Llanaelhaearn	100%	0%	0%	0%	0%
Ysgol Bro Plenydd	100%	0%	0%	0%	0%
Ysgol Yr Eifl	96%	4%	0%	0%	0%
Ysgol Pentreuchaf	78%	18%	4%	0%	0%
Ysgol Chwilog	91%	9%	0%	0%	0%

Gwelwn yn ôl y data uchod fod defnydd o'r Gymraeg yn uchel yn ysgolion yr ardal. Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yr holl ysgolion yn defnyddio'r Gymraeg wrth siarad gydag athrawon a staff. Gwelwn fod defnydd anffurfiol o'r iaith - ar yr iard a gyda disgyblion eraill, fymryn yn llai. Wedi dweud hynny, dengys y data mai Cymraeg yw prif iaith gymdeithasol ysgolion yr ardal.

Mae plant Llanaelhaearn i gyd yn defnyddio'r Gymraeg i siarad gyda'r athrawon, cymhorthyddion a staff, fel y mae disgyblion Ysgol Bro Plenydd. Mae canran uwch o blant yn Ysgol Bro Plenydd yn gwneud defnydd anffurfiol o'r Gymraeg – gyda'u gilydd yn y dosbarth, ac ar yr iard, a rhagwelir y byddai trosglwyddo i Ysgol Bro Plenydd yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar yr iaith ac yn cynyddu'r cyfleon i blant Llanaelhaearn i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gymdeithasu.

Nifer o ymatebion:

Ysgol Llanaelhaearn: 5

Ysgol Chwilog: 22

Ysgol Pentreuchaf: 60

Ysgol yr Eifl: 26

Ysgol Bro Plenydd: 37

Ysgol Llangybi: sampl yn rhy fychan

## 2.6 Gweithgareddau ar ôl ysgol

Yn bresennol, nid oes gweithgareddau ar ôl ysgol yn cael eu cynnal yn Ysgol Llanaelhaearn.

Dyma grynodedb o'r hyn mae'r ysgolion eraill cyfagos yn eu cynnig ar ôl ysgol:

	Llanaelhaearn	Yr Eifl	Chwilog	Bro Plenydd	Pentreuchaf	Llangybi
<b>Grwpiau Chwarae (Gwyliau'r ysgol)</b>						✓
<b>Aelwyd yr Urdd</b>		✓	✓	✓	✓	✓
<b>Bore/Noson Goffi</b>			✓			
<b>Cylch/Ysgol Feithrin</b>			✓	✓	✓	✓
<b>Clwb/Gweithgaredd Chwaraeon</b>		✓			✓	✓





### 3. EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG

---

#### 3.1 Opsiynau

Mae'r asesiad hwn wedi ei gynnal ar ddau opsiwn a fyddai'n cynnig manteision o gymharu â sefyllfa bresennol yr ysgol, sef ffederaleiddio gydag ysgol neu ysgolion eraill, neu gau yr ysgol a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen.

Mae'r opsiynau hynny, yn ychwanegol i wneud dim a pharhau gyda'r sefyllfa bresennol, wedi eu manylu isod:

- *Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.*

Byddai cadw'r drefn bresennol yn golygu fod Ysgol Llanaelhaearn yn parhau yn yr un modd, gyda'r un strwythur staffio. Byddai Pennaeth Strategol ar Ysgol Llanaelhaearn, Garndolbenmaen a Chwilog a byddai'n treulio 1 diwrnod yr wythnos yn arwain Ysgol Llanaelhaearn.

Byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu gan athro llawn amser ac uwch-gymhorthydd.

#### Ffederaleiddio gydag Ysgol / Ysgolion eraill

Byddai Ysgol Llanaelhaearn yn ffurfio Ffederasiwn ffurfiol, cyfreithiol gydag un neu fwy o'r Ysgolion cyfagos. Golyga hyn fod yr ysgolion yn parhau ar wahân ond fod y Cyrff Llywodraethu yn cael eu diddymu, a bod un Corff Llywodraethol yn cael ei ethol ar gyfer y Ffederasiwn. Yn ddaeryddol, yr ysgolion a fyddai'n rhesymol i'w hystyried byddai un neu fwy o'r ysgolion canlynol; Yr Eifl, Llanybi, Bro Plenydd, Chwilog a Pentreuchaf.

Byddai cyllidebau'r ysgolion yn parhau ar wahân.

Ni ragwelir y byddai ffederaleiddio yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg gan y byddai Ysgol Llanaelhaearn yn parhau, gyda chyfleon i gryfhau sefyllfa arweinyddiaeth, a chydweithio ar gyfer ysgol .

#### Cau Ysgol Llanaelhaearn a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen

Golyga hyn fod Ysgol Llanaelhaearn yn cau, a'r disgyblion presennol yn trosglwyddo i Ysgol Bro Plenydd (yr ysgol amgen).

Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn cynnwys asesiad o effaith cau Ysgol Llanaelhaearn ac addysgu'r disgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr, ar yr iaith Gymraeg o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol. Mae'r tabl hefyd yn amlinellu'r cyfleoedd ychwanegol ar gyfer cryfhau'r iaith Gymraeg, a dulliau lliniaru unrhyw effaith negyddol a allai ddeillio o'r opsiwn.

## ASESIAD O'R EFFAITH AR YR IAITH

<b>Positif</b>	<b>Niwtral</b>	<b>Negyddol</b>
----------------	----------------	-----------------

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith	Oes unrhyw fesurau wedi'u hadnabod i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i greu mwy o gyfleoedd positif	Effaith derfynol (yn dilyn dulliau lliniaru)
<b>Iaith yr ysgol</b>	Mae Ysgol Llanaelhaearn yn ysgol Gymraeg ei chyfrwng. Byddai'r cynnig o drosglwyddo disgyblion i Ysgol Bro Plenydd ddim yn cael effaith ar iaith addysg y plant oherwydd bod yr ysgol amgen hefyd yn ysgol cyfrwng Cymraeg. Gall y cynnig gryfhau cyfleoedd i ddisgyblion gymdeithasu yn y Gymraeg gyda'u cyfoedion.	Niwtral Dim effaith ar sefyllfa iaith yr ysgol	Amherthnasol	Amherthnasol
<b>Mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg</b>	Mae'r ysgol amgen eisoes yn darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, felly ni ellir rhagweld unrhyw fudd ychwanegol i hyn.	Niwtral Dim effaith ar sefyllfa'r iaith	Amherthnasol	Amherthnasol
<b>Tud. 107 Darpariaeth anstatudol</b>	Byddai gan ddisgyblion fynediad at ystod ehangach o adnoddau addas, cyflenwad uwch yn nhermau staffio, a byddent yn rhan o grŵp mwy o gyfoedion.	Positif	Gallai'r Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Ysgol Bro Plenydd drafod dulliau o annog y disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.	Positif
<b>Gweithgareddau cyn / ar ôl ysgol</b>	Byddai gan y disgyblion fynediad at ystod ehangach o gyfleusterau addas tu allan i'r ystafell ddosbarth, byddai mwy o athrawon a byddent yn rhan o grŵp mwy o gyfoedion. Mae ysgol fwy yn cynnig mwy o amrediad o weithgareddau. Mae'n bosib bydd rhaid i rai rhieni deithio ymhellach (i Ysgol Bro Plenydd) er mwyn i'r disgyblion gael mynychu gweithgareddau cyn ac ar ôl ysgol.	Positif Mwy o gyfle i ddefnyddio'r iaith Gymraeg	Gallai'r Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Ysgol Bro Plenydd drafod dulliau o hwyluso bod gweithgareddau ar ôl ysgol mor gyfleus a bo modd i'r holl ddisgyblion	Positif
<b>Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned</b>	Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd 74% o boblogaeth ward Llanaelhaearn yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r ysgol amgen hefyd o fewn ward gyda chanran uchel o siaradwyr Cymraeg (80% yn ward Abererch). Byddai addysg Gymraeg yn parhau i gael ei ddarparu i ddisgyblion presennol Ysgol Llanaelhaearn yn Ysgol Bro Plenydd. Gallai cynyddu cyfleon i'r disgyblion gymdeithasu yn y Gymraeg a mynediad at fwy o weithgareddau gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg tu allan i'r ysgol ac yn y gymuned.	Positif Mwy o gyfle i ddefnyddio'r iaith Gymraeg	Gallai'r Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol yr ysgol amgen drafod dulliau o hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel cyfrwng gymdeithasol o drefnu gweithgareddau tu allan i'r ysgol.	Positif

## 4. CASGLIAD

---

Wedi ystyried ystod o opsiynau posibl ar gyfer y dyfodol, mae'r Cyngor wedi cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020, a chynnig addysgu'r disgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr, o'r 1af o Fedi 2020. Fel rhan o'r broses ymgynghori statudol, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol baratoi asesiad o'r effaith ieithyddol o'r cynnig i ad-drefnu ysgol – dyma ddiben y ddogfen hon.

Ein disgwyliadau yw bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys a gallu perthnasol er mwyn iddynt fod yn aelodau cyflawn o'r Gymdeithas ddwyieithog maent yn rhan ohoni. Bydd angen i'r cynigion ar gyfer newid trefniadau lleol gymryd ystyriaeth lawn o'r holl effeithiau ieithyddol. Bydd cynnal a gwell defnydd o'r Gymraeg fel iaith addysgol a chymdeithasol ymhlith plant yn ystyriaeth allweddol wrth lunio cynigion o fewn yr ardal.


Ni ragwelir unrhyw newid i sefyllfa ieithyddol Ysgol Llanaelhaearn wrth barhau gyda'r sefyllfa bresennol, nac wrth ffederaleiddio gydag ysgol neu ysgolion eraill, gan nad yw'r opsiynau hyn yn cynnig unrhyw newid o safbwynt darpariaeth addysg ym mhentref Llanaelhaearn.

Byddai'r opsiwn o gau'r ysgol a'r disgyblion i gael eu haddysgu yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr, yn golygu fod disgyblion ysgol Llanaelhaearn yn cael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, fel y maent yn bresennol, ac mewn ysgol ble defnyddir y Gymraeg yn gymdeithasol gan y disgyblion. Nodir fod sefyllfa ieithyddol Ysgol Bro Plenydd yn gryf iawn, gyda 83% o'r disgyblion yn dod o gartrefi Cymraeg. O'i gymharu, mae 54% o ddisgyblion Ysgol Llanaelhaearn yn dod o gartrefi Cymraeg.

Mae wedi ei awgrymu yn ôl ymatebion y cyfnod ymgynghori fod rhieni yn debygol o wneud cais i'w plant drosglwyddo i Ysgol Chwilog. Mae gan rieni hawl i wneud hyn yn unol a pholisi mynediad yr Awdurdod.

Daethpwyd i gasgliad wedi ystyried y wybodaeth sydd yn yr asesiad hwn, na fyddai'r cynnig o gau Ysgol Llanaelhaearn a'r disgyblion i'w haddysgu yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr, yn cael effaith negyddol ar yr iaith. Fel nodir eisoes, mae canran uwch o blant o gartrefi Cymraeg yn Ysgol Bro Plenydd. Fel canlyniad, bydd mwy o gyfleoedd i blant Llanaelhaearn ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u cyfoedion yn y dosbarth, ac yn gymdeithasol yn ogystal. Cydnabyddir fod Ysgol Llanaelhaearn wedi gweithio'n galed i ddatblygu sgiliau dwyieithog y plant a hyrwyddo diwylliant Cymraeg. Nodir felly ei bod yn bwysig i gydnabod yr angen i gefnogi a pharhau gyda'r gwaith hwn pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo.





# **Adroddiad Asesiad Llesiant Ysgol Llanaelhaearn**

- Chwefror 2020

1. **CYFLWYNIAD**
2. **SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?**
3. **A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?**
4. **EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY**
5. **CASGLIAD**

# 1. CYFLWYNIAD

Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd.

Gweledigaeth y Cyngor yw:

*Ein gweledigaeth fel Cyngor yw cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu cymuned mewn sir sy'n un o'r siroedd gorau i fyw ynddi.*

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu amcanion llesiant sydd yn ategu'r nodau llesiant cenedlaethol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyswllt rhwng ein hamcanion llesiant a'r nodau llesiant cenedlaethol.

<b>Byddwn yn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn:</b>	<b>Llewyrchus</b>	<b>Cydnherth</b>	<b>Iachach</b>	<b>Cyfartal</b>	<b>Cymunedau Cydlynus</b>	<b>Diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu</b>	<b>Yn gyfrifol ar lefel byd-eang</b>
Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel							
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau							
Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd							
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud							
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl							
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg							
Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir.							

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg disgyblion drwy eu gweithgareddau a'u prosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r dyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella yn "Cynllun Gwynedd 2018-2023".

## 1.1 Cyd-destun Ysgol Llanaelhaearn

Ar y 4ydd o Fehefin 2019, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd ganiatáu i'r Adran Addysg gynnal cyfarfodydd ffurfiol gyda Chorff Llywodraethol Ysgol Llanaelhaearn, a budd-ddeiliaid perthnasol eraill, er mwyn trafod ystod o opsiynau posibl ar gyfer dyfodol yr ysgol.

Mae Ysgol Llanaelhaearn wedi ei lleoli yng nghanol pentref Llanaelhaearn sydd rhwng Pwllheli a Chaernarfon. Mae gan yr ysgol gapasiti Meithrin i Flwyddyn 6 o 53, gyda 8 disgybl rhwng 3-11 oed yn mynychu'r ysgol (Medi 2019). Mae'r disgyblion i gyd yn byw yn nalgylch Llanaelhaearn. Mae'r 8 disgybl sydd bellach yn mynychu'r ysgol yn cael eu haddysgu mewn dau ddsbarth gyda 3 yn y cyfnod sylfaen a 5 yng nghyfnod allweddol 2.

Rhwng Mehefin a Medi 2019, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd i adolygu sefyllfa'r ysgol, ble bu i nifer o opsiynau gael eu cynnig a'u gwerthuso ar gyfer y dyfodol.

Wedi ystyried a gwerthuso'r 8 opsiwn, bu i'r Adran Addysg ystyried dau opsiwn yn fanylach, a fyddai'n cynnig manteision o gymharu â sefyllfa bresennol yr ysgol, sef ffederaleiddio gydag ysgol neu ysgolion eraill, neu gau'r ysgol a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen.

Mae'r opsiynau hynny, yn ychwanegol i wneud dim a pharhau gyda'r sefyllfa bresennol, wedi eu manylu isod.

- *Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.*

Byddai cadw'r drefn bresennol yn golygu fod Ysgol Llanaelhaearn yn parhau yn yr un modd, gyda'r un strwythur staffio. Byddai Pennaeth Strategol ar Ysgol Llanaelhaearn, Garndolbenmaen a Chwilog a fyddai'n treulio 1 diwrnod yr wythnos yn arwain Ysgol Llanaelhaearn.

Byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu gan athro llawn amser ac uwch-gymhorthydd.

- *Ffederaleiddio gydag Ysgol / Ysgolion eraill*

Byddai Ysgol Llanaelhaearn yn ffurfio model ffederal ffurfiol, gyfreithiol gydag ysgol neu ysgolion eraill cyfagos. Yn ddaearyddol, yr ysgolion a fyddai'n rhesymol i'w hystyried byddai un neu fwy o'r ysgolion canlynol; Yr Eifl, Llanybi, Bro Plenydd, Chwilog, neu Pentreuchaf.

Golyga hyn fod yr ysgolion yn parhau ar wahân ond fod y Cyrff Llywodraethu yn cael eu diddymu, a bod un Corff Llywodraethol yn cael ei ethol ar gyfer y Ffederasiwn. Byddai cyllidebau'r ysgolion yn parhau fel y maen nhw.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynyddu ar gyfleon y disgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

- *Cau Ysgol Llanaelhaearn a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen*

Golyga hyn fod Ysgol Llanaelhaearn yn cau, a'r disgyblion presennol yn trosglwyddo i Ysgol Bro Plenydd (yr ysgol amgen).

Yn dilyn ystyriaeth fanwl o'r opsiynau hynny, cyflwynwyd argymhelliad i Gabinet Cyngor Gwynedd a bu iddynt gytuno i gychwyn cyfnod o ymgynghori statudol yn unol a gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020 a darparu lle i'r disgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr, o'r 1af Medi 2020.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol rhwng y 16 Rhagfyr 2019 a 29 Ionawr 2020 a derbyniwyd 8 ymateb i'r ymgynghoriad.

## 2. SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?

Ystyriwyd amcanion llesiant Cyngor Gwynedd wrth werthuso'r opsiynau.

<b>Gwneud dim – parhau gyda'r sefyllfa bresennol.</b>	
<b>Amcanion</b>	Manylion:
<b>Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel</b>	Dim effaith
<b>Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau</b>	Dim effaith
<b>Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd</b>	Dim effaith
<b>Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud</b>	Dim effaith
<b>Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl</b>	Dim effaith
<b>Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg</b>	Dim effaith
<b>Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir</b>	Dim effaith.

<b>Ffederaleiddio gydag Ysgol / Ysgolion eraill</b>	
<b>Amcanion</b>	Manylion:
<b>Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel</b>	Dim effaith
<b>Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau</b>	Dim effaith
<b>Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd</b>	Dim effaith
<b>Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud</b>	Dim effaith. Proses o ffurfioli'r drefn bresennol o gydweithio byddai ffederaleiddio, ac er bydd man newidiadau megis un Corff Llywodraethu ar ffederasiwn, a lleihau'r baich gweinyddol ar y Pennaeth, rhagdybir y byddai'r ysgol yn parhau gyda'r trefniant o gydweithio gydag Ysgolion Chwilog a Garndolbenmaen, neu ysgol arall pe byddant yn ffederaleiddio a nhw.
<b>Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl</b>	Dim effaith
<b>Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg</b>	Dim effaith
<b>Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir</b>	Dim effaith.

<b>Cau Ysgol Llanaelhaearn a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen</b>	
<b>Amcanion</b>	Manylion:
<b>Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel</b>	Dim effaith
<b>Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau</b>	Dim effaith
<b>Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd</b>	Gall cyflwyno'r opsiwn yma arwain at staff i golli eu swyddi. Datblygwyd polisi staffio manwl gan Gyngor Gwynedd mewn cydweithrediad ag Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd y polisi yn sail i unrhyw newid i gyflogaeth staff sy'n deillio o unrhyw gynig. Bydd cyfathrebu eglur ac agored yn greiddiol i weithrediad llwyddiannus unrhyw gynigion.
<b>Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud</b>	Bydd sicrhau fod y disgyblion yn derbyn addysg o'r radd flaenaf yn greiddiol i'r cynnig, gan sicrhau y byddant yn derbyn addysg o'r un ansawdd a safon, fan lleiaf, yn yr ysgol amgen.

<b>Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl</b>	Dim effaith
<b>Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg</b>	Cynhaliwyd asesiad ardrawiad ieithyddol. Mae disgyblion Ysgol Llanaelhaearn yn byw mewn cymdeithas Gymraeg ac yn cael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, fel Ysgol Bro Plenydd. Nodir yr asesiad ardrawiad ieithyddol fod sefyllfa'r ysgol amgen yn gryf iawn, gyda 83% o ddisgyblion yn dod o gartrefi Cymraeg. O'i gymharu, mae 54% o ddisgyblion Ysgol Llanaelhaearn yn dod o gartrefi Cymraeg.
<b>Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir</b>	Dim effaith.

### 3. A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?

Nod	Yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod yma?	Mesurau lliniaru effeithiau negyddol ar y nod yma:
<p><b>Cymru lewyrchus</b> Cymdeithas arloesol sy'n defnyddio adnoddau'n ddarbodus, pobl addysgedig, sy'n creu cyfoeth a gwaith.</p>	<p>Golyga gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn ac addysgu'r plant yn Ysgol Bro Plenydd fod y disgyblion yn meithrin profiadau drwy gymdeithasu a phlant eraill ac yn derbyn addysg o ansawdd gan ddefnyddio adnoddau'n ddarbodus.</p> <p>Gall cyflwyno'r opsiwn yma arwain at staff yn colli eu swyddi.</p>	<p>Ymgynghorir yn benodol a staff a chynrychiolwyr yr Undebau fel rhan o'r cyfnod ymgynghori statudol. Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu polisi staffio manwl, ar y cyd ac Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau o ganlyniad i'r cynnig hwn gyd-fynd a'r polisi hwnnw. Bydd cyfathrebu clir ac agored yn chwarae rhan greiddiol mewn gweithredu unrhyw gynigion.</p>
<p><b>Cymru gydnerth</b> Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau iach sy'n cefnogi gwydnwch a gyda'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).</p>	<p>Nid yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod yma.</p>	<p>Dim effaith</p>
<p><b>Cymru iachach</b> Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl tystal â phosibl ac mae pobl yn deall beth sy'n effeithio ar eu hiechyd.</p>	<p>Nid yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod yma.</p>	<p>Dim effaith</p>
<p><b>Cymru sy'n fwy cyfartal</b> Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial gwaeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).</p>	<p>Addysg a phrofiadau disgyblion y dalgylch sydd yn flaenllaw i'r cynnig. Ein bwriad yw sicrhau fod disgyblion yn cyflawni eu potensial gwaeth beth fo'u cefndir.</p>	<p>Cynhaliwyd asesiad cydraddoldeb a deuir i gasgliad na fyddai gweithredu'r cynnig yn effeithio ar gydraddoldeb, a bod cyfle cyfartal i holl ddisgyblion a theuluoedd gwaeth beth fo'u cefndir nau amgylchiad cymdeithasol-economaidd. Mae'r ysgol amgen yn gweithredu polisi cydraddoldeb a gwrth-fwlio cadarn.</p>
<p><b>Cymru o gymunedau gydlynus</b> Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.</p>	<p>Mae cymuned Llanaelhaearn yn gryf a gweithgar a chydnyddir y byddai cau'r ysgol yn cael peth effaith negyddol ar y gymuned.</p>	<p>Cynhaliwyd asesiad o'r effaith debygol ar y gymuned ble nodir er bod peth effaith negyddol ar y gymuned, ond fod 7 o ddisgyblion sydd yn byw yn nalgylch Llanaelhaearn yn mynychu Ysgol Bro Plenydd yn barod, ac felly mae cyswllt eisoes rhwng yr ysgol a'r ardal ehangach. Nodir yr asesiad yn ogystal y byddai trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Bro Plenydd yn cynnwys cymuned Llanaelhaearn.</p>

<p><b>Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</b></p> <p>Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.</p>	<p>Bydd gwireddu'r cynnig yn golygu y bydd disgyblion Ysgol Llanaelhaearn yn parhau i gael eu haddysgu mewn Ysgol cyfrwng Cymraeg.</p>	<p>Nodir yr asesiad ardrawiad ieithyddol na fyddai newid i'r nod hwn drwy wireddu'r cynnig o ganlyniad i Gymreictod ardal Llanaelhaearn a'r ardaloedd eraill cyfagos.</p>
<p><b>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang.</b></p> <p>Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.</p>	<p>Nid yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod yma.</p>	<p>Dim effaith.</p>

#### 4. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY

Egwyddorion Datblygu cynaliadwy	A yw'r cynnig yn ystyried yr egwyddor?
<p><b>Hirdymor</b></p> <p>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.</p>	<p>Mae'r patrwm niferoedd yn lleihau wedi bod yn digwydd ers 2012, gyda rhagamcanion yn dangos y bydd niferoedd yn lleihau ymhellach, ac felly dengys y bydd y sefyllfa o' heriau presennol sydd yn wynebu'r ysgol yn rhai hir dymor a bod angen adolygu'r sefyllfa cyn gynted â phosib.</p>
<p><b>Atal</b></p> <p>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.</p>	<p>Anghenion y disgyblion fydd yn cael ei flaenoriaethu yn ystod pob cam o'r broses.</p>
<p><b>Integreiddio</b></p> <p>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.</p>	<p>Mae sefyllfa argyfyngus o niferoedd isel yn ysgol Llanaelhaearn wedi arwain at adolygiad o sefyllfa'r ysgol ar gyfer y dyfodol.</p>
<p><b>Cydweithio</b></p> <p>Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.</p>	<p>Mae nifer o adrannau eraill wedi cael mewnbwn yn ystod y broses wrth werthuso'r opsiynau posibl. Yn ogystal, bu i rann-ddeiliaid perthnasol i'r ysgol fod a mewnbwn drwy gydol y broses hyd yma.</p>
<p><b>Cynnwys</b></p> <p>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y maent yn gwasanaethu.</p>	<p>Mae'r cynnig wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, ac ymgynghoriad i blant. Mae'r broses hyd yma wedi cynnwys cyfarfodydd adolygu lleol er mwyn ymgysylltu a budd-ddeiliaid perthnasol yr ysgol. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi cynnwys y Corff Llywodraethu, staff, a rhieni Ysgol Llanaelhaearn.</p>




## 5. CASGLIAD

---

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf Llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf Llesiant ac amcanion Llesiant y Cyngor a deuir i gasgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion. Bydd y cynnig hwn yn caniatáu i ni ymateb i a diwallu anghenion y plant heddiw, a hefyd cryfhau eu Llesiant i'r dyfodol.

Cydnabyddir fod y cynnig hwn yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Llanaelhaearn, fodd bynnag mae nifer helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys yr ysgol amgen, ac felly mae cyswllt rhwng Ysgol Bro Plenydd a chymuned Llanaelhaearn eisoes. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau. Pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Bro Plenydd yn cynnwys cymuned Llanaelhaearn, ble'n briodol.

Bydd y cynnig arfaethedig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd o gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.



# Adroddiad Aseiad Cydraddoldeb Ysgol Llanaelhaearn

- Chwefror 2020

1. **CYFLWYNIAD**
2. **OPSIYNAU**
3. **EFFAITH UNRHYW NEWID**
4. **DADANSODDI'R CANLYNIADAU**
5. **CASGLIAD**

## 1. CYFLWYNIAD

---

### 1.1 Cyd-destun Ysgol Llanaelhaearn

Ar y 4ydd o Fehefin 2019, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd ganiatáu i'r Adran Addysg gynnal cyfarfodydd ffurfiol gyda Chorff Llywodraethol Ysgol Llanaelhaearn, a budd-ddeiliaid perthnasol eraill, er mwyn trafod ystod o opsiynau posibl ar gyfer dyfodol yr ysgol.

Mae Ysgol Llanaelhaearn wedi ei lleoli yng nghanol pentref Llanaelhaearn sydd rhwng Pwllheli a Chaernarfon. Mae gan yr ysgol gapasiti Meithrin i flwyddyn 6 o 53, gyda 8 o ddisgyblion rhwng 3-11 oed yn mynychu'r ysgol (Medi 2019). Mae'r disgyblion i gyd yn byw yn nalgylch Llanaelhaearn. Mae'r 8 disgybl sydd bellach yn mynychu'r ysgol yn cael eu haddysgu mewn dau ddsbarth gyda 3 yn y cyfnod sylfaen a 5 yng nghyfnod allweddol 2.

Rhwng Mehefin a Medi 2019, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda Chorff Llywodraethu a budd-ddeiliaid perthnasol eraill i adolygu sefyllfa'r ysgol, ble cynigwyd nifer o opsiynau i'w hystyried ar gyfer dyfodol yr ysgol.

Ar y 5ed o Dachwedd 2019, cytunodd Cabinet Cyngor Gwynedd i gychwyn cyfnod o ymgynghori statudol yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffor, ar y 1af Medi 2020.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol rhwng 16 Rhagfyr 2019 a 29 Ionawr 2020. Derbyniwyd 8 ymateb i'r ymgynghoriad.

## 2. OPSIYNAU

---

### 2.1 Opsiynau

Yn ystod y trafodaethau lleol, bu i nifer o opsiynau gael eu cynnig a'u gwerthuso ar gyfer dyfodol yr ysgol.

Yn dilyn asesiad manwl o 8 opsiwn, deuir i'r casgliad fod dau opsiwn a oedd yn gynnig manteision o gymharu a sefyllfa bresennol yr ysgol.

Mae'r opsiynau hynny, yn ychwanegol i wneud dim a pharhau gyda'r sefyllfa bresennol, wedi eu manylu isod:

- *Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.*

Byddai cadw'r drefn bresennol yn golygu fod Ysgol Llanaelhaearn yn parhau yn yr un modd, gyda'r un strwythur staffio. Byddai Pennaeth Strategol ar Ysgol Llanaelhaearn, Garndolbenmaen a Chwilog a fyddai'n treulio 1 diwrnod yr wythnos yn arwain Ysgol Llanaelhaearn.

Byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu gan athro llawn amser a chymhorthydd.

#### Ffederaleiddio gydag Ysgol / Ysgolion eraill

Byddai Ysgol Llanaelhaearn yn ffurfio Ffederasiwn ffurfiol, cyfreithiol gydag un neu fwy o' Ysgolion cyfagos. Golyga hyn fod yr ysgolion yn parhau ar wahân ond fod y Cyrff Llywodraethu yn cael eu diddymu, a bod un Corff Llywodraethol yn cael ei ethol ar gyfer y Ffederasiwn. Yn ddaearyddol, yr ysgolion a fyddai'n rhesymol i'w hystyried fyddai un neu fwy o'r ysgolion canlynol; Yr Eifl, Llangybi, Bro Plenydd, Chwilog a Pentreuchaf. Byddai cyllidebau yr ysgolion yn parhau ar wahân. Byddai ffederaleiddio yn gallu arwain at gyfleon i gydweithio yn agosach ac ysgol neu ysgolion eraill gan gryfhau arweinyddiaeth a chynllunio ar draws y ffederasiwn.

Drwy gyflwyno model ffederal gyda ysgol arall i Ysgol Llanaelhaearn, ni ragwelir y byddai'r newid yn cael effaith ar nodweddion cydraddoldeb, yn bennaf gan y byddai'r ysgol yn parhau yn Llanaelhaearn, gan weithredu yr un polisiau cydraddoldeb a gwrth-fwllo.

## ☒ *Cau Ysgol Llanaelhaearn a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen*

Golyga hyn fod Ysgol Llanaelhaearn yn cau, a'r disgyblion presennol yn trosglwyddo i Ysgol Bro Plenydd (yr ysgol amgen).

Daethpwyd i gasgliad yn dilyn asesiad manylach o'r opsiynau hyn, mae'r cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Bro Plenydd oedd yn ymateb i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, sef niferoedd isel o ddisgyblion a dosbarthiadau bychain.

## 2.2 Ymgynghoriad Statudol

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, derbyniwyd 8 ymateb gan gynnwys sylwadau Estyn i'r ymgynghoriad. Yn eu hymateb, nodwyd:

*“Mae'r cynigiwr yn nodi bod gan adeilad Ysgol Bro Plenydd gyfleusterau cyfystyr ac Ysgol Llanaelhaearn i gynnig darpariaeth arbenigol sy'n addas ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw'n nodi'n ddigon clir yr effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig ac nid yw'r cynnig yn ystyried trefniadau hygyrchedd i ddisgyblion ag anabledd.”*

*“Ar y cyfan mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith a chost y cynigion ar drefniadau teithio disgyblion ond nid ar hygyrchedd y ddarpariaeth deithio ar gyfer disgyblion ag anghenion arbennig”*

Nodir yr Awdurdod fel ymateb i'r sylwad am ddiffyg ystyriaeth i drefniadau hygyrchedd i ddisgyblion ac anabledd, yn yr un modd a'r hyn sydd yn digwydd ar hyn o bryd, fe fyddai gofyn i Ysgol Bro Plenydd adolygu Cynlluniau'r disgyblion gydag ADY ac yna mapio'r anghenion ar ddarpariaeth yr ysgol. Byddai'r Panel Cymedroli yn ystyried darpariaeth ar gyfer disgyblion gyda Datganiad neu Gynllun Datblygu Unigol (CDU) i sicrhau darpariaeth addas yn yr ysgol newydd. Byddai'r fforwm yn trafod CDU plant sydd yn derbyn mewnbwn y Tîm Integredig ADY a Chynhwysiad, gan sicrhau parhad gwasanaeth

Mewn perthnasedd i ystyriaethau hygyrchedd, mae'r ddwy safle wedi eu hasesu yn yr un categori. Pe byddai unigolyn ac anableddau yn gwneud cais mynediad neu drosglwyddo i Ysgol Bro Plenydd yn y dyfodol, y byddai'r Awdurdod yn ymdrin a'r cais fel y byddai i unrhyw ysgol arall yng Ngwynedd.

Mewn ymateb i'r sylwad am ystyriaeth i ddarpariaeth deithio ar gyfer disgyblion ag anghenion arbennig, nodir yr Awdurdod pe byddai disgybl yn methu a defnyddio cludiant arferol, y byddai unrhyw gludiant ychwanegol yn cael ei drafod gan y Panel Cymedroli ar sail sefyllfaoedd unigol.

Wrth ystyried effaith y cynnig ar gydraddoldeb, nodir Estyn:

*“Mae'r cynigiwr wedi cynnal asesiad o effaith y cynnig ar gydraddoldeb ac yn honni'n rhesymol na ddylai'r cynnig gael effaith andwyol ar unrhyw grwpiau penodol. Fodd bynnag, nid cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth briodol i aflonyddwch posibl ar ddisgyblion presennol.”*

Fel ymateb i'r sylwad uchod, mae'r Adran Addysg yn cefnogi cais am gludiant i drosglwyddo i Ysgol Chwilog, a fyddai'n lleihau'r aflonyddwch posibl ar ddisgyblion presennol Ysgol Llanaelhaearn.

### 3. EFAITH UNRHYW NEWID

Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar y nodweddion hyn?

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
<b>Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)</b>	Dim	<p>Ni fyddai gweithredu y cynnig yn effeithio ar bobl ar sail hil. Bydd gweithredu unrhyw gynnig yn golygu fod pawb o unrhyw hil yn cael eu trin yn ôl eu hangen. Mae Ysgol Llanaelhaearn, a'r ysgolion cyfagos yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi eu bod yn:</p> <p><i>"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."</i></p>
<b>Yr Iaith Gymraeg</b>	Dim	<p>Addysgir plant Ysgol Llanaelhaearn drwy gyfrwng y Gymraeg, ac nid yw'r cynnig yn awgrymu newid hynny. Cynhaliwyd asesiad ardrawiad ieithyddol ar y cynnig yn ogystal.</p>
<b>Anabledd</b>	Dim	<p>Ni ragwelir fod newid ar gyfer pobl anabl.</p> <p>Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn ac addysgu'r disgyblion yn Ysgol Bro Plenydd yn cael ei gymeradwyo, bydd angen monitro y nifer o ddisgyblion anabl sydd yn mynychu'r ysgolion. Yn ddibynol ar yr amhariad bydd yn rhaid i'r ysgolion addasu eu cynlluniau ar gyfer rhoi mynediad i ddisgyblion gydag anableddau penodol. Yn sgil hyn bydd yn rhaid i'r awdurdod hefyd sicrhau bod adrannau perthnasol yn ymwybodol o newidiadau a sicrhau'r mewnbwn angenrheidiol. Byddai asesiad o hygyrchedd y safle arfaethedig yn cael ei gynnal yn unol â sefyllfaoedd penodol.</p> <p>Mae'r ddau safle yn yr un categori o ran hygyrchedd, ond pe byddai unigolyn ac anableddau yn gwneud cais mynediad neu drosglwyddo i Ysgol Bro Plenydd yn y dyfodol, y byddai'r Awdurdod yn ymdrin â'r cais fel y byddai i unrhyw ysgol arall yng Ngwynedd.</p>
<b>Rhyw</b>	Dim	<p>Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn effeithio ar bobl ar sail rhyw. Mae Ysgol Llanaelhaearn, a'r ysgolion cyfagos yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn:</p> <p><i>"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."</i></p>
<b>Oedran</b>	Unrhyw effaith yn gymharol fychan (positif neu negatif)	<p>Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn effeithio ar bobl ar sail oedran. Bydd gweithredu'r cynnig yn golygu fod pobl o unrhyw oedran yn cael eu trin yn deg ac yn ôl eu hangen. Mae Ysgol Llanaelhaearn, a'r ysgolion cyfagos yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn:</p> <p><i>"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."</i></p> <p>Er y gallai golli ysgol leol gael effaith negyddol ar gydlyniant cymunedol, bydd angen lliniaru hyn drwy feithrin cysylltiadau rhwng yr ysgol amgen a chymuned leol Llanaelhaearn.</p>

<b>Cyfeiriadedd Rhywiol</b>	Dim	Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith ar bobl ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Bydd gweithredu'r cynnig yn golygu fod pawb o unrhyw gyfeiriadedd rhywiol yn cael eu trin yn ôl eu hangen. Mae Ysgol Llanaelhaearn, a'r ysgolion cyfagos yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn:  <i>"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."</i>
<b>Crefydd neu Gred (neu ddiffyg cred)</b>	Dim	Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn effeithio ar bobl ar sail crefydd neu gred. Bydd gweithredu unrhyw un o'r opsiynau yn golygu fod pawb o unrhyw grefydd neu gred yn cael eu trin yn ôl eu hangen. Mae Ysgol Llanaelhaearn, a'r ysgolion cyfagos yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn:  <i>"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."</i>  Ysgol gymunedol yw Ysgol Llanaelhaearn a'r holl ysgolion cyfagos (Yr Eifl, Llangybi, Pentreuchaf, Bro Plenydd, Chwilog), ac nid oes bwriad i newid hyn.
<b>Ailbennu Rhywedd</b>	Dim	Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn effeithio ar bobl ar sail ailbennu rhywedd. Bydd gweithredu y cynnig yn sicrhau fod pawb yn cael eu trin yn deg. Mae Ysgol Llanaelhaearn, a'r ysgolion cyfagos yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn:  <i>"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."</i>
<b>Beichiogrwydd a Mamolaeth</b>	Dim	Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith ar unrhyw un beichiog, boed yn staff neu yn riant, gan fod y ddwy ysgol yn gweithredu yr un polisiau.
<b>Priodas a Phartneriaeth Sifil</b>	Dim	Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith ar unrhyw un priod neu mewn partneriaeth sifil, gan fod y ddwy ysgol yn gweithredu yr un polisiau.

Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabled a beichiogrwydd a mamolaeth.

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	A yw'n cael effaith?*	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Nac ydi	Gweithredu polisiau cydraddoldeb a gwrth-fwlio yr ysgol amgen er mwyn cael gwared a chamwahaniaethu anghyfreithlon ac aflonyddu. Mae polisiau safonol yr Adran Addysg yn cael eu gweithredu gan y ddwy ysgol.
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Nac ydi	Anelir i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a hybu'r ysgol amgen i barhau i ddilyn polisiau a gweithdrefnau cydraddoldeb.
Meithrin perthnasau da	Ydi	Anelir i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a hybu'r ysgol amgen i barhau i ddilyn polisiau a gweithdrefnau cydraddoldeb.  Gan fod rhai o blant sydd yn byw yn nalgylch Llanaelhaearn yn mynychu Ysgol Bro Plenydd eisoes, mae cysylltiad rhwng yr ysgol a chymuned Llanaelhaearn yn bodoli yn barod. Er hynny, hyrwyddir cyfleon i'r ysgol adeiladu ar gysylltiadau gyda chymuned Llanaelhaearn.

#### 4. DADANSODDI'R CANLYNIADAU

- 4.1 Ydi'r cynnig felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Nid yw'r cynnig yn debygol o gael effaith sylweddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol. Mae gan yr ysgol amgen bolisiau cydraddoldeb a gwrth-fwlio, fel sydd gan Ysgol Llanaelhaearn yn bresennol.

- 4.2 Ydi'r cynnig felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Nid yw'r cynnig yn debygol o gael effaith sylweddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol. Mae gan yr ysgol amgen bolisiau cydraddoldeb a gwrth-fwlio, fel sydd gan Ysgol Llanaelhaearn yn bresennol.

- 4.3 Beth ddylid ei wneud?

##### Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	✓
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau â'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	



4.4 Os yn parhau gyda'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n gymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Er y gallai golli ysgol leol gael effaith negyddol ar gydlyniant cymunedol, bydd angen lliniaru hyn drwy feithrin cysylltiadau rhwng yr ysgol amgen a chymuned leol Llanaelhaearn.

4.5 Monitro - pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Yr ysgol (a'u Corff Llywodraethu) sydd yn gyfrifol am weithredu ei bolisi cydraddoldeb a bydd yr Awdurdod, drwy ei weithdrefnau cefnogi a monitor arferol, yn sicrhau cydymffurfiaeth.

## 5. CASGLIAD

---

Deur i gasgliad na fyddai gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Bro Plenydd yn effeithio ar gydraddoldeb, boed yn nodweddion neu ddyletswydd gyffredinol. Gweithredir polisiau cydraddoldeb a gwrth-fwlio cadarn gan yr ysgol amgen a fyddai'n ymestyn i gynnwys disgyblion a rhieni Llanaelhaearn. Pe byddai rhai yn cael eu hamlygu yn dilyn yr ymgynghoriad, yna bydd y Cyngor yn ystyried y camau gweithredu angenrheidiol.

# Eitem 7

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod :	18 Chwefror 2020
Aelod Cabinet :	Y Cyng. Dyfrig Siencyn
Swyddog Cyswilt :	Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor
Adran / Gwasanaeth :	Cefnogaeth Gorfforaethol
Teitl yr Eitem	Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 – Adolygiad 2020/21

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1. Cymeradwyaeth y Cabinet i Gynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 – Adolygiad 2020/21 (y Cynllun) i'w gyflwyno i'r Cyngor ar y 5ed o Fawrth 2020.

### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

- 2.1. Mabwysiadwyd Cynllun y Cyngor 2018-23 yn wreiddiol gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar yr 8fed o Fawrth 2018. Yn flynyddol ers hynny rydym wedi bod yn adolygu ei gynnwys er mwyn sicrhau ein bod fel Cyngor yn parhau i flaenoriaethu ein gwaith yn ôl anghenion pobl Gwynedd.
- 2.2. Mae angen i'r Cabinet yn gyntaf gymeradwyo cynnwys y Cynllun, gan gynnwys y diweddariadau sydd wedi ei wneud iddo, er mwyn argymhell bod yn Cyngor Llawn yn ei fabwysiadu yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2020.

### 3. CYFLWYNIAD

- 3.1. Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023 yw'n datganiad cyhoeddus ni fel Cyngor o'r hyn y fwriadwn ei gyflawni dros bobl Gwynedd. Roedd y Cynllun, yn ei flwyddyn gyntaf, yn datgan ein gweledigaeth am 5 mlynedd, ac yna mae pob adolygiad blynyddol yn cynnig diweddariad sy'n crynhoi yn fyr ble yr ydym wedi ei gyrraedd ar y siwrnai, a beth fydd ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- 3.2. Rydym bellach angen adolygu'r Cynllun er mwyn datgan beth y bwriadwn ei gyflawni yn ystod 2020/21, sef y drydedd flwyddyn i mewn i'r cynllun pum mlynedd. Bydd angen i'r Cabinet roi sêl bendith ar y newidiadau sydd wedi ei gwneud i'r Cynllun rhwng 2019/20 a 2020/21. Mae'r Cynllun diwygiedig newydd i'w weld yn **Atodiad 1**.

3.3. Ble mae newidiadau arwyddocaol wedi eu gwneud i gynnwys y Cynllun rydym yn cyflwyno Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb er mwyn i'r Cabinet bwysu a mesur os ydi'r newidiadau yn dderbyniol. Mae'r Aseiad cyntaf yn un sy'n edrych ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae'r ddau Aseiad arall yn mesur effaith dau brosiect newydd sy'n cael eu cyflwyno o'r newydd, sef 'Cydwethio Meirionnydd' a 'Sicrhau Tegwch i Bawb'. Mae'r Aseidiadau hyn i'w gweld yn **Atodiad 2**.

3.4. Mae'r Cynllun wedi ei rannu'n 2 brif ran, sef y **Cynllun Cryno** a'r **Cynlluniau Adran**. Mae'r Cynllun Cryno yn nodi ein Amcanion Llesiant a'n Blaenoriaethau Gwella ar gyfer y cyfnod dan sylw, ac yn crynhoi yr holl feysydd yr ydym am roi sylw penodol iddynt er mwyn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau ein trigolion. O dan bob Blaenoriaeth Gwella ceir crynodeb o'r hyn y bwriedir ei gyflawni.

3.5. Ceir disgrifiad o waith dydd i ddydd yr Adrannau o fewn y **Cynlluniau Adran**. Yn ogystal, ceir disgrifiad manylach o'r hyn y bwriedir ei wneud er mwyn ymateb i'r blaenoriaethau gwella.

#### 4. YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Nodir isod y materion sydd angen i aelodau'r Cabinet eu hystyried cyn cymeradwyo'r Cynllun:

4.2. Mae'r prosiectau yn y tabl isod wedi eu hychwanegu o'r newydd, ac felly a yw'r Cabinet yn gytûn gyda'r newidiadau hyn?

Prosiect	Adran	Rheswm
Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd (sydd hefyd yn Flaenoriaeth Gwella newydd)		Ymateb i flaenoriaeth y Cyngor a'r Cabinet yn dilyn cyhoeddi datganiad argyfwng hinsawdd
Cydwethio Meirionnydd	Addysg	Mae angen ymateb i'r sefyllfa gyfredol ym Meirionnydd ble mae angen edrych yn strategol ar ddarpariaeth addysg uwchradd
Sicrhau Tegwch i Bawb	Cefnogaeth Gorfforaethol	Mae'r Cynllun Cydraddoldeb newydd yn dod i rym yn 2020/21 felly mae angen prosiect i roi hwb i'r gwaith

4.3. Un o'r prif newidiadau sy'n cael ei gynnig i'r Cynllun Cryno yw ychwanegu Blaenoriaeth Gwella o'r newydd fydd yn cyfarch dyhead y Cyngor a'r Cabinet

i ymateb i'r datganiad argyfwng hinsawdd. Ar ddiwedd y Cynllun Cryno fe welwch Blaenoriaeth Gwella 8, sef 'Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd', a phrosiect 'Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd'. Nid oes Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei lunio ar gyfer y prosiect hwn eto gan mai nod y prosiect yn 2020/21 yw llunio cynllun gweithredu. Bydd yr Asesiad yn cael ei lunio pan fydd y prosiect yn ddigon aeddfed.

- 4.4. Mae Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar gyfer y ddau brosiect arall wedi eu cynnwys yn Atodiad 2.
- 4.5. Mi fydd y prosiectau canlynol a fu'n cyfrannu at Flaenoriaethau Gwella yn y Cynllun Cryno hyd at eleni yn trosglwyddo i fod yn rhan o waith dydd i ddydd yr adrannau yn ystod 2020/21 oherwydd nad oes angen sylw penodol ar y gwaith hwn bellach neu fod y gwaith wedi ei orffen. A yw'r Cabinet yn gytûn gyda'r newid hwn?

Prosiect	Adran
Cryfhau'r Arweinyddiaeth	Addysg
Dalgylch Y Berwyn, Y Bala	Addysg
Strategaeth Cefnogi Teuluoedd	Plant a Chefnogi Teuluoedd
Cynyddu Budd Digwyddiadau Mawrion	Economi
Datblygu'r Arweinyddiaeth	Cefnogaeth Gorfforaethol

- 4.6 Yn ogystal, mae'r prosiectau canlynol wedi newid:

Prosiect	Adran
<b>Strategaeth Iaith Uwchradd</b> wedi newid ei deitl i <b>Hybu Defnydd o'r Gymraeg ymysg Plant a Phobl Ifanc</b>	Addysg

- 4.7 Mae gweddill y prosiectau Blaenoriaethau Gwella yn cario ymlaen o 2019/20 i 2020/21.
- 4.8 **Blaenoriaethau Lleol** (testun mewn blychau lliw yn y Cynlluniau Adran) yw'r blaenoriaethau a adnabuwyd gan yr holl aelodau lleol yn ystod yr ymgynghoriad gwreiddiol ar Gynllun y Cyngor yn hydref 2017. Mae unrhyw newidiadau neu addasiadau i'r blaenoriaethau lleol ynghyd ag unrhyw gamau gweithredu y bwriedir eu cynnal i'r dyfodol yn cael eu cyfarch o fewn y Cynlluniau Adran perthnasol.
- 4.9 **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)(2015)**

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae angen i gyrrff cyhoeddus gyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y byddant yn gwella llesiant.

- 4.10 Bu i ni ymgynghori gyda'r Aelodau Etholedig a'r cyhoedd ynghylch y materion sy'n effeithio ar eu llesiant fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Cynllun gwreiddiol gan hefyd ddadansoddi canlyniadau Aseiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn.
- 4.11 Bydd angen ychwanegu Rhagair yr Arweinydd i'r Cynllun fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor er eu cymeradwyaeth, ac fe wneir hynny yn dilyn y drafodaeth yng nghyfarfod y Cabinet.
- 4.12 Bydd yr Adran 'Gwybodaeth Ariannol' hefyd yn cael ei diweddarau cyn cyflwyno'r Cynllun terfynol er cymeradwyaeth y Cyngor.

## **5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

- 5.1. O gymeradwyo'r cynllun, bwriedir ei gyflwyno i'w fabwysiadu yng nghyfarfod llawn nesaf y Cyngor ar y 5fed o Fawrth 2020.
- 5.2 Ar ôl i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r Cynllun, bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a chopïau papur yn cael eu rhannu i'w darllen yn Siop Gwynedd yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau, ac i lyfrgelloedd y sir.

## **6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

### **6.1 Barn y Swyddogion Statudol:**

#### **i. Y Pennaeth Cyllid**

Mae Cynllun y Cyngor yn ddogfen allweddol, sy'n gosod allan yr hyn y mae Cyngor Gwynedd am anelu i'w wneud dros y dair blynedd nesaf.

Mae Cronfa Cynllun y Cyngor yn parhau, er mwyn ariannu blaenoriaethau'r Cynllun, ond mae cyfran o'r gronfa yma eisoes wedi cael ei ymrwymo. Mae tebygolrwydd y bydd gofynion adnoddau'r holl flaenoriaethau gwella sydd yn y Cynllun yn fwy na'r arian fydd ar gael iddynt, tra mae priodoldeb ariannol yn golygu y bydd rhaid sicrhau bod ffynhonnell ariannu wedi cael ei adnabod ar gyfer unrhyw ymrwymiad i wario.

Disgwyliaf y bydd y Cabinet yn parhau i ystyried pob achos busnes yn unigol cyn cytuno i'w ariannu. Byddaf yn diweddarau'r Cabinet ar sefyllfa ddiweddaraf y Gronfa ar yr achlysuron hyn.



## ii. Y Swyddog Monitro:

O fewn Cynllun y Cyngor mae agweddau statudol sydd yn cael eu cyfarch, yn benodol felly ynglŷn ag Amcanion Gwella ( Mesur Llywodraeth Leol ( Cymru) 2009) ag Amcanion Llesiant a osodir yn unol â'r gofyn yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol( Cymru ) 2015. Drwy adolygu'r Cynllun yn flynyddol mae'r Cyngor yn cyfarch y gofynion adolygu a gosod blynyddol sydd yn berthnasol i'r rhain. Rwy'n cefnogi'r argymhelliad o safbwynt priodoldeb

### 6.2 Barn yr Aelod Lleol

Ddim yn fater lleol.

### 6.3 Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad

Dim i'w nodi.

## Atodiadau

Atodiad 1 – Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023: Adolygiad 2020/21


Atodiad 2 – Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb

---



# Cynllun Cyngor Gwynedd 2018 - 2023

*Adolygiad 2020/21*







# Cynnwys



Cynnwys	Tudalen
<b>Rhagair Arweinydd y Cyngor</b>	<b>2</b>
<b>Cyflwyniad i'r Cynllun</b>	<b>3</b>
<b>Cynllun Cryno</b>	<b>5</b>
<b>Atodiad I – Cynlluniau Adrannol</b>	<b>25</b>
<b>Addysg</b>	<b>27</b>
<b>Oedolion, Iechyd a Llesiant</b>	<b>35</b>
<b>Priffyrdd a Bwrdeistrefol</b>	<b>43</b>
<b>Plant a Chefnogi Teuluoedd</b>	<b>51</b>
<b>Amgylchedd</b>	<b>58</b>
<b>Economi a Chymuned</b>	<b>69</b>
<b>Tai ac Eiddo</b>	<b>83</b>
<b>Ymgynghoriaeth Gwynedd</b>	<b>91</b>
<b>Cefnogaeth Gorfforaethol</b>	<b>95</b>
<b>Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)</b>	<b>106</b>
<b>Gwasanaethau Cyfreithiol</b>	<b>113</b>
<b>Gwybodaeth Ariannol</b>	<b>116</b>

Os ydych chi angen y ddogfen yma mewn iaith neu fformat arall  
ffoniwch 01766 771000 neu ebostiwch [cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru](mailto:cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru)



Graffeg "designed by  
Freepik"

Os ydych chi angen mwy o wybodaeth am y Cynllun  
hwn cysylltwch â Thîm Cefnogi Busnes y Cyngor  
drwy ffonio 01766 771000  
neu cynlluncyngor@gwynedd.llyw.cymru



## RHAGAIR YR ARWEINYDD

Bydd y Rhagair yn cael ei gynnwys yn y Cynllun fydd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor ar 5 Mawrth 2020.

## CYFLWYNIAD I'R CYNLLUN

Cafodd Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 ei fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Mawrth 2018 (a'i adolygu ym mis Mawrth 2019). Fe'i lluniwyd ar sail tystiolaeth o fewn yr asesiad llesiant a wnaed gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Gwynedd a Môn ynghyd ag adborth o ymgynghori efo cymunedau, aelodau etholedig, staff a phartneriaid.

Uchelgais y Cyngor yw gweld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu, a bod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosibl
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y Sir

Yn unol â gofynion **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r rhain yn amcanion llesiant.

Mae'r Cynllun hwn yn nodi beth yr ydym eisoes yn ei wneud er mwyn cyfrannu tuag at ein hamcanion llesiant a gwireddu ein uchelgais trwy waith dydd i ddydd yr Adrannau.

Yn ogystal, rydym wedi adnabod nifer o feysydd ble yr ydym o'r farn fod angen newid ac ymdrech benodol i weithredu er mwyn gwella'r ffordd yr ydym yn cyflawni'r amcanion yma. Mae'r rhain wedi eu nodi fel Blaenoriaethau Gwella, ac maent yn cynnwys nifer o brosiectau y byddwn yn gweithredu arnynt.

Wrth weithredu byddwn hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i'r egwyddor datblygu cynaliadwy trwy ystyried y tymor hir, atal rhag digwydd, gweithio'n integredig, gweithio'n gydweithredol a chynnwys pobl o bob oed.

*Byddwn yn gwneud hyn drwy fabwysiadu ffordd o weithio, "Ffordd Gwynedd", sydd â'i ffocws ar roi pobl Gwynedd yn ganolog i bobeth yr ydym yn ei wneud.*

Er bod camau eisoes wedi eu cymryd i ddangos sut yr ydym yn cyfrannu tuag at egwyddorion y Ddeddf rydym yn cydnabod fod gwaith pellach angen ei wneud er mwyn tystiolaethu hyn a'r effaith a geir ar drigolion Gwynedd. O ganlyniad, byddwn yn edrych i gryfhau ein trefniadau herio ac adrodd ar berfformiad er mwyn amlygu ein cyfraniad i egwyddorion y Ddeddf.

Bu i ni adolygu cynnwys y Cynllun dros y misoedd diwethaf er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn parhau i wneud y pethau sy'n bwysig i bobl Gwynedd gan edrych ar y materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a pholisi sy'n dylanwadu ar y Cyngor ac sy'n debygol o ddylanwadu ar bobl Gwynedd i'r dyfodol.

Rydym fel Cyngor yn adolygu ein gwaith yn gyson er mwyn sicrhau ein bod ar y trywydd cywir. Mae Blaenoriaethau Gwella'r Cynllun hwn, ynghyd â gweddill gwaith dydd i ddydd y Cyngor wedi bod yn derbyn sylw yn Adroddiadau Herio Perfformiad Aelodau'r Cabinet sy'n cael eu trafod mewn

cyfarfodydd rheolaidd o'r Cabinet. Os oes angen gwneud mwy, neu lai, neu newid unrhyw brosiect, yna byddwn yn gwneud hynny.

Bydd y fersiwn hon o'r Cynllun, 'Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023: Adolygiad 2020/21', yn disodli'r fersiwn gyfredol a cheir rhestr isod o'r prif addasiadau a wnaed yn dilyn yr adolygiad:

Mewn ymateb i benderfyniad y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2019 y dylid gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod y sir yn parhau i fod yn gartref bywiog, hyfyw a chynaliadwy i'n plant ac i blant ein plant am genedlaethau i ddod mae blaenoriaeth wella newydd wedi ei ychwanegu:

- **Ymateb i'r argyfwng Newid Hinsawdd**

Cwblhawyd y prosiectau canlynol neu maent wedi trosglwyddo i fod yn rhan o waith dydd i ddydd yn ystod 2019/20 :

- **Cryfhau'r Arweinyddiaeth**
- **Dalgylch y Berwyn, Y Bala**
- **Strategaeth Cefnogi Teuluoedd**
- **Cynyddu Budd Digwyddiadau Mawrion**
- **Datblygu'r Arweinyddiaeth**

Mae'r prosiectau canlynol wedi eu hychwanegu o'r newydd:

- **Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd**
- **Cydweithio Strategol Meirionnydd**
- **Sicrhau Tegwch i Bawb**

Yn ogystal, mae'r prosiectau canlynol wedi newid:

- **Strategaeth Iaith Uwchradd** wedi newid ei deitl i **Hybu Defnydd o'r Gymraeg ymysg Plant a Phobl Ifanc**

Mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch yr hyn yr ydym wedi ei wneud mewn ymateb i'r materion a amlygwyd gan Gyngorwyr fel Blaenoriaethau Lleol yn ôl yn hydref 2017. Bydd unrhyw newidiadau neu addasiadau i'r blaenoriaethau, ynghyd ag unrhyw gamau gweithredu y bwriedir eu cynnal i'r dyfodol, yn cael eu cyfarch o fewn y Cynlluniau Adran perthnasol.

Fel y nodwyd eisoes, mae sefyllfa ariannol fregus Cymru a Phrydain yn gosod cryn her i ni fel Cyngor wrth i ni gynllunio ein gwasanaethau i'r dyfodol. Mae toriadau i'n cyllideb yn golygu bod parhau i ddarparu nifer o wasanaethau yn anodd tu hwnt. Rhaid, felly, bod yn greadigol ac ystyried pob ffordd posib o ddarparu'r gwasanaethau y mae pobl Gwynedd yn eu haeddu. Rydym yn datgan yn glir fodd bynnag y bydd unrhyw newid yn seiliedig ar un llinyn mesur yn unig – yr angen i weld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu ac i wella lles ein trigolion i'r dyfodol.

Ers i'r Cynllun gwreiddiol gael ei fabwysiadu mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu eu [Cynllun Llesiant](#) yn ystod gwanwyn 2018. Mae'r amcanion Llesiant a'r blaenoriaethau a amlygir o fewn y Cynllun Llesiant yn gyson â'r rhai sydd o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023. Mae Cynllun y Cyngor yn canolbwyntio ar y gwasanaethau dydd i ddydd a'r materion y mae'r Cyngor wedi eu blaenoriaethu tra bydd y Cynllun Llesiant yn canolbwyntio ar y meysydd lle y teimlir y gall sefydliadau cyhoeddus wneud mwy o wahaniaeth i lesiant pobl yr ardal trwy weithio ar y cyd.

**Ein uchelgais yw gweld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu, a'n bod fel pobl yn...**

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud

Ennill cyflog digonol i ni fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib

Cael manteisio ar harddwch naturiol y sir

**Byddwn yn gwneud hyn drwy arloesi a bod ar flaen y gad ym mhopeth yr ydym yn ei wneud, gan ganolbwyntio ar...**

Greua economi hyfyw a ffyniannus

Roi cyfle i bob disgybl gael y cyfle i gyflawni ei botensial

Leihau anghydraddoldeb o fewn y sir

Sicrhau mynediad at gartref addas


Helpu pobl i fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg

Helpu pobl sydd angen cefnogaeth i fyw eu bywydau fel y dymunant

Roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud

Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd

**...fydd yn cael ei gynnal gan holl waith dydd i ddydd Adrannau'r Cyngor.**



Ein Blaenoriaethau Gwella yw'r meysydd y credwn mae angen i ni ganolbwyntio arnynt oherwydd bod angen cynyddu neu wella'r sefyllfa bresennol. Isod, mae crynodebau o'r prosiectau fydd yn cyfrannu at y gwella hwnnw, ond mae mwy o fanylion i'w gweld yng nghynlluniau'r adran perthnasol.

### Y pethau yr ydym eisiau eu gwneud yn well :

Sylfaen caniatáu i bobl Gwynedd ffynnu yw sicrhau fod yna swyddi addas ar gael yn y sir sy'n talu cyflogau sy'n eu galluogi i gynnal eu hunain a'u teuluoedd.



#### Blaenoriaeth Gwella I



**Creu economi hyfyw a ffiniannus.**

### Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

#### I. Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru



#### Adran Economi a Chymuned

Mae diffyg twf yn wendid yn economi Gogledd Cymru gyfan, a'r gogledd orllewin yn arbennig. Er mwyn ceisio gwyrddroi'r sefyllfa daeth chwe sir y gogledd, a rhanddeiliaid eraill megis sefydliadau addysg y rhanbarth a'r sector breifat, ynghyd i sefydlu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Prif gynllun y Bwrdd yw '**Cais Twf Gogledd Cymru**' ac yn Nhachwedd 2019 arwyddwyd cytundeb cychwynnol rhwng y Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sy'n paratoi'r ffordd ar gyfer gwireddu'r Cais Twf. Bydd y cais yn arwain at £945m o fuddsoddiad yn rhanbarth y Gogledd dros y pymtheg mlynedd nesaf gan greu hyd at 4,000 o swyddi ledled y Gogledd.

Fel aelod o'r Bwrdd Uchelgais, ein nod fel Cyngor yw sicrhau y bydd pobl a busnesau Gwynedd yn elwa i'r eithaf o'r buddsoddiad ariannol hwn, yn enwedig mewn cyfnod pan fydd angen ymateb i sgil-ffeithiau Brexit.

I'r dyfodol, byddwn yn parhau i gyfrannu at raglen waith y Bwrdd Uchelgais, gan gynnwys gwella argaeledd bandeang cyflym, datblygu safle Atomfa Trawsfynydd a datblygu Canolfan Arloesedd Gwledig yng Nglynllifon. Byddwn hefyd yn cyfrannu at ddatblygiad Fframwaith Economaidd Gogledd Cymru sy'n cael ei pharatoi gan Lywodraeth Cymru i adnabod prif raglenni buddsoddi rhanbarthol i'r dyfodol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.

## 2. Cadw'r Budd yn Lleol



**Adran Cefnogaeth  
Gorfforaethol**

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gaffael, neu brynu, nifer o nwyddau a gwasanaethau ac yn awyddus i geisio sicrhau fod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosibl yn **aros yn lleol**.

Rydym eisoes wedi cyflwyno trefniadau newydd i geisio prynu nwyddau a gwasanaethau mewn ffyrdd mwy arloesol ac effeithlon, a chymerwyd camau er mwyn hwyluso gallu busnesau i gystadlu am gytundebau. Yn 2018/2019, fe lwyddwyd i gynyddu'r canran o wariant lleol i 63% o'i gymharu â 62% y flwyddyn flaenorol.

I'r dyfodol byddwn yn byddwn yn ymgysylltu gyda busnesau lleol er mwyn asesu beth fyddai'n gwneud cyfleon caffael yn fwy deiniadol iddynt a pha gefnogaeth pellach sydd eu hangen arnynt. Byddwn hefyd yn adolygu ein trefniadau caffael er mwyn sicrhau bod y cydbwysedd rhwng cadw'r budd yn lleol a chael gwerth am arian yn un priodol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## 3. Creu Swyddi Gwerth Uchel (Cyflog £26,500 neu fwy)



**Adran Economi a  
Chymuned**

Mae cyflogau yng Ngwynedd ymysg yr isaf unman ym Mhrydain. Roedd tâl wythnosol yn y Sir yr isaf yng Nghymru yn 2019 (£459 ar gyfartaledd) â thâl isel ar ei waethaf yn ein cymunedau gwledig (£423). Mae cyflogau isel, yn anorfod, am arwain at lefelau uwch o dlodi a dad-boblogi gwledig, sydd yn eu tro yn cael effaith ar ein cymunedau, dyfodol ein pobl ifanc ac ar y Gymraeg fel iaith gymunedol iach.

Mae'r prosiect **Creu Swyddi Gwerth Uchel** eisoes wedi cymryd camau i wella'r sefyllfa, megis sicrhau arian Ewropeaidd i wireddu cynllun i ddatblygu gofod i fusnesau leoli yng Nghanolfan Awyrofod Eryri yn Llanbedr, a chynllun i gynyddu'r nifer o ddisgyblion ysgol sy'n astudio'r pynciau a ddymunir gan fusnesau o fewn sectorau sy'n talu'n dda.

I'r dyfodol byddwn yn parhau gyda'r cynlluniau sydd wedi eu disgrifio uchod, ac hefyd yn arwain ar gynlluniau eraill megis datblygu cynllun gan Fwrdd Uchelgais Economiadd Gogledd Cymru i baratoi

safle atomfa Trawsfynydd er mwyn denu buddsoddiad i greu ynni carbon isel. Cynlluniau o'r fath fydd yn sicrhau parhad swyddi gwerth uchel yn lleol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.  
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

#### 4. Arloesi Gwynedd Wledig



**Adran Economi a  
Chymuned**

Mae natur ein heconomi wledig yn golygu mai un person yn unig sy'n gweithio yn 79% o fusnesau Gwynedd, ac mae gormod o waith o fewn sectorau nad ydynt yn talu'n dda. Mae hyn yn arwain at fygythiadau o ran **cynaliadwyedd ein cymunedau gwledig**.

Mae sicrhau cysylltedd ddigidol i'n cymunedau gwledig, a bod gan y gweithlu a busnesau gwledig y sgiliau i fanteisio arnynt, yn fater sydd wedi bod yn derbyn sylw eisoes. Rydym wedi cynnal peilot i roi wifi cyhoeddus mewn 8 tref wledig, ac i gynyddu mynediad at offer cyfrifiadurol. Rydym hefyd yn rhan o raglen ARFOR, sef buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru i greu mwy a gwell swyddi mewn ardaloedd yng ngorllewin Cymru ble mae canran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.

I'r dyfodol byddwn yn parhau i weithredu fel rhan o raglen ARFOR, i ymestyn y ddarpariaeth ddigidol mewn cymunedau ac yn gweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai a'r sector breifat er mwyn sefydlu hwb arloesi gwledig yng Nglynllifon gan roi sylw arbennig i'r sector bwyd a diod.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.  
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.  
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.

#### 5. Hybu Canol Tref



**Adran Economi a  
Chymuned**

Mae **canol trefi** bywiog yn gallu cyfrannu'n sylweddol i lewyrch economaidd a chymdeithasol ardaloedd lleol.

Mae "stryd fawr" nifer o drefi Gwynedd angen cefnogaeth i sicrhau eu bod yn ffynnu er mwyn cynnal a chreu gwaith a darparu'r ystod o nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen ar drigolion ac ymwelwyr.

Rydym eisoes wedi bod yn cydweithio â busnesau ym Mangor a Chaernarfon i hyrwyddo'r Ardaloedd Gwella Busnes (BIDS) ac i ddenu adnoddau Rhaglen Adfywio Rhanbarthol Llywodaeth Cymru. Buom yn llwyddiannus yn sefydlu rhaglen fenthyg i uwchraddio adeiladau segur yn ardaloedd Caernarfon,



Bangor, Bethesda a Phenygroes, ac yn cydweithio â phartneriaid yn Harlech er mwyn sefydlu rhaglen i adfywio canol y dref yno hefyd.

I'r dyfodol byddwn yn parhau â'r gwaith uchod, ac yn paratoi cynlluniau ar gyfer 13 o ddalgylchoedd yng Ngwynedd a hynny ar sail yr hyn sydd yn bwysig i drigolion o fewn y cymunedau hyn.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.  
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## 6. Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar waith



**Adran Economi a  
Chymuned**

Yn ystod 2019-20 cyflwynwyd enwebiad llawn o Wynedd i Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol ac i Unesco ar gyfer dynodiad **Safle Treftadaeth y Byd**. Mae'r enwebiad yn rhoi cyfle i ni gydnabod cyfraniad y diwydiant llechi traddodiadol ar blatfform rhyngwladol, ac i ddathlu a gwarchod y diwylliant Cymraeg sydd ynghlwm â'r ardaloedd hynny.

Rydym eisoes wedi defnyddio dynodiad Safle Treftadaeth y Byd fel arf i adfywio ein cymunedau llechi ac i gynyddu gwerth y diwydiant ymwelwyr. Mae £1m o adnoddau ychwanegol wedi eu denu i'r Sir trwy'r Gronfa Dreftadaeth, Llywodraeth Cymru, Yr Undeb Ewropeaidd a Pharc Cenedlaethol Eryri trwy brosiect LleCHI.

I'r dyfodol byddwn yn cydweithio gyda'r cymunedau llechi, trwy brosiect LleCHI, i greu rhaglen o weithgareddau adfywio yn yr ardaloedd hyn fydd yn gwella gwedd a golwg cymunedau, gwella ansawdd y profiad i ymwelwyr, ac yn arwain at gynnydd ym mherchnogaeth trigolion o'u treftadaeth, iaith a diwylliant.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.  
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.  
Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

## 7. Elwa o Dwristiaeth



**Adran Economi a  
Chymuned**

Twristiaeth yw un o brif sectorau economaidd Gwynedd ac mae'n gyflogwr pwysig. Ond mae'r cynnydd mewn nifer ymwelwyr yn ychwanegu'n sylweddol at y pwysau sydd ar isadeiledd cyrchfannau'r sir; cost sy'n cael ei ysgwyddo'n bennaf gan drigolion Gwynedd.

Rydym eisoes wedi ymgynghori â chynrychiolwyr o'r sector ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri er mwyn edrych ar sut y gallwn ddenu incwm i gefnogi'r diwydiant, a beth yw'n blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.



I'r dyfodol byddwn yn edrych i barhau i gydweithio gyda'r diwydiant twristiaeth a'n partneriaid i greu Cynllun Rheoli Twristiaeth newydd i Wynedd fydd yn ystyried y ffordd orau o gael y budd mwyaf i'r diwydiant ac i drigolion Gwynedd. Drwy wneud hyn, byddwn yn ceisio gwella cyfraniad y sector i gymunedau ac economi Gwynedd, gwella darpariaeth cyrchfannau'r Sir ynghyd â chynyddu safon darpariaeth y diwydiant i ymwelwyr a phobl Gwynedd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

## 8. Busnesau'n Cael Cymorth i Ffynnu



**Adran Economi a  
Chymuned**

Mae'n gyfnod ansicr i fusnesau ar hyn o bryd o ganlyniad i Brexit a newidiadau mewn trefniadau masnachu a chystadlu. Mae Cyngor Gwynedd yn benderfynol o helpu mentrau lleol i addasu ac ymateb i'r her ac rydym eisoes wedi chwarae rhan rhagweithiol yn y trafodaethau ynglŷn â dyfodol cymorth busnes yng Ngogledd Cymru a dyfodol arian i gefnogi'r economi wedi Brexit.

Mae busnesau'r sir hefyd yn ymwneud â nifer o Adrannau'r Cyngor neu'n derbyn gwasanaeth ganddynt, gan gynnwys trethi, cynllunio, safonau masnach, rheolaeth adeiladu a chaffael. Rydym eisoes wedi ymgynghori â busnesau'r Sir i weld a yw'r cymorth a'r gefnogaeth y maent yn ei gael gan y Cyngor y gorau y gall fod.

I'r dyfodol, byddwn yn ymateb i farn busnesau am y cymorth a gânt gan y Cyngor ac yn sicrhau fod pob rhan o'r Cyngor yn ystyried sut gallent gynnig cymorth i gefnogi busnesau. Byddwn hefyd yn annog busnesau Gwynedd i wneud y gorau o'r cymorth sydd ar gael gan eraill, ac i leisio anghenion busnesau Gwynedd yn rymus wrth drafod gyda'n partneriaid, yn enwedig yng ngoleuni Brexit.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.

## 9. Cynllun Prentisiaethau



**Adran Cefnogaeth  
Gorfforaethol**

Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu gweledigaeth genedlaethol ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion datblygu sgiliau hanfodol yng Nghymru a'r economi ehangach, adnabod y meysydd blaenoriaeth a sut y bydd prentisiaethau yn rhan annatod o wireddu hynny.

Mae'r Cyngor eisoes wedi adnabod meysydd priodol ar gyfer sefydlu prentisiaethau ac wedi clustnodi cyllid er mwyn gwireddu'r cynlluniau hynny am y ddwy flynedd nesaf. Roedd 17 prentis wedi eu penodi i weithio yn y Cyngor erbyn diwedd Rhagfyr 2019.

I'r dyfodol byddwn yn symud ymlaen i benodi mwy o brentisiaid mewn meysydd blaenoriaeth yn ystod 2020/21 gan ystyried ymarferoldeb parhad y Cynllun tu hwnt i'r ymrwymiad presennol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.

Os am fanteisio ar unrhyw gyfleoedd fydd yn codi, mae'n allweddol fod gan Wunedd gyfundrefn addysg gynaliadwy o ansawdd, sy'n rhoi'r sgiliau i'n trigolion fanteisio ar y cyfleoedd hynny.



## Blaenoriaeth Gwella?



**Pob disgybl yn cael y cyfle i gyflawni ei botensial.**

**Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?**

### **1. Darpariaeth Ôl-16, Dalgylch Bangor, Dalgylch Trefferthyr (Cricieth), Cydweithio Strategol Meirionnydd**



**Adran Addysg**

Oherwydd fod nifer o'n hysgolion yn hen ac yn anaddas i gyfarch anghenion dysgu ac addysgu i'r dyfodol, a bod heriau ynghlwm â darpariaeth addysg uwchradd ac ôl-16 yn y sir, rydym yn cynllunio a gwireddu prosiectau arloesol i sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael eu haddysgu yn yr amgylchedd dysgu gorau posib.

Rydym wedi cwblhau'r gwaith o sefydlu Ysgol Godre'r Berwyn, yn **Nalgylch y Bala**. Agorodd yr ysgol i ddisgyblion 3-19 oed ym mis Medi 2019, ynghyd â gwasanaethau i'r gymuned lleol megis llyfrgell a theatr. Rydym wedi cychwyn ar y gwaith i wella'r ddarpariaeth yn **Nalgylch Bangor a Dalgylch Trefferthyr**. Rydym hefyd wedi bod yn **Cydweithio ag ysgolion uwchradd Meirionnydd** i edrych ar y drefn o ddarparu addysg uwchradd i'r ardal, ac yn gwneud gwaith maes â rhanddeiliaid allweddol i ystyried y **Ddarpariaeth Ôl-16** gyfredol ar draws y sir.

Byddwn yn anelu i gwblhau Ysgol y Garnedd ym Mangor erbyn Medi 2020, Ysgol y Faenol ym Mangor erbyn Ionawr 2021 ac Ysgol Trefferthyr yng Nghricieth erbyn Medi 2021. Byddwn yn parhau i gydweithio er mwyn canfod datrysiadau creadigol i'r ddarpariaeth uwchradd ym Meirionnydd ac yn llunio adroddiad ar y ddarpariaeth ôl-16 gyfredol a fydd yn sail i ddatblygiadau i'r dyfodol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.

Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

### **2. Trawsnewid y Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad**



**Adran Addysg**

Mae gwaith eisoes wedi'i gyflawni i drawsnewid y gwasanaeth **anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad**, er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ei angen yn derbyn y gefnogaeth fwyaf addas i'w galluogi i gyflawni eu potensial.

Mae'r gwasanaeth bellach yn ddarpariaeth dros Wynedd a Môn, ac mae'n canolbwyntio ar arfogi gweithlu ein hysgolion i gefnogi ein plant a'n pobl ifanc mwyaf bregus i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu potensial.

I'r dyfodol, byddwn yn parhau i ddatblygu'r gwasanaeth mewn rhai meysydd megis y blynyddoedd cynnar, ôl-16 ac ysgolion arbennig. Byddwn hefyd yn adeiladu ar waith partneriaethol presennol rhwng ein hysgolion arbennig ac ysgolion prif lif i wella profiadau dysgu plant ag anghenion dwys a chymhleth.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.

Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

Rhaid cydnabod hefyd, ar hyn o bryd, nad yw pob un yn ein cymdeithas yn cael y cyfleoedd i gyflawni eu potensial. Yn sicr, fel ym mhob sir yng Nghymru, mae yna anghydraddoldeb yn bodoli o fewn y sir ar wahanol lefelau, gyda'r anghydraddoldeb a grëir gan dlodi yn sylweddol o ran y niwed sy'n cael ei greu.

Mae'n amlwg fod tlodi hefyd yn gallu cael effaith andwyol sylweddol ar lesiant, ac yn arbennig felly y dyfodol a gynigir i blant. Tra bod gennym wasanaethau sy'n ceisio meirioli effeithiau tlodi, mae'n ddyletswydd arnom i ystyried a oes mwy y gallwn ei wneud.

Mae'n ddyletswydd arnom hefyd i gynnal gwasanaethau o safon ar gyfer edrych ar ôl y plant hynny sy'n canfod eu hunain mewn sefyllfaoedd lle mae angen i'r Cyngor gymryd cyfrifoldeb amdanynt. Yn y pen draw, nid oes unrhyw un ohonynt eisiau bod yn y fath sefyllfa.



## Blaenoriaeth Gwella 3



### Lleihau anghydraddoldeb o fewn y sir.

#### Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

#### 1. Mwy o drigolion Gwynedd i Chwarae Rhan Lawn yn y Byd Gwaith



#### Adran Economi a Chymuned

Mae nifer sylweddol o drigolion ym methu â chyflawni eu llawn botensial gan eu bod wedi eu **tangyflogi neu wedi eu heithrio o gyflogaeth**. Mae bod y tu allan i'r byd gwaith yn lleihau cyfoeth trigolion a chynyddu'r galw ar adnoddau cyhoeddus ac mae atal hyn yn rhan allweddol o'r agenda gwrth dlodi. Ceir budd uniongyrchol o fod mewn gwaith o ran cynyddu enillion, ond hefyd ceir budd ehangach o ran iechyd, cyfleoedd bywyd plant a balchder mewn cymunedau.

Rydym eisoes wedi bod yn gweithio gyda chyflogwyr, yn arbennig o fewn y diwydiant ymwelwyr, i sicrhau fod mwy o bobl Gwynedd yn elwa o'r cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael, ac yn cefnogi trigolion Gwynedd i fagu'r sgiliau digidol sydd eu hangen i gael mynediad i waith.

I'r dyfodol byddwn yn parhau gyda'r cynlluniau uchod ac yn datblygu cynlluniau pellach megis cydweithio yn agos gyda'n partneriaid ledled Gogledd Cymru a gyda Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU i wella cydlynad ein gwasanaethau.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## 2. Cefnogi Llesiant Pobl



### Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Mae angen mwy o gefnogaeth ar rai trigolion ar gyfer delio gyda heriau bywyd, ac mae'r Cyngor yn buddsoddi, darparu a chynllunio nifer o wasanaethau ac ymyrraethau er mwyn cefnogi pobl i wynebu a cheisio goresgyn eu problemau. Gall y rhain amrywio o anawsterau magu teulu, i gam-ddefnyddio sylweddau, i effeithiau unigrwydd.

Rydym wedi tynnu gwasanaethau ar draws y Cyngor ynghyd i siapio'r **Rhaglen Cefnogi Pobl** a hyd yma rydym wedi canolbwyntio ein gwaith ar adnabod rhwystrau a gwella ein dealltwriaeth o sut mae ein gwasanaethau yn cael eu darparu ar hyn o bryd.

I'r dyfodol byddwn yn parhau i wneud gwaith mapio er mwyn deall anghenion mewn cymunedau ac ardaloedd penodol, edrych a yw cynlluniau grantiau yn cael eu defnyddio i'r pwrpas fwyaf effeithiol, ac yn parhau i adeiladu ar Raglen Plant yn Gyntaf yn ardal Maesgeirchen.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.

Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## 3. Merched mewn Arweinyddiaeth



### Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Byddwn yn adolygu'r amodau a'r amgylchedd gwaith er mwyn sicrhau ein bod yn flaengar yn annog **Merched Mewn Arweinyddiaeth** ac yn adnabod a cheisio dileu unrhyw rwystrau all fod yn atal merched rhag cyrraedd swyddi arweiniol a rheolaethol o fewn y Cyngor.

Mae Grŵp Prosiect mewnol wedi cynnal ymgynghoriad â staff yn ystod 2019/20 ac i'r dyfodol byddwn yn gweithredu rhaglen waith sy'n cynnwys cyflwyno rhaglen datblygu potensial ar gyfer merched, cynnal awdit o'n dulliau recriwtio a penodi ar gyfer swyddi rheolaethol, a chreu fforwm ar gyfer arweinwyr a darpar arweinwyr benywaidd o fewn y Cyngor.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

#### 4. Sicrhau Tegwch i Bawb



**Adran Cefnogaeth  
Gorfforaethol**

Er mwyn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn wneud rhaid i ni yn gyntaf adnabod unrhyw rwystrau sy'n wynebu rhai pobl wrth chwilio am, neu dderbyn, gwasanaethau gan y Cyngor. Ein bwriad felly yw cynnal ymchwiliad trylwyr o farn pobl Gwynedd sydd â nodweddion gwarchoddedig (fel maent yn cael eu nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010) am y gwasanaethau mae'r Cyngor yn eu cynnig.

Bydd yr ymgysylltiad yma yn digwydd yn 2020-21 fel rhan o Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24. Byddwn yn creu Cynllun Gweithredu pellach yn seiliedig ar y dystiolaeth rydym yn ei dderbyn.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.  
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

Mae gan y maes Tai rôl allweddol i helpu'r Cyngor gyflawni ein huchelgais. Gwyddwn fod cael cartref sydd yn addas ac o safon yn arwain at well iechyd, cymunedau mwy gwydn a phoblogaeth sy'n gallu cyfrannu yn llawn i gymdeithas. Mae'n bwysig ein bod yn datblygu cynigion tai amrywiol, arloesol, a gwyrdd y gall pobl fyw ynddynt trwy gydol eu hoes yn ogystal â chynnig cefnogaeth gynnar i'r rhai sydd ei angen. Fel Awdurdod Lleol, byddwn yn ymyrryd i annog ystod o opsiynau cefnogaeth a llety er mwyn ymateb i anghenion y boblogaeth heddiw, ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Llaw yn law â hyn, rhaid sicrhau fod y camau a gymerir yn parchu diwylliant cymunedau'r sir.



## Blaenoriaeth Gwella 4



**Mynediad at gartrefi addas.**

**Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?**

### **1. Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd 2019-24**



### Adran Tai ac Eiddo

Mae'r galw am dai cymdeithasol a fforddiadwy i gartrefu trigolion Gwynedd ar hyn o bryd yn uwch na'r cyflenwad sydd ar gael. Mewn ymateb i'r her yma rydym eisoes wedi llunio Strategaeth Dai sydd yn anelu i wneud y gorau o'n cyflenwad o dai yng Ngwynedd, i wella eu safon yn ogystal â gwella mynediad i dai drwy gryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl i'w galluogi i fyw yn annibynnol o fewn eu cymunedau.

Rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredu yn ystod 2019/20 ar gyfer gweithredu'r Strategaeth hon, ac i'r dyfodol byddwn yn datblygu prosiectau penodol sydd yn y cynllun hwnnw. Byddwn hefyd yn ymchwilio i'n gallu ni fel Cyngor i gwrdd â'r her o ddarparu cartrefi addas i'n trigolion yng Ngwynedd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



Un nodwedd unigryw sydd gan Wunedd fel sir hefyd yw ei chymreictod. Mae Cyngor Gwynedd ei hun wedi ymrwmo i weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond ni fydd hynny ynddo'i hun yn ddigonol os ydym am gadw natur unigryw'r sir yn fyw.



## Blaenoriaeth Gwella 5



**Byw bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg.**

**Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?**

### **1. Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor**



**Adran Cefnogaeth  
Gorfforaethol**

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau fod gwasanaethau i drigolion ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ein bod yn gweithredu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n waith parhaus i **Hybu'r Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor**, ac rydym yn ymwybodol bod angen parhau i gynnal sgiliau iaith ein staff.

Llwyddwyd hyd yma i adolygu anghenion iaith pob swydd ac i asesu gallu ieithyddol 40% o'n swyddogion yn erbyn y gofynion hynny. Cefnogwyd hyn oll gan raglen ddysgu a gloywi iaith.

I'r dyfodol byddwn yn canolbwyntio ar weithio gyda gweddill gwasanaethau'r Cyngor, yn enwedig rhai rheng flaen, i gwblhau'r asesiad ac i ddatblygu sgiliau staff newydd a chyfredol gan achub ar gyfleon newydd i sicrhau ein bod yn cynnig pob agwedd ar ein gwasanaethau yn gwbl ddwyieithog.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

**Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**

### **2. Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus**



**Adran Cefnogaeth  
Gorfforaethol**

Ar hyn o bryd mae anghysondeb yn narpariaeth gwasanaethau dwyieithog gan gyrrff cyhoeddus yng Ngwynedd sy'n golygu nad yw hi bob amser yn bosibl i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth gyfathrebu efo cyrrff cyhoeddus.

Byddwn yn cydweithio â sefydliadau cyhoeddus eraill, drwy Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, i sicrhau ein bod yn arloesi yn narpariaeth **Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus** yn y sir.

I'r dyfodol byddwn yn cyfrannu at raglen waith fydd yn tynnu Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant y Cyngor, y Bwrdd Iechyd a Chyngor Môn ynghyd i sefydlu trefniadau gweithio mewn sefyllfa

ddwyieithog ar gyfer Timau Adnoddau Cymunedol, sef y timau fydd yn darparu gofal a chefnogaeth i'r bobl sydd ei angen.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

[Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.](#)

### 3. Busnesau Gwynedd i Ddefnyddio'r Gymraeg



**Adran Cefnogaeth  
Gorfforaethol**

Mae gan y Cyngor gyswllt uniongyrchol efo busnesau Gwynedd er mwyn annog **busnesau Gwynedd i ddefnyddio'r Gymraeg**. Mae swyddogion Hunaniaith yn ogystal â swyddogion o fewn yr Adran Economi a Chymuned yn annog busnesau i gynyddu'r defnydd o'r iaith trwy eu gwaith yn y cymunedau.

I'r dyfodol byddwn yn parhau â'r gwaith hwn, ac hefyd yn gweithio gyda phartneriaid allanol megis Cymraeg Byd Busnes a Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn sicrhau bod pawb efo'i gilydd yn cynllunio'r ddarpariaeth y mae busnesau Gwynedd ei angen.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

[Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.](#)

### 4. Hybu Defnydd o'r Gymraeg Ymysg Plant a Phobl Ifanc



**Adran Addysg**

Er mwyn hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg pobl ifanc o fewn y cwricwlwm ac yn gymdeithasol, rydym wedi arwain y Siarter Iaith Gymraeg er mwyn dylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac mae galw wedi bod i sicrhau dilyniant iddi yn yr ysgolion uwchradd.

Rydym wedi bod yn cydweithio ag ysgolion uwchradd i lunio cynlluniau gweithredu unigol er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, ac wedi rhoi sylw penodol i gyfrwng iaith y ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 3, 4 a 5. Byddwn, i'r dyfodol, yn parhau i gydweithio ar y materion hyn ac yn cefnogi'n ysgolion i gwblhau a gweithredu eu cynlluniau.

Byddwn hefyd yn cefnogi ysgolion i weithredu'n unol â gofynion cenedlaethol newydd Fframwaith Siarter Iaith Llywodraeth Cymru sy'n dod i rym yn ystod 2020-21.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

[Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.](#)

[Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.](#)

Nodwedd arall o Wynedd yw'r ffaith fod gennym ganran uwch o bobl hŷn yn byw yma nag mewn nifer o ardaloedd eraill yng Nghymru. Tra bod y Cyngor wedi bod yn dda iawn am ddarparu cefnogaeth i'r bobl hynny o bob oed sydd angen gofal, mae'r cynnydd yn niferoedd y bobl hŷn, y cyfyngiadau ariannol a thrafferthion darganfod gweithlu i fedru parhau i ddarparu'r gwasanaethau yma yn golygu bod yn rhaid i ni feddwl am atebion gwahanol.

Y gwir amdani yw bod nifer fawr o bobl hŷn am barhau i fyw eu bywydau fel y dymunant sydd yn aml yn golygu pethau gwahanol i wahanol unigolion. Mae angen i ni newid ein gwasanaethau i fod wedi eu teilwra yn agosach at wir anghenion y rhai hynny sydd angen ein cymorth.

Ein gweledigaeth yw bod ein gwasanaethau cymunedol yn cael eu trawsnewid fel bod cymorth a chefnogaeth gynnar i bobl yn cael ei ddarparu yn eu cartrefi ac o fewn eu cymunedau eu hunain. Trwy'r dull yma fe welwn well canlyniadau i unigolion, a bydd y galw am dderbyniadau i'r ysbyty a darpariaeth gofal yn lleihau dros amser. Mae cynllun Llywodraeth Cymru 'Cymru Iachach' yn gosod gweledigaeth hirdymor ar gyfer system gyfan iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar iechyd a llesiant ac atal salwch. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon mae'n rhaid i ni barhau i drawsnewid gwasanaethau gofal.



## Rheolwr Gwell



**Helpu pobl sydd angen cefnogaeth i fyw eu bywydau fel y dymunant.**

### Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

#### 1. Ail-ddylunio ein Gwasanaethau Gofal



**Adran Oedolion,  
Iechyd a Llesiant**

Mae anghenion gofal yn y sir yn newid, ac rydym wedi bod yn cydweithio â'r Bwrdd Iechyd i sicrhau mynediad syml ac uniongyrchol at wasanaethau sy'n cefnogi yr hyn sy'n bwysig i oedolion Gwynedd. Bydd dull o weithio sy'n rhoi mwy o bwyslais ar iechyd a llesiant a gwaith ataliol yn sicrhau gwell deilliannau i unigolion, yn eu galluogi i fyw'n annibynnol cyn hired a phosib ac yn lleihau'r angen am ofal dwys.

Rydym wedi sefydlu 5 Tîm Ardal Lleol sy'n darparu gwasanaeth di-dor ac yn adeiladu ar gryfderau'r unigolyn a'r gymuned. Maent hefyd yn sicrhau bod ein trefniadau gadael yr ysbyty yn effeithiol ac yn cyd-fynd â'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn. Yn 2020/21, byddwn yn gweithio i adnabod a dileu rhwystrau pellach i weithio'n integredig, megis drwy wella a llyfnhau'r broses cyfeirio at wasanaethau a chryfhau trefniadau rhannu gwybodaeth.

Rydym wedi ymestyn peilot ar gyfer ffordd newydd o ddarparu gofal cartref ar draws y sir, ac hefyd wedi gweithio i ddatblygu a gwella'r ddarpariaeth yn ein cartrefi preswyl gan gynnwys agor Unedau Dementia yn Nhywyn a Bangor.

I'r dyfodol, byddwn yn paratoi i roi'r ffordd newydd o ddarparu gofal cartref ar waith erbyn Haf 2020 ac yn gweithio i ddatblygu'r ddarpariaeth dementia, tai gofal ychwanegol, gofal anghenion corfforol dwys a llety addas i unigolion ag anableddau dysgu. Byddwn hefyd yn gweithio ar ddatblygu'r gwasanaethau iechyd meddwl sydd ar gael yn y sir gyda ffocws ar ymyrraeth a chefnogaeth buan.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.

## 2. Gwydnwch Cymunedol



Adran Oedolion,  
Iechyd a Llesiant

Er mwyn helpu pobl i gadw cysylltiadau, lleihau unigrwydd a chynnal iechyd meddyliol a chorfforol, mae angen mynd ymhellach na darparu gwasanaethau cymorth yn y cartref neu ofal preswyl. Rydym wedi bod yn ysgogi a chefnogi **cymunedau Gwynedd i fod yn fwy gwydn** er mwyn darganfod datrysiadau ataliol sy'n cynyddu opsiynau gofal lleol i bobl.

Rydym wedi mapio gwasanaethau a grwpiau sy'n bodoli mewn cymunedau er mwyn adnabod bylchau, cysylltu unigolion sydd angen cymorth gyda gwasanaethau a hybu mentrau cymunedol. Mae adnoddau newydd wedi'u creu megis Cynllun Trafnidiaeth Gymunedol Dyffryn Nantlle a Shed Ddynion Pwllheli.

I'r dyfodol, byddwn yn parhau i adnabod bylchau mewn darpariaeth yn ein cymunedau, gyda'r nod o gytuno ar flaenoriaethau lleol gyda'r cymunedau hynny. Erbyn Mawrth 2021, byddwn yn glir ar flaenoriaethau llesiant ymhob un o ardaloedd y Cyngor ac yn dechrau ystyried sut fyddwn ni'n siapio ein gwasanaethau i'r dyfodol. Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu'r model o hybiau cymunedol ar draws y sir er mwyn darparu ystod eang o gyfleoedd llesiant i oedolion ag anableddau dysgu yn eu cymunedau lleol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

## 3. Y Gweithlu a Recriwtio o fewn y Maes Gofal



Adran Oedolion,  
Iechyd a Llesiant

Mae recriwtio i'r maes gofal yn heriol am amryw o resymau. Mae gennym weithlu effeithiol ac ymroddedig, ond mae'n rhaid i ni sicrhau fod gennym ddigon o weithwyr â'r sgiliau angenrheidiol er mwyn ymdopi gyda'r angen cynyddol sy'n debygol o godi yn y dyfodol.

Rydym wedi bod yn ymdrechu i geisio deall yn well yr her sy'n bodoli ar draws y maes ac mewn ymateb i hynny datblygwyd rhaglen waith sy'n ceisio cyfarch rhai o'r pryderon. Bydd y gwaith o sefydlu trefn darparu gofal cartref newydd yn effeithio'n bositif ar elfennau megis cyflogau staff rheng flaen y sector breifat, hyd cytundebau gwaith a hybu llwybrau gyrfa'n y maes.

Y themâu fydd yn derbyn sylw dros y flwyddyn sydd i ddod fydd Amodau a Thelerau Gwaith, Cynllunio a Datblygu'r Gweithlu, Delwedd a Phroffil Swyddi'r Maes, Cyfathrebu a Marchnata.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.

Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Cyngor eisoes yn cyflawni amrediad eang o weithgareddau, sy'n ceisio sicrhau ein bod yn cyflawni'r weledigaeth sydd gennym. Ond nid da lle gellir gwell, rydym yn cydnabod fod yna enghreifftiau lle nad ydym yn edrych ar bethau drwy lygaid ein trigolion bob tro, ac mae angen sicrhau fod hynny'n digwydd ymhob man o fewn y Cyngor.

Nid yw hynny yn golygu gwneud pob dim i bawb wrth gwrs, gan nad yw adnoddau yn caniatáu i ni wneud hynny. Mae'n golygu ein bod yn blaenoriaethu'r pethau hynny sydd bwysicaf i'n cymunedau, ac yn sicrhau bod yr adnoddau prin sydd gennym yn cyfrannu at wneud yr hyn sydd bwysicaf i bobl Gwynedd (gan dderbyn y bydd y blaenoriaethu, yn anochel, yn golygu peidio â chyflawni dyheadau pawb).

Mae'r pwyso a mesur yma hefyd yn gorfod digwydd ar adeg pan fo'r arian sydd ar gael i wasanaethau yn lleihau'n sylweddol. Yn hynny o beth, bydd angen sicrhau fod yr arian yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r pethau pwysicaf.



## Blaenoriaeth Gwella 7



**Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.**

### **Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?**

#### **I. Arfogi Unedau i roi "Ffordd Gwynedd" ar Waith**



#### **Adran Cefnogaeth Gorfforaethol**

Ein cyfrifoldeb ni fel Cyngor yw sicrhau, wrth i ni ddarparu ein gwasanaethau, mai **anghenion pobl Gwynedd** sy'n llywio sut y byddwn yn cynnig y gwasanaeth hynny. Trwy wneud hyn fe ddylem osgoi unrhyw drefniadau gwaith diangen. Pwrpas y prosiect hwn felly fydd arwain timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac ystyried a oes lle i wella.

Mae'r Strategaeth Ffordd Gwynedd wreiddiol a gyhoeddwyd yn Hydref 2015 wedi dod i ddiwedd ei hoes. Cymeradwywyd Cynllun Ffordd Gwynedd ar ei newydd wedd yn ystod 2019/20.

I'r dyfodol byddwn felly'n gweithredu rhaglen waith Cynllun Ffordd Gwynedd, sy'n cynnwys cynllunio'r gweithlu, cyswllt â'r cwsmer, amodau gwaith a herio perfformiad fel rhai o'i prif flaenoriaethau.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mae'r prosiect hwn yn newid y ffordd y mae staff y Cyngor yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd, ac felly mae'n hanfodol er mwyn gwireddu'r holl amcanion llesiant.

Yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2019 bu i'r Cyngor ystyried cynnig yn ymwneud â newid hinsawdd ac fe benderfynwyd y dylid gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod y sir yn parhau i fod yn gartref bywiog, hyfyw a chynaliadwy i'n plant ac i blant ein plant am genedlaethau i ddod. Byddem yn gwneud hyn drwy:

- Ddatgan Argyfwng Hinsawdd;
- Ymrwymo i gymryd camau pendant i leihau allyriadau carbon ac ymdrechu am ddyfodol di-garbon;
- Chwilio am ffyrdd arloesol o gyflawni targedau di-garbon
- Adrodd yn ôl ymhen 6 mis ar y camau cadarnhaol y mae'r Cyngor wedi eu cymryd i leihau allyriadau carbon;
- Galw ar Lywodraeth Cymru a San Steffan i ddarparu'r pwerau a'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r targed o Wunedd di-garbon erbyn 2030.



## Blaenoriaeth Gwella 9



### Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd.

## I. Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd



Ers Mawrth 2019 mae'r Cyngor wedi bod yn mesur yr holl gamau yr ydym eisoes yn eu cymryd i leihau ein ôl-troed carbon ac i baratoi ein cymunedau ar gyfer ymateb i newidiadau hinsawdd i'r dyfodol. Buom hefyd yn ymchwilio i ddulliau newydd arloesol y gallwn eu mabwysiadu i'r dyfodol, nid yn unig fel Cyngor ond ar draws cymunedau Gwynedd, ac yn dechrau ar y broses o ymgynghori ar y syniadau hynny ac unrhyw syniadau eraill y gallem fod wedi eu methu.

Yn 2020/21 byddwn yn cyhoeddi a gweithredu ar Gynllun Ymateb i Newid Hinsawdd fydd yn adeiladu ar y camau yr ydym eisoes yn eu cymryd i leihau ôl-troed carbon er mwyn sicrhau ein bod yn uchafu cyfraniad y Cyngor a'r sir wrth ymateb i'r argyfwng. Bydd gwireddu'r Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd yn gyfrifoldeb ar bob un o adrannau'r Cyngor a bydd angen i ni sicrhau bod ein trefniadau mewnol ein hunain yn gadarn yn eu lle cyn i ni symud ymlaen at weld sut y gallwn gydweithio â phartneriaid eraill.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

**Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.**

Bydd Strategaeth Ariannol y Cyngor, a'r gyllideb, yn cael eu trafod gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2020. Y rhain fydd ein sylfaen ar gyfer medru ceisio cyflawni'r Blaenoriaethau Gwella uchod, wrth geisio dygymod hefyd gyda'r cynnydd parhaus yn y galw am ein gwasanaethau.

Yn anorfod, mae'r Strategaeth Ariannol yn mynd i fod yn ddibynnol ar y blaenoriaethau a nodir uchod. Bydd y Strategaeth Ariannol gyflawn i'w gweld ar wefan y Cyngor ar ôl ei mabwysiadu gan y Cyngor.





## Cynlluniau Adran



Mae'r rhan gyntaf o'r Cynllun, y Cynllun Cryno, wedi canolbwyntio ar weledigaeth y Cyngor ynghyd â'n Blaenoriaethau Gwella ar gyfer y 5 mlynedd o 2018-23.

Mae'r rhan nesaf o'r Cynllun yn cynnwys Cynlluniau yr Adrannau o fewn y Cyngor, gan roi mwy o gig ar asgwrn y Blaenoriaethau Gwella sydd wedi eu hamlygu gyda ffrâm o'u hamgylch. Maent hefyd yn cynnwys disgrifiadau o waith 'dydd i ddydd' yr adrannau, ac mae llawer ohono yn ddyletswydd statudol ac yn orfodol i ni ei wneud, megis diogelu plant ac oedolion neu ddarparu addysg.

Yn ychwanegol at y Blaenoriaethau Gwella a'r gwaith 'dydd i ddydd' yma mae Blaenoriaethau Lleol wedi eu hadnabod gan yr Aelodau Etholedig fel y materion sy'n bwysig i drigolion eu hardal hwy. Trafodwyd yr rhain fel rhan o'r gwaith o baratoi Cynllun y Cyngor yn wreiddiol, ac mae unrhyw ddatblygiadau arnynt yn cael ei esbonio yn y cynlluniau. Mae'r Blaenoriaethau Lleol wedi eu hamlygu o fewn ffrâm sydd â chefnidir lliw iddi.

Ceir rhestr o'r holl Adrannau isod ynghyd â gwybodaeth am eu prif gyfrifoldebau. Mae'r wybodaeth ariannol am gyllidebau pob adran i'w cael gyda'i gilydd ar y diwedd.

Os ydych am gysylltu â'r Adrannau neu'r Pennaeth gallwch ffonio 01766 771000 neu ddilyn y dolenni isod i'n gwefan.

	Pennaeth	Tudalen
<p><b>1. Adran Addysg</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cefnogi gweithrediad dydd i ddydd Ysgolion Gwynedd</li> <li>Cefnogi a sicrhau cynnal a gwella safonau addysg mewn cyfleusterau modern</li> <li>Darparu cefnogaeth a gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol</li> <li>Arwain ar weithrediad y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd</li> </ul>	<p><b>Garem Jackson</b> <u>Manylion Cyswllt</u></p>	27
<p><b>2. Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Galluogi Oedolion Gwynedd i "Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw"</li> <li>Darparu gwasanaethau gofal trwy bartneriaethau a chydweithio</li> <li>Cynnig darpariaeth gofal cartref, gofal dydd a gofal preswyl</li> </ul>	<p><b>Aled Davies</b> <u>Manylion Cyswllt</u></p>	35
<p><b>3. Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Casglu ailgylchu, gwastraff bwyd a gwastraff gweddilliol trigolion Gwynedd</li> <li>Cynnal a chadw ffyrdd a strydoedd y sir</li> <li>Torri gwair a chynnal meysydd chwarae</li> </ul>	<p><b>Steffan Jones</b> <u>Manylion Cyswllt</u></p>	43
<p><b>4. Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Diogelu plant a phobl ifanc rhag niwed</li> <li>Gweithio i roi sefydlogrwydd i deuluoedd, plant a phobl ifanc</li> <li>Gwasanaethau leuentid</li> </ul>	<p><b>Marian Parry Hughes</b> <u>Manylion Cyswllt</u></p>	51



## 5. Adran Amgylchedd

**Dafydd Wyn Williams**  
Manylion Cyswllt

58

- Gwarchod cefn gwlad a'r mynediad iddo
- Archwiliadau hylendid a safonau bwyd; safonau masnach a thrwyddedu
- Cludiant cyhoeddus ac addysg, a datblygu cyfleoedd teithio llesol
- Rheolaeth traffig a pharcio

## 6. Adran Economi a Chymuned

**Sioned E Williams**  
Manylion Cyswllt

69

- Datblygu economi Gwynedd trwy gefnogi busnesau, twristiaeth a marchnata ac adfywio cymunedol
- Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd ac Archifau

## 7. Adran Tai ac Eiddo

**Dafydd Gibbard**  
Manylion Cyswllt

83

- Cefnogi teuluoedd digartref a chanfod llety dros dro a chartrefi fforddiadwy
- Sicrhau cartrefi safonol a diogel i denantiaid tai cymdeithasol a phreifat
- Dod a thai gwag yn ôl i ddefnydd
- Cynnal, cadw a datblygu eiddo'r Cyngor, gan geisio lleihau ein allyriadau carbon.

## 8. Ymgynghoriaeth Gwynedd

**Huw Williams**  
Manylion Cyswllt

91

- Gwasanaeth Ymgynghorol Masnachol yn darparu gwasanaeth cynllunio a rheoli prosiectau isadeiledd
- Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu
- Awdurdod Arweiniol Llifogydd Lleol

## 9. Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

**Geraint Owen**  
Manylion Cyswllt

95

- Galw Gwynedd a Siopau Gwynedd
- Gwasanaethau Adnoddau Dynol, Cofrestru, Cyfathrebu a datblygu staff
- Gwasanaethau Gweinyddol a Chefnogol y Cyngor

## 10. Adran Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)

**Dafydd L Edwards**  
Manylion Cyswllt

106

- Cefnogaeth ariannol a chyfrifol i holl wasanaethau'r Cyngor
- Gweinyddu Treth Cyngor a Chronfa Bensiwn Gwynedd
- Cefnogi a datblygu darpariaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor

## 11. Gwasanaeth Cyfreithiol

**Iwan Evans**  
Manylion Cyswllt

113

- Cefnogaeth gyfreithiol i holl wasanaethau'r Cyngor
- Gweinyddu Etholiadau Gwynedd
- Cefnogi gwasanaeth y Crwner ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru



# Adran Addysg



# Adran Addysg



**Pwrpas yr Adran Addysg yw i sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn derbyn yr addysg a'r profiadau gorau yn ein hysgolion i'w galluogi i gyrraedd y safonau uchaf ac i feithrin y cymwysterau a'r sgiliau sy'n eu galluogi i fyw a ffynnu.**

## GWASANAETH GWELLA YSGOLION

Cyfrifoldeb yr Adran Addysg a GwE mewn partneriaeth gyda'n hysgolion yw addysgu ein plant, ac mae canlyniadau ein hysgolion yn gyson dda. Gwasanaeth gwella ysgolion yw GwE, sydd yn gweithio ar ran chwe Awdurdod Lleol yogledd, i arwain, trefnu a chydlyn gwelliannau ym mherfformiad ysgolion.

Mae'r bartneriaeth rhwng yr Adran Addysg a GwE yn rhoi cefnogaeth a her i'n hysgolion er mwyn gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu yn y dosbarth, i gefnogi arweinwyr i wella ansawdd yr arweinyddiaeth yn ein hysgolion – a hyn oll er mwyn gwella canlyniadau ymhellach ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc.

Yng Ngwynedd, mae 83 o ysgolion cynradd, 12 o ysgolion uwchradd, 2 ysgol arbennig a 2 ysgol ddilynol.

### Perfformiad

Mae'r ysgolion yn darparu addysg gynhwysol i blant a phobl ifanc hyd at 16 oed. Yng Ngwynedd, caiff addysg ôl-16 ei darparu mewn partneriaeth gyda'r colegau a'r ysgolion uwchradd yn Arfon, gan Goleg Meirion-Dwyfor (Grŵp Llandrillo Menai) yn Nwyfor a Meirionnydd ac Ysgol Godre'r Berwyn yn ardal Y Bala.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd clir i Awdurdodau Lleol beidio a chyhoeddi canlyniadau addysgol haf 2019, ac mae trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r modd y gellir dal Awdurdodau Addysg yn atebol am berfformiad heb ddata cymharol o berfformiad ar draws Cymru.

### Trawsnewid y gyfundrefn ysgolion

Yn dilyn ymgynghori ar gynaliadwyedd y gyfundrefn addysg yng Ngwynedd, ynghyd â phryderon cyffredinol nad yw'r gyfundrefn ysgolion bresennol yn gynaliadwy, bu i Gabinet y Cyngor fabwysiadu'r egwyddorion addysg addas i bwrpas canlynol fydd yn sail ar gyfer gwireddu gweledigaeth yr Adran Addysg a datblygu'r gyfundrefn i sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, sef:

- Cyfundrefn o ysgolion uwchradd hyfyw
- Dim mwy na dau ystod oedran o fewn yr un dosbarth yn y cynradd
- Oddeutu 80% o amser digyswllt i'r Pennaeth ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth yn y cynradd

Yn sgil mabwysiadu'r egwyddorion, bydd y maes hwn yn trosglwyddo'n rhan o waith dydd i ddydd yr adran gan y rhagwelir nad proses gyflym, yn ystod cyfnod y Cyngor hwn, fydd gweithredu'r egwyddorion ar draws y gyfundrefn. Byddwn yn symud ymlaen yn bwyllog i sicrhau fod y gyfundrefn addysg yn gallu ymateb i'r newidiadau enfawr sydd ar y gorwel, megis newidiadau i drefn arolygu ysgolion (Estyn), ynghyd â newidiadau sylweddol iawn i'r cwricwlwm a threfniadaeth ein hysgolion yn sgil argymhellion Yr Athro Donaldson.

## Cryfhau Arweinyddiaeth

Mae arweinyddiaeth ysgolion yn allweddol er mwyn sicrhau'r deilliannau gorau i ddysgwyr. Deilliodd y prosiect hwn o gyfnod ble gwelwyd prinder ymgeiswyr am rai swyddi arweinyddiaeth mewn ysgolion. Mae'r sefyllfa yna wedi gwella erbyn hyn ac yn sgil datblygiad *Cynnig Proffesiynol GwE*, sef bwydlen cynhwysfawr o hyfforddiant i ddatblygu arweinwyr, rheolwyr canol, ac ymarferwyr ar bob lefel yn ein hysgolion, bydd y prosiect yn trosglwyddo'n rhan o waith dydd i ddydd yr adran. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i ymateb i anghenion arweinwyr a darpar arweinwyr ein hysgolion drwy sicrhau mentora, sesiynau cymhelliant ynghyd â phrofiadau gwerthfawr iddynt pan gyfyd y cyfle i ni allu gwneud hynny.

## TÎM MODERNEIDDIO ADDYSG

Mae rhai o adeiladau ein hysgolion yn hen ac yn anaddas i gyfarch anghenion dysgu ac addysgu ein plant yn y dyfodol. Pwrpas y gwasanaeth yma ydy cynllunio a gwireddu prosiectau arloesol i addasu ysgolion neu adeiladu ysgolion newydd er mwyn i blant a phobl ifanc Gwynedd gael eu haddysgu yn yr amgylchedd dysgu gorau posib i'w galluogi i ffynnu.

Dros y cyfnod 2012-2022 bydd y Cyngor wedi llwyddo i fuddsoddi gwerth £69 miliwn i wella cyflwr ac amgylchedd dysgu yr ysgolion canlynol er lles plant y sir:

- Ysgol yr Hendre, Caernarfon
- Ysgol OM Edwards, Llanuwchllyn
- Ysgol Craig y Deryn, Llanegryn
- Ysgol Penybryn, Tywyn
- Ysgol Bro Llifon, Groeslon
- Ysgol Hafod Lon, Penrhyndeudraeth
- Ysgol Glancegin, Maesgeirchen
- Ysgol Bro Idris, Dalgylch Dolgellau
- Ysgol Godre'r Berwyn, Y Bala
- Ysgol y Garnedd ac Ysgol y Faenol, Bangor
- Ysgol Treferythyr, Cricieth

Mae'r Tîm Moderneiddio Addysg yn datblygu modelau darparu addysg hyfyrw sy'n ceisio:

- sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i blant a staff ysgolion Gwynedd
- gwella amodau ac amgylchiadau i benaethiaid er mwyn eu galluogi i arwain a rheoli ysgolion yn effeithiol a effeithlon
- sicrhau'r defnydd gorau a mwyaf effeithiol o gyllideb yr Adran Addysg



## Darpariaeth Ôl-16

### Blaenoriaeth Gwella 2



Mae amrywiaeth yn y ffordd y caiff addysg ôl-16 ei ddarparu ar draws y sir. Caiff ei ddarparu mewn partneriaeth gyda'r ysgolion uwchradd a'r colegau yn Arfon, gan Goleg Meirion-Dwyfor (Grŵp Llandrillo Menai) yn Nwyfor a Meirionnydd ac Ysgol Godre'r Berwyn, yn ardal Y Bala.

Mae gwaith ymchwil pen-desg ynghyd â gwaith maes gyda rhanddeiliaid allweddol wedi bod yn mynd rhagddo er mwyn ystyried rhinweddau'r gwahanol ddarpariaethau sy'n weithredol ar hyn o bryd, ynghyd â'r cyfleoedd a'r heriau i'r dyfodol. Mae bwriad llunio adroddiad ar y ddarpariaeth gyfredol ar draws y sir fydd yn sail i ystyried a oes achos dros newid ai peidio i'r ddarpariaeth ôl-16 yn y dyfodol.

## Dalgylch Bangor

### Blaenoriaeth Gwella 2



Mae nifer o ysgolion cynradd yn nalgylch Bangor (ac yn arbennig yn ardal Penrhosgarnedd) yn llawn neu'n orlawn. Rydym wedi llwyddo i ddenu arian gan Lywodraeth Cymru i'w fuddsoddi yn narpriaeth addysg y dalgylch, gyda'r Cyngor yn darparu hanner yr arian hefyd ynghyd â chyfraniadau a ddaw yn sgil caniatâd cynllunio i ddatblygu tai newydd yn yr ardal.

Rydym wedi adolygu'r ddarpariaeth addysg gynradd ym Mangor, ac mae'r Cabinet wedi cymeradwyo cynllun gwerth £12.7m. Fel rhan o'r cynllun, bydd ysgol newydd i 420 o ddysgwyr yn cael ei hadeiladu ar gyfer Ysgol y Garnedd erbyn Medi 2020. Rydym hefyd wedi cychwyn ar y gwaith o addasu safle ac adeilad presennol Ysgol y Faenol, a fydd hefyd yn cynnwys gofod cymunedol, ar gyfer 315 o ddysgwyr. Mae rhai anhawsterau y tu hwnt i'n rheolaeth wedi golygu na fydd Ysgol y Faenol wedi'i chwblhau tan Ionawr 2021.

## Dalgylch Trefferthyr, Cricieth

### Blaenoriaeth Gwella 2



Mae'r Cyngor wedi penderfynu adeiladu ysgol gynradd newydd yn nalgylch Trefferthyr, Cricieth yn sgil cyflwr gwael yr adeilad presennol.

Byddwn yn cwblhau'r gwaith o gynllunio ac adeiladu'r adeilad newydd erbyn Medi 2021. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda, a bydd yr ysgol yn cynnwys cyfleusterau ar gyfer y blynyddoedd cynnar ynghyd â gofod i'r cylch meithrin.

## Cydweithio Meirionnydd

### Blaenoriaeth Gwella 2

Yn ddiweddar, mae'r Adran Addysg wedi bod yn cydweithio hefo ysgolion uwchradd Meirionnydd er mwyn edrych ar y drefn bresennol o ddarparu addysg uwchradd yn yr ardal, ac i adnabod yr heriau sy'n wynebu'r ysgolion o safbwynt recriwtio athrawon, rheolwyr canol ac arweinwyr yn sgil maint yr ysgolion uwchradd.

Mae bwriad cynnal ymchwil ar y cyd efo penaethiaid yr ysgolion er mwyn canfod datrysiadau creadigol fyddai'n arwain at gydweithio rhwng yr ysgolion ym Meirionnydd er mwyn sicrhau bod ansawdd yr addysg yn gyson dda ac yn gynaliadwy i'r dyfodol.

## GWASANAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi plant a phobl ifanc gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol – sy'n cynnwys meysydd anghenion dysgu penodol, cyfathrebu a rhyngweithio, nam golwg, nam clyw a meddygol/corfforol.

Mae'r gwasanaeth yn rhoi ymyrraeth gynnar a chymorth wedi ei deilwra ar gyfer pob disgybl unigol drwy dîm o athrawon a chymorthyddion arbenigol. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cynhaliaeth i ysgolion trwy'r Gwasanaeth Seicoleg. Mae pob disgybl yn cael mynediad llawn i ysgolion Gwynedd gan sicrhau, felly, fod pob plentyn yn cyrraedd ei lawn botensial.

## Trawsnewid y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

### Blaenoriaeth Gwella 2



Mae gwaith eisoes wedi'i gyflawni i drawsnewid y gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad, er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ei angen yn derbyn y gefnogaeth fwyaf addas i'w galluogi i gyflawni eu potensial. Mae'r gwasanaeth hwn bellach yn ddarpariaeth dros Wunedd a Môn, a thrwy gyfrwng y trawsnewid hwn, mae'r ffocws wedi bod, ac yn parhau, ar hyfforddi ac arfogi

gweithlu ein hysgolion gyda'r sgiliau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i gefnogi ein plant a'n pobl ifanc mwyaf bregus i'w galluogi i gyflawni eu potensial. Mae'r gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth ymhellach mewn rhai meysydd megis y blynyddoedd cynnar ac ôl-16 yn parhau.

Byddwn yn parhau i ddatblygu'r gynhaliadaeth yn y dosbarth a sut mae hyn yn cael ei drefnu, gan roi sylw penodol i'r ddarpariaeth cyn-ysgol, darpariaeth ôl-16 ac ysgolion arbennig. Byddwn hefyd yn adeiladu ar y gwaith partneriaethol presennol rhwng ein hysgolion arbennig a chydag ysgolion prif lif yr awdurdod er mwyn gwella profiadau dysgu plant ag anghenion dwys a chymhleth. Craidd y gwaith yma fydd sicrhau bod ein systemau yn cyd-fynd â gofynion y ddeddfwriaeth newydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru.

## GWASANAETH LLES A CHYNHWYSIAD

Mae'r gwasanaeth lles a chynhwysiad yn cefnogi ysgolion i hyrwyddo presenoldeb, ymddygiad cadarnhaol a chefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd yn profi anawsterau ymddygiadol, emosiynol a/neu ddatblygiad cymdeithasol. Cyflwynir y gefnogaeth yma gan dîm o athrawon arbenigol, swyddogion lles, cwnselwyr ysgol a chymorthyddion arbenigol.

Rydym yn sicrhau bod disgyblion ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol yn cael eu cynnwys yn llawn o fewn ysgolion Gwynedd drwy hyfforddi, cefnogi ar lawr dosbarth a darparu gwasanaeth cynnal ymddygiad y tu allan i ysgolion prif lif. Mae'r gwasanaeth lles yn hyrwyddo presenoldeb drwy weithio gyda disgyblion, ysgolion a theuluoedd. Mae presenoldeb ysgolion Gwynedd dros y dair blynedd ddiwethaf wedi bod yn gyson dda.

Canran presenoldeb mewn ysgolion ✓			
Cynradd	95.3%	94.8%	94.8%
	2016/17	2017/18	2018/19
Uwchradd	95.2%	94.7%	94.5%
	2016/17	2017/18	2018/19

Canran o waharddiadau parhaol yn yr ysgolion		
	blwyddyn hyd at haf - 2018	2019
Cynradd	5.2%	1.7%
Uwchradd	5.3%	3.4%

Er bod presenoldeb yn uchel a chyfraddau gwaharddiadau parhaol yn isel, mae'r her o gynnal a hyrwyddo lles a chynhwysiad yn dwysáu gyda nifer cynyddol o ddisgyblion yn arddangos ymddygiad heriol. Bydd y gwasanaeth yn sicrhau bod ein hysgolion wedi eu hyfforddi a'u cefnogi'n gywir i gwrdd â'r her.

Yn sail i hyn oll, mae'r gwasanaeth yn darparu arweiniad arbenigol ym maes diogelu. Darperir hyfforddiant a chynghor arbenigol i ysgolion ar draws yr awdurdod.



## YR IAITH GYMRAEG

Mae'r Gymraeg yn treiddio drwy holl waith a gwasanaethau'r Adran Addysg. Mae dogfen statudol 'Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg' yn gosod disgwyliadau clir i'r Adran ac i'n hysgolion ar gyfer y Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng dysgu. Yn ystod 2020-21, yn unol â'r rheoliadau newydd a gyhoeddwyd ar 1 Ionawr 2020, byddwn yn llunio ac yn ymgynghori ar ddogfen newydd 'Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg' fydd yn disodli'r ddogfen bresennol ym Medi 2021. Bydd cyfnod y cynllun newydd yn 10 mlynedd er mwyn cyd-fynd ac ategu targedau Llywodraeth Cymru yn *Cymraeg 2050*.



Mae Gwynedd wedi arwain ar waith arloesol i ddylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg yn yr ysgolion cynradd drwy gyfrwng y Siarter Iaith Gymraeg. Pwrpas y Siarter yw cael y plant i siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth, gan sicrhau cyfranogiad gan bob aelod o gymuned yr ysgol i wireddu'r nod. Mae'r Adran hefyd wedi arwain a chefnogi Llywodraeth Cymru i ledaenu'r Siarter Iaith yn genedlaethol.

Gwynedd yw'r unig sir ar draws Cymru sydd wedi llunio Strategaeth Iaith Uwchradd fel dilyniant i'r Siarter Iaith, ac roedd yr ysgolion cynradd ac uwchradd fel ei gilydd yn awyddus i weld dilyniant sicr i'r Siarter Iaith. Un gwahaniaeth sylfaenol yng nghyd-destun y Strategaeth Iaith Uwchradd yw ei fod yn ymwneud â hyrwyddo defnydd ffurfiol ac anffurfiol o'r Gymraeg.

### Hybu Defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc

#### Blaenoriaeth Gwella 5



Yn sgil llwyddiant y Siarter, mae galw cynyddol wedi bod i sicrhau dilyniant iddi yn yr ysgolion uwchradd. Mae tystiolaeth o waith ymchwil a gomisiynwyd gan yr Adran Addysg yn profi'r angen am gynllun a strategaeth i hyrwyddo'r defnydd cwricwlaid a chymdeithasol o'r Gymraeg yn ein hysgolion uwchradd. Rydym wedi bod yn cydweithio gyda phob ysgol uwchradd i lunio cynllun gweithredu unigol mewn ymateb i weledigaeth a gofynion y Strategaeth Iaith Uwchradd, ac ar y cyd â'r ysgolion rydym wedi rhoi sylw penodol i gyfrwng iaith y ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 3, 4 a 5.

Rydym yn parhau i gyflogi Cydlynnydd Siarter Iaith Cynradd ynghyd â Chydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd er mwyn darparu her a chefnogaeth briodol i'n hysgolion cynradd ac uwchradd i ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddefnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg. Yn sgil llwyddiant y Siarter Iaith yng Ngwynedd, bydd Fframwaith Siarter Iaith Llywodraeth Cymru yn dod i rym yn ystod 2020-21. Mae'r Fframwaith newydd hwn yn cynnwys y sector cynradd ac uwchradd, a byddwn yn canolbwyntio ar gefnogi pob ysgol i weithredu'n unol â'r gofynion cenedlaethol newydd. Ar yr un pryd, byddwn yn parhau i gydweithio ar gyfrwng iaith y ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm yn yr ysgolion uwchradd.



At hyn, bydd gan bob ysgol a chlwestwr gynllun gweithredu unigol fydd yn ymateb i anghenion a chyddestun ieithyddol yr ysgolion a'r cymunedau o'u hamgylch er mwyn codi statws a chynyddu'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Mae'r Adran hefyd yn cynnal Canolfannau Iaith sy'n darparu cwrs dwys yn y Gymraeg i fewnfudwyr er mwyn eu helpu i ddysgu Cymraeg a chyfrannu i fywyd addysgol a chymdeithasol Gwynedd. Mae'r canolfannau yma yn helpu ein hysgolion cynradd ac uwchradd i weithredu'r Polisi Iaith.

## CANOLFAN FUSNES YSGOLION

Ers peth amser, mae cynnydd wedi bod ym mhryderon penaethiaid ysgolion ynglŷn a'u hamodau gwaith wrth iddynt orfod cyflawni nifer o rolau gwahanol; fel arweinwyr, rheolwyr, athrawon a gweinyddwyr. Mae arolygiadau Estyn yn ddieithriad yn dangos mai arweinyddiaeth effeithiol, gyda'r adnoddau ac amser digonol ynghlwm wrthi, sydd yn arwain at addysg dda a safonau uchel.

Ers Medi 2019 sefydlwyd y Canolfan Fusnes Ysgolion er mwyn datblygu'r gefnogaeth a'r gynhafiaeth i'n hysgolion, a rhesymoli a rhannu'r gofynion rheolaethol. Gwaith craidd y Ganolfan Fusnes Ysgolion yw darparu gwasanaeth SIMS i'r ysgolion cynradd, a chanolbwyntir hefyd ar osgoi ddarparu cytundeb lefel gwasanaeth i'r ysgolion cynradd sydd yn sicrhau gwasanaethau megis cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd i ysgolion. Ceir ffocws hefyd ar leihau baich gwaith rheolaethol a gweinyddol penaethiaid ac athrawon.

## GWASANAETH ADNODDAU

Pwrpas y gwasanaeth yma ydy rhoi cefnogaeth statudol angenrheidiol i ysgolion Gwynedd allu gweithredu o ddydd i ddydd. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys mynediad i ysgolion, cyflogau a chontractau staff, glanhau, arlwyo a chynlluniau bwyta'n iach, a chludiant i ysgolion. Rhoddir hefyd gefnogaeth cyllidol, adnoddau dynol, iechyd a diogelwch a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i ysgolion. Mae'r gwasanaeth hefyd yn rhoi cefnogaeth i Lywodraethwyr.

Mae'r gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd canlynol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



# Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant



# Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant



Mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn darparu amryw o wasanaethau gofal cymdeithasol i drigolion 18 oed neu hŷn sydd angen cyngor, gwybodaeth, cymorth neu ofal oherwydd anghenion penodol.

Prif egwyddorion yr Adran yw:

- Sicrhau llesiant y rhai sydd angen gofal a chymorth
- Bydd ein gwasanaethau yn canolbwyntio ar bobl, ac yn rhoi llais cryf iddynt yn y penderfyniadau a wneir am y cymorth a gânt
- Caiff gwasanaethau eu darparu drwy bartneriaethau a thrwy gydweithredu
- Bydd gwasanaethau'n ceisio atal anghenion unigolion rhag cynyddu, ac yn ymdrechu i sicrhau bod y cymorth iawn ar gael ar yr adeg iawn

Mae'r pedwar egwyddor uchod yn plethu i gyflawni pwrpas yr Adran sef i alluogi i oedolion Gwynedd 'Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw'.

Mae gan yr Adran dri maes blaenoriaeth gwella, fel nodir isod.

## Ail-ddylunio Gwasanaethau Gofal

## Blaenoriaeth Gwella 6



Rydym wedi bod yn cydweithio â'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod gan oedolion sy'n byw yng Ngwynedd fynediad syml ac uniongyrchol at wasanaethau sy'n bwysig iddynt. Rydym wedi sefydlu 5 Tîm Ardal Lleol darparu gwasanaeth di-dor, sy'n adeiladu ar gryfderau'r unigolyn a'r gymuned ac yn sicrhau bod ein trefniadau gadael yr ysbyty yn effeithiol ac yn cyd-fynd â beth sy'n bwysig i'r unigolyn hwnnw.

Bydd y timau yma wedi eu cyd-leoli mewn 'clwstwr' ehangach o leoliadau darparwyr a gwasanaethau sylfaenol a chymunedol, fel mae'r darlun yn ei ddangos. Byddwn yn gweld gwell deilliannau i unigolion, yn galluogi pobl i fyw yn annibynnol o fewn eu cymunedau mor hir â phosib a bydd llai o angen am ofal dwys.



Yn ogystal, mae gwaith wedi digwydd ym mhrif ysbty lem yr ardal, sef Ysbty Gwynedd, i gryfhau trefniadau dychwelyd adref ar y wardiau. I gefnogi'r gwasanaeth a'r gweithlu i ail fodlu gwasanaethau rydym wedi sefydlu Tîm Trawsfurfio sy'n gweithio ar draws Cyngor Gwynedd, Môn a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Mae'r tîm yma wedi bod yn darparu arweiniad a chefnogaeth i adnabod a dileu rhwystrau i weithio yn integredig. Y prif fwriad ar gyfer 2020/21 fydd parhau i adeiladu'r timau ardal gan ganolbwyntio'n benodol ar greu un pwynt cyswllt am wybodaeth a chyngor o fewn ardal penodol, a sicrhau mai un person o'r tîm sy'n cydlynu gofal unigolyn.

Mae'r gwaith o ail-ddylunio fel hyn wedi amlygu'r angen i newid y ffordd y byddwn yn comisiynu a darparu gofal cartref, er mwyn cynnig gwasanaeth wedi'i deilwra yn unol â'r hyn sy'n bwysig i unigolion. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r gwaith o beilota'r ffordd newydd o weithio wedi ei ehangu ar draws y sir, ac mae straeon positif yn cael eu hamlygu o ran profiadau pobl. Gyda'r achos busnes wedi'i gymeradwyo, y bwriad yw agor proses dendro yn fuan yn 2020/21 gan osod cytundebau newydd gyda darparwyr yn ystod haf 2020.

Maes arall oedd angen ei wella oedd y ddarpariaeth o fewn ein cartrefi preswyl ar draws y sir. Rydym wedi buddsoddi yn adeiladau ein cartrefi yn Nhywyn, Nefyn, Llan Ffestiniog a Bangor. Fe agorwyd unedau dementia newydd yn Nhywyn a Bangor. Mae'r buddsoddiad yma wedi gwella ansawdd gofal ac amgylchedd i breswylwyr yng nghartrefi'r Cyngor. Dros y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn dechrau ar y gwaith o ddatblygu uned dementia yn ein cartref yn y Bermo ynghyd ag addasu ein cartref yn Nolgellau i sicrhau darpariaeth gofal i unigolion ag anghenion corfforol dwys.

Dros y blynyddoedd, rydym wedi datblygu, ar y cyd â'n partneriaid, nifer o unedau Tai Gofal Ychwanegol ar draws y sir. Yn ystod y flwyddyn, bu i ddatblygiad newydd Hafod y Gest agor ym Mhorthmadog, ac mae wedi'i groesawu'n arw yn yr ardal. Mae bwriad i ddatblygu Tai Gofal Ychwanegol newydd ym Mhwillheli dros y dair blynedd nesaf, a rhagwelir y bydd yn agor yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23. Byddwn hefyd, dros y flwyddyn nesaf, yn ceisio adnabod cyfloedd am ddatblygiadau tebyg mewn rhannau eraill o'r sir, gyda blaenoriaeth yn cael ei roi i ystyried sut i gyfarch yr angen yn ardal Dolgellau.

Ym maes Anableddau Dysgu, rydym yn parhau i geisio datblygu gwasanaethau er mwyn cyflawni'r hyn sy'n bwysig i unigolion. Rydym wedi gwneud gwaith yn ystod y flwyddyn i geisio mesur effaith ein hymdrechion mewn gwasanaeth lle y bydd ein perthynas ag unigolion yn aml yn un hir dymor, a bydd hynny'n parhau. Trwy sefydlu grwpiau 'Llais a Gwerthoedd' ar draws y Sir yn ystod 2020/21, byddwn yn casglu barn unigolion am ein rhaglen waith a'r bylchau rydym yn ceisio ymateb iddynt. Yn ddiweddar, agorodd uned gofal ysbaid arbenigol Tan y Marian, Pwllheli, ac yn y flwyddyn nesaf byddwn yn gweithio ar ddatblygu ystod eang o wasanaethau newydd, gan ffocysu'n benodol ar lety addas.

Rhaglen waith arall sy'n hanfodol yw'r model o hybiau cymunedol sy'n cael eu datblygu ar draws y sir. Mae hybiau 'Galwch Acw' a 'Cegin' yn enghreifftiau o'r hyn sydd ar waith yn Arfon a bydd mwy yn cael eu datblygu yn ystod 2020-21; yn benodol yn ardal Y Felinheli. Yn ogystal, bydd datblygiad hwb yn ardal Dwyfor a fydd yn canolbwyntio ar ddatblygu gwasanaethau newydd ar gyfer y gymuned leol ac mae gwaith yn parhau i ddatblygu hwb cymunedol yn ardal Meirionnydd.

Mae'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl yn parhau i geisio gweithredu'r Strategaeth Iechyd Meddwl, sy'n canolbwyntio ar gefnogi unigolion yn agosach at adref ac yn y gymuned. Rhan bwysig o ddatblygiadau'r flwyddyn a fu yw'r canolfannau *Gallaf I* (ICAN), lle gall unigolion gael cefnogaeth buan yn lleol. Mae hyn yn sicrhau pwynt cyswllt a chefnogaeth ar yr adeg iawn, gan atal problemau

rhag dwysau a throï'n argyfwng. Y bwriad ar gyfer 2020-21 fydd i barhau i ddatblygu'r model lleol yma a chydweithio â'r Timau Ardal Lleol i sicrhau darpariaeth di-dor yn y maes hwn hefyd.

## Gwydnwch Cymunedol

### Blaenoriaeth Gwella 6



Rydym yn ceisio sicrhau cymunedau cryf a gwydn, gan eu bod o gymorth i gynnal iechyd a llesiant y boblogaeth. Rydym felly yn ceisio cefnogi cymunedau mewn sawl ffordd ac mae'r gwaith yma wedi arwain at ddatrysiadau ataliol eu natur sy'n cynyddu opsiynau gofal lleol. Hyd yma, rydym wedi mapio ac adnabod bylchau mewn gwasanaethau a grwpiau a gweithio i hybu mentrau cymunedol. Enghreifftiau diweddar o greu'r gwydnwch hwn yw sefydlu Cynllun Trafnidiaeth Gymunedol Dyffryn Nantlle, Shed Ddynion Pwllheli a rhwydwaith Cydweithio er Lles Llŷn. Byddwn yn parhau i ddysgu o'r wybodaeth a ddaw o'r ardaloedd er mwyn adnabod cyfleoedd am ddatblygiadau pellach.

Rydym hefyd yn gweithio i gefnogi unigolion â'u lles meddyliol a hyrwyddo iechyd meddwl positif. Mae'r llyfryn "Edrych ar ôl fy hun" yn ddatblygiad diweddar sy'n rhoi syniadau ymarferol ar sut i wneud hyn.

Rhan allweddol o unrhyw gymuned gref fyddai bod gwahanol oeddrannau a chefnidiroedd yn cydfyw a chymysgu. Mae'r cynllun Pontio'r Cenedlaethau yn fodd i ddod a chenedlaethau gwahanol at ei gilydd o fewn cymuned i gyd-drafod beth y dymunant ei weld yn datblygu o fewn eu hardal ac mae'n fodd o gynnwys pawb mewn datblygiadau newydd. Mae sawl enghraifft ar waith drwy'r sir lle mae ysgolion a cholegau yn partneriaethu gyda lleoliadau gofal o fewn eu cymunedau. Mae'r budd yn amlwg, gyda'r plant yn gweld fod cyswllt un i un yn llesol a chyda'r oedolion yn mwynhau teimlo eu cyfraniad i'r gymuned. Y bwriad ar gyfer 2020-21 fydd i barhau i gefnogi cynlluniau i esblygu, ac i lunio strategaeth mwy ffurfiol er mwyn sicrhau fod yr egwyddor o bontio fel hyn yn treiddio i holl waith y Cyngor.

## Y Gweithlu a Recriwtio o fewn y Maes Gofal

### Blaenoriaeth Gwella 6



Bydd ein llwyddiant i wireddu ein pwrpas yn ddibynnol ar sicrhau gweithlu ar gyfer y maes gofal. Mae recriwtio i'r maes yn heriol am amryw o resymau a thra bod gennym weithlu effeithiol ac ymroddedig, mae'n rhaid sicrhau fod gennym y nifer digonol o weithwyr i ddiwallu'r angen i'r dyfodol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, comisiynwyd darn o waith, gan ymgynghori'n eang, er mwyn ceisio deall yr her yn well. Mae rhaglen waith wedi'i lunio er mwyn ymateb i'r hyn a ddaeth i'r amlwg, ac yn ystod 2020/21 byddwn yn rhoi sylw i'r rhaglen hwn. Y themâu fydd yn derbyn sylw yw Amodau a Thelerau Gwaith, Cynllunio a Datblygu'r Gweithlu, Delwedd a Phroffil Swyddi'r Maes, Cyfathrebu a Marchnata. Byddwn hefyd yn parhau â'r gwaith o adolygu Cynllun Prentisiaethau'r cyngor i geisio dylanwadu ar y nifer o brentisiaethau sydd ar gael yn y maes gofal.

Dylid nodi bod Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru wedi cyflwyno strategaeth gweithlu 10 mlynedd ac felly mae cyfle yma i blethu ein gwaith gyda'r strategaeth hwnnw.

Bydd y gwaith sy'n mynd rhagddo i sefydlu proses waith newydd ar gyfer darpariaeth gofal cartref yn effeithio'n gadarnhaol ar elfennau penodol megis gwella cyflogau staff rheng flaen y sector breifat, gallu cynnig cytundebau gwaith tymor hir a phatrymau gweithio shifft, yn ogystal â hybu



llwybrau gyrfa o fewn y maes gofal. Rhagwelwn y byddwn yn dechrau profi effaith hyn o Hydref 2020 ymlaen.



## Gwasanaeth Pobl Hŷn, Anabledd Corff a Synhwyrdd

Pwrpas y gwasanaeth yma yw i helpu unigolion i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

Ar gyfer yr unigolion uchod, rydym yn gweithio mewn partneriaeth i geisio cyflawni eu hamcanion personol drwy ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae'r gwasanaeth yn asesu anghenion mewn dull sy'n adeiladu ar gryfderau unigolion. Mae'r gwasanaeth yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth mewn ffordd syml a hwylus o fewn cymunedau.

Canran o bobl hŷn ac oedolion ag anableddau corfforol sydd wedi nodi ein bod wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt



Er mwyn parhau i wella ein cynnig ddi-dor, byddwn yn adeiladu ar y berthynas waith rhyngom â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, asiantaethau statudol a'r trydydd sector, a hynny er mwyn cyfarch amcanion personol oedolion.

Mae prif waith y gwasanaeth yma ar hyn o bryd yn derbyn sylw o fewn y blaenoriaethau gwella uchod.

## Gwasanaeth Iechyd Meddwl

Pwrpas y gwasanaeth yma yw i gynnig cefnogaeth i unigolion sy'n profi anawsterau iechyd meddwl gan roi cymorth i unigolion dros ddeunaw i fyw bywyd llawn ac i gefnogi adfywiad.

Rydym yn gweithio ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd i gefnogi unigolion ag anawsterau iechyd meddwl o fewn y gwasanaethau cynradd ac yn cefnogi unigolion efo anghenion mwy dwys neu gymhleth, er mwyn hyrwyddo adferiad a'u cefnogi i fyw yn annibynnol. Rydym hefyd yn cynnig asesiad a chefnogaeth i ofalwyr iechyd meddwl.

Mae prif waith y gwasanaeth yma ar hyn o bryd yn derbyn sylw o fewn y blaenoriaethau gwella uchod.

## Gwasanaeth Anableddau Dysgu

Pwrpas y gwasanaeth yw i gyfarch anghenion llesiant corfforol, emosiynol, meddyliol a chymdeithasol unigolion ag anabledd dysgu.



Rydym yn darparu cefnogaeth mewn dull 'person yn ganolog' sy'n canolbwyntio ar lesiant yr unigolyn. Er mwyn sicrhau ein bod yn ymateb yn llawn i anghenion unigolion, bydd ystod eang o'n gwasanaethau'n aml yn cael eu cynnig mewn partneriaeth.

Rydym eisiau canolbwyntio ar ddarpariaeth sy'n cynnig cyfleoedd i gymdeithasu a chynnal perthnasoedd. Mae ffocws ar ddatblygu gwasanaethau cymunedol drwy'r hybiau lleol a chynlluniau llesiant lleol.

Mae prif waith y gwasanaeth yma ar hyn o bryd yn derbyn sylw o fewn y blaenoriaethau gwella uchod.

## Gwasanaeth Llesiant

Prif bwrpas y gwasanaeth yw i wella ansawdd bywyd drwy gysylltu pobl, ond mae'r tîm hefyd yn rhoi ffocws ar gefnogi gofalwyr (di-dâl).



Rydym yn gwneud hyn drwy gynlluniau sydd â'r elfennau canlynol yn ganolog iddynt:

- Pwyslais ar fod yn gymdeithasol a chymunedol (lleihau unigrwydd)
- Hybu iechyd a lles positif
- Hyrwyddo cydweithio gyda phobl a rhwng pobl
- Cryfhau a datblygu gwasanaethau yn seiliedig ar beth sy'n bwysig i bobl Gwynedd

Mae cefnogi gofalwyr yn ganolog i'n gwaith a cheisir gwneud hynny trwy gynnig cyfleoedd newydd ac mae amryw o gynlluniau wedi eu datblygu. Mae gwaith i geisio cryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr gan yr holl dimau rheng flaen hefyd yn digwydd.

Mae'r rhan helaeth o waith y gwasanaeth yma'n derbyn sylw o fewn y flaenoriaeth 'Gwydnwch Cymunedol'.

## Gwasanaeth Darparu

Rydym yn darparu gofal preswyl, gofal cymunedol a gofal dydd ar gyfer oedolion ag anghenion dwys a chymhleth.



Mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am y meysydd isod :

- Darpariaeth Gofal Preswyl a Gofal Preswyl Dementia
- Darpariaeth Gofal Cartref
- Darpariaeth Gofal Dydd

Mae llawer o waith y gwasanaeth yn derbyn sylw o fewn y blaenoriaethau gwella.

Roedd ardal Dolgellau wedi'i adnabod fel blaenoriaeth i ddatblygu darpariaeth gofal pwrpasol, ac yn dilyn archwilio'r opsiynau, mae angen gwneud gwaith pellach er mwyn ystyried sut i gyfarch yr angen yn yr ardal. Roedd galw hefyd am unedau pwrpasol i drigolion Llŷn, a rhagwelir y bydd datblygiad Tai Gofal Ychwanegol yn cael ei adeiladu er mwyn agor ym Mhwlheli yn ystod 2022/23.

Mae'r flaenoriaeth yma yn derbyn sylw o fewn y rhaglen gwella 'Ail Ddylunio Gwasanaethau Gofal.'



## Gwasanaethau Diogelu a Diogelwch Cymunedol

Pwrpas y **Gwasanaeth Diogelu** yw diogelu unigolion sydd ag anghenion cefnogaeth ac sydd mewn perygl neu'n dioddef camdriniaeth, a sicrhau ansawdd gwasanaethau'r adran drwy fonitro a chynnal archwiliadau i brofiadau unigolion.

Rydym yn gosod cysondeb ynghylch beth sydd yn cael ei ystyried yn achos diogelu neu beidio, yn arwain ar achosion o bryderon cynyddol, trefniadau o Ddiogelu Rhag Colli Rhyddid (trefn sy'n cefnogi ac amddiffyn pobl sy'n methu a gwneud penderfyniadau eu hunain na rhoi caniatâd am eu gofal) ac yn ymateb i gwynion a phryderon yn amserol.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am arwain gwaith partneriaeth **Diogelwch Cymunedol**, sydd yn bartneriaeth statudol. Rydym yn gweithio dros ddwy sir, sef Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.

Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle mae'r risg wedi ei reoli (gan eithrio'i rhai wrthododd ymyrraeth)

2017/18

98.4%

2018/19

94.2%

2019/20

100%

Byddwn yn arwain ar y gwaith ar ran yr holl aelodau cyfrifol, sef y ddau Gyngor, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân, y Gwasanaeth Prawf a'r Bwrdd Iechyd i daclo a lleihau trosedd ac anhrefn er budd diogelwch a lles pobl y ddwy sir. Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn parhau â'r gwaith o ddatblygu a gweithredu cynllun newydd er mwyn ymateb i flaenoriaethau adnabuwyd ym maes trosedd ac anhrefn yn y ddwy sir.

## Gwasanaeth Busnes

Rydym yn darparu cefnogaeth i dimau rheng-flaen yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, a hynny er mwyn eu galluogi i gyflawni eu pwrpas er lles trigolion Gwynedd. Rydym yn gyfrifol am:

- Teleofal
- Datblygu'r Gweithlu
- Cyllid Cleientau
- Uned Incwm a Lles
- Contractio a Chomisiynu
- Gwasanaeth Gweinyddol
- Uned Cefnogi Systemau



Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.

Byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.





# Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol



# Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol



Mae'r Adran hon yn darparu gwasanaethau rheng flaen sy'n bwysig i drigolion Gwynedd, megis casglu gwastraff, gwasanaethau profedigaeth a chynnal a chadw ffyrdd, cynnal fflyd, caeau chwarae a thiroedd gwyrdd. Mae gofalu am amgylchedd arbennig y sir yn ganolog i waith yr adran, ac mae'n cyfrannu Gynllun Gweithredu Newid Hinsawdd y Cyngor.

## Gwastraff ac Ailgylchu

Mae'r adran yn gyfrifol am dros filiwn o gasgliadau gwastraff o fewn cyfnod o 3 mis. Mae rhai o'r casgliadau yma'n cael eu methu, ac er bod y ffigwr yn isel (llai na 1%) rydym yn cydnabod bod y methiant yn bwysig i'r trigolyn. Mae'r Adran bellach yn casglu gwybodaeth er mwyn dod i ddeall pam fod hyn yn digwydd ac i'w galluogi i ymateb i unrhyw broblemau perthnasol.

Rydym yn y broses o gyflwyno trefniadau casglu newydd a fydd yn lleihau'r nifer o gasgliadau sy'n cael eu methu ac yn gwella profiadau pobl Gwynedd o'r gwasanaeth gan sicrhau y bydd yr un criw ar yr un gylchdaith bob tro.



Mae'r newidiadau i drefniadau casglu sbwriel pob tair wythnos, a chasglu gwastraff bwyd a deunyddiau ailgylchu yn wythnosol, wedi arwain at gynnydd mewn ailgylchu, ac mae'r Cyngor yn debygol o gyrraedd y targed o 64% o wastraff y sir yn cael ei ailgylchu erbyn diwedd 2019/20. Bydd y targed yn codi i **70% erbyn Mawrth, 2025**.

Mae'n hanfodol ymdrin â **gwastraff** mewn modd cywir os am amddiffyn ein hamgylchedd ac osgoi creu problemau i'n plant a phlant ein plant. Mae Cyngor Gwynedd yn falch eu bod yn ymdrin â'n gwastraff mewn dull gyfrifol, a'n bod yn uchafu bod mor eco-gyfeillgar a phosib yn y broses hon.



Mae claddu gwastraff yn y ddaear yn achosi llygredd i'r tir, dŵr a'r awyr. O 2020/21 ymlaen bydd Cyngor Gwynedd yn anfon prin dim i dirlenwi gan ein bod yn trin ein gwastraff gweddilliol yn y safle gwastraff i drydan, Parc Adfer. Mae'r hen safleoedd tirlenwi o fewn y sir, sydd bellach wedi cau, hefyd yn cynhyrchu trydan gwyrdd.


Rydym hefyd yn gyfrifol am y drefn o gasglu gwastraff gardd drwy'r sir gan ei droi yn gompost/gwrtaith. Mae'r Adran yn cynnig y compost er defnydd trigolion Gwynedd ar adegau penodol yn y flwyddyn.

## GwyrriAD

GwyrriAD yw ein safle trin bwyd sydd wedi ei leoli o fewn y Sir, ac yn trin yr holl fwyd a gesglir gan drigolion a busnesau'r sir. Mae'r safle yn gallu ymdrin ag 11,000 tonnelli o wastraff bwyd gan ei droi yn ynni gwyrdd sy'n cael ei gyflewni i'r grid cenedlaethol. Mae hyn yn ddigon i gynhyrchu trydan i 850 o dai.

Mae capasiti o fewn y safle i gynyddu'r tonnellau o fwyd yr ydym yn ei gasglu er mwyn atal unrhyw wastraff rhag cyrraedd y bin gwastraff gweddilliol, a byddwn yn gweithio tuag at y nod hwnnw yn ystod 2020/21.

## Gwasanaethau Gwastraff Masnachol



Rydym yn darparu casgliadau gwastraff ac ailgylchu masnachol i dros 2,000 o fusnesau'r sir. Ers peth amser, rydym wedi cyflwyno casgliadau ailgylchu a bwyd fel rhan o'r pecyn sydd ar gael i'r busnesau i sicrhau bod y cwmnïau'n dargyfeirio eu gwastraff o'r bin gweddilliol a manteisio ar y drefn ailgylchu. Mae hyn yn cyfrannu at berfformiad ailgylchu'r cyngor wrth adrodd yn erbyn ein targedau statudol ac mae'r perfformiad wedi codi'n sylweddol ers 2014. Gyda thargedau statudol

yn codi mae peth gwaith i'w wneud er gwella ymhellach a bydd gofyniad i wahanu deunydd ailgylchu, sydd ar hyn o bryd yn cael eu casglu mewn un bin cymysg gennym, yn do di rym. Bydd y drefn newydd yn sicrhau fod y gwastraff yn cael ei drin yn gywir er budd yr amgylchedd.

### Dros gyfnod y cynllun byddwn yn:

- Cwblhau'r newid i drefniadau casglu Gwynedd er mwyn gwella'r profiad a'r gwasanaeth i drigolion y Sir, gan leihau'r nifer o gasgliadau sy'n cael eu methu.
- Datblygu strategaeth wastraff newydd i'r Sir.
- Ystyried dulliau arloesol i annog ailddefnyddio a chynyddu ailgylchu er mwyn sicrhau y gallwn gyrraedd y targed statudol newydd o 70% o wastraff yn cael ei ailgylchu erbyn 2025.
- Cynyddu ein casgliadau bwyd domestig a masnachol er mwyn ei drin yn GwyrriAD a lleihau ar weld y deunydd yma yn cyrraedd y bin gweddilliol.
- Ceisio cyrraedd y nod o anfon dim gwastraff i'w dirlenwi.
- Hyrwyddo'r economi gylchog yng Ngwynedd (sef economi sy'n hybu ailddefnyddio ac ailgylchu gan leihau gwastraff).
- Edrych i gynyddu ein darpariaeth masnachol er mwyn dod a ffrwd incwm i'r cyngor a sicrhau fod gwastraff y sir yn cael ei ymdrin ag o mewn ffordd gyfrifol ac eco-gyfeillgar.
- Cynnig casgliadau ailgylchu wedi eu gwahanu i gwsmeriaid masnachol.

## Edrychiad Strydoedd a Thiroedd Cyhoeddus

O ran yr amgylchedd leol, mae'n hynod bwysig bod ein strydoedd yn lân a diogel ac felly mae'n rhaid eu glanhau'n rheolaidd. Mae edrychiad strydoedd a manau cyhoeddus yn bwysig i drigolion Gwynedd ac mae tîm bychan o swyddogion yn gyfrifol am ymdrin â throeddau amgylcheddol fel tipio slei bach, graffiti a baw cŵn. Rydym, ar gyfartaledd, yn cymryd 1.76 diwrnod i glirio eitemau sydd wedi eu tipio'n anghyfreithlon ar ôl cael gwybod amdanynt. Rydym yn defnyddio mesur o'r enw 'Mynegai Glendid' (cyfuniad o asesiad mewnol ac allanol) er mwyn asesu safon glendid ac edrychiad strydoedd.



### Mynegai glendid strydoedd (Arolwg Cadw Cymru'n Daclus)



Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn cynnal arolwg i sefydlu faint o 'ddiffygion' fel sbwriel, chwyn, baw cŵn, gwm cnoi a stympiau sigarets sydd ar unrhyw stryd. Yn ôl yr arolwg annibynnol, mae safon glendid ac edrychiad strydoedd Gwynedd yn parhau i fod yn dda ac mae'n debyg bod newid ymddygiad er gwell yn ddiweddar i atal llanast. Yn ddiweddar, cynhaliodd Cadwch Gymru'n Daclus glanweithdra ar gyfer 2019-20. Mae'r sgor wedi'i gofnodi i'r dde.

Rydym hefyd yn parhau i gydweithio ar *brosiect Delwedd Bangor*, sydd â'r nod o wella edrychiad ac amgylchedd y ddinas. Mae Delwedd Bangor yn bartneriaeth gyda chynrychiolaeth o'r Cyngor Dinas, Ardal Gwella Busnes Bangor, Prifysgol Bangor a sawl mudiad arall, ac yn dempled o sut gellir gweithredu mewn partneriaeth i wella edrychiad cymuned.

Ers sefydlu'r bartneriaeth rydym wedi cyflawni:

- Gwneud ffwrdd ag arwyddion tai ar osod
- Cefnogi ymgyrch *Bangor di-blastig*
- Gwella edrychiad y Stryd Fawr
- Treialu hysbysu ar gylchfannau

Rydym yn awyddus i sefydlu partneriaethau tebyg ledled y sir, er mwyn cydweithio â chymunedau i wella edrychaid ac amgylchedd eu bro.

## Cynnal Tiroedd




Mae'r Adran yn gyfrifol am gynnal ymylon ffyrdd a thiroedd agored er mwyn gwella ansawdd amgylchedd ein trefi a'n pentrefi a'u gwneud yn fwy diogel i drigolion. Mae cynilo ariannol wedi arwain at doriadau llai rheolaidd erbyn hyn, ond rydym yn awyddus i fanteisio ar y cyfle i hybu bioamrywiath, tra hefyd yn sicrhau fod ein cyffyrdd a'n manau cyhoeddus yn aros yn ddiogel a deniadol.

## Caeau Chwarae Plant

Mae plant, rhieni a gofalwyr plant yn gwerthfawrogi meysydd chwarae ac rydym yn cynnal 131 ohonynt ledled y sir. Mae offer chwarae yn ddrud iawn ac mae'r arian ar gyfer cael offer newydd yn hynod brin.



**Byddwn yn ceisio cynnal meysydd chwarae fel eu bod yn ddiogel i blant a phobl ifanc gael eu mwynhau.**



Dros gyfnod y cynllun byddwn yn:

- Addasu ein patrymau torri gwair er mwyn hybu bioamrywiaeth
- Ymchwilio i ddulliau eco-gyfeillgar i ymdrin â chwyn, gan geisio osgoi defnyddio chwynladdwr niweidiol lle bynnag y bo'n bosib.
- Ehangu ar ddatblygu partneriaethau cymunedol i wella ansawdd ac edrychiad y sir.
- Edrych ar ddulliau amgen o gynnal a chadw meysydd chwarae, drwy gydweithio â chymunedau.

## Gwasanaeth Profedigaeth




Rydym yn rheoli Amlogfa Bangor ac 16 o fynwentydd prysuraf a mwyaf y sir.

Mae'r gwasanaeth profedigaeth yn un hollbwysig i drigolion a byddwn yn sicrhau gwasanaeth profedigaeth sy'n briodol a pharchus.

## Toiledau Cyhoeddus



Mae'r Adran yn gyfrifol am gynnal a glanhau **toiledau cyhoeddus** y sir. Nid oes rhaid i'r Cyngor ddarparu toiledau cyhoeddus, ac fe ddaeth cynllun i gau nifer o doiledau'r sir yn dilyn ymgynghoriad 'Her Gwynedd'. Serch hynny, creda'r adran fod darpariaeth o doiledau cyhoeddus addas yn bwysig i brofiad unigolion o'r sir, ac fe ddatblygwyd dulliau amgen o gadw cymaint o doiledau a phosib ar agor – drwy bartneriaethu â chynghorau cymuned neu drwy gefnogi toiledau cymunedol o fewn busnesau'r Sir.





Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi partneriaethu gyda'r cyngor i gynnal darpariaeth amgen. Drwy weithio ar y cyd, rydym ymhlith y siroedd â'r nifer uchaf o doiledau cyhoeddus y Sir un o'r darpariaethau uchaf o doiledau cyhoeddus yng Nghymru.

## Teledu Cylch Cyfyng



Er mwyn diogelu a gwarchod y gymuned rydym yn gofalu am rwydwaith o gamerâu Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) ym manau poblog y Sir sef Bangor, Caernarfon a Phwllheli. Mae'r systemau yn cynorthwyo i fonitro digwyddiadau troseddol a gwrthgymdeithasol.

Mae'r Adran wedi gwella'r rhwydwaith o gamerâu teledu cylch cyfyng ar draws y Sir er mwyn parhau gyda'r gwaith o ddiogelu trigolion ac eiddo'r Sir.

Dros gyfnod y cynllun byddwn yn:

- Cynnig ehangu'r rhwydwaith drwy gydweithio â chymunedau.

## Gwasanaeth Fflyd

Mae'r Adran yn gyfrifol am reoli a chynnal holl fflyd y cyngor. Mae'r Gwasanaeth Fflyd yn arwain a rhoi cymorth i adrannau'r cyngor er mwyn sicrhau defnydd priodol, diogel a chyfreithlon o'u cerbydau.

Yn ogystal, mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am gynnal a chadw dros 400 o gerbydau i safon uchel ac fe wneir hyn dros dri lleoliad gwahanol ar draws Gwynedd gyda gweithdai yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau.

Mae'r adran wedi bod yn ceisio lleihau allyriadau carbon y fflyd drwy fuddsoddi mewn cerbydau effeithlon, gan gynnwys cerbydau trydan. Mae allyriadau'r fflyd wedi gostwng 19.8% rhwng 2005/06 a 2018.

Dros gyfnod y cynllun byddwn yn:


- Blaenoriaethu'r gwaith o ddad-garboneiddio'r fflyd.
- Ymchwilio i'r potensial o ddefnyddio hydrogen fel tanwydd di-garbon i redeg ein fflyd drom.
- Sefydlu system pŵl cerbydau ar gyfer y Cyngor, gan edrych hefyd ar gynnig defnydd cymunedol.

## Priffyrdd a Goleuo Stryd




Mae'n bwysig bod busnesau a thrigolion Gwynedd yn medru symud yn rhwydd a diogel o fewn y Sir ac er mwyn sicrhau hyn mae'r Cyngor yn cynnal 2,697 cilomedr o **ffyrdd sirol** ynghyd â 199 cilomedr o **gefnffyrdd** (sef priffyrdd o bwysigrwydd cenedlaethol, ar ran Llywodraeth Cymru). Ar hyn o bryd mae ein priffyrdd yng Ngwynedd, sef ffyrdd Dosbarth A a B, mewn cyflwr da gyda llai na 4% ohonynt yn ddiffygiol ac angen sylw.

Gyda lleihad yn y gyllideb berthnasol, parhau mae'r dirywiad yng nghyflwr ein ffyrdd Dosbarth C a di-ddosbarth. Oherwydd y pwysau ariannol ar y Cyngor mae'n anorfod y bydd pwysau pellach ar y gyllideb cynnal ffyrdd, a bydd gennym her i atal dirywiad yn safon ein ffyrdd, yn enwedig y ffyrdd o lai o flaenoriaeth sef Dosbarth C a di-ddosbarth.



Mae Côt Ymarfer cenedlaethol newydd mewn grym erbyn hyn sydd yn rhoi pwyslais ar reoli risg. Mae'r gwasanaeth yn y broses o gyflwyno newidiadau i'r Cynllun Cynnal Asedau Priffyrdd er cysoni a diwygio i sicrhau ein bod yn adlewyrchu'r côd newydd.

Rydym yn ceisio atal dirywiad sydyn yn safon ein ffyrdd. Drwy wneud hyn byddwn yn adlewyrchu ar yr hyn sydd o fewn y côd ymarfer newydd. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn treialu defnydd o ddeunyddiau newydd neu ail-ddefnyddio deunyddiau er mwyn llenwi tyllau. Bydd hyn yn ein cynorthwyo drwy leihau ar waredu gwastraff ac yn cyfrannu at ein gwaith o leihau ein ôl troed carbon.



## Cytundeb Cynnal Priffyrdd Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am arwain partneriaeth o saith cyngor yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru er mwyn rheoli a chynnal 1,100km o gefnffyrdd (priffyrdd cenedlaethol pwysig Llywodraeth Cymru).



**Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru**  
North & Mid Wales Trunk Road Agent

Ein gwasanaeth Priffyrdd sydd yn gyfrifol am y gwaith cynnal a chadw ynghyd â delio â damweiniau a digwyddiadau sy'n deillio o dywydd garw a thu allan i oriau gwaith arferol.



## Cynnal a Chadw Pontydd a Strwythurau


Rydym yn cynnal a chadw 631 pont drwy'r sir. Mae 338 pont bwa a 96 pont wedi eu rhestru sydd â gofynion ychwanegol. Yn ogystal, mae gennym 1,618 o waliau cynnal drwy'r sir sydd hefyd yn cael eu cynnal a'u cadw gan yr adran.

## Goleuo Stryd

Rydym yn cynnal 18,705 o **oleuadau stryd** a 6,067 o **arwyddion** wedi eu goleuo er mwyn gwneud ein ffyrdd a'n strydoedd yn fwy diogel. Mae goleuadau yn defnyddio ynni trydan sydd ag effaith andwyol ar yr amgylchedd o safbwynt allyriadau carbon a llygredd golau.

Dros y 3 mlynedd ddiwethaf rydym wedi bod yn newid ein goleuadau stryd ac arwyddion i dechnoleg LED (light emitting diode) gyda'r mwyafrif yn pylu neu ddiffodd pan fo'n briodol. Mae hyn i bwrpas lleihau costau ynni, lleihau allyriadau carbon ac atal llygredd golau heddiw ac i'r dyfodol. Dros y blynnyddoedd diwethaf, rydym wedi cynorthwyo lleihau carbon wrth flaenoriaethu'r gwaith yma.

Allyriadau CO2 o ganlyniad i oleuadau stryd fesul blwyddyn (mewn tonnelli)



Dros gyfnod y cynllun byddwn yn:

- Cyflwyno Cynllun Cynnal Asedau newydd sydd yn blaenoriaethu ar sail risg.
- Treialu dulliau eco-gyfeillgar newydd o drin ein ffyrdd gan annog ail-ddefnyddio deunyddiau crai.
- Cyflwyno trefn electroneg symudol er mwyn i'n gweithwyr dderbyn a chofnodi gwaith. Bydd hyn yn galluogi i ni gyflawni'r gwaith yn fwy effeithlon.
- Cwblhau'r gwaith o newid holl oleuadau stryd y sir i LED, sydd wedi sicrhau lleihad o bron i 12,000 tonnelli o garbon hyd yma.

Mae'r gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd canlynol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir.





# Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd



# Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd



Ein pwrpas yw sicrhau fod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu rhag niwed; yn profi sefydlogrwydd yn eu bywyd ac yn cael y cyfleoedd gorau o ran eu hiechyd a'u lles.

Mae sawl tîm o fewn ein gwasanaeth ac rydym yn gweithio o fewn 3 haen o angen:

1. **Ymyrraeth Gynnar**
2. **Anghenion gofal a chefnogaeth, diogelu a gofal**
3. **Timau Arbenigol**

Yng Ngwynedd rydym yn credu y dylai pob plentyn a pherson ifanc gael y cyfle i gyrraedd eu llawn botensial. Rydym yn cydnabod bod plant yn datblygu orau pan maent yn cael eu cefnogi i dyfu a llwyddo o fewn eu teuluoedd a'u cymunedau. Rydym hefyd yn cydnabod bod cynnig ymyrraeth yn gynnar yn hanfodol er mwyn helpu plant a'u teuluoedd i ffynnu ac i leihau'r angen am wasanaethau mwy dwys.

Mae cefnogi teuluoedd i ffynnu yn mynd y tu hwnt i wasanaethau ein hadran ni yn unig, ac oherwydd hynny rydym yn am wneud gwaith pellach ar draws holl wasanaethau ataliol y Cyngor er mwyn gwella ein gallu i ymateb i anghenion trigolion Gwynedd, mewn dull cydlynus, integredig ac effeithlon.

## Cefnogi Llesiant Pobl

## Blaenoriaeth Gwella 3



Mae angen mwy o gefnogaeth ar rai trigolion ar gyfer delio gyda heriau bywyd, ac mae'r Cyngor yn buddsoddi, darparu a chynllunio nifer o wasanaethau ac ymyrraethau sy'n mynd i'r afael â chefnogi pobl gyda materion amrywiol megis: anawsterau rhiantu a magu teulu, cael a chynnal cartref, cynnal perthnasau iach, delio gyda cham-ddefnyddio sylweddau ac alcohol, trais, troseddu ac effeithiau hynny, byw'n iach ac actif, incwm annigonol a diffyg gwaith, methu aros mewn addysg, diffyg cymwysterau a sgiliau sylfaenol, gofalu, heneiddio, unigrwydd a diffyg cysylltiadau cymdeithasol.

Rydym wedi tynnu gwasanaethau ar draws y Cyngor ynghyd i siapio'r Rhaglen Cefnogi Pobl a hyd yma rydym wedi canolbwyntio ein gwaith ar fapio, adnabod rhwystrau a gwella ein dealltwriaeth o sut mae ein gwasanaethau yn cael eu darparu ar hyn o bryd. Rydym yn adeiladu darlun cliriach o brofiadau ein trigolion o ran wynebu a cael eu cefnogi i ddelio gyda'u anghenion. Mae trigolion Gwynedd wedi dweud wrthym eu bod eisiau mynediad hawdd i'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt ar adeg a dull sy'n addas iddynt hwy.

Mae'r gwaith yma yn ein helpu i adolygu ac ystyried effeithlonrwydd ein trefniadau presennol er mwyn sicrhau ein bod ni'n gwneud y gorau o'r adnoddau sydd gennym i ddiwallu anghenion yn gynnar, cyd-gynllunio gwasanaethau ac ymyrraethau priodol er mwyn "**Cefnogi Llesiant Pobl**".

Yn ystod cyfnod nesaf Cynllun y Cyngor byddwn yn

- gwneud mwy o waith i ddeall profiadau ac anghenion grwpiau penodol o drigolion; a gwneud gwaith i ddeall anghenion mewn cymunedau ac ardaloedd penodol.
- ymateb i'r rhaglen alinio cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwneud y defnydd gorau o'u grantiau a rhaglenni ataliol i drigolion Gwynedd,
- adeiladu ar Raglen Plant yn Gyntaf yn ardal Maesgeirchen drwy dreialu dulliau newydd ymysg partneriaid er mwyn helpu i greu gwasanaethau mwy integredig yn y blynyddoedd cynnar ac er mwyn lleihau'r nifer o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, meithrin cryfder cymeriad ein plant a'n pobl ifanc, a gwella canlyniadau bywyd i'n plant a'n pobl ifanc.

## Ymyrraeth Gynnar

Mae cynnig ymyrraeth yn gynnar yn hanfodol er mwyn helpu plant a'u teuluoedd i ffynnu ac i leihau'r angen am wasanaethau mwy dwys. Mae gennym nifer o wasanaethau sy'n ymyrryd yn gynnar boed hynny yn gynnar ym mywyd plentyn er mwyn iddynt gael y gefnogaeth sydd ei angen arnynt i ffynnu; neu'n gynnar pan fo her neu bryder yn amlygu gyntaf cyn i bethau waethygu; a byddwn yn gwneud hynny drwy weithio gyda'r teulu cyfan.

## Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar

Ein pwrpas yw gwneud gwahaniaeth pendant i gyfleoedd bywyd plant o dan 4 oed drwy gefnogi darpariaethau addysg feithrin, datblygu'r sector gofal plant a chwarae, a darparu pecynnau rhiantu i helpu teuluoedd i fagu plant iach, hapus a diogel.

Rydym hefyd yn darparu pecynnau o gefnogaeth fwy dwys mewn ardaloedd penodol o Wynedd drwy'r rhaglen **Dechrau'n Deg**. Mae'r rhaglen yn cefnogi teuluoedd gyda magu plant a rhiantu, datblygiad iaith a lleferydd plant, a chefnogaeth iechyd a gofal, a hynny mewn timau aml-asinataethol o fyd addysg, gofal a iechyd.



Canran o deuluoedd sydd wedi adrodd cynnydd neu welliant yn eu bywydau yn dilyn derbyn gwasanaeth gan y Tîm o Amgylch y Teulu

2016/17

95%

2017/18

92%

2018/19

90%



## Tîm o Amgylch y Teulu

Ein pwrpas yw ymyrryd yn gynnar pan fo problemau o fewn teuluoedd yn dod i'r amlwg, ond mae hyn yn digwydd yn wirfoddol gyda chaniatâd y teulu. Byddwn yn helpu drwy ymateb i anghenion a darparu gwasanaethau priodol.

Rydym wedi derbyn 144 o gyfeiriadau i'r Tîm o Amgylch y Teulu yn ystod 2018/19 ac mae canran uchel o deuluoedd yn nodi fod gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau yn dilyn derbyn ymyrraeth.

## Gwasanaeth Ieuenctid

Mae cael y cyfle i gymdeithasu, i gymryd rhan mewn gweithgareddau a pharhau i ddysgu a datblygu sgiliau newydd y tu allan i'r ysgol yn bwysig i bobl ifanc y sir. Mae cefnogi pobl ifanc i adeiladu gwydnwch i ddelio gyda unrhyw heriau yn eu dyfodol yn bwysig iawn i'r Gwasanaeth Ieuenctid. Mae pobl ifanc wedi dweud wrthym eu bos eisiau ein cefnogaeth ni i'w helpu i edrych ar ôl eu hiechyd a lles, i'w helpu i ddatblygu a dysgu sgiliau, ac i'w helpu i fod yn rhan o'u cymunedau.

## Anghenion gofal a chefnogaeth, diogelu a gofal

Mae'r mwyafrif o blant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn byw bywydau hapus, diogel ac yn mwynhau cyfleoedd i ddysgu ac i chwarae. Fodd bynnag, mae rhai plant a'u teuluoedd angen cyngor a chymorth mwy ffurfiol ar adegau.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am arwain, ymchwilio a rheoli ymyraethau diogelu plant y sir. Rydym yn gweithio'n agos gydag ysgolion, yr Heddlu, y Bwrdd Iechyd, meddygon, ac ymwelwyr iechyd ayyb i gyflawni'r cyfrifoldeb statudol yma. Mae'r cyfrifoldeb i ddiogelu yn un o gyfrifoldebau pwysicaf y Cyngor.

Mae'r **Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth** yn cynnal safonau uchel wrth ymateb yn amserol i gyfeiriadau all fod yn rhai diogelu, ac i gyfeiriadau am ofal a chefnogaeth. Er mwyn diogelu plant a phobl ifanc rydym yn ymateb heb oedi i gyfeiriadau. Pan fo'r cyfeiriadau hynny yn cynnwys pryderon am honiadau o gamdriniaeth, rydym angen ymchwilio i'r honiadau yn unol â'r Canllawiau Amddiffyn Plant. Byddwn yn gwneud penderfyniad ar bob achos o fewn pedair awr ar hugain er mwyn penderfynu ar y ffordd orau i ymateb.

Mae'r **Timau Gwaith Cymdeithasol** yn cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth ddwys i blant a'u teuluoedd. Mae gweithwyr cymdeithasol yn gweld plant a'u teuluoedd yn rheolaidd ac yn cadw cysylltiad da gyda hwy gan fod yn effro i faterion o risg i blant a phobl ifanc. Rydym yn sicrhau fod adnoddau ar gael i'w cefnogi a bod eu hanghenion yn glir i ni. Mae cynlluniau yn eu lle wedyn ar gyfer ymateb i'w anghenion. Ar adegau, rydym yn cyfeirio ymlaen i dimau sydd yn cynnig ymyrraeth fwy arbenigol, fel y gwasanaethau yn y Tim Trobwynt.



Rydym yn cynnal ymchwiliadau amddiffyn plant, ac weithiau mae rhai teuluoedd angen cefnogaeth ddwys iawn ac mae angen i ni ddod â phlant sydd mewn perygl i ofal y Cyngor.

Mae plant yn dod i'n gofal fel arfer o dan amgylchiadau anodd iawn, ac rydym yr un mor uchelgeisiol ar gyfer y plant yma ag y byddai unrhyw un ar gyfer ei blentyn ei hun.

I sicrhau fod plant a phobl ifanc yn profi sefydlogrwydd rydym yn cefnogi plant i fyw gartref gyda chefnogaeth lle bo hynny'n bosibl. Rhoddir pwyslais hefyd ar geisio lleoli plentyn gydag aelodau o'i deulu estynedig neu ffrindiau'r teulu. Lle nad yw hynny'n bosibl, lleolir y plentyn gyda gofalwyr maeth cofrestredig, neu ar adegau bydd rhai plant a phobl ifanc angen unedau preswyl arbenigol i gwrdd ag anghenion penodol.



Rôl y **Tim Maethu** yw sicrhau fod gennym ddigon o rieni maeth i ddiwallu anghenion plant sydd yn methu byw gartref.

Rydym yn asesu a chefnogi gofalwyr maeth er mwyn iddynt allu cynnig y gefnogaeth angenrheidiol i blant sy'n dod i'n gofal, ac mae hyn yn flaenoriaeth uchel i'r Adran. Rydym yn ymwybodol bod plant sydd mewn sefyllfaoedd sefydlog yn cael y cyfle gorau i brofi'r ffiniau hynny sydd yn allweddol i ddatblygiad da. Mae hyn yn gosod y sylfaen ar gyfer cyflawni'r canlyniadau gorau iddynt.

Tra bo plentyn yng ngofal y Cyngor, ein cyfrifoldeb yw darparu cynllun gofal clir ar ei gyfer sydd yn cael ei adolygu yn rheolaidd er mwyn sicrhau fod y penderfyniadau iawn yn cael eu gwneud er lles y plentyn ac nad oes unrhyw oediad yn ei gynllun.



Mae'r **Tîm Ôl-16** yn cefnogi pobl ifanc sydd un ai angen eu diogelu neu angen gofal a chefnogaeth, ac mae'n cynnwys pobl ifanc sydd wedi gadael gofal hyd at 25 oed. Mae'r gweithwyr yn gweld y bobl ifanc yn rheolaidd ac yn annog iddynt gadw cysylltiad da gyda'u teuluoedd ac yn datblygu eu sgiliau i fyw yn annibynnol. Mae'r Cynllun "Pan Fydda i'n Barod" yn cynnig opsiwn i bobl ifanc nad ydynt yn barod i symud o'u lleoliad maeth ar eu pen-blwydd yn 18 oed i aros hyd nes eu bod nhw 'n barod i wneud hynny.

## Y Timau Arbenigol

Pwrpas **Gwasanaethau Trobwynt** yw lleihau anghenion drwy gynnig ystod o ymyraethau a chefnogaeth ddwys i blant sydd ar fin dod i ofal, sydd newydd ddod i ofal, neu i ddychwelyd plant adref o ofal yn ddiogel. Wrth gydweithio'n agos a chyd-gynhyrchu cynlluniau gofal gyda'r plant a'u teuluoedd mae anghenion iechyd corfforol, meddyliol a lles emosiynol plant a'u teuluoedd yn cael eu diwallu.



Fel rhan o'r ymyraethau hyn mae'r **Tîm Trobwynt** yn cynnig pecynnau cefnogi dwys gyda'r nod o gadw plant yn sefydlog yn eu cartrefi. Mae'r **Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS)** yn cynnig ymyrraeth arbenigol i deuluoedd ble mae camddefnydd o alcohol a chyffuriau gan y rhieni a gofalwyr yn ffactor o risg i'r plant. Oherwydd natur ddwys yr ymyrraeth, mae'r gwasanaeth wedi ei flaenoriaethu ar gyfer y teuluoedd ble mae'r risg i blant yn uchel. Mae'r prosiect **Adlewyrchu** yn cynnig cefnogaeth arbenigol i rieni sydd â phlant yn y system gofal yn barhaol. Yn ogystal, mae **Trobwynt** yn cynnig gwasanaeth arbenigol sy'n canolbwyntio ar ddiddymu gorchmynion gofal lle mae gwaith dwys eisoes wedi ei gwblhau, a thrwy hynny yn cynnig ffordd allan o ofal i blant a'u teuluoedd.

Mae **Tîm Derwen** yn darparu gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a gwael a'u teuluoedd. Rydym yn darparu cymorth i bobl ifanc anabl i'w helpu i gael eu cynnwys mewn gweithgareddau a bywyd cymunedol a chynyddu sgiliau i'w gwneud yn fwy annibynnol. Rydym yn darparu cyfnodau o ofal seibiant drwy wasanaeth cefnogol i nifer fawr o deuluoedd. Mae'r tîm yn dîm amlddisgyblaethol ac yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd. Mae gennym weithwyr cymdeithasol, nyrsys a seicolegwyr yn gweithio yn y tîm ac oherwydd ystod eang o anghenion cymhleth mae ein gweithwyr angen meddu ar sgiliau arbennig i ymateb i anghenion y plant a'u teuluoedd.





Pwrpas y **Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid** yw gweithio yn ddwys gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu i'w hatal rhag aildroseddu. Rydym yn cynnig ystod eang o ymyraethau arbenigol ac yn gweithio gyda'r teulu cyfan er mwyn dod o hyd i ddatrysiadau i helpu'r plant a phobl ifanc rhag aildroseddu. Rydym hefyd yn gweithio yn ataliol gyda phlant a phobl ifanc i'w hatal rhag troseddu yn y lle cyntaf. Byddwn yn gwneud hyn mewn partneriaeth ag ysgolion ac o fewn cymunedau'r unigolion. Rydym yn dîm amlasiantaethol ac yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Heddlu, y Bwrdd Iechyd, Gyrfa Cymru, Tai Gogledd Cymru ac eraill.

### Sut rydym yn sicrhau ansawdd Diogelu

Er mwyn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod ein trefniadau diogelu yn gadarn mae gennym **Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd** sydd yn canolbwyntio ar agweddau gwahanol ar y maes pwysig hwn. Rydym yn gweithredu'r dyletswyddau statudol i adolygu achosion Plant mewn Gofal, ac yn rhoi arweiniad ar amddiffyn plant, gan gadeirio Cynadleddau Achos a Chyfarfodydd Strategaeth lle mae honiadau yn erbyn pobl broffesiynol.

Byddwn yn cynnal cynadleddau amddiffyn plant mewn partneriaeth â'r teuluoedd a gweithwyr eraill. Mae ymyrryd gyda theulu i ddiogelu'r plentyn yn gallu bod yn anodd iddynt. Yn aml, nid ydynt yn croesawu'r cymorth yma ac yn aml yn cydweithredu trwy orfodaeth. Ein nod yw sicrhau fod llais y plentyn yn fwy amlwg yn y trafodaethau a bod teuluoedd yn cymryd rhan fwy effeithiol yn eu cynllun diogelu.

Mae Swyddogion Adolygu Annibynnol yn monitro cynlluniau gofal pob plentyn a pherson ifanc sydd mewn gofal. Maent yn sicrhau fod y cynlluniau gofal wedi rhoi ystyriaeth briodol a phwysau i ddymuniadau a theimladau'r plentyn, a bod y plentyn yn deall ei sefyllfa yn llawn o ystyried ei oed a'i ddealltwriaeth. Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod buddiannau'r plentyn yn cael eu diogelu trwy gydol eu hamser mewn gofal. Maent yn gwrandao ar blant, gwneud yn siŵr eu bod yn hapus gyda'u cynlluniau, sicrhau bod eu barn yn cael llais a bod eu cynlluniau yn cael eu dilyn, a bod yn ddigon grymus i wneud rhywbeth am y peth os nad ydynt yn cael eu dilyn.



Mae'r gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd canlynol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



# Adran Amgylchedd





# Adran Amgylchedd



Mae'r Adran yn arwain ar y prif feysydd canlynol:

- Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu
- Gwarchod y Cyhoedd
- Trafnidiaeth a Chefn Gwlad

## Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu

- Gwasanaeth Cynllunio
- Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd (Gwynedd a Môn)
- Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu

## Gwasanaeth Cynllunio

Pwrpas y gwasanaeth yma yw i hwyluso a rheoli datblygiadau cynaliadwy er budd ein cymunedau, yr economi a'r amgylchedd o fewn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd (nad yw'n cynnwys ardal y Parc Cenedlaethol).

Yn ystod 2018-19 derbyniwyd dros 2,300 o ymholiadau cynllunio cyffredinol neu ymholiadau cyn cyflwyno cais.

Rydym yn gwneud penderfyniadau ar **geisiadau cynllunio** i ddatblygu tir ac yn ymdrin ag oddeutu 1,200 o geisiadau cynllunio'n flynyddol, gyda dros 88% o geisiadau'n derbyn caniatâd.

Mae ceisiadau'n cymryd 65 diwrnod i'w penderfynu ar gyfartaledd gydag oddeutu 86% yn cael eu penderfynu o fewn yr amser gofynnol.

Yn ddiweddar, caniatawyd nifer o ddatblygiadau sylweddol sy'n cynnwys ysgolion newydd, datblygiadau tai (gan gynnwys tai fforddiadwy) a nifer o rai eraill. Caniatawyd hefyd nifer uchel iawn o geisiadau am ddatblygiadau sy'n rhoi cyfle i fusnesau presennol ehangu ac i fusnesau newydd sefydlu, yn enwedig yn y maes atyniadau twristiaeth a busnesau cysylltiedig. Yn ystod y cyfnod yma mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi bod yn rhan allweddol o broses ceisiadau Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) Wylfa Newydd a phrosiect Cysylltu Gogledd Cymru'r Grid Cenedlaethol, yn ogystal â chynghori ar nifer o brosiectau mawr eraill sydd gan y Grid Cenedlaethol o fewn y Sir.

Rydym yn cymryd **camau gorfodaeth** ar ddatblygiadau sydd heb gael caniatâd cynllunio gan ymdrin ag oddeutu 200 o achosion yn flynyddol. Fe ymchwiliwyd i 78% o'r achosion gorfodaeth o fewn 84 diwrnod ac mae nifer o rybuddion gorfodaeth wedi eu cyflwyno.



## Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd (Gwynedd a Môn)

**Pwrpas y gwasanaeth yma yw i baratoi dogfennau polisi cynllunio, yn cynnwys paratoi a monitro'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a Chanllawiau Cynllunio Atodol. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy ac mae'n cynnwys mapiau a pholisïau ysgrifenedig a ddefnyddir i benderfynu ceisiadau cynllunio.**


Ers mabwysiadu'r **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd** (Gwynedd a Môn), mae 8 (allan o gyfres o 17) o Ganllawiau Cynllunio Atodol wedi eu mabwysiadu gydag un arall wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Mae gwaith o baratoi'r gweddill yn mynd rhagddo. Mae'r canllawiau yn rhoi cig ar esgryn polisïau cynllunio, ac yn atgyfnerthu gallu'r cynllun i roi sail gadarn i wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio i'r dyfodol. Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol wedi cael ei baratoi ar gyfer y cyfnod Iaf Awst 2017-31 Mawrth 2019 ac wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn adrodd ar berfformiad y cynllun yn ystod y cyfnod ac yn asesu os yw strategaeth a pholisïau'r cynllun yn gweithio. Casgliad yr Adroddiad Monitro Blynyddol oedd bod y cynllun yn cyflawni'r strategaeth a bod polisïau'r cynllun yn gweithio. Doedd dim tystiolaeth am yr angen i adolygu'r cynllun yn gynnar.

Rydym hefyd yn rhoi arweiniad ar faterion polisi cynllunio i Awdurdod Cynllunio Gwynedd, Awdurdod Cynllunio Cyngor Sir Ynys Môn, sefydliadau allanol a'r cyhoedd.

## Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu

**Pwrpas y gwasanaeth yma yw i sicrhau'r safonau gofynnol i sicrhau iechyd a diogelwch pobl o gwmpas adeiladau tra yn gwella cadwraeth tanwydd a phŵer, amddiffyn a gwella'r amgylchedd a hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Rydym hefyd yn sicrhau bod mynediad a chyfleusterau angenrheidiol yn cael eu darparu ar gyfer pobl ag anableddau mewn adeiladau newydd ac fel rhan o addasiadau.**

Mae'n rhaid i waith adeiladu gael ei gyflawni yn unol â gofynion penodol Rheoliadau Adeiladu. Mae hyn yn bwysig a gwerthfawr i bobl Gwynedd, gan y bydd yn sicrhau bod unrhyw waith adeiladu yn ddiogel ac o'r safon angenrheidiol.



Rydym yn anelu i fynd y tu hwnt i'r gofynion statudol drwy ddarparu gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, gan gynnig cyngor, cymorth technegol, asesu cynlluniau ac archwiliadau safle i bob math o waith adeiladu.

Yn nhermau adeiladau a strwythurau peryglus, rydym yn cynnig gwasanaeth 24 awr i sicrhau bod iechyd a diogelwch trigolion Gwynedd yn cael ei warchod.

Ar gyfer ceisiadau Rheolaeth Adeiladu Llawn, mae'r gwasanaeth yn anelu i archwilio'r cynlluniau o fewn 15 diwrnod gwaith, gyda'r penderfyniad yn cael ei ryddhau cyn gynted â phosib. Er mwyn cymeradwyo'r cais (penderfyniad cyntaf), byddwn yn cynnig cydweithio yn agos gydag adeiladwyr a phenseiri er mwyn cyrraedd safon cais dda.

## Gwarchod y Cyhoedd

- Gwasanaeth Rheolaeth Llygredd a Thrwyddedu
- Gwasanaeth Bwyd a Diogelwch
- Gwasanaeth Safonau Masnach

Pwrpas cyffredinol y gwasanaethau hyn yw i warchod y cyhoedd mewn perthynas ag amrediad o faterion amgylcheddol ac iechyd.

### Gwasanaeth Rheolaeth Llygredd a Thrwyddedu

Pwrpas y gwasanaeth yma yw sicrhau nad yw busnesau neu unigolion yn llygru'r aer, y tir, neu ddyfroedd gyda sylweddau neu sŵn annymunol drwy ymateb ac ymchwilio i gwynion llygredd a niwsans statudol.

Rydym yn asesu diogelwch dŵr yfed o darddiad preifat ac ansawdd dŵr ymdrochi ac yn gorfodi gwelliannau fel bo angen - 573 sampl dŵr yfed dros y flwyddyn ddiwethaf.




Rydym yn archwilio a monitro prosesau diwydiannol ar 46 safle a rheoleiddio allyriadau diwydiannol i'r aer (llosgyddion gwastraff olew, malurwyr symudol, peiriannau sment).

Rydym hefyd yn trefnu angladdau lle nad oes teulu - gyda 27 o achosion yn ystod y

flwyddyn ddiwethaf.

Rydym yn trwyddedu'r meysydd â ganlyn er mwyn gwarchod defnyddwyr, busnesau a chymunedau Gwynedd rhag unrhyw effeithiau andwyol; ac yn cymryd camau gorfodaeth lle mae hynny yn ofynnol er mwyn cadw defnyddwyr y gwasanaethau trwyddedig yn ddiogel.

- Trwyddedau alcohol ac adloniant (yn cynnwys digwyddiadau) a gamblo.
- Trwyddedau anifeiliaid yn cynnwys siopau anifeiliaid anwes, sefydliadau marchogaeth a sefydliadau bridio cŵn.
- Cerbydau, gyrwyr a gweithredwyr tacsis.
- Safleoedd carafanau, a thrwyddedu delwyr metel sgrap.



Gorfodi Trwyddedau	
<p>1,010 Eiddo Alcohol</p>	<p>47 Eiddo Gamblo</p>
<p>431 Cerbyd a 532 Gyrrwr Tacsî</p>	<p>35 Trwyddedau Anifeiliaid</p>
<p>409 Safleoedd Carafanau</p>	<p>20 Delwyr Metel Sgrap</p>

## Gwasanaeth Bwyd a Diogelwch

**Pwrpas y gwasanaeth yma yw sicrhau fod bwyd a diod gaiff ei werthu i'w fwyta a'i yfed ac sy'n cael ei gynhyrchu, ei storio, ei ddsbarthu, ei drin neu ei ddefnyddio yn y sir yn rhydd o beryglon i iechyd a diogelwch y defnyddiwr ac yn cydymffurfio â gofynion cyfansoddiadol a label.**

I wireddu ein pwrpas rydym yn addysgu unigolion a busnesau, yn cynnal rhaglenni archwiliadau, samlo ac ymchwil ynghyd â chwblhau ymyrraethau adweithiol fel yr angen. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cyfrannu at gynnal yr economi'n lleol drwy gynorthwyo busnesau i gydymffurfio â rheoliadau a delio â busnesau sy'n dewis peidio er mwyn sicrhau'r canlynol:




- Atal marwolaethau, anafiadau a chyflyrau sy'n gysylltiedig â manau gwaith
- Gwarchod trigolion ac ymwelwyr i Wynedd rhag afiechydon heintus a chemegau niweidiol
- Fod busnesau Gwynedd yn cwrdd â'r gofynion statudol sy'n ofynnol ohonynt

Mae ein gwaith yn cyfrannu at amcanion lles y Cyngor ac at wneud Gwynedd yn le iach, saff a chynaliadwy i fyw a gweithio ynddo.

Rydym yn sicrhau fod busnesau yng Ngwynedd yn cwrdd â gofynion hylendid bwyd, safonau bwyd ac iechyd a diogelwch yn y gweithle drwy ymateb i gwynion, cynnal archwiliadau rheolaidd a chynnal ymgyrchoedd addysgol.

Rydym yn gwarchod trigolion ac ymwelwyr Gwynedd rhag afiechydon heintus a chemegau niweidiol.

Rydym hefyd yn ymchwilio i ddamweiniau ac achosion o glefyd heintus yn brydlon fel bod unrhyw risgiau pellach i unigolion yn cael eu dileu.

Ceisiadau am Wasanaeth		
 1,084 Diogelwch Bwyd	 202 Iechyd a Diogelwch	 231 Afiechydon Heintus








Monitro	
 Dros 2,000 o fusnesau bwyd	
 95% o fusnesau bwyd â sgôr 4 neu 5	
 300 Sampl bwyd	 64 Damweiniau
 Dros 40 Ymweliad Addysgol	 Ymweld â 2,000+ o fusnesau yn flynyddol

## Gwasanaeth Safonau Masnach

**Pwrpas y gwasanaeth yma yw hyrwyddo, cynnal a sicrhau amgylchedd teg a chyfiawn tra'n gwarchod buddiannau trigolion a busnesau Gwynedd.**

Rydym yn gyfrifol am orfodi amrediad eang o ddeddfwriaeth yn ymwneud â chyflenwi a dosbarthu nwyddau a gwasanaethau ac yn ymdrin ag amryw o bynciau, yn cynnwys:

- diogelwch nwyddau
- codi ymwybyddiaeth o sgamiau a benthyca arian anghyfreithlon
- troseddau stepen drws
- gwerthu nwyddau a chyfyngiadau oed
- cyngor busnes
- nwyddau ffug a throeddau a hawliau eiddo deallusol
- e-fasnach ac ymchwiliadau rhynggrwyd
- cyfraith gwerthwyr tai a disgrifiadau eiddo
- petroliwm a ffrwydrion/tân gwyllt
- iechyd a lles anifeiliaid
- bwyd anifeiliaid
- pwysau a mesurau

Ceisiadau am Wasanaeth		
 2,081 Cwynion am fasnachwyr	 161 Cais am gyngor gan fusnesau	 398 Cais Iechyd Anifeiliaid
<b>Monitro</b>		
 Dros 8,000 o fasnachwyr		
 Dros 2,000 ffermydd		
 30 Busnes i gadw tân gwyllt		
 44 Busnes i gadw petrolewem		

## Trafnidiaeth a Chefn Gwlad


- **Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau**
- **Gwasanaeth Cludiant Integredig a Diogelwch y Ffyrdd**
- **Gwasanaeth Cefn Gwlad a Mynediad**
- **Uned Parcio**

## Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau

**Pwrpas y gwasanaeth yma yw galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio ffyrdd Gwynedd mewn modd diogel a dirwysr.**

Rydym yn cwrdd â'n pwrpas drwy'r prif weithgareddau canlynol:

- Sicrhau bod ein ffyrdd yn ddiogel a dirwystr ar gyfer pob defnyddiwr, a chynnig mesuryddion priodol i'w monitro a'u gwella.
- Cydymffurfio â'n ddyletswyddau o dan y Ddeddf Teithio Lesol 2013 drwy ddarparu rhwydwaith llwybrau cerdded a beicio, a hyrwyddo teithio llesol.
- Cyflawni prosiectau sydd yn ymwneud â diogelwch y ffyrdd, gwella'r rhwydwaith a thrafnidiaeth integredig a chynaliadwy mewn modd cost effeithiol, amserol a diogel.
- Sicrhau nad oes rhwystr diangen i'r defnydd o briffyrdd yn sgil gweithgareddau a digwyddiadau, drwy gydgorio a rheolaeth priodol.
- Sicrhau bod datblygiadau newydd sy'n cael effaith ar ein rhwydwaith ffyrdd wedi'u dylunio a'i gweithredu'n ddiogel.




Rydym hefyd yn rheoli prosiectau gwella ffyrdd amrywiol ledled y sir.

Rydym bob amser yn edrych am gyfleoedd i ariannu ein cynlluniau trafndiaeth a diogelwch o ffynonellau allanol ac yn aml yn llwyddiannus yn denu arian grant o wahanol ffynonellau ar eu cyfer.

Rydym yn gyfrifol am gydlynw a monitro'r holl weithgareddau a wneir ar y rhwydwaith briffordd gyhoeddus gan ymgymerwyr statudol (e.e. Dŵr Cymru, BT) neu eu contractwyr. Mae hyn yn golygu prosesu ceisiadau am e.e. tyllu ffyrdd i drwsio cyfarpar a chau ffyrdd i hwyluso ymgymryd â gwaith cynnal a chadw.

Rydym hefyd yn **trwyddedu gosod sgipiau a sgaffaldau** ar ein ffyrdd yn ogystal â gorfodi perchnogion eiddo i dorri coed, symud rhwystrau oddi ar y ffordd ac yn y blaen.




## Gwasanaeth Cludiant Integredig a Diogelwch y Ffyrdd

**Pwrpas y gwasanaeth cludiant yw darparu cludiant diogel o ansawdd sy'n gost effeithiol i drigolion Gwynedd. I'r perwyl hwn, yr uned sy'n gyfrifol am yr holl faterion yn ymwneud â chludo trigolion Gwynedd, boed hynny ar gludiant cyhoeddus, cludo dysgwyr i sefydliadau addysgol, cludiant cymunedol neu gludiant ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.**



Mae dros hanner y **llwybrau cludiant cyhoeddus** o fewn Gwynedd yn derbyn cymorth ariannol i'w rhedeg oherwydd nad ydynt yn fasnachol-hyfyw. I hwyluso hyn, rydym yn paratoi contractau cludiant cyhoeddus yn ogystal â pharatoi a chreu amserlenni gweithredu ar gyfer y gwahanol lwybrau. Rydym hefyd yn gyfrifol am drefnu **contractau cludiant addysg** (gan gynnwys cynllun prynu seddau) er mwyn darparu trafnidiaeth am ddim i ddisgyblion cymwys.



Mewn ardaloedd lle nad oes darpariaeth cludiant confensiynol ar gael, neu ar gyfer ein trigolion sy'n methu neu'n ei chael hi'n anodd defnyddio cludiant cyhoeddus confensiynol, rydym hefyd yn ystyried cyfleoedd ar gyfer **cludiant cymunedol**.

Fel rhan o **adolygiad cynhwysfawr** o'r gwasanaethau rydyn ni'n eu cynnig, rydym wedi cwblhau cyfnod o ymgynghori gyda'n cymunedau er mwyn deall yn union beth yw eu hanghenion cludiant.

Rydym bellach yn bwriadu mynd ati i sicrhau bod ein rhwydwaith cludiant, yn ogystal â'r math o gerbydau a ddefnyddir, yn cwrdd ag anghenion ein trigolion. Drwy arloesi, byddwn yn sefydlu gwasanaethau o ansawdd, sy'n ddibynadwy, yn cynnig gwerth am arian ac yn garedig i'n amgylchedd. **Byddwn wedi sefydlu rhwydwaith newydd a gosod rhannau o'r ddarpariaeth yn ystod 2020-2021.**

**Pwrpas y gwasanaeth diogelwch ffyrdd yw ceisio lleihau anafniadau a damweiniau ar ein ffyrdd drwy ymgymryd â mentrau addysgol, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd.**

Rydym yn cwrdd â'r pwrpas drwy ymwneud â'r agweddau canlynol:

- Hyfforddiant beicio yn ddiogel (cynradd)
- Hyfforddiant croesi'r ffordd fawr yn ddiogel (cynradd)
- Ymgyrchoedd cerdded i'r ysgol (cynradd ac uwchradd)
- Hyfforddiant 'Pass Plus Cymru' (gyrrwyr ifanc)
- Rheolaeth cerbyd (gyrrwyr ifanc)
- Byw yn iach - gyrru'n iach (gyrrwyr hŷn)
- Ymgyrchoedd ar y cyd ag eraill ar agweddau yfed a gyrru, goryrru, gwregys diogelwch, seddi babis a ffonau symudol (oedolion)

Codwyd pryderon ynghylch diogelwch y ffyrdd tu allan i ysgolion cynradd ac uwchradd Penygroes sy'n gwasanaethu ardal Dyffryn Nantlle. Mae llwybr newydd wedi'i agor sy'n galluogi disgyblion Ysgol Dyffryn Nantlle ac Ysgol Bro Llew, Penygroes i gerdded i'r ysgol gan osgoi rhannau prysur o'r ffordd fawr. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ystyried opsiynau ar gyfer gwella darpariaeth parcio a bysus ar yr amseroedd prysuraf.

Yn yr un modd, codwyd pryderon ynghylch diogelwch y ffyrdd tu allan i rai o'r ysgolion yng Nghaernarfon. Bellach, mae cynllun ar y gweill i wella diogelwch defnyddwyr ffyrdd yng nghyffiniau Ysgol y Gelli, Ysgol Syr Huw Owen â Chanolfan Byw'n Iach Arfon. Rydym yn edrych ar wella'r cyfleoedd i deithio i'r ysgol a'r ganolfan Byw'n Iach gyda beic neu gerdded o gymunedau cyfagos.

## Gwasanaeth Cefn Gwlad a Mynediad

**Pwrpas y gwasanaeth yw gofalu am rwydwaith llwybrau Gwynedd, harddwch y tirlun a byd natur ar dir a môr.**

Rydym yn **hwyluso a chynnal hawliau mynediad** y cyhoedd i gefn gwlad a'r arfordir, gwarchod bioamrywiaeth a chynefinoedd ar dir a môr, ynghyd â diogelu safon tirlun Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Pen Llŷn.

Manteisiwyd ar gyfleoedd ariannu i sefydlu Cynllun Partneriaeth Natur Leol sy'n gyfle i gydweithio â chymunedau lleol a chyrff eraill i atgyfnerthu cynefinoedd ac adfer ardaloedd gwyrdd. Mae parhad gwaith prosiectau fel Tir a Môr Llŷn yn dwyn ffrwyth, er enghraifft drwy'r pecyn addysg forol a fydd ar gael i ysgolion a'r daith gerdded rhwng arfordir de a gogledd Llŷn sydd ar waith. Rhaid ymateb i her clefyd coed onnen a bydd cynllun gweithredu'n cael ei baratoi yn ystod y flwyddyn i ddod.

Mae sawl cynllun sy'n gwella mynediad wedi eu cwblhau - pont newydd dros yr afon Llyfni; gwella parhaus i'r Llwybr Arfordir a sawl mân welliant megis cyfnewid camfeydd am giatau yn ardal Cilan.

## Bioamrywiaeth ein Cefn Gwlad



Rydym yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â dyletswyddau'r Cyngor i warchod ein bioamrywiaeth yng Ngwynedd. Rydym yn rhoi cyngor arbenigol ar geisiadau cynllunio a datblygiadau ac wedi cynnal 976 o ymgynghoriadau yn ystod 2017/18.

Mae'r Adran yn gyfrifol am gyd-gordio'r gwaith o reoli safle Ewropeaidd dynodedig ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau morol o bwysigrwydd Ewropeaidd, sef Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau, ac am reoli a gweithredu prosiectau amgylcheddol megis Prosiect Ecosystemau Morol.



Mae'r Adran hefyd yn cynnal gweithgareddau gyda grwpiau lleol a'r cyhoedd i godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd ein bioamrywiaeth.

## Mynediad i Gefn Gwlad

Mae **rhwydwaith llwybrau cyhoeddus Gwynedd** oddeutu 3,800km o hyd, ac rydym yn rhoi blaenoriaeth i gynnal y llwybrau hynny sydd wedi eu hadnabod gan gymunedau fel y rhai sy'n bwysig iddynt.



Rydym hefyd yn datblygu a chynnal y **llwybr arfordir cenedlaethol** sydd oddeutu 300km o hyd yng Ngwynedd.

Yn dilyn gwella'r ddarpariaeth Llwybr yr Arfordir ym Mhorthmadog, mae cynnydd wedi'i wneud ar wella llwybrau sy'n cysylltu ag o ger Tŷ Moelwyn. Yn benodol, rydym wedi cwblhau gwaith ar y llwybrau o amgylch y 'Cob Crwn'.

Yn dilyn galw lleol i gwblhau'r llwybr beicio rhwng Tywyn ac Aberdyfi, sydd eisoes yn un o flaenoriaethau'r Cyngor, mae'r Adran hyd yma wedi methu a chanfod arian grant gan Lywodraeth Cymru i'n galluogi i symud ymlaen â'r gwaith. Byddwn yn parhau i geisio canfod cyllid digonol i gwblhau'r linc Teithio Llesol pwysig yma.

Roedd hefyd alw i adeiladu llwybr aml ddefnydd rhwng Pwllheli a Llanbedrog a fyddai'n galluogi defnyddwyr i gael mynediad rhwydd ar hyd arfordir deheuol Pen Llŷn. Mae gwaith cyfreithiol yn mynd rhagddo i geisio cael hawliau beicio a marchogaeth ar y llwybr er mwyn ehangu ein rhwydwaith Teithio Llesol.

Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar greu llwybrau arfordirol addas i'w pwrpas rhwng Tal y Bont, Bangor a Phorth Penrhyn, ac hefyd rhwng Dinas Dinlle a Threfor yn ystod y flwyddyn 2020 - 2021.

Rydym yn ymdrin â cheisiadau i wyro a chreu llwybrau ac yn cynnal a diweddarau'r map diffiniol sy'n dangos **rhwydwaith hawliau tramwy'r sir**.



Rydym hefyd wedi paratoi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy sy'n gosod fframwaith ar gyfer gwella'r rhwydwaith ac yn rheoli tiroedd, gan gynnwys 6 gwarchodfa natur a thiroedd eraill.

Mae'r Adran yn gwarchod a cheisio rheoli ansawdd **Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn (AHNE)** yn unol â phrotocol. Mae Cynllun Rheoli AHNE yn cael ei weithredu gan y Cyngor a sefydliadau eraill.



I'r dyfodol, ein bwriad yw i sicrhau bod ein rhwydwaith beicio yn addas i'w bwrpas ac, yn hynny o beth, i ddatrys agweddau sy'n rhwystro eu llawn defnydd.

Byddwn yn ogystal yn manteisio ar gyfleoedd grantiau i ehangu'r rhwydwaith Teithio Llesol sy'n cynnig buddion iechyd ac amgylcheddol.

## Uned Parcio

**Pwrpas yr uned hon yw i annog parcio diogel a threfnus i sicrhau diogelwch ar ein ffyrdd, i hwyluso llif trafndiaeth ac i sicrhau safleoedd parcio priodol ar gyfer pawb.**

Rydym yn cwrdd â'r pwrpas drwy ymwneud â'r agweddau canlynol:

- Gorfodaeth parcio ar ac oddi ar ein strydoedd
- Cynnal ein meysydd parcio a sicrhau eu diogelwch
- Cynnal ein peiriannau talu ac arddangos

Roedd pryderon wedi eu hamlygu yn ardal Caernarfon a Dyffryn Ogwen am y diffyg llefydd parcio i bobl leol. I ymateb i hyn, mae cynllun 'Parcio i Drigolion' wedi'i weithredu yn Nhref Gof, Caernarfon lle mae'r mwyafrif o drigolion wedi cefnogi'r cynllun. Rydym wedi ymgynghori â thrigolion mewn rhannau eraill o'r dref ac wedi darganfod nad oedd cefnogaeth i fabwysiadu cynllun o'r fath.

Mae'r sefyllfa parcio i drigolion a gweithwyr yn ardal Dyffryn Ogwen yn parhau i gael ei fonitro ac nid oes problemau sylweddol wedi dod i'r amlwg ar hyn o bryd.

Mae'r gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd canlynol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau

Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir.



# Adran Economi a Chymuned



# Adran Economi a Chymuned



**Mae'r Adran Economi a Chymuned yn cynnwys ystod o wasanaethau sydd yn anelu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cymunedau Gwynedd.**

Dyma fraslun o waith yr Adran yn 2020/21:

## Gwasanaeth Datblygu Economaidd

Rydym yn cydweithio gyda phartneriaid i greu'r amodau i fusnesau a mentrau sefydlu, cystadlu a datblygu yng Ngwynedd gan greu a chynnal swyddi o ansawdd ar draws y Sir.

**Mae perfformiad yr economi yn effeithio ar ansawdd bywyd trigolion Gwynedd gan ddylanwadu ar gostau byw ac incwm aelwydydd.**

Mae economi Gwynedd yn perfformio yn gymharol dda ar lefel Cymru ond ddim o'i gymharu â rhanbarthau eraill o Brydain ac Ewrop. Mae lefelau cyflog yng Ngwynedd yn llawer is na rhannau eraill o Gymru ac mae gwerth cynhyrchiant busnesau Gwynedd yn isel o'i gymharu ag ardaloedd eraill. Mae'n bwysig felly fod Cyngor Gwynedd yn cymryd camau rhagweithiol i greu'r amodau fyddai'n galluogi i fusnesau dyfu a sbarduno twf yn yr economi a hynny mewn cyfnod o ansicrwydd economaidd wrth i Brydain adael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae 16,010 o fusnesau, mentrau a chwmnïau cymunedol yng Ngwynedd. Mae'r Adran yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ymarferol i'w helpu i sefydlu a datblygu er mwyn cynnal a chreu swyddi. Mae'r Gwasanaeth yn rhoi sylw arbennig i gefnogi busnesau Gwynedd i dendro'n llwyddiannus am waith a chadw'r budd yn lleol o gytundebau yn y sector cyhoeddus a phreifat a hynny drwy gydweithio gyda Thîm Caffael Cyngor Gwynedd a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.



8

o swyddi wedi eu creu gan fentrau yn derbyn cymorth 2018/19

Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn ceisio deall effaith Brexit ar fusnesau Gwynedd gan godi ymwybyddiaeth o ffynonellau cymorth busnes er mwyn galluogi busnesau i ymdopi â'r newid.

Ein blaenoriaethau gwella yn 2020/21 fydd:

## Busnesau'n Cael Cymorth i Ffynnu

Blaenoriaeth Gwella I



Mae cael busnesau sy'n ffynnu yn cyfrannu'n sylweddol at greu cyflogaeth a llewyrch yn ein cymunedau. Ond mae'n gyfnod ansicr i fusnesau ar hyn o bryd o ganlyniad i Brexit a newid mewn trefniadau masnachu a chystadlu. Mae Cyngor Gwynedd yn benderfynol o helpu mentrau lleol i addasu ac ymateb i'r her drwy:

- fod yn effro i lais busnesau a gwranddo'n well er mwyn deall eu hanghenion i'r dyfodol;
- sicrhau fod pob rhan o'r Cyngor yn ystyried sut gallent gynnig cymorth i gefnogi busnesau;
- lleisio anghenion busnesau Gwynedd yn rymus wrth drafod gyda'n partneriaid;
- annog busnesau Gwynedd i wneud y gorau o'r cymorth sydd ar gael gan eraill.

Rydym eisoes wedi:

- cynnal arolwg o farn busnesau o'r holl wasanaethau maent yn ei dderbyn gan y Cyngor
- trafod oblygiadau Brexit gyda'r gymuned fusnes a hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru ac eraill
- chwarae rhan rhagweithiol yn y trafodaethau ynglŷn â dyfodol cymorth busnes yng Ngogledd Cymru a dyfodol arian i gefnogi'r economi wedi Brexit.

Yn 2020/21 byddwn yn:

- ymateb i ganlyniadau ein harolwg o farn busnesau am wasanaethau'r Cyngor gan weithio yn bendodol gyda'r Adran Cefnogaeth Gorfforaeth a'r Adran Amgylchedd;
- cyfrannu i ddatblygu'r rhwydwaith cefnogi busnes ar draws Gogledd Cymru gan sicrhau ei fod yn addas i anghenion busnesau Gwynedd;
- adolygu ein dulliau o ymgysylltu'n barhaus gyda busnesau a chyflwyno trefniadau newydd yng ngoleuni Brexit;
- dylanwadu ar y trefniadau newydd ar gyfer arian i gefnogi'r economi wedi Brexit.

## Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru

Blaenoriaeth Gwella I



Mae diffyg twf yn wendid yn economi Gogledd Cymru gyfan, a'r gogledd orllewin yn arbennig. Mewn ymateb daeth chwe Sir y gogledd, a rhanddeiliaid eraill megis sefydliadau addysg y rhanbarth a'r sector breifat, ynghyd i sefydlu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a llunio gweledigaeth ar gyfer twf yr economi.

Prif gynllun y Bwrdd yw 'Cais Twf Gogledd Cymru' ac yn Nhachwedd 2019 arwyddwyd cytundeb cychwynnol rhwng y Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sy'n paratoi'r ffordd ar gyfer gwireddu'r Cais Twf. Bydd y cais yn arwain at £945m o fuddsoddiad yn rhanbarth y Gogledd dros y pymtheg mlynedd nesaf gan greu hyd at 4,000 o swyddi ledled y Gogledd. Mae Cyngor Gwynedd yn chwarae rhan flaenllaw yn y Bwrdd Uchelgais er mwyn sicrhau fod anghenion y Sir yn cael sylw a bod pobl a busnesau Gwynedd yn elwa i'r eithaf.

Rydym eisoes wedi:

- sicrhau fod sawl cynllun fydd yng Ngwynedd yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Uchelgais gan gynnwys gwella argaeledd bandeang cyflym, datblygu safle Atomfa Trawsfynydd a datblygu Canolfan Arloesedd Gwledig yng Nglynllifon

Tud. 200

- cytuno i fod yn awdurdod arweiniol ar gyfer y Bwrdd Uchelgais

Yn 2020/21 byddwn yn:

- parhau i ddyllanwadu ar ddatblygiad y cynlluniau fydd yng Ngwynedd;
- cyfrannu i ddatblygiad Fframwaith Economaidd Gogledd Cymru sydd yn cael ei pharatoi gan Llywodraeth Cymru i adnabod prif raglenni buddsoddi rhanbarthol i'r dyfodol;
- dylanwadu ar Lywodraeth Prydain a Llywodraeth Cymru i sicrhau fod Gwynedd yn elwa o unrhyw arian datblygu economaidd a ddaw yn dilyn Brexit.

## Creu Swyddi Gwerth Uwch (Cyflog £28,500 neu fwy)

**Blaenoriaeth Gwella I**



Mae cyflogau yng Ngwynedd ymysg yr isaf unman ym Mhrydain. Roedd tâl wythnosol yn y Sir yr isaf yng Nghymru yn 2019 (£459 ar gyfartaledd) â thâl isel ar ei waethaf yn ein cymunedau gwledig (£423).

Mae cyflogau isel yn cyfrannu at y gyfradd uchel o dlodi ymhlith ein trigolion sy'n gweithio. Mae diffyg swyddi sy'n talu'n dda hefyd yn rheswm pam fod pobl ifanc yn gadael neu'n methu dychwelyd i'r Sir sydd, yn ei dro, yn cael effaith ar ein cymunedau ac yn peryglu dyfodol yr iaith Gymraeg.

Bwriad y cynllun Creu Swyddi Gwerth Uwch ydi:

- annog a chefnogi busnesau o fewn sectorau sy'n talu'n dda megis ynni, digidol a chreadigol i sefydlu a thyfu yng Ngwynedd;
- cefnogi trigolion Gwynedd i fagu y sgiliau i weithio yn y sectorau hyn ac mewn swyddi gwerth uwch sy'n cael eu creu gan fusnesau Gwynedd.

Rydym eisoes wedi:

- targedu arian oddi wrth yr Awdurdod Dadgomisiynnu Niwclear i gefnogi'r gwaith
- sicrhau arian Ewropeaidd i wireddu cynllun i ddatblygu gofod i fusnesau leoli yng Nghanolfan Awyrfod Eryri
- sicrhau arian Ewropeaidd i wireddu cynllun i gynyddu'r nifer o ddisgyblion ysgol sydd yn astudio'r pynciau a ddymunir gan fusnesau o fewn sectorau sy'n talu'n dda
- sefydlu rhwydweithiau busnes yn y sectorau digidol a chreadigol i annog cydweithio
- cefnogi busnesau i sefydlu yng Ngwynedd.

Yn 2020/21 byddwn yn:

- cefnogi datblygu gofod ar gyfer 165 o swyddi yn y sector awyrfod ym maes awyr Llanbedr
- anelu i sicrhau parhad cyflogaeth ar safle cyn Atomfa Trawsfynydd gan gefnogi sefydlu endid priodol i sicrhau defnydd pellach o'r safle ar gyfer datblygiad ynni carbon isel i'r dyfodol ac arwain ar ddatblygu cynllun gan Bwrdd Uchelgais Economiadd Gogledd Cymru i baratoi'r safle ar gyfer buddsoddiad
- cefnogi datblygiad y diwydiannau creadigol a'r sector ddigidol yng Ngwynedd
- datblygu sgiliau ar gyfer swyddi gwerth uwch gan weithio gyda Phartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a phrosiect STEM Gogledd yn benodol.

## Arloesi Gwynedd Wledig

### Blaenoriaeth Gwella 1



Mae heriau sylweddol yn parhau i wynebu'r economi yng Ngwynedd wledig; mae cyflogau yn arbennig o isel a dim ond un person sydd yn gweithio yn 79% o fusnesau. Mae ansicrwydd yn parhau i wynebu'r sector fwyd ac amaethyddiaeth yn sgil Brexit a chyfeiriad polisi Llywodraeth Prydain a Llywodraeth Cymru i'r dyfodol. Mae hyn yn bygwth cynaliadwyedd ein cymunedau gwledig a chadarnleoedd y Gymraeg.

Mewn ymateb, mae'r Cyngor yn bwriadu cydweithio er mwyn creu'r amodau i fusnesau addasu a chystadlu mewn ardaloedd gwledig trwy wella'r isadeiledd digidol, cefnogi busnesau i arloesi ac i gynyddu gwerth eu gweithgaredd a cheisio cadw mwy o gyfoeth yn ein hardaloedd gwledig drwy sbarduno'r economi sylfaenol.

Rydym eisoes wedi:

- sicrhau £4 miliwn o fuddsoddiad i'r cynllun Arloesi Gwynedd Wledig i annog a chefnogi arloesedd ymhlith cymunedau a busnesau gwledig;
- gweithredu cynllun i gynyddu argaeledd offer cyfrifiadurol cyhoeddus yn ein cymunedau gwledig;
- sicrhau arian i ymestyn peilot gynhaliwyd gan Arloesi Gwynedd Wledig a gofod darpariaeth wi-fi cyhoeddus yn 8 o brif drefi / pentrefi gwledig Gwynedd;
- cychwyn gweithredu cynlluniau Gwynedd o fewn Rhaglen ARFOR i gefnogi creu gwaith o fewn cadarnleoedd y Gymraeg.

Yn 2020/21 byddwn yn:

- cefnogi buddsoddiad pellach i wella argaeledd bandeang cyflym mewn ardaloedd gwledig; i hyrwyddo'r defnydd o 'rhygrwyd y pethe' a gwasanaeth ffôn symudol;
- gweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai a'r sector breifat er mwyn sefydlu hwb arloesi gwledig yng Nglynllifon gan roi sylw arbennig i'r sector bwyd a diod;
- cwblhau prosiectau rhaglen ARFOR yng Ngwynedd a pharatoi'r achos ar gyfer cydweithio pellach yn rhanbarth Gornllewin Cymru i'r dyfodol;
- dysgu mwy am yr economi sylfaenol yng Ngwynedd a sut gellir ei gefnogi ymhellach;
- dylanwadu yn genedlaethol ar ran anghenion cymunedau gwledig yn sgil Brexit.

## Mwy o drigolion Gwynedd yn chwarae rhan lawn yn y byd gwaith

### Blaenoriaeth Gwella 3



Mae nifer sylweddol o drigolion ym methu â chyflawni eu llawn botensial gan eu bod wedi eu tangyflogi neu wedi eu heithrio o gyflogaeth.

Mae bod y tu allan i'r byd gwaith yn lleihau cyfoeth trigolion a chynyddu'r galw ar adnoddau cyhoeddus, ac mae atal hyn yn rhan allweddol o'r agenda gwrth dlodi. Ceir budd uniongyrchol o fod mewn gwaith o ran cynyddu enillion, ond hefyd ceir budd ehangach o ran iechyd, cyfleoedd bywyd plant a balchder mewn cymunedau. Mae'r Cyngor felly'n awyddus i gefnogi pobl Gwynedd i ddod i mewn neu i aros yn y byd gwaith.

Rydym eisoes wedi bod yn:



- gweithredu Rhaglen Cymunedau i Waith a Chymunedau i Waith a Mwy gan gyflogi tîm i ddarparu cymorth i drigolion sydd wedi eu heithrio o'r byd gwaith;
- adolygu'r anghenion a'r cyfleoedd o fewn y farchnad llafur yn lleol i wneud yn siŵr ein bod yn annog pobol i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen;
- gweithio gyda chyflogwyr, yn arbennig o fewn y diwydiant ymwelwyr, i sicrhau fod mwy o bobl Gwynedd yn elwa o'r cyfleoedd;
- cyflawni rhaglen i gefnogi trigolion Gwynedd i fagu'r sgiliau digidol sydd eu hangen i gael mynediad i waith ac aros mewn gwaith gan eu cynghori ar sut i reoli arian er mwyn sefydlogi eu hamgylchiadau.

Yn 2020/21 byddwn yn:

- sicrhau parhad y cynlluniau Cymunedau i Waith a Chymunedau i Waith a Mwy;
- ymestyn ein dull o weithio gyda chyflogwyr i sectorau newydd gan gynnwys manwerthu ac arlwyo;
- cydweithio yn agos gyda'n partneriaid ledled Gogledd Cymru a gyda Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU i wella cydlynad ein gwasanaethau;
- diwygio ein darpariaeth i gefnogi trigolion ddatblygu sgiliau digidol a rheolaeth ariannol;
- ymestyn ein darpariaeth presennol i gefnogi trigolion sydd wedi dychwelyd i waith i gynyddu eu enillion.

## Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau

**Mae'r diwydiant twristiaeth yn gyflogwr allweddol yng Ngwynedd.** Gyda gwerth economaidd o dros i £1biliwn, mae dros 15,000 o bobl yn gweithio yn y maes. Rydym yn helpu'r diwydiant i ddenu pobl drwy'r flwyddyn sy'n debygol o wario mwy yn lleol, megis ymwelwyr sy'n mwynhau'r awyr agored ac ymwelwyr sy'n ymddiddori yn hanes a diwylliant arbennig Gwynedd. Er

**57,100**

o ddilynwyr ar gyfryngau  
cymdeithasol Eryri,

Mynyddoedd a Môr yn 2018/19



mwyn cyflawni hyn yn fwy effeithlon rydym wedi ailddatblygu ein platfform marchnata Eryri Mynyddoedd a Môr yn ddigidol ac yn cydweithio gyda phartneriaid i adnabod blaenoriaethau i gefnogi prif gyrchfannau twristiaeth Gwynedd a'r sector yn ehangach.

Rydym hefyd yn cefnogi trefnwyr digwyddiadau i greu bwrlwm mewn cymunedau ar draws y Sir. Mae digwyddiadau cyhoeddus yn cynnig cyfle masnachol i fusnesau lleol gyflenwi neu ddarparu gwasanaethau. Trwy gynnal digwyddiadau mae modd codi proffil Gwynedd a'i marchnata fel lle cyffrous a byrlymus i fyw, i ymweld ac yn lleoliad delfrydol i fusnesau fuddsoddi. Rydym eisoes wedi bod yn llwyddiannus yn denu nifer o ddigwyddiadau proffil uchel cenedlaethol a rhyngwladol i'r Sir a arweiniodd at fudd economaidd o £5.47m i Wynedd yn 2019/20.

Rydym yn awyddus i barhau â hyn yn 2020/21 a sicrhau bod busnesau lleol yn elwa o'r digwyddiadau. Bydd hyn yn arwain at gyfleoedd i hyrwyddo'r Sir a chynyddu nifer y cyfleoedd i gwmnïau lleol weithio neu gynnig gwasanaethau i'r digwyddiadau.



## Ein blaenoriaethau gwella yn 2020/21 fydd:

### Elwa o Dwristiaeth

### Blaenoriaeth Gwella



Twristiaeth yw un o brif sectorau economaidd Gwynedd ac mae'n gyflogwr pwysig. Ond mae'r cynnydd mewn nifer ymwelwyr yn ychwanegu'n sylweddol i'r pwysau ar isadeiledd cyrchfannau'r Sir; cost sy'n cael ei ysgwyddo'n bennaf gan drigolion Gwynedd.

Rydym eisoes wedi:

- sefydlu grŵp llywio gyda chynrychiolwyr o'r sector dwristiaeth ar draws Gwynedd i adolygu ein trefniadau i reoli twristiaeth yng Ngwynedd;
- comisiynu astudiaeth i edrych ar opsiynau denu incwm newydd i Wunedd er mwyn ymateb i'r cynnydd mewn nifer o ymwelwyr;
- cynnal 2 weithdy gyda Aelodau Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri er mwyn cytuno ar gyfres o egwyddorion twristiaeth a blaenoriaethau i'r dyfodol.

Yn 2020/21 byddwn yn edrych i barhau i gydweithio gyda'r diwydiant twristiaeth a'n partneriaid i greu Cynllun Rheoli Twristiaeth newydd i Wunedd fydd yn ystyried y ffordd orau o gael y budd mwyaf i'r diwydiant ac i drigolion Gwynedd. Drwy wneud hyn, byddwn yn ceisio gwella cyfraniad y sector i gymunedau ac economi Gwynedd, gwella darpariaeth cyrchfannau'r Sir ynghyd â chynyddu safon darpariaeth y diwydiant i ymwelwyr a phobl Gwynedd.

## Gwasanaethau Morwrol

Gan fod tirwedd ac amgylchedd naturiol Gwynedd mor bwysig i ffyniant y Sir, mae'r Adran yn ceisio sicrhau **adnoddau diogel o ansawdd yn ein harbwr, ein marinas** ac ar draethau Gwynedd er mwyn creu atyniadau hamdden i bobl leol ac ymwelwyr. Mae'r Adran yn rheoli 301km o arfordir Gwynedd gan ganolbwyntio ar 8 o draethau Baner Las, 4 harbwr a 2 hafan gan gynnwys Hafan Pwllheli sy'n cynnig llety i 400 o gychod.



**1,777** o gychod a **923** o fadau dŵr personol wedi eu cofrestru yn ystod 2018/9

Yn 2020/21 byddwn yn:

- diweddarau Cynllun Rheolaeth Traethau Gwynedd
- gweithredu Strategaethau Carthu Harbwr Pwllheli a Doc Fictoria
- datblygu opsiynau rheoli Hafan a Harbwr Pwllheli i'r dyfodol.

## Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio

Mae nifer o ffactorau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yn cyfuno i wneud Gwynedd yn le arbennig i fyw, gweithio a mentro. Ond mae rhai o'r cymunedau lle nad ydi grym y farchnad yn gryf angen hwb ar adegau er mwyn gwyrddroi dirywiad, ac er mwyn ymateb i heriau sy'n eu hwynebu cyn gallu cyflawni potensial i'r dyfodol. Adfywio ydi'r broses yma ac mae'n **ymdrech fwriadol i gydweithio gyda pobl Gwynedd a phartneriaid i wella ardaloedd** er mwyn creu cymunedau iach, llewyrchus, deinamig a chynaliadwy gyda lle amlwg a chanolog i'r iaith Gymraeg.

Nid oes modd i un adran gyflawni amcanion agenda Adfywio Gwynedd ar ei phen ei hun. Er mwyn gwneud gwahaniaeth hirdymor a gwneud y defnydd gorau o adnoddau rhaid cydweithio ar draws adrannau'r Cyngor a chydag amrywiaeth o bartneriaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae Bwrdd Adfywio trawsadrannol wedi cael ei sefydlu ac yn ystod 2020/21 bydd yn cydweithio gyda phartneriaid er mwyn adnabod blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

### Ein blaenoriaethau gwella yn 2020/21 fydd:

#### Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar waith

#### Blaenoriaeth Gwella 1



Mae nifer o gymunedau mwyaf anghenus Gwynedd yn gyfoethog o ran treftadaeth ac yn gartref i Safleoedd Treftadaeth y Byd presennol neu arfaethedig, megis y cyn ardaloedd llechi traddodiadol.

Mae cyfle yma i ni ddefnyddio dynodiad Safle Treftadaeth y Byd fel arf i adfywio ein cymunedau llechi – hyrwyddo balchder yn ein treftadaeth, hyrwyddo uchelgais i'r dyfodol a chynyddu gwerth y diwydiant ymwelwyr.

Yn ystod 2019-20 cyflwynwyd enwebiad llawn o Wynedd i Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol ac i UNESCO ar gyfer dynodiad Safle Treftadaeth y Byd. Rhoddwyd hefyd gynlluniau ar waith sydd wedi denu dros £1m o adnoddau ychwanegol i'r Sir trwy'r Gronfa Dreftadaeth, Llywodraeth Cymru, Yr Undeb Ewropeaidd a Pharc Cenedlaethol Eryri trwy brosiect LleCHI.

Yn ystod 2020-21 byddwn yn parhau i gydweithio gyda thirfeddianwyr a rhanddeiliaid ar gynlluniau rheoli safle treftadaeth byd ac yn cydweithio gyda UNESCO er mwyn sicrhau'r statws i'r diwydiant llechi erbyn mis Gorffennaf 2021.

Trwy brosiect LleCHI, byddwn yn cydweithio gyda'r cymunedau llechi i greu rhaglen o weithgareddau adfywio yn yr ardaloedd hyn fydd yn gwella gwedd a golwg cymunedau, gwella ansawdd y profiad i ymwelwyr, ac yn arwain at gynnydd ym mherchnogaeth trigolion o'u treftadaeth, iaith a diwylliant.



Mae canol trefi bywiog yn gallu cyfrannu'n sylweddol at lewyrch economaidd a chymdeithasol ardaloedd lleol.

Mae "stryd fawr" nifer o drefi Gwynedd angen cefnogaeth i sicrhau eu bod ffynnu gan gynnal a chreu gwaith a darparu'r ystod o nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen ar drigolion ac ymwelwyr.

Rydym eisoes wedi:

- datblygu fframwaith adfywio ar gyfer canol dinas Bangor fel sail i dargedu adnoddau Rhaglen Adfywio Rhanbarthol Llywodraeth Cymru;
- cydweithio gyda busnesau yn ardal Caernarfon a Bangor i hyrwyddo'r Ardaloedd Gwella Busnes (BIDS) sydd wedi creu ardoll i'r busnesau wella'r profiad i'r ymwelydd;
- bod yn llwyddiannus yn targedu adnoddau Llywodraeth Cymru i sefydlu rhaglen fenthyg i uwchraddio adeiladau segur yn ardal Caernarfon, Bangor, Bethesda a Phenygroes;
- bod yn cydweithio gyda phartneriaid yn Harlech er mwyn sefydlu fframwaith i adfywio canol y dref;
- hyrwyddo rhaglen parcio am ddim Cyngor Gwynedd dros gyfnod y Nadolig i annog mwy o siopa yn ein trefi lleol.

Byddwn yn parhau i weithio fel Cyngor cyfan i edrych sut allwn ni gefnogi a hwyluso adfywio canol trefi er mwyn iddynt gynnal ystod o wasanaethau i drigolion lleol ac ymwelwyr o fewn amgylchedd fywiog â naws Gymreig. Bydd cynlluniau yn cael eu paratoi ar gyfer 13 o ddalgylchoedd yng Ngwynedd a hynny ar sail yr hyn sydd yn bwysig i drigolion o fewn y cymunedau hyn.

## Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau

Mae'r Adran yn darparu gwasanaethau er mwyn i bobl Gwynedd wneud ein cymunedau yn lefydd gwell i fyw. **Mae'n bwysig bod grwpiau gwirfoddol a mentrau lleol yn cael eu cefnogi i ymateb i gyfleoedd ac anghenion lleol.** Mae gan y Cyngor rwydwaith o swyddogion i gefnogi cymunedau a 'CIST' o grantiau i gefnogi prosiectau cymunedol penodol.



# 65

o brosiectau sy'n datblygu gwasanaeth newydd/diogelu mynediad at wasanaeth yn ystod 2018/9

Byddwn yn targedu rhai cymunedau yn fwy na'i gilydd gan roi sylw arbennig i gynllunio cefnogaeth i ardaloedd gyda'r anghenion mwyaf.

Yn 2020/21 byddwn yn:

- ail lansio gwasanaeth Cefnogi Cymunedau ar draws Gwynedd
- mesur maint a natur y galw am gymorth gan gymunedau ac ystyried opsiynau i ddarparu'r gwasanaeth i'r dyfodol
- cyfrannu ar waith Bwrdd Adfywio'r Cyngor drwy arwain ar y gwaith o ymgysylltu gyda chymunedau i geisio adnabod blaenoriaethau lleol.

## Gwasanaeth Llyfrgelloedd

Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth mewn 9 prif lyfrgell, 4 llyfrgell gymunedol a 3 dolen clicio a chasglu ar draws y Sir. Mae'n bwysig i bobl Gwynedd eu bod yn gallu menthyg llyfrau a llyfrau llafar, a lawrlwytho e-lyfrau, e-lyfrau llafar ac e-gylchgronau o'u dewis. Benthycwyd 491,745 o adnoddau gan bobl Gwynedd yn 2018-19. Ond nid yw holl drigolion Gwynedd yn gallu cyrraedd eu llyfrgell leol felly mae'r Cyngor hefyd yn darparu llyfrgell deithiol sy'n ymweld â 115 o arosfannau mewn trefi a phentrefi yn fisol, ac yn ymweld â 317 unigolion sy'n derbyn Gwasanaeth Llyfrgell i'r Cartref. Mae Llyfrgelloedd Gwynedd hefyd yn cael eu comisiynu gan yr Adran Addysg i ddarparu Gwasanaeth Lori Ni sy'n ymweld â phob Ysgol Gynradd, Arbennig a Chanolfannau Iaith ddwywaith y flwyddyn i fenthyg llyfrau darllen i blant 3-11 oed.



Mae pobl Gwynedd yn defnyddio'r llyfrgelloedd ar gyfer llawer iawn mwy na benthyg llyfrau. Maent yn llefydd croesawgar i bobl eu defnyddio ar gyfer amryw o weithgareddau –mynychu gweithgareddau fel sesiynau digidol, sesiynau sgwennu creadigol, sesiynau crefft neu grwpiau Dysgwyr, sesiynau i fabanod neu amseroedd stori i blant, cael cymorth a mynediad at wybodaeth ar faterion megis iechyd a lles, chwilio am waith, neu wasanaethau lleol, yn ogystal â llungopio a sganio. Mae trigolion Gwynedd hefyd yn dod i ddefnyddio un o'r 96 o gyfrifiaduron, neu'r Wi-Fi, sydd yn y llyfrgelloedd yn rhad ac am ddim.


Derbyniodd gwasanaeth Llyfrgelloedd Gwynedd adroddiad ardderchog ar gyfer ei berfformiad yn 2018-19, sy'n dangos fod y gwasanaeth yn perfformio'n dda oddi fewn i Fframwaith Asesu Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

Yn 2020/21 byddwn yn:

- paratoi achos busnes am adnoddau i uwchraddio cyfleusterau Llyfrgell Pwllheli
- datblygu ac ehangu ein cynnig lechyd, Lles a Dysgu i oedolion yn ein Llyfrgelloedd
- gwreiddio trefniadau hunan wasanaeth newydd ymhob llyfrgell ar draws y Sir
- parhau i gydweithio gyda chymunedau a hyrwyddo mynediad i'r gwasanaeth newydd
- ystyried rôl Llyfrgelloedd o fewn cymunedau ar gyfer y dyfodol

## Gwasanaeth Archifau

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb statudol i **warchod ein cofnodion cyhoeddus a gwneud yn siŵr bod gan bobl fynediad atynt**. Rydym yn gwneud hyn trwy ddau archifdy yng Ngwynedd - Archifdy Caernarfon ac Archifdy Meirionnydd yn Nolgellau.



Mae gan Archifdai Gwynedd ystod eang o ddogfennau, lluniau, mapiau a phapurau newydd gyda'r ddogfen hynaf yn dyddio'n ôl i 1176. Ceir amrediad o gasgliadau cyhoeddus, swyddogol a phreifat sy'n adlewyrchu diwylliant a threftadaeth cymunedau Gwynedd. Mae'r Archifdai yn darparu sesiynau blasu, a chyrtsiau hanes teulu ac yn cydweithio gydag ysgolion cynradd Gwynedd.

Yn 2020/21 byddwn yn:

- hyrwyddo mynediad i'r gwasanaeth
- cydweithio gyda Llywodraeth Cymru ac archifau eraill ar draws Gogledd Cymru i adnabod cyfleoedd i wneud y defnydd gorau o adnoddau archifau yn y rhanbarth
- gweithio gyda'r Adran Addysg i drafod cynnal y Gwasanaeth Addysg Archifau ac Amgueddfeydd i'r dyfodol
- adnabod cost digido'r casgliadau

## Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau

Mae'r Gwasanaeth yn rhedeg dwy amgueddfa yng Ngwynedd ac yn gyfrifol am edrych ar ôl casgliadau a chreu arddangosfeydd yn y ddwy, sef Storiell ac Amgueddfa Lloyd George.

Mae llawer o'n gwaith yn y maes celfyddydau cymunedol yn targedu **prosiectau iechyd, lles, addysg a thaclo unigrwydd**. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am ddyrannu grantiau celfyddydol er mwyn cefnogi safon a chyfleoedd celfyddydol i bawb.



Mae'r Gwasanaeth yn cefnogi rhaglenni celfyddydol amrywiol er mwyn sicrhau fod y celfyddydau'n fyw yn ein cymunedau a bod mynediad at y celfyddydau yn ein hardaloedd gwledig.

Ein nod fydd parhau i gyfoethogi bywydau trigolion Gwynedd trwy hyrwyddo dealltwriaeth o'n hetifeddiaeth a'n diwylliant unigryw.

Yn 2020/21 byddwn yn:

- gweithio gyda Chyfeillion Amgueddfa Lloyd George i greu ffordd newydd o reoli'r Amgueddfa
- sicrhau llwyddiant cynllun Storiell a sefydlu Ymddiriedolaeth Ddatblygu ar ei chyfer allai weithio gyda'r sector gelfyddydol a threftadaeth yng Ngwynedd yn y dyfodol
- gweithio gyda'r sector gelfyddydol i wireddu amcanion ein strategaeth newydd i'r celfyddydau
- cefnogi Ysgol Godre'r Berwyn i sefydlu cyfleusterau celfyddydol cymunedol newydd
- datblygu cynlluniau i uwchraddio cyfleusterau Neuadd Dwyfor ac adnabod modelau darparu cynaliadwy i'r dyfodol.

## Gwasanaeth Hamdden a Pharciau Gwledig

Rydym yn cydweithio gyda phartneriaid yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol er mwyn ysbrydoli, cefnogi a galluogi pobl Gwynedd i fod yn egniol a byw eu bywydau yn iach.

**Mae tueddiadau iechyd trigolion Gwynedd ychydig is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Gyda lefelau gordewdra plant 4 oed yng Ngwynedd ymysg yr uchaf yng Nghymru, mae'n allweddol fod Cyngor Gwynedd a phartneriaid yn ymateb a chreu'r amodau i hyrwyddo byw'n iach.**

Mae gan Cyngor Gwynedd rwydwaith o 12 o ganolfannau hamdden ar draws Gwynedd sy'n denu 1.3 miliwn o ymweliadau bob blwyddyn. Mae'r ddarpariaeth yma yn galluogi trigolion Gwynedd o bob oedran i ddysgu sgiliau newydd a mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau egniol mewn lleoliadau diogel.



82%

o blant yn  
gallu nofio yn  
11 oed yn  
2018/19

Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i barhau i ddarparu'r cyfleusterau hyn ac wedi sefydlu Cwmni Byw'n Iach Cyf. er mwyn rhedeg y canolfannau ar ei rhan i'r dyfodol. Mae'r Adran wedi gosod contract i'r Cwmni i reoli'r gwasanaeth o 1 Ebrill 2019 a byddwn yn monitro'r cytundeb yn rheolaidd er mwyn sicrhau ansawdd y gwasanaeth.

Mae'r Cyngor hefyd yn rheoli parciau gwledig yng Nglynllifon a Phadarn. Mae'r parciau hyn yn safleoedd treftadaeth pwysig ac yn atyniadau poblogaidd i ymwelwyr. Ond mae'r parciau hefyd yn asedau gwerthfawr i wella llesiant trigolion Gwynedd a hyrwyddo byw'n iach. Bydd yr Adran yn ceisio sicrhau mwy o fudd lleol i'r cymunedau o'r asedau hyn.

Yn ogystal â'r cyfleusterau hyn mae'r Cyngor yn cydweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod rhaglen o weithgareddau egniol cynhwysol ar gael i bobl ifanc drwy'r tîm Chwaraeon am Oes mewn canolfannau, ysgolion, clybiau ac yn y gymuned. Mae rhaglen o weithgareddau Cyfeirio i Ymarfer hefyd ar gael yng Ngwynedd i helpu lleihau effaith cyflyrau sy'n atal trigolion Gwynedd rhag ymarfer a gwella eu hiechyd. Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn niferoedd y cleientiaid ar gyfer y gwasanaeth yma, yn arbennig yn y meysydd dementia a chyflyrau cronig, ac mae tystiolaeth glir yn dangos effaith y buddsoddiad ar ansawdd bywyd ac iechyd. Darperir y 2 raglen yma yng Ngwynedd drwy gytundeb gyda Chwmni Byw'n Iach.



49%

o blant yn cymryd  
rhan mewn  
chwaraeon 3  
gwaith yr wythnos

Yn 2020/21 byddwn yn:

- cefnogi Cwmni Byw'n Iach i reoli canolfannau hamdden ar draws Gwynedd
- sefydlu trefniadau i uwchraddio a buddsoddi yn ein cyfleusterau hamdden
- cydweithio gyda phartneriaid er mwyn datblygu model newydd i ddarparu gwasanaeth Chwaraeon am Oes ar draws Gogledd Cymru a sefydlu gwasanaeth datblygu chwaraeon newydd ar y cyd â Chwmni Byw'n Iach yng Ngwynedd
- cydweithio gyda Chyrff Llywodraethol Chwaraeon er mwyn cynnig ystod o weithgareddau cynhwysol sy'n ymateb i'r galw yng Ngwynedd a'r cyfleoedd arbennig sydd ar gael yn y Sir drwy ein hadnoddau naturiol
- cydweithio gyda Chwmni Byw'n Iach i ddarparu'r gwasanaeth Cyfeirio i Ymarfer ar ran y Cyngor i'r dyfodol
- datblygu opsiynau rheoli Parciau Gwledig Glynllifon a Pharc Padarn i'r dyfodol.

Mae blaenoriaethau lleol wedi cael eu nodi yng Nghynllun y Cyngor ers 2018/19 gan ymateb i'r anghenion oedd wedi eu codi gan Gyngorwyr lleol. Mae'r Adran wedi defnyddio'r blaenoriaethau hyn wrth ddatblygu eu rhaglenni gwaith ehangach, ac felly mae nifer o'r anghenion yn cael eu cyfarch drwy waith sydd eisoes wedi ei ddisgrifio yn y Cynllun Adran hwn.



Isod rydym yn rhestru'r blaenoriaethau lleol ochr yn ochr â'r rhaglen neu brosiect sydd wedi ei chynllunio er mwyn ymateb i'r angen lleol a sirol hwnnw.

<b>Blaenoriaethau Lleol</b>	<b>Rhaglen</b>
<p>Wrth ymgynghori gyda chynghorwyr lleol ardaloedd Porthmadog, Ffestiniog a Phenllyn yn ôl yn Haf 2017, nodwyd dyhead i ddenu mwy o swyddi tymor hir sy'n talu cyflogau da er mwyn gwella sefyllfa economaidd trigolion lleol. Mae'r flaenoriaeth Creu Swyddi Gwerth Uchel yn datblygu cyfleoedd newydd yn Nhrawsfynydd a Llanbedr fydd yn elwa'r cymunedau hyn. Yn ardal Porthmadog, nodwyd yn ogystal fod pryder ymysg y cynghorwyr lleol ynglŷn â chyflwr rhai safleoedd segur yn yr ardal ac mewn ymateb i hyn byddwn yn effro i unrhyw gyfleoedd i gefnogi gwella neu ailddenyddio'r safleoedd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Swyddi Gwerth Uchel</li> <li>• Hybu Canol Tref</li> </ul>
<p>Wrth ymgynghori gyda chynghorwyr ardal Dolgellau daeth i'r amlwg fod cysylltedd gwael ffonau symudol a band eang yn llesteirio trigolion a busnesau'r ardal. Rydym yn ceisio sicrhau blaenoriaeth i'r Sir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau yn y maes drwy'r ddilyn egwyddorion Gwynedd Ddigidol</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru</li> <li>• Arloesi Gwynedd Wledig</li> </ul>
<p>Yn ardaloedd Dyffryn Ogwen a Dyffryn Nantlle, nododd y cynghorwyr lleol fod hyrwyddo ac adfywio'r stryd fawr yn flaenoriaeth leol, ac rydym wedi gwneud ceisiadau amlinellol ar gyfer peth gweithgaredd adfywio yn yr ardaloedd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Hybu Canol Tref</li> </ul>
<p>Wrth ymgynghori gyda chynghorwyr ardal Bangor, nodwyd dyhead i wella edrychiad yr ardal leol ac i ymateb i siopau gwag, gan nodi dymuniad i gydweithio â phartneriaid megis busnesau lleol a Chynghorau Tref a Chymuned i greu incwm er mwyn cyfrannu at y gwaith. Gallai hyn yn ei dro gefnogi busnesau a chrefftwyr lleol. Rydym yn ystyried y cyfleoedd i adeiladu ar y gwaith a wneir eisoes ar y cyd ag Ardal Gwella Busnes Bangor a'n partneriaid yn lleol ac yn rhanbarthol er mwyn llunio ymateb. Mae arian grant ychwanegol i uchafu budd y Cynllun Benthyciadau di-log wedi ei sicrhau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Hybu Canol Tref</li> </ul>
<p>Mae cyswllt hefyd gyda'r flaenoriaeth Sirol ar gyfer rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar waith, a nodir uchod. Dylai adfywio'r ardaloedd yma wella unrhyw ddelwedd negyddol sy'n deillio o fod yn ardaloedd ôl-ddiwydiannol gan ryddhau eu potensial.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar waith</li> </ul>
<p>Yn ardal Ffestiniog fe ddaeth i'r amlwg fod pryderon ymysg y cynghorwyr lleol pan gynhaliwyd sesiwn ymgynghori â hwy ynglŷn â dyfodol y Ganolfan Gymunedol a'r gwasanaethau a leolir yno, a gwnaeth y tîm Adfywio arolwg diweddar ar adeiladau cyhoeddus ar hyd a lled Gwynedd. Dangosodd yr arolwg fod defnydd aneffeithiol yn cael ei wneud o nifer o adeiladau cyhoeddus ym Mlaenau Ffestiniog gan gynnwys y Ganolfan Gymunedol. Mae cyfle yma, mewn cyfnod o gyni ariannol, i rannu adnoddau yn well i'r dyfodol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau</li> </ul>

Mae'r gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd canlynol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Ennill cyflog digonol i ni fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg

Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir.





# Tai ac Eiddo



## Adran Tai ac Eiddo



Mae'r Adran Tai ac Eiddo yn adran newydd a sefydlwyd yn ystod 2019 gyda'r nod o hwyluso gallu'r Cyngor i wynebu un o'r heriau mwyaf yn y Sir, sef sicrhau digon o dai pwrpasol a safonol i gyfarch anghenion poblogaeth sydd yn newid.

Mae'r Adran hefyd yn gyfrifol am reoli asedau eiddo'r Cyngor er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer darparu gwasanaethau i drigolion y Sir.

### Materion Tai

#### Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd 2019-24

#### Rhestrfaeth Gwella 4



Mae'r galw am dai cymdeithasol a fforddiadwy i gartrefu trigolion Gwynedd ar hyn o bryd yn uwch na'r cyflenwad sydd ar gael, ac mae nifer cynyddol o bobl yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd yng Ngwynedd. Nid yw ein ymateb hyd yma yn cyfarch anghenion y boblogaeth leol rŵan nac i genedlaethau'r dyfodol. Mewn ymateb i'r her yma rydym eisoes wedi llunio Strategaeth Dai sydd yn anelu i wneud y gorau o'n cyflenwad o dai yng Ngwynedd, i wella eu safon yn ogystal â gwella mynediad i dai drwy gryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl i'w galluogi i fyw yn annibynnol o fewn eu cymunedau.

Yn ystod 2020/21 byddwn yn defnyddio'r egwyddorion sydd wedi eu sefydlu yn y Strategaeth i lunio rhaglen o gynlluniau penodol er mwyn ceisio:

- Sicrhau bod pobl Gwynedd yn gallu canfod cartref addas
- Sicrhau bod neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- Cyfarch anghenion iechyd a llesiant pobl Gwynedd
- Sicrhau bod cartrefi pobl Gwynedd yn gyfeillgar i'r amgylchedd

Hyd yma mae'r Cyngor wedi bod yn defnyddio'r Grant Tai Cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru i hwyluso gallu'r Cymdeithasau Tai i adeiladu mwy o dai i bobl leol. Yn y dyfodol byddwn yn edrych i ddefnyddio ein hadnoddau ein hunain i gyflymu'n gallu i gwrdd â'r her yn y maes yma.


Nifer o unedau newydd a ddatblygwyd gyda'r Grant Tai Cymdeithasol



## Digartrefedd

Mae'r Gwasanaeth Digartrefedd yn darparu cyngor a chymorth i bobl sydd yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd. Mae'r tîm yn cyflawni dyletswydd statudol y Cyngor er mwyn cwrdd â gofynion y Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae eu gwaith yn cynnwys:

- helpu i atal digartrefedd cyn iddo ddigwydd
- asesu anghenion llety ac anghenion cefnogaeth unigolion a thelueoedd sydd dan fygythiad o fod yn ddigartref
- helpu i ffeindio rhywle arall i fyw pan fo unigolyn neu deulu yn wynebu dod yn ddigartref
- darparu llety dros dro mewn achosion argyfwng, a sicrhau llety ar gyfer y rhai sydd mewn blaenoriaeth angen.



## Llety Dros dro



Mae'r gwasanaeth yn darparu nifer o lety dros dro nes bod eiddo parhaol ar gael i bobl ddigartref, gan gynnwys dwy hostel ym mherchnogaeth y Cyngor, 67 eiddo wedi eu prydlesu gan berchnogion preifat, a 21 eiddo wedi eu prydlesu gan Gymdeithasau Tai. Darparwyd llety ar gyfer 339 o deuluoedd/unigolion yn 2018/19.

## Cefnogaeth tenantiaeth



Gan fod nifer o bobl ddigartref yn fregus, darperir cefnogaeth i sicrhau fod unigolion yn gallu cynnal eu tenantiaeth ac osgoi dod yn ddigartref eto. Mae cymorth yn cael ei rhoi ar nifer o faterion megis hawlio budd-daliadau, cymorth ar gyfer cynnal a chadw llety, deall hawliau a chyfrifoldebau, a cheisio am grantiau ar gyfer dodrefnu eiddo.

## Cofrestr Tai Cymdeithasol



Mae'r tîm Opsiynau Tai Gwynedd yn gweinyddu'r Gofrestr Tai Cyffredin ac yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r darparwyr tai cymdeithasol yn y Sir sef Adra, Grŵp Cynefin a Thai Gogledd Cymru. Prif nod y tîm ydi blaenoriaethu mynediad at dŷ cymdeithasol ar sail y mwyaf anghenus yn ein cymunedau ac i ddarparu cyngor i drigolion ar yr opsiynau tai sydd ar gael yng Ngwynedd.

Gyda chymorth Opsiynau Tai Gwynedd llwyddodd dros 600 o deuluoedd i gael tenantiaeth gymdeithasol newydd yn 2019.



## Cynllun ail leoli ffoaduriaid

Ers 2016 mae Gwynedd wedi cyfrannu at gynllun Llywodraeth y DU i Ailsefydlu Pobl Fregus o Syria. Ymrwymodd y Cyngor i groesawu a chartrefu hyd at 40 o unigolion oedd wedi gorfod ffoi o Syria yn dilyn y rhyfeloedd yno. Bellach rydym wedi cyflawni ein haddewid fel Cyngor ac ymfalchïo o fod wedi gallu helpu 8 teulu i ymgartrefu yng Ngwynedd.



Yn sgil llwyddiant y cynllun hwn, mae'r Cyngor bellach wedi ymrwmo i groesawu hyd at 20 o ffoaduriaid mwyaf bregus sy'n cael eu hadnabod gan Uchel Gomisiwn Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig (UNHCR) fel rhan o'r cynllun Ffoaduriaid Byd Eang dros y tair blynedd nesaf.

## Safle teithwyr

Mae gofyn statudol ar bob Awdurdod Lleol i gwrdd â'r angen am safleoedd addas ar gyfer teithwyr. Mae safle pwrpasol yn cael ei rheoli gennym yn Llandegai ers blynyddoedd lawer ac yn dilyn derbyn cymorth grant gan Lywodraeth Cymru bu buddsoddiad o £1.8m yno yn ddiweddar i wella'r cyfleusterau ac ymestyn y ddarpariaeth i gwrdd â'r gofyn o fewn y Sir.

## Gorfodaeth Tai



Pwrpas y Tîm Gorfodaeth yw sicrhau cartrefi safonol, cynnes a diogel i denantiaid o fewn y Sir. Rydym yn gyfrifol am orfodi safonau mewn 9,000 o dai rhent preifat a 8,500 o dai cymdeithasol yng Ngwynedd.

Rydym hefyd yn gofalu am Gynllun Trwyddedu Tai Aml Ddaliadaeth (HMO's) sydd yn gwirio fod tai o'r fath yn cyrraedd y safonau disgwylidig. Ar hyn o bryd mae 900 o dai aml ddeiliadaeth wedi derbyn trwydded gennym yn dilyn proses archwilio fanwl.

Mae'r Uned hefyd yn gweithio ar y cyd gyda Rhentu Doeth Cymru i gynnal cofrestr cenedlaethol o dai rhent, yn archwilio anheddau ar gyfer achosion y Swyddfa Gartref, delio gyda dros 300 o gwynion blynyddol yn ymwneud ag achosion o niwsans, ymdrin â phroblemau yn deillio o dai gwag ac yn ymdrin ag oddeutu 20 achos blynyddol o ddadfeddiannu anghyfreithlon.



## Addasiadau i Dai

Mae'r Uned hon yn gyfrifol am hybu annibyniaeth a lles trigolion Gwynedd drwy ddarparu addasiadau prydlon a safonol i dai oedolion a phlant sydd ag anableddau corfforol. Buddsoddir oddeutu £1.3m y flwyddyn ar gynlluniau megis creu ystafelloedd ymolchi hygrych, gosod rampiau y tu allan i'r tŷ, codi estyniadau ayb. Mae oddeutu 30 o'r rhain yn gyfeiriadau a dderbynnir gan ysbytai er mwyn galluogi i gleifion allu dychwelyd adref. Rydym hefyd yn ariannu oddeutu 900 y flwyddyn o fân addasiadau megis gosod canllawiau, rampiau symudol ac addasiadau bychain eraill.



Mae'r uned yn gweinyddu benthyciadau di-log ar gyfer atgyweirio tai mewn cyflwr gwael sydd mewn perchnogaeth trigolion ar incwm isel, mae galw sylweddol a chyson ar y benthyciadau hyn.

## Tai Gwag




Mae oddeutu 1,300 o dai gweigion yng Ngwynedd ar yn o bryd, ac mae gennym rôl bwysig wrth geisio dod a'r tai yma yn ôl i ddefnydd er mwyn cyfrannu at y nifer o dai fforddiadwy sydd ar gael i bobl leol. Ers 2008 mae dros 500 o dai gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd drwy ddulliau megis cynnig grantiau i brynwyr tro cyntaf, darparu benthyciadau i landlordiaid a defnyddio pwerau gorfodaeth. Mae hyn wedi arwain at allu cartrefu dros 1,000 o bobl leol mewn tai oedd yn arfer bod yn wag ers peth amser.

Mae ein llwyddiant yn y maes yma wedi denu buddsoddiad allanol, megis £1.45m o arian Llywodraeth Cymru yn 2018-2021 ar gyfer gogledd y Sir. Yn y blynyddoedd nesaf byddwn yn parhau i roi blaenoriaeth i'r maes hwn ac yn edrych hefyd i ddefnyddio ein adnoddau i brynu tai gwag pan fo'r cyfle i wneud hynny.

## Tlodi Tanwydd

Mae rhan fwyaf o adnoddau'r Llywodraeth yn y maes yma'n cael ei gyfeirio tuag at y Cymdeithasau Tai ond mae'r Cyngor wedi gallu gwneud cyfraniad gwerthfawr yn y maes pwysig yma hefyd. Mae gennym nifer o gynlluniau sy'n cael eu hariannu o wahanol ffynonellau gyda'r nod o gynorthwyo'r rhai sydd fwyaf tebygol o ddiodesd o dlodi tanwydd.





## Materion Eiddo

**Pwrpas y Gwasanaethau Eiddo yw sicrhau fod gennym eiddo sy'n addas i ddarparu gwasanaethau'r Cyngor a rheoli'n asedau eiddo yn effeithiol ac effeithlon.**

Mae'r Cyngor yn berchen ar 967 o adeiladau wedi eu lleoli ar 478 o safleoedd ledled y Sir. Mae'r rhain yn bennaf yn adeiladau a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau i drigolion Gwynedd ond rydym hefyd yn berchen ac yn defnyddio eiddo anweithredol i hyrwyddo amcanion y Cyngor e.e. datblygu'r economi, darparu gofal cymdeithasol ayb. Mae nifer o'r eiddo anweithredol yma'n cael eu prydlesu i fusnesau lleol a sefydliadau eraill, sydd yn creu incwm refeniw blynyddol oddeutu £1.1m i'r Cyngor.

## Cynnal a Chadw



Mae'r uned Cynnal a Chadw adeiladau yn darparu desg gymorth 24/7 er mwyn delio gyda oddeutu 8,000 o alwadau y flwyddyn am waith trwsio adeiladau. Mae nifer o'r rhain yn alwadau am waith lle bo angen ymateb brys er mwyn osgoi cau adeilad.

Er mwyn cyflawni'r gwaith hwn rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda nifer o gcontractwyr lleol ond hefyd rydym wedi datblygu tîm mewnol o grefftwyr sy'n gallu delio gyda gwaith adeiladu, gwaith coed, gwaith plymwr ayb. Byddwn yn datblygu'r tîm mewnol ymhellach eleni drwy ychwanegu dau drydanwr.

## Diogelwch Eiddo

Rydym yn sicrhau fod ein hadeiladau yn ddiogel i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau i drigolion Gwynedd drwy sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r lluo o gyfrifoldebau statudol a sicrhau fod gennym raglen cynnal a chadw effeithiol. Rydym yn rheoli risgiau asbestos, Clefyd y Lleng Filwyr, Radon a risgiau tân ac yn sicrhau fod systemau trydanol, nwy, olew, dwr ayb yn ddiogel ar gyfer y miloedd o drigolion y Sir sy'n treulio amser yn ein hadeiladau bob dydd.

## Datblygu Eiddo



Ysgol newydd Y Garnedd fydd yn agor ym Medi 2020


Pwrpas yr Uned yw datblygu adeiladau newydd neu addasu ac adnewyddu adeiladau presennol i wella'r gwasanaeth a roddir i drigolion Gwynedd.

Drwy gydweithio'n agos gyda'r Tim Moderneiddio Addysg bu i'r Uned Datblygu Eiddo gwblhau rhaglen £51m o adeiladau ysgol newydd dros y 6 mlynedd ddiwethaf a bellach mae rhaglen newydd £56m wrthi'n cael ei datblygu ar gyfer y pum mlynedd nesa.

Mae'r tim hefyd wrthi'n cyflawni rhaglen o welliannau ac estyniadau i gartrefi gofal y Sir ynghyd â rhaglen o unedau blynyddoedd cynnar i gyfarch yr angen mewn nifer o gymunedau unigol ledled Gwynedd.

## Rheoli Stadau

Ein pwrpas yw sicrhau fod y Cyngor yn derbyn y gwerth gorau wrth reoli ei bortffolio asedau eiddo a sicrhau mai dim ond yr asedau hynny sydd wirioneddol eu hangen arnom sydd yn cael eu cadw. Dros y degawd diwethaf rydym wedi gallu lleihau maint stad eiddo'r Cyngor dros 25% gan sicrhau fod ein gwariant ar gynnal a darparu adeiladau cyn lleied â phosib er mwyn rhyddhau adnoddau ariannol ar gyfer darpariaeth gwasanaethau rheng flaen.



Y tîm Stadau sydd hefyd yn gyfrifol am reoli holl brydlesi'r Cyngor gan gynnwys y Stad Manddaliadau a'r portffolio Eiddo Diwydiannol gan gynnwys Canolfannau Menter Intec ac Mentec gan greu incwm rhent blynyddol o dros £1.1m.

## Rheoli Swyddfeydd



Mae'r Tîm Swyddfeydd yn darparu gofod swyddfa ar gyfer oddeutu 1,500 o staff mewn 7 adeilad sylweddol, gan gynnwys yr holl wasanaethau perthnasol y mae hynny yn ei olygu fel gofalu, glanhau a threfniadau diogelwch ar gyfer yr adeiladau a'u defnyddwyr.

## Gwasanaeth Glanhau

Rydym hefyd yn darparu **gwasanaeth glanhau** ar gyfer nifer sylweddol o adeiladau amrywiol a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau rheng flaen y Cyngor. Rydym hefyd yn ddarparwr i sefydliadau allanol.



## Uned Cadwraeth Ynni

Yn dilyn mabwysiadu ein Cynllun Rheoli Carbon, mae'r Tîm Ynni yn gweithredu nifer o brosiectau i **leihau allyriadau carbon**. Mae gwaith y tîm i leihau ein defnydd wedi creu arbedion refeniw blynyddol o dros £1.1m i'r Cyngor. Rydym wedi cychwyn y gwaith o adnabod sut allwn ni gyfrannu ymhellach tuag at ddyhead y Cyngor i wynebu'r argyfwng hinsawdd.



Mae rhaglen i godi ymwybyddiaeth ymysg plant ysgol wedi bod yn rhan bwysig o'r gwaith hwn gan ddefnyddio cymeriadau megis Sbarci a Fflic. [www.sbarciafflic.org](http://www.sbarciafflic.org)

## Rheoli Pla a Wardeiniaid Cŵn



Rydym yn cynnig gwasanaeth rheoli a difa pob math o bla drwy gontractau a thrwy ymateb i alwadau dyddiol gan y cyhoedd am gymorth i reoli pla yn eu cartrefi neu fusnesau.



Rydym hefyd yn cyflawni'r gwasanaeth statudol i ofalu am gŵn strae.

## Teleofal



Rydym yn darparu gwasanaeth gosod a chynnal a chadw offer Teleofal i drigolion Gwynedd. Mae hwn yn wasanaeth poblogaidd tu hwnt gan unigolion bregus a'u teuluoedd gyda'r defnydd o Dechnoleg Gynorthwyol yn galluogi i bobl barhau i fyw yn annibynnol yn eu cartref.

Mae'r gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd canlynol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib

Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir.





# Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd



## Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)



Mae Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) yn gweithredu fel adran fasnachol sy'n dod ag incwm i'r Cyngor, tra hefyd yn ymgymryd â swyddogaethau statudol ym maes dŵr a rheoli llifogydd. Drwy gyfuno'r masnachol a'r statudol mae YGC yn gallu cynnal swyddi safon uchel tra'n cadw arbenigedd o fewn y sir. Mae'r Adran yn arbenigo mewn meysydd peirianyddol ac adeiladu.

### Dŵr a Llifogydd

O ganlyniad i Newid Hinsawdd, mae bygythiadau erydiad arfordirol a llifogydd yn gwaethygu. Ein bwriad yw i reoli a lleihau effeithiau'r bygythiadau hyn ar bobl Gwynedd. Mae hefyd deddfwriaethau cenedlaethol sy'n gosod cyfrifoldebau statudol ar y Cyngor.

### Blaengynllunio ac Adnabod Risg

Yn unol ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), mae'n hanfodol ein bod yn blaengynllunio i gadw'n cymunedau yn ddiogel, yn iach ac yn hyfyw i'r dyfodol. Mae newid hinsawdd yn creu heriau penodol, ac mae'r maes llifogydd wedi'i gydnabod fel maes blaenoriaeth yn rhyngwladol.

Er mwyn blaengynllunio am yr heriau hyn, rydym yn mynd ati i greu darlun o berygl llifogydd ar draws Gwynedd drwy ddadansoddi'r data sy'n cael ei gasglu gennym yn ogystal â data allanol swyddogol arall megis rhagolygon hinsawdd a lefelau'r môr. Hyn oll sydd, wedyn, yn sail i'n Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn annog cydweithrediad rhwng y Cyngor gyfan a rhanddeiliaid amrywiol (megis Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru a'n cymunedau) i sicrhau ein bod yn cymryd pob cyfle posib i gydweithio i addasu ac amddiffyn rhag llifogydd. Mae ceisiadau grant llwyddiannus yn sicrhau buddsoddiad yn isadeiledd Gwynedd sy'n cynyddu gwytnwch ein cymunedau yn wyneb risgiau llifogydd. Rydym wedi adnabod bod angen cefnogaeth barhaus ymhob cymuned er mwyn sicrhau gwytnwch cynaliadwy i liniaru'r risgiau yma i'r dyfodol.

Isod, fe welwch grynodedb o'r gwaith casglu data sy'n bwydo i mewn i'r gwaith hwn.

### Archwiliadau i Achosion o Llifogydd



Mae ymchwilio i ddigwyddiadau o lifogydd yn ddyletswydd arnom o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr. Ers i'r Ddeddf ddod yn weithredol yn 2010 mae YGC wedi ymchwilio i 42 digwyddiad o lifogydd mewnol bob blwyddyn, ar gyfartaledd. Rydym hefyd yn casglu gwybodaeth wrth ddarganfod diffygion, neu dderbyn unrhyw bryderon gan drigolion Gwynedd sy'n gysylltiedig â llifogydd. Ein nod yw ymateb i'r rhain yn yr amser byrraf posib.

## Cynnal a Chadw Asedau Atal Llifogydd



Rydym yn gyfrifol am gynnal 229 o asedau arfordirol sy'n ymestyn ar hyd 19km o amddiffynfeydd arfordirol, a 52 o asedau sy'n rheoli'r risg o lifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin. Mae arolygu a chynnal yr asedau hyn yn hanfodol wrth warchod cymunedau Gwynedd. Rydym yn rhoi sgôr o 1 i 5 (gydag 1 yn golygu 'fel newydd') i

bob ased, ac yn gosod targed cyflwr i bob un. Ein nod yw i bob ased yng Ngwynedd gyrraedd ei darged cyflwr i sicrhau eu bod yn lliniaru risgiau llifogydd i bobl Gwynedd. Rydym hefyd yn cynnal ac yn gweithredu rhaglen fonitro arfordirol sy'n asesu newidiadau i'r arfordir. Bydd hyn, oherwydd effaith newid hinsawdd, yn effeithio ar ein cymunedau arfordirol fwyfwy yn y blynyddoedd i ddod.

## Ein Rôl yn y Drefn Gynllunio

Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod Llifogydd Arweiniol Lleol ac felly mae gan YGC rôl i atal datblygiadau a gweithgareddau a allai gyfrannu at berygl llifogydd. Mae'r rhain yn bennaf yn cynnwys:

- Rhoi cyngor ar geisiadau cynllunio, a
- Cynghori ar waith mewn cyrsiau dŵr a chaniatáu ceisiadau perthnasol – ar gyfartaledd yn flynyddol, rydym yn derbyn 50 cais sy'n cael effaith ar neu yn rhwystro'r llif mewn cwrs dŵr cyffredin. Rydym yn sicrhau bod y gwaith adeiladu'n cael ei wneud mewn modd sydd â'r effaith lleiaf posib i berygl llifogydd a'r amgylchedd. Mae gofyniad statudol arnom i ymateb mewn 28 diwrnod ond y nod ym mhob achos yw i gymeradwyo ceisiadau cyn gynted ag y bo modd.

## Cymeradwyo Systemau Traenio Cynladwy

Ers Ionawr 2019 mae angen i fathau penodol o ddatblygiadau dderbyn caniatâd Systemau Traenio Cynladwy (SUDS). Cyn cychwyn adeiladu mae angen i ddatblygwyr ystyried sut y byddent yn rheoli dŵr ar y safle er mwyn sicrhau ansawdd y dŵr a lleihau'r risg o lifogydd i'r dyfodol.

Rydym yn gorff cymeradwyo SUDS ac hefyd yn cynnig cymorth cyn cais i helpu datblygwyr i gwrdd â'r gofynion newydd.

**Yn 2020/21, a thu hwnt, byddwn yn parhau i ddatblygu cynlluniau er mwyn denu buddsoddiadau i liniaru risgiau llifogydd i drigolion Gwynedd ac yn codi ymwybyddiaeth o'r risgiau hyn drwy'r sir mewn ymgais i gynyddu gwytnwch ein cymunedau wrth eu wynebu.**

## Gwasanaethau Ymgynghorol



Mae YGC yn dylunio a rheoli prosiectau sy'n ymwneud â ffyrdd, strwythurau, adeiladau ac ati yng Ngwynedd a thrwy Gymru. Rydym yn creu a chynnal swyddi o ansawdd na fyddent yn y sir fel arall, a thrwy ddenu ffioedd am ein gwaith rydym yn cyfrannu tuag at gostau cynnal Cyngor Gwynedd.

Rydym yn darparu gwasanaethau ymgynghorol amrywiol yn y meysydd isod:

- adeiladu ac isadeiledd
- dŵr ac amgylchedd
- technegol, a
- busnes a rheoli prosiectau

Perfformiad Cyllidol			
	2016/17	2017/18	2018/19
Trosiant	£5.5m	£5.3m	£5.3m
Elw/Colled	+ £96.5k	+ £81k	+ £59k

Fel rhan o'r gwasanaethau yma, gallwn wneud gwaith pensaernïol, syrfeo, dylunio, archwilio ac asesu, modelu hydroleg, geodechnegol a llawer mwy.

Mae'r gwaith yma'n chwarae rôl hanfodol yn ein gallu i wireddu ein gofynion statudol mewn perthynas â llifogydd ac erydiad arfordirol. Mae hyn oherwydd fod ein gallu i ddenu ffioedd am ein gwaith ymgynghorol yn ein galluogi i adeiladu arbenigedd technegol a gwyddonol o fewn y Cyngor a dal ein gafael ar yr arbenigedd hwnnw. Yn ei dro, mae'r arbenigedd yma'n darparu'r seiliau i ni allu denu grantiau'n llwyddiannus drwy ddatblygu cynlluniau gwaith rheoli risg llifogydd sy'n arloesol ac yn gynaliadwy. Mae'r gwasanaethau ymgynghorol felly yn allweddol i'n caniatáu ni i warchod pobl Gwynedd yn wyneb effeithiau newid hinsawdd.

**Yn 2020/21 byddwn yn canolbwyntio ar ychwanegu i'n rhestr o gleientiaid er mwyn cynyddu'r buddsoddiad rydym yn ei ddenu tra hefyd yn ymestyn yr amrediad o wasanaethau proffesiynol y gallwn eu cynnig.**

Mae'r gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd canlynol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau

Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir.



# Adran Cefnogaeth Gorfforaethol



# Adran Cefnogaeth Gorfforaethol



Mae'r Adran yn atgyfnerthu gallu'r Cyngor i ddarparu'r gorau i drigolion Gwynedd trwy gyfuniad o wasanaethau cefnogol, arbenigol a rheng-flaen. Mae hyn yn rhoi cyfle i weddill y Cyngor ganolbwyntio ar y gwasanaethau eraill a ddarperir yn uniongyrchol i'r cyhoedd.

## Cyswllt Cwsmer



Mae Galw Gwynedd, o'i ganolfan ym Mhenrhyndeudraeth, yn ymateb i alwadau ffôn, negeseuon e-byst a cheisiadau am wasanaeth ar-lein ar ran gwasanaethau'r Cyngor. Mae Siop Gwynedd yn Nolgellau, Pwllheli a Chaernarfon yn gweithredu fel siop-un-stop a derbynfa i'r un pwrpas, yn ogystal â gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer y Gwasanaethau Trethi a Budd-dal.

Ateb galwadau ffôn, ar gyfartaledd o fewn 36 eiliad



Derbynnir tua 200,000 galwad ffôn yn Galw Gwynedd bob blwyddyn, a daw o leiaf 20,000 o ymwelwyr i Siopau Gwynedd yn flynyddol.

I'r dyfodol byddwn yn:

- adolygu a chyflwyno trefniadau newydd i'r gwasanaeth switsfwrdd er mwyn gwella gwasanaeth i gwsmeriaid
- ail-strwythuro er mwyn sicrhau y gellir darparu yr ystod llawn o wasanaethau ymhob un o'n Canolfannau Cyswllt Cwsmer
- datblygu'r defnydd presennol o "web-chat" ac ymestyn y gefnogaeth i ddefnyddwyr ein gwasanaethau ar-lein


## Cofrestru



Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth cofrestru o bedwar lleoliad ar draws y sir gan gynnwys Ysbyty Gwynedd.

Cofrestrwyd dros 5,000 o briodasau, partneriaethau sifil, genedigaethau a marwolaethau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a derbyniwyd dros 3,000 o geisiadau am dystysgrifau. I'r dyfodol byddwn yn:

- ail-edrych ar drefniadau gwaith ar draws y gwasanaeth
- datblygu hunan wasanaeth ar gyfer apwyntiadau genedigaethau, marwolaethau a cheisiadau am dystysgrifau
- cryfhau ein trefniadau parhad gwasanaeth.





## Cyfathrebu ac Ymgysylltu



Mae'r Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn hwyluso deialog ddwyffordd gyda phobl Gwynedd, staff a chynghorwyr.

Mae'r cyfathrebu yma yn cynnwys cynnal perthynas ragweithiol gyda'r cyfryngau, cynnal gwefan a chyfrifon gwefannau cymdeithasol y Cyngor, cyhoeddi Newyddion Gwynedd, cydgorddio cyfleoedd i bobl Gwynedd leisio barn ar waith y Cyngor a chynnal trefniadau cyfathrebu mewnol y Cyngor.

I'r dyfodol byddwn yn:

- gwella'r drefn o adnabod a blaenoriaethu'r prif negeseuon a'r prif faterion er mwyn sicrhau bod pobl Gwynedd yn derbyn yr wybodaeth maent ei angen.
- ymgymryd â gwaith datblygu ac ymgysylltu i sefydlu os yw gwefan y Cyngor yn parhau i gwrdd ag anghenion ac i adnabod unrhyw gamau fydd angen eu cymryd i'r dyfodol.
- gweithredu cynlluniau cyfathrebu mewnol mewn ymateb i negeseuon sy'n deillio o'r Arolwg Staff.



## Cefnogi Busnes y Cyngor



Mae'r Gwasanaeth hwn yn cydlynu trefniadau ar gyfer cyhoeddi Cynllun y Cyngor, cynllun cydraddoldeb ac adroddiadau perfformiad y Cyngor yn ogystal â darparu cefnogaeth weithredol i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, cynghori ar drefniadau prosiect a rheoli prosiectau, adolygiadau gwasanaeth ac ymchwiliadau craffu. Byddwn yn helpu gwasanaethau'r Cyngor i roi ystyriaeth deg i gydraddoldeb a hawliau pob unigolyn, ystyried gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cynorthwyo swyddogion a chynghorwyr i herio cynlluniau ac arferion gwaith.

Elfen arall o waith y Gwasanaeth yw cefnogi gwaith y *Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus* lle mae cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn yn ogystal â'r *Bwrdd Iechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru* a'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn cydweithio er mwyn gwella lles trigolion mewn sawl maes

I'r dyfodol byddwn yn:

- gweithredu ar y rhaglen waith o fewn Cynllun Cydraddoldeb 2020-24 er mwyn sicrhau fod cydraddoldeb wedi'i wreiddio yn holl waith y Cyngor
- cychwyn ar y gwaith o adolygu a diweddarau yr asesiadau llesiant a gyhoeddwyd ar gyfer yr 14 ardal llesiant sydd yng Ngwynedd a Môn.



Er mwyn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn wneud rhaid i ni yn gyntaf adnabod unrhyw rwystrau sy'n wynebu rhai pobl wrth chwilio am, neu dderbyn, gwasanaethau gan y Cyngor. Er ein bod, dros y blynyddoedd, wedi casglu llawer o wybodaeth, nid ydym yn teimlo ein bod wedi clywed gan ystod digon eang o bobl.

Ein bwriad felly yw cynnal ymchwiliad trylwyr o farn pobl Gwynedd sydd â nodweddion gwarchoddedig (fel maent yn cael eu nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010) am y gwasanaethau mae'r Cyngor yn eu cynnig. Byddwn yn gwneud hynny nid yn unig drwy holiadur ar bapur ac ar lein ond hefyd drwy gyfarfod hefo ystod eang o bobl a defnyddio dulliau creadigol er mwyn cyrraedd pawb.

Bydd yr ymgysylltiad yma yn digwydd yn 2020/21 fel rhan o Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24. Byddwn yn creu Cynllun Gweithredu pellach yn seiliedig ar y dystiolaeth rydym yn ei dderbyn.

## Ymchwil a Gwybodaeth



Er mwyn i bob gwasanaeth yn y Cyngor fod yn gweithio'n llwyddiannus yn unol ag egwyddorion Ffordd Gwynedd maent angen deall beth ydi anghenion eu cwsmeriaid, yn gallu mesur os ydyn nhw'n cyflawni yr hyn sy'n bwysig i'w cwsmeriaid, ac yn gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth o'r effaith ar bobl Gwynedd. I wneud hyn i gyd mae gwybodaeth – ei gasglu, ei gadw, a'i ddadansoddi – yn hollbwysig. Rydym ni yma i gefnogi gwasanaethau'r Cyngor i wneud hyn.

Gan bod cymaint o wybodaeth yn cael ei ddal ar gyfer darparu gwasanaethau'r Cyngor, yn cynnwys gwybodaeth am bobl, mae angen gwneud yn siŵr fod y trefniadau ar gyfer creu, cadw, rhannu a defnyddio'r wybodaeth yma yn gweithio'n iawn ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth.

I'r dyfodol byddwn yn:

- cydweithio hefo'r Gwasanaeth Cefnogi Busnes i wella'r dystiolaeth sydd ar gael i wasanaethau'r Cyngor ynglŷn â natur ac anghenion ardaloedd lleol yng Ngwynedd
- datblygu'r wybodaeth a dadansoddiadau mae rheolwyr y Cyngor yn ei gael ynglŷn â'u gweithlu a gwneud yr wybodaeth yma yn haws i gael mynediad ato
- gwneud y mwyaf o botensial system rheoli dogfennau a chofnodion newydd y Cyngor (iGwynedd), gan helpu gwasanaethau i ddatblygu pethau sy'n hwyluso ffyrdd o weithio a dileu camau diangen
- sicrhau bod trefniadau ac arferion gwaith cadw a rhannu gwybodaeth yn sicrhau bod y defnydd o ddata yn ddiogel ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar bob adeg.






## Caffael



Mae'r Cyngor yn gwario dros £97m y flwyddyn ar gaffael, neu brynu, gwahanol nwyddau a gwasanaethau o gyllidebau referniw. Yn 2018/19, roedd pryntiant o nwyddau a gwasanaethau lleol gyfwerth â £60m i'r economi leol.

I'r dyfodol byddwn yn:

- cryfhau a datblygu'r arbenigedd caffael o fewn y Cyngor ac adolygu'r hyn yr ydym yn ei brynu ar hyn o bryd.
- mabwysiadu'r arfer orau yn y maes a chyflwyno cynlluniau pellach i gefnogi'r farchnad.
- datblygu'n systemau pwrcasu electroneg er mwyn ymateb i ofnion newydd.



## Cadw'r Budd yn Lleol

## Blaenoriaeth Gwella I



Mae'r Cyngor yn gyfrifol am brynu nifer o nwyddau a gwasanaethau ac yn awyddus i geisio sicrhau fod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosibl yn aros yn lleol. Yn 2018/2019, fe lwyddwyd i gynyddu'r canran o wariant lleol i 63% o'i gymharu â 62% y flwyddyn flaenorol. Cyflwynwyd trefniadau newydd i geisio prynu nwyddau a gwasanaethau mewn ffyrdd mwy arloesol ac effeithlon, a chymerwyd camau er mwyn hwyluso gallu busnesau i gystadlu am gytundebau.

Yn 2020/21 byddwn yn ymgysylltu gyda busnesau lleol er mwyn asesu beth fyddai'n gwneud cyfleon caffael yn fwy deiniadol iddynt a pha gefnogaeth pellach sydd eu hangen arnynt. Byddwn hefyd yn adolygu ein trefniadau caffael er mwyn sicrhau bod y cydbwysedd rhwng cadw'r budd yn lleol a chael gwerth am arian yn un priodol.

## Democratiaeth ac Iaith



Mae'r Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith yn gyfrifol am dri maes penodol, sef democratiaeth, cyfieithu ac iaith. Rydym yn gyfrifol am gynnal y drefn bwyllgorau a chynnig cefnogaeth amrywiol i'r 75 cynghorydd.




Iaith weithredol y Cyngor yw'r Gymraeg, ond mae holl wasanaethau'r Cyngor ar gael i'r cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Felly rydym yn hybu ac yn galluogi'r defnydd o'r Gymraeg trwy'n holl wasanaethau. Cefnogir hyn trwy ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar bapur ac ar lafar i staff, cynghorwyr a thrigolion y sir.



Mae'r Cyngor eisiau gweld sefyllfa lle mae Gwynedd yn parhau i fod yn gadarnle i'r iaith a'i bod yn iaith bob dydd sydd yn cael ei chlywed a'i siarad yn naturiol gan blant, pobl ifanc ac oedolion ar draws y sir.

I'r dyfodol byddwn yn:

- datblygu trefniadau craffu rhanbarthol ar y cyd ag awdurdodau eraill lle bo hynny'n berthnasol
- adeiladu ar y trefniadau mynychu o bell a gwe ddarlledu pwyllgorau presennol er mwyn lleihau'r ôl-troed carbon a hwyluso gwaith cynghorwyr
- adolygu sut yr ydym yn hybu'r Gymraeg yn y gymuned.
- hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn technoleg



## Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus

### Blaenoriaeth Gwella 5



Ar hyn o bryd mae anghysondeb yn narpariaeth gwasanaethau dwyieithog gan gyrrff cyhoeddus yng Ngwynedd sy'n golygu nad yw hi bob amser yn bosibl i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth gyfathrebu efo gyrrff cyhoeddus.

Yn dilyn cymeradwyo rhaglen waith yn y maes hwn, ac fel rhan o Is-grŵp Cymraeg y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, byddwn yn cydweithio gyda'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, y Bwrdd Iechyd a Chyngor Môn i sefydlu trefniadau gweithio mewn sefyllfa ddwyieithog ar gyfer Timau Adnoddau Cymunedol gan:

- sefydlu gwaelodlin sgiliau iaith y gweithlu ym mhob ardal
- llunio rhaglen waith ddatblygol i fynd i'r afael â materion amlygwyd wrth adnabod y gwaelodlin.

## Busnesau Gwynedd yn Defnyddio'r Gymraeg

**Blaenoriaeth Gwella 5**



Mae gan y Cyngor gyswllt uniongyrchol efo busnesau Gwynedd er mwyn hybu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y sector breifat. Mae swyddogion Hunaniaith yn ogystal â swyddogion o fewn yr Adran Economi a Chymuned yn annog busnesau i gynyddu'r defnydd o'r iaith trwy eu gwaith yn y cymunedau.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allanol megis Cymraeg Byd Busnes a Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ymysg Busnesau Gwynedd. I wneud hyn byddwn yn:

- datblygu trefniadau cadarn i gyfeirio busnesau at Cymraeg Byd Busnes os ydynt eisiau cymorth ychwanegol i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg
- cynnal ymgyrchoedd i hyrwyddo'r Gymraeg a digwyddiadau Cymreig gyda Busnesau
- treialu ffyrdd newydd o hyrwyddo'r Gymraeg ymysg busnesau drwy brosiect traws-sirol ARFOR

## Cynlluniau Argyfwng

Mae gan y Cyngor rôl i baratoi cynlluniau ar gyfer ymdrin ag argyfwng ac i gydweithio efo'r gwasanaethau brys, asiantaethau a gwirfoddolwyr er mwyn gofalu am les y cyhoedd.

Mae darparu cyfleusterau bwyd a gorffwys, llety dros-dro a diogelwch ffyrdd yn enghreifftiau amlwg o'r cyfrifoldebau penodol sydd gan y Cyngor wrth ymateb i argyfwng.

Mae'r Grŵp Gweithredol Cynlluniau Argyfwng, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o bob Adran, yn cyd-gordio trefniadau i baratoi ar gyfer argyfyngau tra bo Grŵp Strategol, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Corfforaethol, yn cadw trosolwg ac yn herio'r trefniadau hynny yn ôl yr angen.

Cefnogir hyn oll gan y Gwasanaeth Cynlluniau Argyfwng Rhanbarthol sydd wedi'i gytundebu i ddarparu'r arweiniad arbenigol yn y maes hwn.

I'r dyfodol byddwn yn:

- adolygu a chryfhau ein trefniadau parhad gwasanaeth gan gynnal ymarferion lleol i sicrhau ein bod yn gallu ymateb yn effeithiol

## Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol



Mae'r tîm o ymgynghorwyr a swyddogion adnoddau dynol yn gyfrifol am gynghori rheolwyr a phenaethiaid ysgolion ar ystod eang o faterion cyflogi staff. Mae hynny'n cynnwys dehongli yr amodau gwaith, materion cyflog cyfartal, ailstrwythuro neu dorri ar wasanaethau, ymdrin â disgyblaethau a chwynion, rheoli absenoldebau a chynllunio'r gweithlu. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn arwain ar raglen sy'n canolbwyntio ar adolygu a datblygu amodau gwaith y Cyngor ac yn chwarae rôl ganolog mewn cynnal perthynas waith adeiladol efo'r undebau llafur.

I'r dyfodol byddwn yn:

- datblygu a gweithredu model busnes y Gwasanaeth, fel bo'r pwyslais cynyddol ar roi cyngor a chefnogi rheolwyr i gymryd perchnogaeth o faterion cyflogaeth dydd i ddydd.
- gweithredu rhaglen o adolygu a datblygu'r amodau gwaith lleol fel eu bod nhw'n adlewyrchu a chefnogi'r ffordd y mae'r Cyngor am i'w staff weithio.
- cynghori adrannau wrth iddynt gynllunio'r gweithlu a'u cynorthwyo a'u cefnogi i fynd i'r afael â gofynion parhad gwasanaeth i'r dyfodol.

### Merched mewn Arweinyddiaeth

### Blaenoriaeth Gwella 3



Er yn gadarn ei fod yn talu cyflog ar sail cyfartal, mae'r Cyngor yn cydnabod bod y nifer o ferched sydd yn cyflawni swyddogaeth rheolaethol o fewn y Cyngor yn anghymesur â rhaniad o fewn y gweithlu cyfan h.y. 70% merched 30% dynion.

Prif amcan y prosiect hwn felly yw hybu'r nifer o ferched sy'n ymgeisio ac yn cyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor trwy adolygu'r amodau a'r amgylchedd gwaith er mwyn denu mwy o ferched i ymgymryd â'r gwaith i'r dyfodol. Byddwn yn gweithredu'r rhaglen waith sydd wedi'i sefydlu gan y Grŵp Prosiect yn dilyn ymgynghoriad a gynhaliwyd o fewn y Cyngor yn ystod 2019/20. Mae'r rhaglen honno yn cynnwys cyflwyno rhaglen datblygu potensial ar gyfer merched, cynnal awdit o'n dulliau recriwtio a penodi ar gyfer swyddi rheolaethol, a chreu fforwm ar gyfer arweinwyr a darpar arweinwyr benywaidd o fewn y Cyngor.

## Gwasanaeth Cefnogol



Mae'r Gwasanaeth Cefnogol yn darparu cymorth gweinyddol megis trefnu penodiadau, archebu nwyddau, argraffu, talu biliau a dosbarthu post i staff y Cyngor.

Yn 2018/19, mae'r Gwasanaeth wedi canolbwyntio ar symleiddio trefniadau gweinyddol, lleihau gwaith papur diangen a galluogi staff a rheolwyr i gael mynediad at wasanaeth a gwybodaeth yn uniongyrchol ac yn amserol.

I'r dyfodol byddwn yn:

- mewnosod trefniadau recriwtio a phenodi er mwyn lleihau gweinyddiaeth fewnol a hefyd hwyluso'r dasg i unigolion wrth ymgeisio am swydd efo'r Cyngor
- newid y drefn o gyfathrebu a gweinyddu trwy bapur i fod yn gweithio'n electroneg.

## Gwasanaeth Ymgynghorol Iechyd, Diogelwch a Llesiant



Mae'r Gwasanaeth yn cyflawni rôl statudol o roi cyngor cymwys i'r cyflogwr ar faterion iechyd, diogelwch a llesiant. Mae hyn yn cynnwys cyngori ar safonau cyfreithiol ym maes diogelwch, ymchwilio i ddamweiniau a digwyddiadau eraill, monitro, archwilio a chynnal rhaglen hyfforddi.

Yn ychwanegol, rydym yn cefnogi staff trwy gyfnodau o absenoldebau, yn rhoi cyngor i reolwyr ar iechyd eu staff ac asesu addasrwydd i weithio yn dilyn anaf neu salwch, yn sgrinio iechyd gweithwyr, yn cynnal gwyladwriaeth iechyd ar staff yn ogystal â chynllunio a gweithredu rhaglen hybu iechyd a llesiant.

I'r dyfodol byddwn yn:

- prif ffrydio iechyd a llesiant meddyliol o fewn y gweithlu, gan godi ymwybyddiaeth ac arfogi staff ar draws y Cyngor ac hyrwyddo diwylliant o rannu profiadau a chefnogi unigolion
- datblygu a gweithredu model busnes newydd ar gyfer y Gwasanaeth er mwyn annog perchnogaeth yn y gwasanaethau o faterion iechyd a diogelwch dydd i ddydd o fewn y Cyngor gan flaenoriaethu adnodd ar gyfer y risgiau uchaf.



## Dysgu a Datblygu'r Sefydliad



Mae'r Gwasanaeth yn cynnig cefnogaeth dysgu a datblygu perthnasol, ymgynghori ac ymateb i anghenion unigolion a thimau, helpu i ddatblygu awyrgylch waith a buddiannau fel bod pawb yn rhoi o'u gorau, helpu gwasanaethau i adnabod cyfleoedd i wella ac yn datblygu talent i lenwi bylchau'r dyfodol.

Darperir rhaglenni *Dysgu a Datblygu* i staff (ar bob lefel) ac Aelodau Etholedig, sy'n cynnwys datblygu'r arweinyddiaeth. Rydym yn gweithio hefo timau a swyddogion i sicrhau perthnasedd y gwasanaeth, i 'lenwi bylchau' yn y ddarpariaeth a theilwra teitlau i gyfarfod eu hanghenion.

Rydym yn hybu a chefnogi unigolion i gymryd perchnogaeth dros eu dysgu eu hunain, a chynigir amrediad o ddulliau dysgu sy'n cynnwys y 'traddodiadol' yn ogystal â dulliau arloesol megis *cymhelliant a mentora*, dysgu trwy brofiad a defnyddio technoleg.

Amcan y gwaith datblygu'r sefydliad yw meithrin ymddygiadau a diwylliant sy'n creu a chynnal awyrgylch waith lle mae staff ar eu gorau i wasanaethu pobl Gwynedd. Mae rhoi llais i staff, gyda chyfle i gyfrannu barn a syniadau yn rhan allweddol o hyn tra bo ffocws hefyd ar ddatblygu gweithlu'r dyfodol trwy gynlluniau *Adnabod a Datblygu Talent*. Cynigir amrediad cynyddol o fuddiannau sydd yn cyfrannu at lesiant a bodlonrwydd staff.

Elfen bwysig arall yw *Gwella Gwasanaeth* drwy ymateb yn gadarnhaol i *Gwynion*, gan hwyluso trefniadau i Wasanaethau gymryd perchnogaeth drostynt, a dysgu ohonynt.

I'r dyfodol byddwn yn:

- cyfrannu at gynllun i sicrhau bod holl staff y Cyngor yn meddu ar sgiliau technoleg gwybodaeth briodol er mwyn defnyddio systemau hunan-wasanaeth a manteisio ar y ddarpariaeth e-ddysgu.
- datblygu ac ymestyn y defnydd o'r Modiwl Datblygu Staff gan annog unigolion i gymryd perchnogaeth dros eu dysgu eu hunain.
- ymestyn y diwylliant Gwerthuso Parhaus ar draws y Cyngor

### Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor

#### Blaenoriaeth Gwella 5



Mae Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau fod gwasanaethau ar gael yn y Gymraeg a sicrhau bod gwaith mewnol y Cyngor yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Serch hynny, rydym yn cydnabod ein bod mewn cyfnod heriol a bod angen gweithio yn barhaus i wthio'r ffiniau er mwyn gwneud yn siŵr bod gwasanaethau yn manteisio ar bob cyfle i hybu defnydd o'r Gymraeg ac yn galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun. Llwyddwyd hyd yma i adolygu anghenion iaith pob swydd ac i asesu gallu ieithyddol 40% o'n swyddogion yn erbyn y gofynion hynny. Cefnogwyd hyn oll gan raglen ddysgu a gloywi iaith.

Yn ystod 2020/21 fe fyddwn yn canolbwyntio ar weithio gyda gweddill gwasanaethau'r Cyngor, yn enwedig rhai rheng flaen, i gwblhau'r asesiad ac i ddatblygu sgiliau staff newydd a chyfredol gan achub ar gyfleon newydd i sicrhau ein bod yn cynnig pob agwedd ar ein gwasanaethau yn gwbl ddwyieithog.

## Arfogi Unedau i roi Ffordd Gwynedd ar Waith

### Blaenoriaeth Gwella 7



Ni fydd sicrhau diwylliant cyson yn digwydd ar ei ben ei hun, a phwrpas y prosiect hwn fydd arwain timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac ystyried a oes lle i wella.

Drwy wneud hyn byddwn yn sicrhau fod pob uned gwasanaeth o fewn y Cyngor yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth y maent yn ei wneud. Bydd hefyd yn sicrhau ein bod yn ystyried dulliau amgen o weithredu (gan gynnwys cydweithio ag eraill) gan fesur y syniadau hynny yn ôl un llinyn mesur yn unig - sef i ba raddau y mae'n cynyddu'r budd i bobl Gwynedd.

Rydym eisoes wedi llunio rhaglen ddatblygu yn seiliedig ar ddysgu yn y gweithle ac wedi cynnal hyfforddiant ar egwyddorion Ffordd Gwynedd i benaethiaid, uwch reolwyr a'r rhan helaethaf o reolwyr. Yn ogystal, mae nifer o adolygiadau gwasanaeth wedi eu cynnal neu ar waith o fewn y Cyngor.

Mae'r Strategaeth Ffordd Gwynedd wreiddiol a gyhoeddwyd yn Hydref 2015 wedi dod i ddiwedd ei hoes. Cymeradwywyd Cynllun Ffordd Gwynedd ar ei newydd wedd yn ystod 2019/20. Mae'r Cynllun yn manylu ar y camau nesaf i'w cymryd er mwyn gwreiddio'r diwylliant a'r ffordd o weithio o fewn y Cyngor. Prif ffocws y gwaith hwn yn y flwyddyn i ddod fydd gwireddu'r amcanion yn y rhaglen waith, sy'n cynnwys cynllunio'r gweithlu, cyswllt â'r cwsmer, amodau gwaith a herio perfformiad fel rhai o'i prif flaenoriaethau.

## Cynllun Prentisiaethau

### Blaenoriaeth Gwella 1



Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu'r weledigaeth genedlaethol ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion o ddatblygu sgiliau hanfodol yng Nghymru a'r economi ehangach, adnabod y meysydd blaenoriaeth a sut y bydd prentisiaethau yn rhan annatod o wireddu hynny.

Mae'r Cyngor eisoes wedi adnabod meysydd priodol ar gyfer sefydlu prentisiaethau ac wedi clustnodi cyllid er mwyn gwireddu'r cynlluniau hynny am y ddwy flynedd nesaf.

Byddwn yn symud ymlaen i benodi ychwaneg o brentisiaid mewn meysydd blaenoriaeth yn ystod 2020/21 gan ystyried ymarferoldeb parhad y Cynllun tu hwnt i'r ymrwymiad presennol.



Mae'r gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd canlynol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Ennill cyflog digonol i ni fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg





# Adran Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)



## Adran Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)




Bwriad yr Adran Cyllid yw cyfrannu at gyflawni'r nod o geisio'r gorau i bobl Gwynedd mewn cyfnod anodd drwy:

- Sicrhau'r gefnogaeth briodol i weithrediad busnes y Cyngor a'i wasanaethau wrth reoli, gwarchod a datblygu ei sefyllfa ariannol, er mwyn sefydlu cymuned gynaliadwy mewn modd agored, ymatebol a blaengar.
- Sicrhau arweiniad cefnogol proffesiynol a thechnoleg o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo gwerthoedd sylfaenol y Cyngor ac annog mentergarwch.
- Darparu gwasanaethau rheng-flaen (fel casglu refeniw a thalu budd-daliadau) o ansawdd addas i'r cwsmer, gan ddarparu tegwch i bobl a chymunedau, a rhoi ffocws ar drigolion.

### Gwasanaeth Budd-daliadau

Rydym yn gweinyddu cymorth budd-daliadau i tua 7,500 o denantiaid i dalu eu rhent, ac i tua 10,000 o unigolion, cyplau neu deuluoedd i dalu eu bil Treth Cyngor, gan anelu i wneud hynny'n brydlon a chywir.


Fe welir o'r graff bod y nifer o ddiwrnodau y mae'n ein gymryd i ni dalu wedi dechrau cynyddu hyd at 2019, ond mae ymdrechion i leihau'r nifer dyddiau yn dechrau dwyn ffrwyth, a byddwn yn ceisio lleihau'r amser eto i'r dyfodol.



*Yn 2020/21, byddwn yn parhau i hyfforddi staff a chynllunio busnes ar sail nifer disgwylidig y trosglwyddiadau i Credyd Cynhwysol. Ar y cyd ag awdurdodau eraill, byddwn yn lobio'r Llywodraeth fod lefel y galw am wasanaeth gan y Cyngor am barhau'n uwch na'u rhagdybiaethau. Er colli'r arian i gynnig cefnogaeth gyllidebu personol a cefnogaeth ddigidol, disgwylir i ymholiadau gan y cyhoedd barhau. Ar y cyfan, mae trefniadau yn gweithredu'n llyfn ac felly mae'r tebygolrwydd o ddirywiad sylweddol yn y gwasanaeth a roddir yn gymharol isel bellach.*

## Gwasanaeth Trethi

Heb Dreth Cyngor a Threthi Busnes, ni fyddai'n bosib i'r Cyngor ddarparu ei wasanaethau. Mae'r gwasanaeth yma yn gweinyddu a chasglu Treth Cyngor dros 61,500 eiddo, a Threth Busnes (Treth Annomestig) tua 7,500 eiddo busnes yn y ffordd fwyaf prydlon ac effeithlon bosib, gan gynnwys gweinyddu'r amrywiaeth o ddisgowntau, eithriadau a chynlluniau rhyddhad sydd ar gael.




Rydym yn deall yn iawn nad yw hi'n hawdd i bawb dalu'r trethi yma, ac fe fyddwn yn ceisio bod yn hyblyg (e.e. annog trefniadau a chytundebau talu) a chydymdeimladol i amgylchiadau unigolion. Rydym yn ceisio cymell unigolion i ofyn am gyngor ar gyllido personol a chyngor dyledion ehangach.

**Mae trosglwyddiad unedau gwyliau o'r drefn Treth Cyngor i drethi annomestig yn parhau'n risg ariannol. Yn 2020/21 byddwn yn parhau i ymateb yn rhagweithiol i ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru, gan gynnwys pwyso i newid deddfwriaeth.**


## Gwasanaeth Incwm

Mae'r Cyngor yn derbyn incwm (e.e. grantiau, taliadau am wasanaeth) o bob math, ac mae'r Gwasanaeth Incwm yn prosesu'r incwm yma, gan gasglu dyledion y Cyngor yn brydlon ac effeithlon er mwyn gwneud yn fawr o'r incwm. Rydym fel gwasanaeth yn ystyried anghenion adrannau'r Cyngor a gweithredu'n sensitif i amgylchiadau ariannol dyledwyr wrth fynd at ei waith.

**Rydym wedi adnabod yr angen i wella prosesau adennill rhai o ddyledion yr Adran Oedolion, lechyd a Llesiant, a byddwn yn cydweithio â'r Adran honno er mwyn gwneud yn fawr o'r arian dyledus sy'n cael ei gasglu ac sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau.**



### % anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod



## Gwasanaeth Taliadau

Rydym yn gyfrifol am dalu credydwy'r Cyngor a GwE yn gywir ac ar amser. Byddwn yn talu dros 105,00 o anfonebau yn flynyddol, gyda 93% o'r anfonebau yn cael eu talu o fewn 30 diwrnod ar gyfartaledd, gan anelu i flaenoriaethu talu cyflenwyr lleol yn brydlon.

**Byddwn yn symud i drefniadau o e-anfonebu a hynny er mwyn gwella effeithlonrwydd y gwasanaeth. Bydd y trefniadau yma'n lleihau'r oedi wrth dalu ac yn ein galluogi i gael rheolaeth dros yr holl anfonebau fydd yn cyrraedd y Cyngor.**


## Gwasanaeth Cyflogau

Mae dros 7,200 o unigolion gwahanol yn gweithio i'r Cyngor er mwyn ei alluogi i wasanaethu ar ran pobl Gwynedd, a phwrpas y Gwasanaeth Cyflogau ydi sicrhau eu bod yn cael eu talu yn gywir ac ar amser. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cadw cyfrifon priodol ar gyfer talu cyrff allanol fel Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (HMRC).

## Gwasanaeth Pensiynau

Mae'r Gwasanaeth Pensiynau yn gyfrifol am weinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) ar ran dros 40 o gyflogwyr gan gynnwys Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r gronfa yn cynnwys dros 18,000 o aelodau actif, 12,000 o aelodau gohiriedig a 10,000 o bensiynwyr. Mae dyletswyddau'r gwasanaeth o ddydd i ddydd yn cynnwys sefydlu record i aelodau newydd; gwneud newidiadau i gofnodion aelodau; cyfrifo buddion gohiriedig; trosglwyddo hawliau pensiwn i mewn ac allan o'r CPLIL, a thalu buddion ar ôl ymddoliad a marwolaeth aelodau'r cynllun.

Cyfartaledd nifer dyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion ymdeol



**Yn ystod 2020/21 byddwn yn gwella ein darpariaeth hunan wasanaeth i aelodau ac yn gweithio gyda'n cyflogwyr i sicrhau ein bod yn derbyn manylion cyflog/cyfraniadau'r aelodau yn fisol.**

## Gwasanaeth Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys

Yn y gwasanaeth yma rydym yn buddsoddi arian y Cyngor er mwyn ennill llog i gyfrannu at ariannu gwasanaethau. Rydym hefyd yn rheoli buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn er mwyn sicrhau'r gallu i dalu pensiynau rŵan ac i'r dyfodol. Yn ychwanegol at hyn, rydym yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar fenthyciadau tymor hir.

Amcan yr uned yw cadw'r arian yn ddiogel, ennill llog a sicrhau fod arian ar gael i dalu am wariant dyddiol.

Yn ystod 2018/19 arhosodd gweithgarwch benthyca'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. £307,000 oedd cyfanswm y llog a difidendau a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau sydd yn uwch na'r £130,000 oedd yn y gyllideb. Nid oedd unrhyw fanciau yr oedd y Cyngor wedi'u defnyddio ar gyfer buddsoddi wedi methu talu.

**Mae cronfeydd pensiwn llywodraeth leol yng Nghymru yn gweithio drwy bŵlio buddsoddiadau er mwyn cael y budd gorau o gyd-fuddsoddi.**

## Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg (yn cynnwys unedau datganoledig)

Rydym yn darparu gwasanaeth cyllid a chyfrifeg, ac yn cynorthwyo a chefnogi gwasanaethau i fod yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae'r gwasanaeth:

- Yn monitro ac adrodd yn rheolaidd ar berfformiad ariannol y Cyngor
- Yn darparu cefnogaeth ariannol gyda chyllideb gros o dros £418 miliwn
- Yn gyfrifol am gynhyrchu cyfrifon terfynol ar gyfer cyfrifon Cyngor Gwynedd, dau Gyd-Bwyllgor, yr Harbwr a Bwrdd Uchelgais Economiadd Gogledd Cymru
- Yn cynorthwyo'r adrannau i wireddu dros £52.2 miliwn o arbedion a thoriadau ers 2010/11, sydd yn 93.6% o'r targed arbedion, gydag ychydig o lithriad ar y gweddill. Mae'r gwaith o gefnogi'r drefn arbedion yn parhau.



**Llwyddiant i gadw o fewn y gyllideb**

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyhoeddi adroddiad archwiliad diamod ar ddatganiadau ariannol 2018/19, sef bod y cyfrifon wedi eu paratoi'n briodol ac yn rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa ariannol.

**Byddwn yn darparu mwy o gyngor ariannol i holl ddeiliaid cyllidebau'r Cyngor, yn ogystal â chyngor "busnes" i adrannau.**


**Nid yw'r arian mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn ddigonol i dalu am y gwasanaethau allweddol mae'r Cyngor yn ddarparu. Felly, er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys byddwn hefyd yn parhau i wireddu'r arbedion sydd eisoes wedi eu cymeradwyo, a hefyd yn sicrhau ein bod yn cynllunio i ddarganfod a dethol yr arbedion fydd eu hangen er mwyn ymateb i'r her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn y dyfodol.**

## Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Rydym yn adolygu trefniadau llywodraethu a gweinyddol y Cyngor er mwyn rhoi hyder i'r awdurdod ac i'r dinesydd fod y trefniadau yma yn gadarn. Byddwn yn adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

Ar gyfer 2018/19, cyflwynwyd trefn newydd o osod adroddiadau Archwilio Mewnol mewn un o bedwar categori o sicrwydd cyffredinol. Mae adborth cychwynnol wedi bod yn bositif iawn.

Cwblhawyd y drefn o ddatblygu "camau gweithredu cytunedig", sef cytundeb rhyngom â rheolwyr ar draws y Cyngor ar sut i wella rheolaeth a lleihau risgiau.



## Gwasanaeth Risg ac Yswiriant

Mae angen i holl adrannau'r Cyngor asesu'r bygythiadau a chyfleoedd all eu hwynebu wrth ddarparu eu gwasanaethau, a blaenoriaethu eu gweithgareddau ar sail yr asesiad. Rôl y Gwasanaeth Risg ac Yswiriant ydy cynghori a chefnogi'r adrannau wrth wneud hyn. Rydym hefyd yn amddiffyn buddiannau trethdalwyr drwy sicrhau trefniadau yswiriant priodol ac ymdrin â thua 250 o hawliadau'r flwyddyn.


**Mae gwaith dal angen ei wneud i sicrhau fod holl adrannau'r Cyngor yn cynnal y drefn o gofnodi eu prif risgiau a'u hadolygu'n rheolaidd. Bydd y Gwasanaeth Risg ac Yswiriant yn cefnogi'r holl adrannau er mwyn sicrhau fod defnydd y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn gyson ar draws y Cyngor, ac fod risgiau yn cael eu diweddar'u'n barhaus. Law yn llaw â hynny, bydd y drefn o ystyried cynnwys cofrestrau risg wrth fonitro perfformiad adrannau yn datblygu ymhellach.**

## Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth

**Rydym yn gweithredu Strategaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor er mwyn helpu pobl Gwynedd i gael mynediad rhwydd at wybodaeth a gwasanaethau'r Cyngor, ac i staff weithio'n effeithlon.**

Wyneb y gwasanaeth yw'r Gwasanaeth Cefnogol a'r Ddesg Gymorth sy'n cefnogi 2,350 o ddefnyddwyr ac yn diwallu tua 20,000 cais am wasanaeth gan gynnwys darparu 450 cyfrifiadur newydd bob blwyddyn a 1,780 o ffonau symudol a chyfrifiaduron llechen.

Mae'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth yn sicrhau bod ein gwasanaethau technoleg yn cael eu cyflwyno ar seiliau cadarn sy'n cael ei gefnogi gan yr *Uned Isadeiledd, Teleffon a Rhwydwaith*, gan ymledu i 250 adeilad, 1,400 o bwyntiau mynediad di-wifr a 2,700 o gysylltiadau ffôn, ac yn cefnogi'r holl systemau yn ein canolfan data ar 440 gweinyddwr a dros 1,000TB o storfa. Cafwyd problemau difirifol gyda'r ganolfan ddata yng



Ngorffennaf, 2018 a rhoddwyd rhaglen waith sylweddol at ei gilydd i wella'n gwytnwch gan fuddsoddi mewn system awyru newydd i waredu problem lleithder yn y brif ganolfan ddata yn y Pencadlys a chyflwyno gweinyddwyr a storfa newydd yn y brif ganolfan ddata a'r ganolfan ddata ym Mhenrhyndeudraeth. Cysylltir y ddwy ganolfan ddata gyda chyswilt ffibr cyflym a byddwn yn gweld gwelliannau pellach yn cael eu cyflwyno'n fuan yn 2020 i gryfhau gwytnwch ein systemau.

Mae Strategaeth Ddigidol Ysgolion Gwynedd wedi ei baratoi, gyda'r gwaith technegol i'w gyflwyno bellach ar waith a byddwn yn cyflwyno Strategaeth Ddigidol Corfforaethol newydd yn ystod 2020/21 gan drawsnewid ein gwasanaethau ymhellach.

Mae'r *Uned Datblygu a Gwasanaeth Gwybodaeth Ddaearyddol* yn darparu oddeutu 160 system sydd wedi eu datblygu o amgylch anghenion pwrpasol y defnyddiwr, gan gynnwys systemau sy'n cael eu defnyddio gan yr adrannau i wasanaethu'r cyhoedd, rhyngwynebau uniongyrchol i'r cyhoedd a hunan-wasanaeth i staff.

Mae'r *Uned Rheoli Rhaglen ac Arloesi* yn darparu cefnogaeth i'r adrannau ar gyfer diwallu eu hanghenion TG, gan gynnwys archebu cyfarpar a deunyddiau TG, gweithredu a monitro cytundebau a dadansoddi anghenion.

***Yn ystod 2020/21 byddwn yn cynnal ymarferion pellach i gryfhau gwytnwch ein darpariaeth a'r gofyn cynyddol i gefnogi gwasanaethau 24/7 awr, cyflwyno gwelliannau sylweddol o fewn ein ysgolion a rhoi'r Strategaeth Ddigidol newydd ar waith.***





# Gwasanaethau Cyfreithiol





# Gwasanaethau Cyfreithiol



Mae'r adran yn cefnogi gallu'r Cyngor i ddarparu'r gorau i drigolion Gwynedd drwy gyfuniad o wasanaethau cefnogol a rheng-flaen.

## CYFREITHIOL

Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn darparu cefnogaeth gyfreithiol ar draws holl ystod gwaith y Cyngor, o amddiffyn plant ac erlyn i baratoi gorchmynion traffig a thrafodion tir ac eiddo.

Yn ogystal â bod ar gael i ymdrin ag ymholiadau dyddiol, mae'r tîm yn ymdrin â tua 900 o achosion a thrafodion yn flynyddol ar gyfartaledd. Rydym hefyd yn cefnogi prif brosiectau y Cyngor megis sefydlu Cwmni Byw'n Iach, Adolygiad Gofal Cartref a'r Strategaeth Dai.

**Dangosyddion 2018/19**  
Canran holiaduron bodlonrwydd  
cwsmer sy'n sgorio 10/10



## PRIODOLDEB

Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn cefnogi'r Pwyllgor Safonau a'r Swyddog Monitro i weithredu eu cyfrifoldebau am briodoldeb gweithrediad y Cyngor, y Cyfansoddiad a chwynion ynghyd â'r fframwaith foesebol ar gyfer aelodau'r Cyngor a Chynghorau Tref a Chymuned.

Rydym yn parhau i gefnogi cyfundrefn priodoldeb Cyngor Gwynedd ynghyd â'r gyfundrefn foesebol i Gynghorau Tref a Chymuned y Sir. Darperir gwasanaeth Swyddog Monitro a chefnogaeth gyfreithiol hefyd i brosiectau cyd-weithio megis GwE, Cyd Bwyllgor Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

## ETHOLIADAU

Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn darparu cefnogaeth i'r Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.

Rydym fel tîm yn gweinyddu'r gofrestr etholwyr ynghyd â chynnal etholiadau ac is-etholiadau lleol a chenedlaethol, refferenda neu boliau o fewn y sir.

## Prosiectau

Wrth gefnogi dyletwydd statudol y Swyddog Cofrestru Etholiadol i hyrwyddo cofrestru rydym yn parhau â phrosiect i hyrwyddo a chynyddu effeithlonrwydd prosesau Cofrestru Etholiadol.

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2020/21 fydd:

- Ymateb i'r newidiadau sydd yn dod yn weithredol yn y drefn Canfas Blynyddol ar gyfer 2020

- Ehangu a diwigio yr hawliau pleidleisio, yn benodol ar gyfer etholwyr rhwng 16 ac 18, a ddaw yn sgil Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2019 a Bill Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2019.

## CRWNER

### **Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn darparu cefnogaeth i Wasanaeth y Crwner ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru.**

Rydym yn cefnogi a gweinyddu trefniadau'r Crwner ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru. Mae'r Tîm wedi ei sefydlu o fewn y Cyngor ac yn derbyn cefnogaeth uniongyrchol o fewn yr Adran bellach.

## GWYBODAETH ARIANNOL

Bydd yr wybodaeth ariannol yn cael ei gynnwys yn y Cynllun fydd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor ar 5 Mawrth 2020.

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

## 1 Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r Cynllun dan sylw?

Cynllun y Cyngor 2018 – 23 – *Adolygiad 2020/21*

### 1.2 Beth ydi pwrpas y Cynllun sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Pwrpas Cynllun y Cyngor ydi adnabod blaenoriaethau a meysydd allweddol i'w gweithredu rhwng 2018 a 2023. Cafodd fersiwn wreiddiol y Cynllun ei fabwysiadu gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 8 Mawrth 2018.

Caiff y Cynllun ei adolygu'n flynyddol a'i ail-gyhoeddi gydag unrhyw addasiadau angenrheidiol. Dyma'r newidiadau sydd wedi eu gwneud yn *Adolygiad 2020/21* -

Bydd y fersiwn hon o'r Cynllun, *Adolygiad 2020/21*, yn disodli'r fersiwn gyfredol a cheir rhestr isod o'r prif addasiadau a wnaed i'r Cynllun yn dilyn yr adolygiad:

Mewn ymateb i benderfyniad y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2019 y dylid gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod y sir yn parhau i fod yn gartref bywiog, hyfw a chynaliadwy i'n plant ac i blant ein plant am genedlaethau i ddod mae blaenoriaeth wella newydd wedi ei ychwanegu:

- **Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd**

Cwblhawyd y prosiectau canlynol neu maent wedi trosglwyddo i fod yn rhan o waith dydd i ddydd yn ystod 2019/20 :

- **Cryfhau'r Arweinyddiaeth**
- **Dalgylch y Berwyn, Y Bala**
- **Strategaeth Cefnogi Teuluoedd**
- **Cynyddu Budd Digwyddiadau Mawrion**
- **Datblygu'r Arweinyddiaeth**

Mae'r prosiectau canlynol wedi eu hychwanegu o'r newydd:

- **Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd**
- **Cydweithio Meirionnydd**
- **Sicrhau Tegwch i Bawb**

Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb cychwynnol i ddau o'r prosiectau newydd hyn wedi eu atodi ond penderfynwyd ei bod yn gynamserol i gychwyn ar asesiad i'r Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd.

Yn ogystal, mae'r prosiectau canlynol wedi newid:

- **Strategaeth Iaith Uwchradd** wedi newid ei deitl i **Hybu Defnydd o'r Gymraeg ymysg Plant a Phobl Ifanc**

Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yma yn edrych ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae disgwyl i bob cynllun unigol gael Asesiad ar wahân ar y prosiect yn ei gyfanrwydd a/neu ar rannau penodol ohono. Dyletswydd y person sy'n gyfrifol am y cynllun unigol yw gwneud yr Asesiad(au) yna.

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Dewi Jones, Rheolwr Uned Cefnogi Busnes y Cyngor

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

27 Mehefin 2017, fersiwn 1 yn ymwneud â'r ymgysylltiad  
13 Rhagfyr 2017, fersiwn 2, asesiad llawn o'r Cynllun  
4 Chwefror 2019 – fersiwn 3, asesiad llawr o adolygiad 2019-20

Hwn yw fersiwn 4 – 31 Ionawr 2020, asesiad llawn o adolygiad 2020-21

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Aelodau, defnyddwyr gwasanaeth, trigolion Gwynedd, partneriaid ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn

## 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion cydraddoldeb?

Ymgynghoriad 6 wythnos yn ystod gaeaf 2017/18 i gyflwyno ac egluro'r blaenoriaethau drafft i'r cyhoedd, partneriaid a sefydliadau lleol a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfle iddynt gymryd rhan yn yr ymarferiad drwy gwblhau holiadur byr ar-lein ar [www.gwynedd.llyw.cymru/ymgynghori](http://www.gwynedd.llyw.cymru/ymgynghori). Roedd copïau papur hefyd ar gael yn llyfrgelloedd a Siopau Gwynedd leol.

Anogwyd cymaint â phosib o bobl Gwynedd i gwblhau a dychwelyd yr holiadur gan ddefnyddio gwefan y Cyngor, y wasg leol, rhaeadru'r neges trwy ein partneriaid, gwefannau cymdeithasol ac e-newyddlen aelodau etholedig Rhaeadr.

Cysylltwyd â cymaint a phosib o grwpiau diddordeb a grwpiau sy'n cynrychioli neu'n gweithio hefo pobl a/neu blant hefo nodweddion cydraddoldeb i roi gwybod iddynt am yr ymgysylltiad ac i ofyn iddynt hysbysu eu defnyddwyr am yr holiadur.

## 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Derbyniwyd 197 o holiaduron.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr gwblhau cwestiynau am eu nodweddion cydraddoldeb (yn ddewisol) a roedd yr wybodaeth a gasglwyd fel a ganlyn:

- 1) Cwblhau'r holiadur fel...
  - Unigolyn - 159
  - Sefydliad neu fusnes – 5
  - Dim ateb – 33
- 2) Rhyw
  - Gwryw - 84
  - Benyw - 65
  - Gwell gennyf beidio â dweud – 9
  - Dim ateb – 39
- 3) Grŵp oedran
  - 18-29 - 8
  - 30-39 - 23
  - 40-49 - 29
  - 50-59 - 34
  - 60-69 - 31
  - 70 neu'n hyn - 25
  - Gwell gennyf beidio â dweud - 9
  - Dim ateb – 38

## 4) Hunaniaeth genedlaethol

- Cymro / Cymraes – 77
- Sais / Saesnes – 22
- Prydeiniwr / Prydeinwraig – 46
- Arall – 9
- Gwell gennyf beidio â dweud – 8
- Dim ateb – 35

## 5) Tarddiad Ethnig

- Gwyn - 141
- Cymysg / sawl grwp ethnig – 4
- Du / Affricanaidd / Caribiaidd – 1
- Gwell gennyf beidio â dweud – 11
- Arall – 3
- Dim ateb – 37

## 6) Ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?

- Ydw - 15
- Nac Ydw - 129
- Gwell gennyf beidio â dweud – 15
- Dim ateb – 38

## 7) Crefydd

- Christian (pob enwad) – 72
- Hindw – 2
- Dim crefydd – 52
- Anffyddiwr – 5
- Tyst Jehova – 1
- Dyniaethwr -1
- Vasinava – 1
- Wicca - 1
- Arall – 7
- Gwell gennyf peidio â dweud – 17
- Dim ateb – 38

## 8) Cyfeiriadedd Rhywiol

- Heterorywiol / Strêt - 127
- Dyn hoyw – 1
- Deurywiol – 1
- Arall – 8
- Gwell gennyf beidio â dweud - 20
- Dim ateb – 40

## 9) Rhywedd adeg geni

- Gwryw - 79
- Benyw – 61
- Rhyngrywiol - 1
- Gwell gennyf beidio â dweud - 15
- Dim ateb – 41

## 10)Y ffordd rydych yn meddwl amdanoch chi eich hun

- Gwryw - 77
- Benyw - 59
- Arall – 8
- Gwell gennyf beidio â dweud - 13
- Dim ateb - 40

Nid oedd yn bosib adnabod patrwm yn ymatebion unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb

Dylai prosiectau unigol ymgysylltu â thrigolion Gwynedd yn ôl yr angen.

#### 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Fel rhan o'r broses o lunio Cynllun y Cyngor ar gyfer 2018-23 yn 2017 cynhaliwyd cyfres o 8 cyfarfod ardal yn ystod mis Gorffennaf er mwyn rhoi cyfle i aelodau lleol amlygu unrhyw faterion oedd angen sylw o fewn yr ardaloedd hynny. Yn ogystal, bu i aelodau'r Pwyllgorau Craffu adnabod materion yr oeddent hwy o'r farn y dylid eu cynnwys o fewn Cynllun y Cyngor i'r dyfodol.

Cynhaliwyd 4 sesiwn gweithdy pellach gydag aelodau ym mis Medi 2017 yng Nghaernarfon, Penrhyndeudraeth, Dolgellau a Phwllheli. Bwriad y gweithdai hyn oedd rhoi cyfle iddynt adnabod y blaenoriaethau sirol i'w cynnwys o fewn Cynllun y Cyngor a chynnig sylwadau pellach ar y blaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod fesul ardal.

Disgwylir i unrhyw brosiect newydd fod â thystiolaeth gadarn am yr angen amdano. Wrth gynllunio unrhyw brosiect newydd dylid mesur yr effaith ar bobl Gwynedd, a llunio Aseiad Effaith Cydraddoldeb penodol yn ôl yr angen (gweler 1.2).

#### 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Bydd hyn yn cael ei adnabod yn asesiadau'r prosiectau unigol



### 3) Adnabod yr Effaith

#### 3.1 Beth yw'r effaith fydd y Cynllun newydd yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb? Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb.

Nodweddion	Sut fath o effaith?	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
<b>Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)</b>	Dim wedi ei adnabod	Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Asegiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.
<b>Yr iaith Gymraeg</b>	Positif	<p>Mae hwn yn faes blaenoriaeth felly disgwylir cael effaith bositif ar yr iaith Gymraeg. Disgwylir i bob cynllun unigol i edrych ar yr effaith ar yr iaith wrth wneud Asegiad Effaith Cydraddoldeb ar wahân.</p> <p>Wrth sôn am flaenoriaethu'r Gymraeg yn benodol yn yr ymgynghoriad, roedd 18 o'r sylwadau yn cefnogi'r angen i flaenoriaethu'r Gymraeg ac 14 yn dweud na ddylid gwario arian ar yr iaith.</p> <p>Derbyniwyd nifer o sylwadau am ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y gymuned neu thu allan i'r ystafell ddogarth hefo mudiadau fel Clwb Ffermwyr Ifanc yn cael eu crybwyll gan nifer yn sgil cynnig i ad-drefnu'r Gwasanaeth Ieuenctid.</p> <p>Yn ychwanegol adnabuwyd yr anghenion canlynol - i'r Cyngor helpu'r sector breifat i gynnig darpariaeth Gymraeg, mwy o arwyddion dwyieithog, a sicrhau swyddi neu dai addas er mwyn cadw pobl ifanc yn yr ardal. Credai un fod y Gymraeg yn sgil i ddenu swyddi i'r ardal.</p> <p>Roedd pryder fod blaenoriaethu'r Gymraeg yn gelyniaethu'r di-Gymraeg a thwristiaid. Roedd pryder hefyd am gostau, gyda nifer yn credu nad oedd eisiau gohebu'n ddwyieithog ond yn hytrach yn newis iaith y derbynnydd ac nad oes angen cyfieithu ar y pryd os yw pawb yn gallu siarad Saesneg. Nodwyd y gallai polisi staffio'r Cyngor elyniaethu pobl di-Gymraeg a gallai'r Cyngor golli allan ar staff sy'n fwy galluog/profiadol. Credwyd</p>

		<p>fod hyn yn arbennig o debygol mewn meysydd fel gofal. Awgrymwyd y dylid cael cyfle i ddysgu'r Gymraeg 'on the job' a hefyd y dylai'r Cyngor annog, nid gorfodi, staff i siarad yr iaith.</p> <p>Roedd galw gan un person i'r ohebiaeth gan ysgolion fod yn ddwyieithog yn hytrach nag uniaith Gymraeg.</p> <p>Yn ôl yr ymatebwyr, y pethau pwysig am wersi Cymraeg oedd eu cost, eu cyfleuster (trafnidiaeth ayb) a'u haddasrwydd.</p> <p>Derbyniwyd nifer o sylwadau am y Gymraeg wrth drafod materion plant, pobl ifanc a theuluoedd yn ogystal. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau hynny'n erbyn rhoi ffafriaeth i'r iaith Gymraeg. Mae pryder y byddai'n effeithio safonau addysg a recriwtio staff a hefyd am y gost. Dywedwyd y dylid gadael i athrawon ddatblygu sgiliau iaith tra yn y swydd. Ar y llaw arall derbyniwyd sylwadau am yr angen i datblygu deunyddiau e.e. apps, a rhoi gwersi Cymraeg am ddim.</p> <p>Er nad yn sôn am yr iaith Gymraeg yn benodol, mae nifer o sylwadau yn ymwneud â'r angen am dai fforddiadwy a thai i bobl lleol.</p> <p>Nodwyd yr angen am Gymraeg clir wrth gyfathrebu hefo'r cyhoedd, yn arbennig adroddiadau addysg. Nodwyd hefyd yr angen i wella safon yr iaith mewn gohebiaeth ayb a'r angen i'w wirio cyn ei anfon. Roedd yr ymatebydd yn derbyn mai oherwydd fod y Gymraeg yn iaith naturiol roedd y gwallau'n digwydd.</p>
<b>Anabledd</b>	Positif	<p>Mae gofal yn faes blaenoriaeth felly disgwylir cael effaith positif. Disgwylir i bob cynllun unigol arall edrych ar yr effaith ar anabledd wrth wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar wahân.</p> <p>Mae'r ymatebion i'r ymgysylltiad yn dangos cefnogaeth mawr i'r gweithlu gofal gyda nifer eisiau iddynt gael codiad yn eu cyflog, amodau gweithio gwell, mwy o hyfforddiant a'r siawns i symud ymlaen yn eu gyrfa. Roedd pryder am y trosiant yn y gweithlu. Mae galw hefyd am wella safonau o fewn cartrefi gofal ac i ddenu mwy o bobl ifanc i fewn i'r maes.</p>

		<p>Neges gryf arall yw'r angen i wneud gwaith ataliol er mwyn sicrhau nad yw pobl angen gofal iechyd a dysgu o ymarfer da mannau eraill. Dangoswyd cefnogaeth gryf i adnoddau fel llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden fel adnoddau ar gyfer hyn a byddai toriadau yn y meysydd hyn yn "false economy". Pwysleisiwyd hefyd yr angen am drafnidiaeth.</p> <p>Hefyd mae'r angen i'r Cyngor gydweithio mwy, yn fewnol a gyda mudiadau allanol fel iechyd a'r trydydd sector, yn neges gryf gan y rhai sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad. Dylid hefyd rhoi cefnogaeth i gymunedau a darparu adnoddau fel gofal iechyd a cartrefi gofal ychwanegol yng nghefn gwlad yn ogystal â'r trefi mawrion.</p> <p>Adnabuwyd y camddefnydd o fannau parcio hygyrch i bobl anabl. Dau berson o blaid pobl anabl yn talu am barcio, un ohonynt yn berson anabl. Dywedodd un person anabl fod ceir wedi parcio ar y pafin yn broblem iddo.</p> <p>Mae'r angen am amrywiaeth o dai wedi ei adnabod gan gynnwys rhai hygyrch.</p> <p>Dau berson yn poeni nad oeddynt yn cyrraedd meini prawf am ofal er ei bod yn anabl.</p> <p>Nodwyd fod pobl anabl a hefo rhai cyflyrau iechyd fwy o angen toiledau cyhoeddus.</p> <p>Credai nifer o Feirionnydd nad oedd ansawdd gofal yn wastad ar draws y sir hefo un person yn gofyn am ganolfan i bobl ag Alzheimers yn y rhanbarth ac un arall yn nodi pryder am fethu cael gofal yn y Gymraeg yno. Nododd un person anabl nad oedd yn bosib cael pobl i lanhau yn Meirionydd. Roedd wedi derbyn rhestr gan y Cyngor ond nid oedd neb arno o'i ardal. Credai fod hyn oherwydd yr angen i siarad Cymraeg. Roedd yn pryderu oherwydd yr effaith ar anghenion iechyd.</p>
<b>Rhyw</b>	Positif	<p>Ceir un cynllun unigol yn y benodol yn y maes yma sef "Merched mewn Arweinyddiaeth" felly disgwylir effaith positif yma. Wedi dweud hynny nid yw'n bosib adnabod effaith y Cynllun yn ei gyfanrwydd heb gwblhau asesiadau effaith ar y cynlluniau unigol eraill.</p>

<p><b>Oedran</b></p>	<p>Positif</p>	<p>Mae oedran yn cael ei flaenoriaethu mewn nifer o feysydd felly disgwylir cael effaith positif ar faes plant, pobl ifanc a phobl hŷn.</p> <p>Disgwylir i bob cynllun unigol i edrych ar yr effaith ar oeddrannau gwahanol wrth wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar wahân.</p> <p>Roedd yr ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth i waith ym maes Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd, yn enwedig cymorth ac ymyrraeth cynnar, cryfhau addysg a rhoi hyfforddiant i bobl ifanc er mwyn iddynt cael swyddi. Roedd pryder fod pwyslais ar yr iaith Gymraeg yn effeithio recriwtio ac ansawdd addysg o fewn yr ysgolion. Nodwyd pwysigrwydd darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol. Roedd nifer yn mynegi nad oeddynt eisiau gweld toriadau ym maes gofal plant. Dywedodd un person ei bod yn bwysig i gefnogi pobl ifanc ar ôl iddynt adael gofal.</p> <p>Mae pryder ein bod yn colli pobl ifanc dawnus. Swyddi tymhorol twristiaeth ddim yn cadw pobl ifanc yn yr ardal. Diffyg gobaith a dyhead yn broblem i bobl ifanc ym Meirionnydd yn ôl un person. Pobl ifanc angen gwaith i dalu am dai.</p> <p>Mae'r Cyngor yn adnabod y bydd newid mewn demograffeg, hefo'r gymuned yn mynd yn hŷn. Mae'r ymateb i'r ymgysylltiad yn dangos fod pobl yn pryderu am ddarpariaeth i'r dyfodol, e.e. cartrefi gofal, oherwydd y newidiadau hyn. Mae galw i bobl allu byw yn annibynnol yn eu cymunedau ac i roi cefnogaeth i'r cymunedau hynny er mwyn lleihau'r angen am ofal. Mae un ymatebwr eisiau prentisiaethau i bobl hŷn nid yn unig pobl ifanc ac un arall yn nodi'r ffaith fod pobl hŷn angen parcio mewn llefydd agosach at y canol i dref.</p> <p>Gwelir galw hefyd am feithrin perthynas da rhwng y cenedlaethau, gyda'r rhaglen deledu Hen Blant Bach yn cael ei enwi. Un person yn cynnig y dylidparu pobl hŷn unig hefo pobl ifanc digartref.</p> <p>Adnabuwyd fod ceir yn parcio ar y pafin yn broblem i bobl hŷn a theuluoedd hefo plant bychan mewn pramiau.</p> <p>Carfan o bobl sydd efallai ddim yn cael llawer o sylw</p>
----------------------	----------------	--

		<p>wrth baratoi Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yw pobl oed gwaith ond mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwarchod hawliau pobl o bob oed. Mae'r sylwadau am swyddi ayb yn berthnasol i'r oedran yma. Roedd cefnogaeth gref i greu a chadw swyddi yng Ngwynedd a gwella'r isadeiledd er mwyn gwneud hynny. Roedd yna hefyd negeseuon am wella sgiliau'r trigolion, denu cwmnïau mawr, peidio bod yn or ddibynnol ar dwristiaeth, a chefnogi datblygiadau tu allan i'r sir. Gall diffyg trafnidiaeth cyhoeddus ar yr adegau iawn greu problemau i bobl sydd eisiau gweithio.</p> <p>Mae'r angen am amrywiaeth o dai wedi ei adnabod, gyda anghenion pobl ifanc a phobl hŷn yn cael eu hadnabod. Ond eto ni ddylid anghofio anghenion pobl o oedran arall, gyda'r galw am dai fforddiadwy a thai i bobl lleol. Roedd sylwadau hefyd am gael tai yn agos at gyfleon gwaith a chysylltiadau trafnidiaeth cyhoeddus, llacio'r rheolau cynllunio yng nghefn gwlad, edrych ar dai gwag a'r angen am dai cymdeithasol. Teimlai un person mai'r broblem oedd fod y cartrefi sydd ar gael ddim yn y lle iawn i deuluoedd ifanc (h.y. mewn trefi wrth ymyl ysgolion a siopau).</p> <p>Roedd nifer o bobl yn adnabod pwysigrwydd llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden ar gyfer plant, pobl ifanc a phobl hŷn ar gyfer cymdeithasu, iechyd a rhywle i fynd oddi ar y stryd. Nodwyd hefyd yr angen am ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc e.e. clybiau ieuenctid, Clwb Ffermwyr Ifanc.</p>
<b>Cyfeiriadedd rhywiol</b>	Dim wedi ei adnabod	Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.
<b>Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)</b>	Dim wedi ei adnabod	<p>Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.</p> <p>Dywedodd un person nad oedd lle i grefydd o fewn addysg.</p>
<b>Ailbennu rhywedd</b>	Dim wedi ei adnabod	Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.

<b>Beichiogrwydd a mamolaeth</b>	Dim wedi ei adnabod	Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.
<b>Priodas a phartneriaeth sifil</b>	Dim wedi ei adnabod	Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.

### 3.2 Ydi'r Cynllun yn ateb y Dyletswyddau Cyffredinol yma? Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r dyletswyddau yma

<b>Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb</b>	<b>Ydi'r polisi'n cael effaith?</b>	<b>Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?</b>
<b>Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth</b>	Ydi	Dylai'r meysydd blaenoriaeth a'r cynlluniau unigol gael effaith bositif ar y ddyletswydd. Bydd angen i'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.
<b>Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal</b>	Ydi	Dylai'r meysydd blaenoriaeth a'r cynlluniau unigol gael effaith bositif ar y ddyletswydd. Bydd angen i'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried. Fel dywedodd un ymatebwr, mae'n bwysig cofio nodweddion cydraddoldeb unigolion wrth ddarparu gwasanaethau, yn enwedig ym maes gofal.
<b>Meithrin perthnasau da</b>	Ydi	Dylai'r meysydd blaenoriaeth a'r cynlluniau unigol gael effaith bositif ar y ddyletswydd. Bydd angen i'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.

#### 4) Dadansoddi'r canlyniadau

##### 4.1 Ydi'r Cynllun felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?

Mae'n ymddangos y dylai'r meysydd blaenoriaeth gael effaith sylweddol bositif ar o leiaf rai o'r nodweddion cydraddoldeb. Mae pob asesiad effaith cydraddoldeb unigol yn edrych ar yr effaith mewn mwy o fanylder.

##### 4.2 Ydi'r Cynllun felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?

Nid oes effeithiau sylweddol negyddol wedi eu hadnabod hefo'r Cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae pob asesiad effaith unigol yn edrych ar yr effaith mewn mwy o fanylder.

##### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewisiwch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r cynllun gan ei fod yn gadarn	X
Addasu'r cynllun i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r cynllun gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r cynllun oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	

##### 4.4 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Mae'r asesaidai unigol yn adnabod unrhyw effeithiau negyddol a'r camau i'w liniaru.

##### 4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Nid yw'n berthnasol i'r Cynllun yn ei gyfanrwydd.

## 5) Monitro

### 5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y cynllun (cynllun gweithredu)?

Mae Adrannau'r Cyngor yn gyfrifol am weithredu'r cynlluniau unigol o fewn Cynllun y Cyngor. Mae prosesau herio perfformiad y Cyngor, ble fydd yr Aelod Cabinet ac aelodau o bwyllgorau craffu yn herio twf a datblygiad y gwaith sy'n cael ei gyflawni ar y Cynllun, yn waith parhaus drwy'r flwyddyn. Mae'r adroddiadau ar y cyfarfodydd herio perfformiad hyn yn cael eu cyhoeddi fel rhan o bapurau cyfarfod y Cabinet.

Os oes angen newid cynnwys neu gyfeiriad unrhyw brosiect unigol bydd angen ail ymweld â'r Aseiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer y prosiect hwnnw. Mae'r ddogfen hon hefyd yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor er mwyn ei chraffu ac yn cael ei hadolygu'n flynyddol.



# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchoddedig).

## I Manylion

### I.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Prosiect Uwchradd Meirionnydd

### I.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Nod Prosiect Uwchradd Meirionnydd yw sicrhau fod ansawdd yr addysg yn yr ardal yn gyson dda ac yn gynaliadwy i'r dyfodol.

### I.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Garem Jackson, Pennaeth Addysg

### I.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Fersiwn I - 4 Chwefror 2020

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Wrth i'r prosiect ddatblygu, rhagwelir y bydd angen gweithio gyda penaethiaid a llywodraethwyr ysgolion uwchradd Meirionnydd er mwyn cynnal yr asesiad. Yn ddibynnol ar gyfeiriad y prosiect, gall y bydd angen gweithio hefo'r holl rhan-ddeiliaid perthnasol.

**2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchoddedig?**

Dim - cyn-amserol ar y pwynt yma o'r prosiect.

**2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?**

Amherthnasol - gweler uchod.

**2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?**

Cynhaliwyd cyfres o sesiynau gyda penaethiaid Uwchradd Meirionnydd rhwng Mehefin a Medi 2019 er mwyn trafod y sefyllfa bresennol a'r heriau y mae'r ysgolion uwchradd yn eu wynebu. Yn dilyn hynny, casglwyd barn gychwynol y penaethiaid trwy gyfrwng holiadur ar gychwyn tymor yr Hydref.

**2.5 Oes yna unrhyw flychau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

Dim ar y pwynt yma.

### 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae croeso i chwi ychwanegu nodweddion eraill os ydych chi'n dymuno.**

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Dim	Cynamserol i adnabod yr effaith ar y pwynt yma.
Yr iaith Gymraeg	Dim	Cynamserol i adnabod yr effaith ar y pwynt yma.
Anabledd	Dim	Cynamserol i adnabod yr effaith ar y pwynt yma.
Rhyw	Dim	Cynamserol i adnabod yr effaith ar y pwynt yma.
Oedran	Dim	Cynamserol i adnabod yr effaith ar y pwynt yma.
Cyfeiriadedd rhywiol	Dim	Cynamserol i adnabod yr effaith ar y pwynt yma.
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	Dim	Cynamserol i adnabod yr effaith ar y pwynt yma.
Ailbennu rhywedd	Dim	Cynamserol i adnabod yr effaith ar y pwynt yma.
Beichiogrwydd a mamolaeth	Dim	Cynamserol i adnabod yr effaith ar y pwynt yma.
Priodas a phartneriaeth sifil	Dim	Cynamserol i adnabod yr effaith ar y pwynt yma.

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	A yw'n cael effaith?*	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Nac ydi	Cynamserol i adnabod yr effaith ar y pwynt yma.
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Nac ydi	Cynamserol i adnabod yr effaith ar y pwynt yma..
Meithrin perthnasau da	Nac ydi	Cynamserol i adnabod yr effaith ar y pwynt yma.

**4) Dadansoddi'r canlyniadau****4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?**

Cynamserol i asesu'r effaith ar gydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol.

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?**

Cynamserol i asesu'r effaith ar gydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol.

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	-
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	-
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	-
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	-

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Amherthnasol.

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

Amherthnasol.

**5) Monitro****5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

Bydd yr asesiad hwn yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd wrth i'r prosiect ddatblygu.

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu [DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru](mailto:DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru), am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchoddedig).

## 1 Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Sicrhau Tegwch i Bawb

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Er mwyn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn wneud rhaid i ni yn gyntaf adnabod unrhyw rwystrau sy'n wynebu rhai pobl wrth chwilio am, neu dderbyn, gwasanaethau gan y Cyngor. Er ein bod, dros y blynyddoedd, wedi casglu llawer o wybodaeth, nid ydym yn teimlo ein bod wedi clywed gan ystod digon eang o bobl.

Ein bwriad felly yw cynnal ymchwiliad trylwyr o farn pobl Gwynedd sydd â nodweddion gwarchoddedig (fel maent yn cael eu nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010) am y gwasanaethau mae'r Cyngor yn eu cynnig. Byddwn yn gwneud hynny nid yn unig drwy holiadur ar bapur ac ar lein ond hefyd drwy gyfarfod hefo ystod eang o bobl a defnyddio dulliau creadigol er mwyn cyrraedd pawb.

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Delyth William, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb

#### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

28 Ionawr 2020, fersiwn 1

#### 2) Gweithredu

##### 2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Pobl Gwynedd  
Grŵp Craidd Cydraddoldeb  
Grwpiau nodweddion gwarchoddedig  
Y Cabinet  
Aelodau Etholedig  
Staff y Cyngor

##### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchoddedig?

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi ei greu mewn cydweithrediad gyda'r Grŵp Craidd Cydraddoldeb a gan ddefnyddio gwybodaeth o'r holiadur "Pa Wasanaethau sy'n Bwysig i Chi?".

##### 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Codwyd nifer o faterion gweithredol o'r sgysiau gyda'r Grŵp Craidd Cydraddoldeb (gweler Asesiad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol am fwy o fanylion). Penderfynwyd fod hyn yn dangos yr angen i edrych ar ein ffordd o weithio a sicrhau ein bod yn rhoi cydraddoldeb yn ganolog i bopeth rydym ni'n wneud. Rhan bwysig o hynny ydi bod a digon o wybodaeth am unrhyw rwystrau mae pobl Gwynedd yn eu wynebu wrth ymwneud â'r Cyngor.

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Rydym yn gweithredu yn unol a Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n nodi pwysigrwydd canfod barn unigolion amrywiol. Rydym hefyd yn gweithredu yn unol â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae ffordd y Cyngor o weithio, Ffordd Gwynedd, yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym ni yn ei wneud. Er mwyn gwneud hynny mae casglu barn y cyhoedd yn greiddiol er mwyn darparu'n addas ar gyfer pob un o bobl Gwynedd.

## 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Nid oes bylchau yn yr wybodaeth rydym ei angen i wneud y penderfyniad i ymgysylltu. Byddwn yn datblygu'r asesiad yma wrth i ni baratoi ar gyfer y gwaith ac yn ei fonitro'n rheolaidd.

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae croeso i chwi ychwanegu nodweddion eraill os ydych chi'n dymuno.**

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Positif	Pwrpas casglu'r wybodaeth yw i wella ein gwasanaeth i bobl hefo pob nodwedd, sef pob un o bobl Gwynedd. Wrth wneud paratodau i ymgysylltu byddwn yn ystyried anghenion pawb drwy gyfrwng asesiad effaith cydraddoldeb ac yn gweithredu yn ôl yr angen er mwyn sicrhau ein bod yn cynnwys cymaint o bobl a
Yr iaith Gymraeg	Positif	
Anabledd	Positif	
Rhyw	Positif	
Oedran	Positif	
Cyfeiriadedd rhywiol	Positif	
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	Positif	

<b>Ailbennu rhywedd</b>	Positif	phosib
<b>Beichiogrwydd a mamolaeth</b>	Positif	
<b>Priodas a phartneriaeth sifil</b>	Positif	

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabled a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

<b>Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb</b>	<b>A yw'n cael effaith?*</b>	<b>Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?</b>
<b>Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth</b>	Ydi	<p>Bydd yr ymgynghoriad yn cynnwys cymaint o bobl a phosib er mwyn casglu gwybodaeth, gan gynnwys staff y Cyngor. Dylai'r dulliau a ddefnyddir sicrhau nad oes camwahaniaethu'n digwydd ac yn sicr byddwn yn gwarchod rhag unrhyw aflonyddu neu erledigaeth o'r rhai sy'n cymryd rhan.</p> <p>Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir er mwyn adnabod os oes unrhyw gamwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth sy'n digwydd.</p>
<b>Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal</b>	Ydi	<p>Byddwn yn defnyddio amrywiol dulliau er mwyn sicrhau ein bod yn cynnwys cymaint o bobl a phosib ac yn ystyried eu anghenion. Byddwn yn gweithio'n arbennig i gynnwys pobl sydd ddim fel arfer yn ymateb i ymgynghoriadau.</p> <p>Y prif reswm dros ymgysylltu yw i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bawb. .</p>
<b>Meithrin perthnasau da</b>	Ydi	<p>Mae meithrin perthynas da yn caniatáu i ni ddefnyddio dulliau gwahanol i siwtio pobl hefo nodweddion gwahanol, yn unol a'u anghenion. Byddwn yn gwneud hyn wrth baratoi'r ymgysylltiad.</p> <p>Pwrpas y gwaith yw defnyddio'r wybodaeth er mwyn darparu gwasanaethau gwell ar gyfer holl bobl Gwynedd, beth bynnag eu nodweddion gwarchodedig.</p>



#### 4) Dadansoddi'r canlyniadau

##### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Ni fydd y gwaith ymgynghori ynddo'i hun yn cael effaith sylweddol, bositif ond byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir er mwyn cael effaith bositif ar ein gwasanaethau

##### 4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Nac ydyw

##### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	X
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	

##### 4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Byddwn yn datblygu'r ymgynghoriad mewn ffordd fydd yn addas ar gyfer pawb.

##### 4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Dim yn berthnasol

**5) Monitro**

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

Byddwn yn gwneud asesiad effaith llawer llawnach wrth baratoi'r ymgysylltiad.

# Eitem 8

<b>Cyfarfod:</b>	Cabinet
<b>Dyddiad:</b>	18 Chwefror 2020
<b>Aelod Cabinet:</b>	Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet dros Gyllid
<b>Pwnc:</b>	Cyllideb 2020/21
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

---

## CYLLIDEB 2020/21

### Y Penderfyniad a geisir

(a) Argymhellir i'r Cyngor (yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2020) y dylid:

1. Sefydlu cyllideb o £261,837,750 ar gyfer 2020/21 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £187,579,040 a £74,258,710 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 3.9%.
2. Sefydlu rhaglen gyfalaf o £44,247,260 yn 2020/21 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.

(b) Cymeradwyo symud ymlaen i weithredu'r rhestr cynlluniau arbedion sy'n Atodiad 3, er mwyn sefydlu'r gyllideb argymhellir i'r Cyngor llawn.

---

### 1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2020/21.
- 1.2 Eleni, mae'r Cyngor wedi derbyn setliad grant mwy teg na fu mewn blynyddoedd blaenorol. Er hynny, rhaid cymryd rhai penderfyniadau ar gyfuniad o gyflawni arbedion ychwanegol a chodi'r Dreth 3.9%.
- 1.3 Argymhellir codi'r Dreth 3.9% yn 2020/21 er mwyn amddiffyn gwasanaethau i bobl Gwynedd, gan fyddai gweithredu'r cynlluniau arbedion eraill a ystyriwyd wedi bod yn annerbyniol oherwydd yr effaith ar bobl Gwynedd.
- 1.4 Wedi ymgynghori gydag aelodau mewn cyfres o weithdai yn Ionawr, a gyda'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (13 Chwefror), mater i'r Cabinet yw argymhell cyllideb briodol i'r Cyngor ar gyfer 2020/21.
- 1.5 Erbyn 2020/21, byddai angen cynyddu ein gwariant o £15.8m er mwyn "sefyll yn llonydd" (mae manylion yn rhan 3 isod), gan gynnwys £4.3m i gwrdd â phwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau (mae manylion o'r 'bidiau' unigol yn Atodiad 2).
- 1.6 Er mwyn cyfarch y bwch ariannol, bydd raid priodoli £1.9m o arbedion (mae manylion yn rhan 4 isod a'r cynlluniau unigol wedi'u rhestru yn Atodiad 3) ac wedyn rhaid cynyddu'r Dreth Cyngor 3.9% (mae manylion yn rhan 5 isod, ac yn Atodiad 6).
- 1.7 Bu adolygiad trylwyr o'r Strategaeth Asedau llynedd, ac eleni rydym yn cynnig sefydlu rhaglen gyfalaf gwerth £44,247,260 yn 2020/21, fel sydd wedi'i osod allan yn Atodiad 4.

- 1.8 Bwriedir modelu Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (am 2020/21 – 2022/23) yn ystod haf 2020, ar ôl Cyllideb Canghellor y DU, ayb, rhag ofn y bydd rhywbeth sylfaenol yn newid yng ngweithrediadau'r Llywodraeth. Mae'n bosib bydd angen trefniadau hyblyg er mwyn gallu gwireddu mwy o arbedion mewn blynyddoedd dilynol, ond bwriedir ystyried hynny ar ôl derbyn mwy o wybodaeth.
- 1.9 Mae cyllideb 2020/21 yn ceisio gwarchod y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl Gwynedd, ac yn argymell cynnydd 3.9% yn y Dreth Cyngor er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw eleni. Wrth ddedhol arbedion, rydym am eu cyflawni yn y lleoedd hynny fydd yn cael yr ardrawiad lleiaf ar ein pobl, ond gwelir y bydd hynny yn fwy heriol erbyn 2021/22 a tu hwnt, pe bai setliadau grant anffafriol, fel a fu mewn blynyddoedd blaenorol.
- 1.10 Mater i'r Cyngor llawn yw ystyried y gyllideb a gosod y Dreth Cyngor erbyn 2020/21 ar sail y materion a nodir yn yr adroddiad dilynol. Mae'r adroddiad manwl yma'n nodi'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2020/21, ac yn amlinellu'r prif newidiadau ers 2019/20.

## 2. GRANT LLYWODRAETH CYMRU

- 2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r setliad dangosol i ariannu awdurdodau lleol ar gyfer 2020/21. Nodir manylion fel y'i cyhoeddwyd yn swyddogol 'debyg-wrth-debyg' gan Lywodraeth Cymru yn y tabl isod, ynghyd â'r gwir ffigyrau "cash":

<b>Grant Cynnal Refeniw 2019/20 – 2020/21</b>	<b>Cyfanswm Awdurdodau Cymru £</b>	<b>Cyngor Gwynedd swyddogol £</b>	<b>Cyngor Gwynedd "cash" £</b>
Grant y Llywodraeth 2019/20	4,290,612,000	179,374,740	176,551,790
Grant y Llywodraeth 2020/21	4,474,443,600	187,579,040	187,579,040
Cynnydd £	183,831,600	8,204,300	11,027,250
Cynnydd %	+4.3%	+4.6%	-

Mae manylion pellach ar gael yma –

<https://llyw.cymru/setliad-refeniw-chyfalaf-llywodraeth-leol-dros-dro-2020-i-2021? ga=2.186323562.297550458.1580053366-1435204194.1547569279>

- 2.2 Fe welir o ffigyrau swyddogol Llywodraeth Cymru sy'n y tabl uchod yn dybiannol fod Cyngor Gwynedd yn derbyn cynnydd grant o £8.2m erbyn y flwyddyn nesaf (ar ôl addasu'r ffigwr 2019/20 i adlewyrchu'r trosglwyddiadau i mewn i'r setliad), sy'n 4.6%, gyda chyfartaledd y cynnydd ar draws Cymru yn 4.3%.
- 2.3 Mae nifer o ffactorau yn bwydo'r fformiwla dyrannu grant llywodraeth leol, megis y nifer disgyblion, nifer hawl wyr cymorth incwm, ayb, ac mae ffactor casglu gwastraff wedi mynd o'n plaid ni eleni (yn adlewyrchu cost uwch casglu mewn ardal wledig).
- 2.4 Hefyd, yn ogystal â ffigyrau swyddogol "tebyg wrth debyg" Llywodraeth Cymru (uchod), derbyniwyd cynnydd go sylweddol oherwydd addasiad sylfaen trethiannol sy'n ail-ddosbarthu grant rhwng awdurdodau lleol Cymru. Roedd hyn oherwydd lleihad mewn eiddo treth cyngor yng Ngwynedd (gwneud i fyny am effaith mudo 'tai gwyliau' i'r rhestr treth busnes), o'i gymharu â chynnydd cyffredinol arferol mewn eiddo treth cyngor ar draws awdurdodau lleol eraill Cymru.

- 2.5 Disgwylir i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r setliad grant terfynol ar gyfer awdurdodau lleol ar 25 Chwefror, ynghyd â chyllideb terfynol Llywodraeth Cymru eu hunain, ond ni ddisgwylir newid arwyddocaol i'r ffigyrau grant 'dangosol'.

### 3. GWARIANT REFENIW'R CYNGOR - 2020/21

- 3.1 Nodir yn y tabl isod y cynnydd yn y gwariant fydd ei angen er mwyn "sefyll yn llonydd" yn 2020/21.

#### Gofynion Gwario Ychwanegol

	£	£
Cyllideb Sylfaenol		248,013,890
Chwyddiant Cyflogau Staff	4,535,220	
Pensiynau Athrawon	1,193,180	
Pensiynau Arall	-1,684,170	
Chwyddiant Arall (cyflenwyr)	2,865,940	
Ardollau (Tân a CNC)	148,310	
Demograffi	821,440	
Trosglwyddiadau i'r Setliad	2,062,350	
Terfynu Grant Penodol	500,000	
Bidiau - Pwysau ar Wasanaethau	4,336,690	
Bidiau Cyfalaf	1,004,000	
Addasiad Cytundeb Torfol	380,000	
Addasiadau Cyllideb Amrywiol	-48,850	
Cost Benthycia / Llog ar Falansau	-304,850	
Cyfanswm net yr ychwanegiadau		<u>15,809,260</u>
Cyfanswm gofynion gwario 2020/21 cyn arbedion		<u>263,823,150</u>

#### 3.2 Cyllideb Sylfaenol 2019/20

Er mai £248m yw gwariant net 2019/20, mae'n bwysig nodi fod gwir wariant y Cyngor yn £418m oherwydd ein bod yn derbyn llw o grantiau penodol gwerth £110m ac yn codi bron i £60m am wasanaethau yr ydym yn eu darparu.

#### 3.3 Chwyddiant Cyflogau £4.5m

Darperir ar gyfer cynnydd tâl dros 2% i staff y Cyngor, yn unol â'n rhagamcan o gytundeb cenedlaethol, fydd yn weithredol o Ebrill 2020. Hefyd, darperir ar gyfer cynnydd tâl 2.75% i athrawon ysgolion Gwynedd am y cyfnod Ebrill – Awst 2020, a 2% o Fedi 2020 – Mawrth 2021.

#### 3.4 Pensiynau Athrawon £1.2m

Mae Llywodraeth San Steffan wedi codi cyfradd cyfraniad pensiwn cyflogwyr i'r Cynllun Pensiwn Athrawon o 16.5% i 23.6% o Fedi 2019, ac mae gwerth 7% o gost cyflogau athrawon ysgolion Gwynedd am 5 mis yn £1.2m (gyda £1.7m yn 2019/20, mae cost hyn am flwyddyn llawn bron yn £3m).

### 3.5 **Pensiynau Arall -£1.68m**

Roedd canlyniad prisiad actiwaraidd teirblynyddol o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn dod i gasgliad fod y gronfa gyfan wedi'i ariannu 108% ar 31/03/19 ac elfen Cyngor Gwynedd fel cyflogwr wedi'i ariannu 109%. Roedd hyn yn bennaf oherwydd dychweliadau gwell na'r disgwyl wrth fuddsoddi ar y farchnad stoc ers 2016.

O ganlyniad, mae actiwari'r Gronfa wedi caniatáu i ni gwtogi cyfraniadau pensiwn Cyngor Gwynedd fel cyflogwr o 21.9% i 20.4%, fydd yn arbed £1,833,170 y flwyddyn mewn argostau cyflogi. Yn ganol yr holl bwysau i wario mwy sy'n y rhestr uchod, mae'r arbediad £1.8m yma'n gymorth sylweddol i sefyllfa'r Cyngor, ac mae cyflogwyr eraill yng Nghronfa Gwynedd wedi elwa yn yr un modd.

Yn groes i'r arbediad £1.8m uchod, rydym yn darparu £149k ychwanegol ar gyfer mwy o staff y Cyngor yn ymuno gyda'r cynllun pensiwn, drwy 'auto-enrolment'.

### 3.6 **Chwyddiant Arall £2.9m**

Swm 'net' sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer effaith y 'cyflog byw' (isafswm tâl) ar gostau a ffioedd ein cyflenwyr preifat (yn cynnwys £643k ar gyfer cartrefi gofal preswyl annibynnol), ynghyd â chynnydd chwyddiant sylweddol ar gyllidebau tanwydd ac ynni (£472k).

### 3.7 **Ardollau £148k**

Yn Rhagfyr 2019, penderfynodd Awdurdod Tân Gogledd Cymru godi'r ardoll 2% ar yr awdurdodau cyfansoddol, sy'n cynyddu'r gofyn ar Cyngor Gwynedd o £137k, tra bu cynnydd £11k mewn ardoll draenio arbennig i 'Cyfoeth Naturiol Cymru', ond dim cynnydd yn ardoll Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

### 3.8 **Demograffi £821k**

Cyfanswm sy'n adlewyrchu +£300k oherwydd cynnydd net mewn nifer disgyblion yn yr ysgolion, +£510k i'r Adran Gofal Oedolion i gyfarch y nifer cynyddol o bobl fydd angen gofal mewn poblogaeth sy'n heneiddio, a +£11k oherwydd cynnydd mewn plant sy'n derbyn gofal gan yr Adran Plant a Theuluoedd.

Mae'r ffigwr net o +£300k i ysgolion yn cuddio sefyllfa wahanol mewn gwahanol sectorau, sef uwchradd +£452k a cynradd -£152k.

### 3.9 **Trosglwyddiadau i'r setliad £2.06m**

Mae cyfrifoldeb ac adnoddau ar gyfer pensiynau (£1.5m) a tâl (£470k) athrawon (elfen 7/12 Medi 2019 – Mawrth 2020) yn trosglwyddo i mewn i setliad grant Llywodraeth Cymru i'r Cyngor erbyn 2020/21, ynghyd â swm llai (£87k) ar gyfer Gofal Nyrsio. Bydd y cyllidebau sy'n trosglwyddo i gyllideb y Cyngor, ynghyd â'r cyfrifoldebau perthnasol, yn cael eu dyrannu i'r adrannau perthnasol.

Felly, bydd cynnydd tua £2m yng nghyllideb yr Adran Addysg a chynnydd £87k yng nghyllideb yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i adlewyrchu'r gofynion gwario perthnasol.

### 3.10 **Terfynu Grant Penodol £500k**

Derbynnir nifer sylweddol o grantiau penodol lle disgwylir yn aml i'r Cyngor ymrwymo i wariant ychwanegol. Mewn rhai achosion, gellid defnyddio grantiau penodol i ariannu pwysau ar wariant anorfod.

Yng nghyllideb 2019/20, defnyddiwyd grantiau penodol ar gyfer ariannu'r gost ychwanegol pensiynau athrawon a chwyddiant tâl athrawon, ac mae rheiny yn trosglwyddo i'r setliad grant cyffredinol erbyn 2020/21 (gweler isod).

Hefyd, defnyddiwyd grant penodol £0.5m llynedd er mwyn ariannu rhai bidiau am wasanaethau ataliol yn yr Adran Gofal Plant. Yn anffodus, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu bydd y grant penodol i 'atal plant rhag cael eu derbyn i ofal' ddim yn parhau erbyn 2020/21, a ddim yn trosglwyddo i'r setliad chwaith.

Felly, rhaid i'r Cyngor ddarparu £500k rŵan er mwyn ariannu bidiau ataliol 2019/20 yr Adran Plant, sydd bellach yn ariannu swyddi a gwasanaethau hanfodol.

### 3.11 **Pwysau ar Wasanaethau £5.34m**

'Bidiau' anorfod – gweler Atodiad 2 am fanylion pob 'bid' unigol, yn cynnwys £4.34m refeniw a £1m cyfalaf. Argymhellir cymeradwyo ceisiadau ('bidiau') gwerth £5.34m gan adrannau'r Cyngor am adnoddau parhaol ychwanegol i gwrdd â phwysau anorfod ar eu gwasanaethau.

Hefyd, argymhellir cymeradwyo bidiau un-tro gwerth £311,500 ar ôl neilltuo arian i'r perwyl hyn yn yr adolygiad Tachwedd o gyllideb 2019/20, cymeradwywyd gan y Cabinet ar 21 Ionawr 2020.

Cofier fod nifer o brif flaenoriaethau'r Cyngor (materion datblygol er mwyn gwneud gwahaniaeth) yn cael eu hariannu a'u comisiynu ar wahân i hyn (fesul un drwy benderfyniadau'r Cabinet), drwy Gynllun y Cyngor. Beth gyflwynir yn y "bidiau" yn Atodiad 2 yw ymrwymadau anorfod mae'r gwasanaethau'n wynebu rŵan.

Mae pob Adran yn cael yr hawl i nodi os oes yna unrhyw wariant y mae'n rhaid i'r Cyngor ei gyflawni os yw am sicrhau parhad gwasanaeth sylfaenol. Nid yw'r pennawd yma ar gyfer datblygiadau newydd dymunol, ond yn hytrach ar gyfer parhad gwasanaethau sylfaenol presennol.

Mae elfen o'r ceisiadau yma wrth gwrs yn amlygu eu hunain wrth i ni adolygu patrymau gwariant y flwyddyn gyfredol. Mae eraill yn ganlyniad i faterion sy'n codi lle mae angen gwario er mwyn gwarchod deilliannau i'r cyhoedd, neu i gwrdd â gofynion statudol. Mae yna elfen hefyd o lywodraeth ganolog yn creu pwysau a disgwyliadau, wedyn ninnau'n gorfod dygymod gyda'r sgil effeithiau.

Mae'r eitemau cyflwynir yma yn Atodiad 2 wedi cael eu herio'n drylwyr gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Aelod Cabinet dros Gyllid cyn eu hargymell i'w cymeradwyo gan y Cabinet. Ymhellach, trafodwyd yr holl 'bidiau' yma pryd y'i cyflwynwyd ar 'sleids' i'r gyfres o 'Weithdai Cyllideb' ar 20-27 Ionawr 2020, lle roedd aelodau'r Cyngor yn cydsynio fod y gwariant yn anorfod.

### 3.12 **Addasiad Cytundeb Torfol £380k**

Yn ystod 2012, roedd gan y Cyngor fwlc ariannol o £32m yn ei gynllun ariannol tymorcanol, a gofynnwyd i'r gweithwyr dderbyn pecyn oedd yn gyfystyr â rhoi diwrnod a hanner yn ddi-dâl i'r awdurdod mewn blwyddyn.

Mewn cyfnod ariannol anodd, cytunodd y gweithwyr fod angen iddynt aberthu diwrnod a hanner o gyflog, er mwyn amddiffyn gwasanaethau ac isafu'r nifer o ddiswyddiadau.

Cafodd y didyniad tâl ei leihau o un a hanner diwrnod i un diwrnod yn 2018. Adeg hynny, ddaru'r Cyngor ymrwymo i gael gwared â'r un diwrnod sy'n weddill cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

Yng nghyd-destun setliad grant y Cyngor am 2020/21 sy'n well na'r disgwyl, credwn fod cyfle eleni i ddileu'r un diwrnod sy'n weddill.

Er fod y setliad grant wedi'i wrthbwysu gan gostau ychwanegol, mae'r sefyllfa yn fwy ffafriol nac unrhyw flwyddyn ers 2008.

Bydd darpariaeth cyllideb o £380k yn ein galluogi i roi'r tâl am ddiwrnod yn ôl i staff y Cyngor, hynny yw, dileu'r didyniad tâl presennol o Ebrill 2020 ymlaen.

**3.13 Addasiadau Cyllideb Amrywiol -£49k**

Cyfanswm sy'n adlewyrchu nifer sylweddol o addasiadau i wahanol gyllidebau ar draws y Cyngor, ond yn bennaf dychwelyd 'bidiau' ni ddefnyddiwyd.

**3.14 Costau Benthycu a Llog ar Falansau -£305k**

Rhagamcan o ostyngiad (£85k) mewn llog taladwy ar fenthyciadau yn 2020/21, wrth i hen fenthyciadau hir-dymor ddirwyn i ben, ynghyd â chynnydd (£220k) mewn dychweliadau wrth fuddsoddi balansau a llif arian y Cyngor.

## **4. ARBEDION**

4.1 Roedd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 23 Gorffennaf 2019 yn darogan bwllch ariannu rhwng £1.7m a £7.3m yn 2020/21 (gyda cynnydd treth 3.5%).

4.2 Felly, penderfynwyd gofyn i adrannau ddarganfod eu siâr nhw o £2m i adnabod arbedion ar gyfer 2020/21, gan ofyn i'r Pwyllgorau Craffu ystyried holl gynlluniau 'posib' a gyflwynwyd gan yr adrannau (ac ysgolion). Cyflawnodd aelodau'r Cabinet (yng nghyfarfod 17 Rhagfyr 2019) y dasg o ddethol y cynlluniau cyflwynir yma'n Atodiad 3 (gwerth £1m), a diystyrru opsiynau lle fyddai'r effaith ar wasanaethau i bobl Gwynedd yn annerbyniol.

4.3 Wedi adnabod bwllch ariannu tebygol 2020/21 yn sgîl 'setliad' dangosol Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol, eglurwyd sefyllfa'r gyllideb i aelodau'r Cyngor mewn cyfres o 'Weithdai Cyllideb' ar 20-27 Ionawr 2020.

4.4 Wedi gwrandao ar adborth cefnogol aelodau yn y 'Gweithdai Cyllideb', mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid yn cyflwyno'r detholiad gwerth £1,062,320 o arbedion ar gyfer cyfarch y bwllch yn rhannol, ynghyd â £923,080 o gynlluniau arbedion cymeradwy o flynyddoedd blaenorol, gyda'r cynnydd mewn Treth Cyngor yn gorfod cyfarch y bwllch gweddilliol.

4.5 Felly, pe bai'r Cyngor yn cymeradwyo gweithredu'r cynlluniau arfaethedig cyflwynir yn Atodiad 3, byddwn yn cynhaeafu gwerth £1m o arbedion pellach yn 2020/21.

4.6 Hefyd, er mwyn dygymod gyda'r bwllch ariannu, gellid cynhaeafu £0.9m o arbedion sydd eisoes wedi'u cymeradwyo ar gyfer 2020/21.

**Arbedion i ddygymod gyda Bwllch Ariannu 2020/21**

	£
Arbedion Blaenorol Cymeradwy	923,080
Arbedion Effeithlonrwydd Pellach	<u>1,062,320</u>
Cyfanswm yr Arbedion i gau'r Bwllch	<u>1,985,400</u>



- 4.7 O ganlyniad, bydd cyfanswm o £1.9m o arbedion i'w ddefnyddio i leihau'r bwloch ariannu.
- 4.8 Mae'r holl gynlluniau arbedion arfaethedig sydd angen eu cymeradwyo wedi'u cyflwyno yma'n Atodiad 3 fel y'i cyflwynwyd i'r pwyllgorau craffu perthnasol yn Nhachwedd ac wedyn i'r Cabinet ar 17 Rhagfyr 2019.

## 5. BWLCH ARIANNU 2020/21, A'R DRETH CYNGOR

- 5.1 Fe welir o ran 2 uchod fod anghenion gwario'r Cyngor (cyn tynnu arbedion) ar gyfer 2020/21 yn £263.8m. Nodwyd yn rhan 2 uchod fod y grant oddi wrth Lywodraeth Cymru am fod yn £187.6m.
- 5.2 Fel eglurwyd yn rhan 4 uchod, mae cyfanswm o £1.9m o arbedion i'w ddefnyddio i leihau'r bwloch ariannu.

<b>Sefydlu Cyllideb 2020/21</b>	
	£
Cyllideb Sylfaenol 2019/20	248,013,890
Gofynion Gwario Ychwanegol	<u>15,809,260</u>
Gofynion Gwario 2020/21 cyn Arbedion	263,823,150
Ilai Incwm Grant Refeniw Llywodraeth Cymru	<b>-187,579,040</b>
Ilai Cyfanswm yr Arbedion i gau'r Bwlch	<b><u>-1,985,400</u></b>
Bwlch gweddilliol o'r Dreth Cyngor	<u>74,258,710</u>

- 5.3 Golygai hynny fod bwloch gweddilliol o £74.3m, ac argymhellir cyfarch y bwloch hwnnw drwy'r Dreth Cyngor. Bydd angen codi'r Dreth 3.9% er mwyn cynhyrchu incwm digonol.
- 5.4 Mae gwybodaeth gefndirol a'r cyd-destun ar gyfer gosod lefel y Dreth (ynghyd â manylion y Premiwm ar ail gartrefi a tai gwag) wedi'i gyflwyno yn Atodiad 6.

## 6. CASGLIADAU / CYLLIDEB 2020/21

- 6.1 Mae'r adroddiad yma a'r atodiadau yn gosod allan y ffactorau y dylid eu hystyried wrth sefydlu cyllideb 2020/21 ac er gwaethaf setliad grant mwy teg eleni, yn cadarnhau rhaid parhau i gynhaefu arbedion ar gyfer dygymod gyda'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor.
- 6.2 Argymhellir cyfarch angen gwario refeniw o £261.8m, wedi ychwanegu £15.8m, sy'n cynnwys darparu £5.3m er mwyn cyfarch y galw am wasanaethau.
- 6.3 Ar ôl derbyn grant gan Lywodraeth Cymru o £187.6m a dibynnu ar £1.9m o arbedion, bydd angen i lefel y Dreth Cyngor gynyddu 3.9% i gynhyrchu £74.3m o incwm er mwyn cau bwloch ariannu 2020/21.

### Cyllideb gytbwys ar gyfer 2020/21

	£
Gofynion Gwario 2020/21 cyn Arbedion	263,823,150
Cyfanswm Arbedion 2020/21	<u>-1,985,400</u>
Cyllideb 2020/21	<u>261,837,750</u>
<b>I'w ariannu drwy -</b>	
Incwm Grant	187,579,040
Treth Cyngor (cynnyrch ar ôl codi 3.9%)	<u>74,258,710</u>
Cyllideb 2020/21	<u>261,837,750</u>

- 6.4 Bydd hyn yn golygu gosod cyllideb net o £261,837,750. Rhoddir ddadansoddiad o'r cyllideb fesul gwasanaeth yn Atodiad 1.

## 7. CYFALAF

- 7.1 Sefydlwyd strategaeth asedau 2019/20 – 2028/29 gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2019 a'r Cabinet ar 2 Ebrill 2019, ac rydym yn ychwanegu ato erbyn 2020/21. Mae manylion yn Atodiad 4.
- 7.2 Argymhellir ychwanegu £1m o refeniw at y rhaglen gyfalaf i'w wario yn 2020/21, er mwyn sefydlu rhaglen gyfan am 2020/21 gwerth £44,247,260 i'w ariannu o'r ffynonellau wedi'u dadansoddi yn Atodiad 4.

## 8. STRATEGAETH TYMOR HIRACH

- 8.1 Fel arfer, cynhwysir Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gyda'r adroddiad cyllideb. Eleni, mae mwy o ansicrwydd am y dyfodol cyn cyllideb Canghellor Llywodraeth San Steffan ar 11 Mawrth 2020.
- 8.2 Rhaid i awdurdodau lleol Cymreig ddarogan polisi/bwriad Llywodraeth Cymru yn ogystal. Fel dywedai Julie James AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol, mewn llythyr i Arweinyddion awdurdodau lleol gogledd Cymru ar 30 Ionawr:

*"Uchelgais Llywodraeth Cymru yw darparu cymaint o sicrwydd cynnar â phosibl i'n partneriaid a'n rhanddeiliaid o ran cynlluniau gwario a setliadau aml-flwyddyn, fodd bynnag, rhaid cydbwysu hyn â rhagdybiaethau cynllunio realistig a synhwyrol. Ynghyd â'r sefyllfa barhaus ynghylch Brexit, mae'r diffyg eglurder mewn perthynas â rhagolygon cyllidol y DU yn creu her na welwyd ei thebyg o'r blaen i ni wrth ddatblygu ein cynlluniau gwariant ar gyfer y dyfodol. Yn y cyfnod ansicr hwn ..."*

*"... rydym yn cydnabod ac yn cydymdeimlo â'r galwadau gan ein partneriaid yn y sector cyhoeddus am gyllidebu dros gyfnod hwy er mwyn cefnogi blaengynllunio ariannol. Bydd Cyllideb nesaf y DU ar 11 Mawrth yn dod â rhywfaint o eglurder i gyllid Llywodraeth Cymru yn y tymor byr, a bydd angen ystyried unrhyw ariannu yn y dyfodol yng nghyd-destun Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant y DU yn ddiweddarach eleni."*

- 8.3 Nid yw'n eglur eto pryd cawn arwydd o ganlyniadau'r Adolygiad Cynhwysfawr.

- 8.4 Felly, byddaf yn cyflwyno Strategaeth Ariannol Tymor Canolig i gyfarfod dilynol o'r Cabinet er mwyn ystyried strategaeth arbedion i'r dyfodol yn ystod tymor yr haf.

## **9. YSTYRIAETHAU ERAILL AC AMRYWIOL ASESIADAU**

- 9.1 Ystyrir fod y lefel gyfredol o falansau cyffredinol, sef £7.5m, yn briodol ac nid yw'r gyllideb yma'n argymhell defnydd o'r balansau rydym am gadw ar gyfer llif arian ymarferol a gwariant annisgwyl. Cyflwynir wybodaeth manwl am y balansau a chronfeydd wrth gefn yn Atodiad 7.
- 9.2 Mae Atodiad 5 yn egluro sefyllfa teg 'bargen' cyllideb ysgolion Gwynedd yn fanwl.
- 9.3 Wrth benderfynu ar gyllideb, ac yn arbennig ynglŷn â chynlluniau arbedion, rhaid i'r Cabinet a'r Cyngor ystyried effaith eu penderfyniadau o safbwynt cydraddoldeb yn unol â'r dyletswyddau statudol sydd ar y Cyngor drwy Ddeddf Cydraddoldeb 2010. O ganlyniad, mae asesiad safonol wedi ei baratoi ar gyfer y cynlluniau arbedion. Mae Atodiad 8 yn ymdrin yn benodol â'r ddyletswydd, ac hefyd yn cynnwys sylwadau'r swyddog cyllid statudol ar y Gyllideb cyfan o safbwynt cydraddoldeb.
- 9.4 Mae'r Cyngor yn gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn seiliedig ac wedi eu datblygu yn unol â'r ddyletswydd statudol sydd ar y Cyngor dan Adran 3 i ymgymryd â datblygiad cynaliadwy yn ei holl weithgareddau. Rhoddir gwybodaeth fanylach am y Ddeddf Llesiant a chasgliadau perthnasol yn Atodiad 9.
- 9.5 Mae rhaid i'r swyddog cyllid statudol fynegi barn am gadernid yr amcangyfrifon. Cyflwynir asesiad o risgiau a chadarnhad priodol yn Atodiad 10.

---

### **Barn yr aelod lleol**

Dim yn fater lleol

---

### **Barn y swyddogion statudol**

#### **Swyddog Monitro:**

Er mai mater i'r Cyngor Llawn ydi penderfynu yn derfynol ar y gyllideb mae'n bwysig fod y Cabinet yn rhoi argymhelliad clir iddo ynglŷn â'i gynlluniau gwario a'r gyllideb ddrafft ac mae'r adroddiad hwn yn cyflawni hynny. Unwaith y bydd y Cyngor wedi cytuno ar y ffynonellau cyllido, yna y Cabinet fydd yn gyfrifol am y gwariant a'r blaenoriaethu oddi fewn i'r gyllideb honno.

#### **Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys. Wedi ystyried yr holl risgiau amlinellir yn Atodiad 10 i'r adroddiad, a'r camau lliniaru, rwyf o'r farn fod Cyllideb y Cyngor am 2020/21 yn gadarn, yn ddigonol, ac yn gyraeddadwy.

## **ATODIADAU**

- 1 Cyllidebau Arfaethedig
- 2 Crynodeb Bidiau
- 2a Bidiau Refeniw Parhaol
- 2b Bidiau Refeniw Un-tro
- 2c Bidiau Cyfalaf
- 3 Arbedion
- 3a Rhestr Arbedion
- 4 Cyfalaf
- 5 Ymdrin â'r Gyllideb Ysgolion yn 2020/21
- 6 Treth Cyngor
- 7 Balansau
- 8 Asesiad Effaith Cydraddoldeb
- 9 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- 10 Cadernid yr Amcangyfrifon



	Teitl y Bid	Parhaol (£)	Un tro (£)	Cyfalaf (£)
<b>Adran Addysg</b>				
Bid 1	Cludiant Tacsis Ysgolion	150,000		
Bid 2	Cludiant Bysus Ysgolion	184,000		
Un tro 1	Gwaith maes craidd ar gyfer Darpariaeth Ysgolion Uwchradd Meirionnydd		21,000	
Un tro 2	Cymorth Adrannol Band B		42,500	
<b>Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd</b>				
Bid 3	Lleoliadau Plant Mewn Gofal	1,780,000		
Bid 4	Gwasanaeth Cefnogol Plant	55,000		
Un tro 3	Swyddog Cefnogi Teuluoedd Maethu		150,000	
<b>Adran Amgylchedd</b>				
Cyf 1	Darpariaeth pwyntiau gwefru cerbydau cyhoeddus			456,000
<b>Adran Economi a Chymuned</b>				
Cyf 2	Cronfa Datblygu Gwirfoddol (CIST Gwynedd)			50,000
Cyf 3	Pont Aberdyfi			50,000
<b>Adran Tai ac Eiddo</b>				
Bid 5	Gwasanaethau Digartrefedd	57,560		
Bid 6	Llety dros dro	265,000		
Cyf 4	Gwella diogelwch swyddfeydd Cae Penarlâg a Ffordd y Cob			30,000
<b>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</b>				
Cyf 5	Cyfleusterau golchi cerbydau graeanu Ardal Arfon			65,000
Cyf 6	Adeiladu pont newydd dros yr Afon Rhyd-Hir (Pont Bodfel yn Boduan)			1,200,000
Un tro 4	Gwywiad yr Onnen		98,000	
<b>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</b>				
Bid 7	Llety Cefnogol - Anabledd Dysgu	877,220		
Bid 8	Oed Trosglwyddo - Oedolion ifanc Anableddau Dysgu	389,200		
Bid 9	Ildio cytundebau Tai a Chefnogaeth	110,410		
Bid 10	Cyfarch anghenion staffio gofal mwy dwys mewn dau Gartref Preswyl	395,300		
Bid 11	Costau gofal Cartrefi Preswyl a Nyrsio Preifat	73,000		
Cyf 7	Darpariaeth Di-wifr o fewn Cartrefi Preswyl y Cynqor			94,360
Cyf 8	RITA - System therapi atgof digidol mewn Cartrefi Preswyl			58,860

*Nodyn - Bidiau Cyfalaf  
£1m eisioes yn y Rhaglen Gyfalaf,  
gyda £1m ychwanegol yn 2020/21*

**BIDIAU REFENIW PARHAOL 2020/21**

	Teitl y Bid	Manylion y Bid	Swm a Argymhellir (£)
<b>ADDYSG</b>			
Bid 1	Cludiant Tacsis Ysgolion	Cytundebau diweddaraf ar sail 187 diwrnod (nifer dyddiau blwyddyn gyllidol 2020/21) yn dangos gwariant o £2.474m, yn erbyn cyllideb o £2.164m – diffyg o £310k. Mae'r gorwariant yn gysylltiedig â diffyg o £150k yn bid a gyflwynwyd ar gyfer y flwyddyn gyllidol 2019/20 (cyflwynwyd bid o £550k a derbyniwyd £400k). Noder fod y gyllideb hefyd wedi gostwng £170k yn barhaol ers 2019/20 o ganlyniad i ail-dendro cytundebau yn Ebrill 2019.	150,000
Bid 2	Cludiant Bysus Ysgolion	Mae'r Adran Amgylchedd yn cynnal adolygiad strategol o'r gwasanaeth cludiant cyhoeddus a fydd yn asesu a blaenoriaethu'r gwasanaethau pwysicaf. Rhagolygon diweddaraf yn dangos gorwariant o £39k ar y gyllideb 'Bysus Ysgolion' sydd yn cynnwys bid un tro o £145k yn 2019/20. Mae'r cais hwn felly yn gofyn am £184k ar sail y sefyllfa waethaf.	184,000
<b>PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD</b>			
Bid 3	Lleoliadau Plant Mewn Gofal	Cynnydd yn y nifer o leoliadau maeth efo teulu, galw am leoliadau maeth drwy asiant oherwydd diffyg capasati mewnol ac achosion dwys a chymleth sy'n gwneud lleoliad preswyl allsirol yn annorfol. Ariannu - Lleoliadau allsirol £1.030m, Lleoliadau Maethu Asiant £300k a Lleoliadau Maethu Mewnol £450k.	1,780,000
Bid 4	Gwasanaeth Cefnogol Plant	Mae'r gwasanaeth Cefnogol yn darparu gwasanaeth goruchwyllo cyswllt rhwng plant mewn gofal a'u rhieni. Mae hybu cyswllt yn gyfrifoldeb statudol. Gan fod nifer plant mewn gofal wedi cynyddu'n raddol dros amser, law yn llaw a hynny mae'r nifer trefniadau cyswllt dan oruchwyliaeth hefyd wedi cynyddu. Ariannu 2 Swyddog Cefnogol a chostau teithio.	55,000
<b>TAI AC EIDDO</b>			
Bid 5	Gwasanaethau Digartrefedd	Cyngor yn derbyn grant gan Lywodraeth Cymru i ariannu tri chynllun allweddol i'r gwasanaeth digartrefedd. Ers 2015/16 mae'r Llywodraeth wedi peidio ag ychwanegu chwyddiant blynyddol at y swm a ddyrennir i'r Cyngor felly mae hyn wedi creu diffyg yn y gyllideb.	57,560
Bid 6	Llety dros dro	Yn dilyn newidiadau yn Neddff Tai (Cymru) 2014, mae dyletswydd ar Awdurdodau Lleol roi cymorth i unrhyw berson digartref. Mae hyn wedi creu mwy o alw a'r gwasanaeth yn ceisio ymdopi gyda chynnig gwasanaeth i 36% yn ychwanegol ers i'r ddeddf ddod i rym.	265,000

<b>OEDOLION, IECHYD A LLESIANT</b>			
Bid 7	Llety Cefnogol - Anabledd Dysgu	Mae angen yr unigolion yr ydym yn eu cefnogi yn mynd yn fwy cymhleth, gyda nifer uwch o unigolion yn derbyn cefnogaeth yng Ngwynedd. Mae'r niferoedd sydd yn byw mewn tŷ a chefnogaeth wedi cynyddu ac mae hyn wedi arwain at orwariant yn y gwasanaeth Anabledd Dysgu yn ystod 2019/20 ac rydym yn rhagweld cynnydd eto dros y blynyddoedd nesaf.	877,220
Bid 8	Oed Trosglwyddo: Oedolion ifanc Anableddau Dysgu	Bydd 11 unigolyn sydd wedi derbyn gwasanaeth gan yr Adran Plant a Theuluoedd yn cychwyn derbyn gwasanaeth gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn ystod 2020/21. Bydd angen cwrdd ag anghenion yr unigolion a'u teuluoedd yn unol â'r asesiad anghenion, er mwyn cwrdd ac allbynnau llesiant penodol.	389,200
Bid 9	Darparwr annibynnol yn ildio cytundebau hanesyddol Tai a Chefnogaeth ar y sail nad ydynt mwyach yn gynaliadwy iddynt	Yn y maes Tai a Chefnogaeth, rydym yn comisiynu cwmnïau o fewn y sector annibynnol i gefnogi ein trigolion sydd ag Anableddau Dysgu. Un o'r prif gwmnïau anibynnol sy'n cael eu defnyddio ydi Allied Healthcare. Mae'r cwmni yma yn ddiweddar wedi mynd trwy broses CVA (Company Voluntary Arrangement) ac mae'r cwmni wedi nodi nad ydi 3 o'r cytundebau sydd gennym efo'r cwmni yn gynaliadwy ar sail y gost uned sy'n cael ei dalu ar hyn o bryd. Felly, roedd rhaid ail-dendro am y tri cytundeb. Mae rhain bellach wedi eu derbyn yn ôl ac mae costau ychwanegol o ddarparu'r gwasanaeth. Roedd cost cynnal y gefnogaeth yn y tri tŷ dan sylw yn £283k o dan yr hen gost uned. Yn dilyn y broses tendro, bydd y gost yn £393k. Bydd y bid o £110k felly yn ariannu'r diffyg yma, ac yn caniatáu i'r gwasanaeth barhau i gynnal gwasanaeth o safon uchel i unigolion efo Anableddau Dysgu yn unol a'u asesiad anghenion.	110,410
Bid 10	Cyfarch anghenion staffio gofal mwy dwys yng Nghartref Preswyl Hafod Mawddach a Chefn Rodyn	Darparu gofal mwy dwys mewn 2 o gartrefi preswyl y Cyngor, sef Cefn Rodyn ac Hafod Mawddach. Yr amcan sydd gan y gwasanaeth yw datblygu gwasanaethau fydd yn hybu bywyd y defnyddwyr, cefnogi eu gofal cymleth ac hybu annibyniaeth.	395,300
Bid 11	Costau Gofal Cartrefi Preswyl a Nyrsio Preifat	Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor drefniant ffi safonol o ran lleoli unigolion mewn cartrefi preswyl a nyrsio preifat. Mae nifer cynyddol o gartrefi yn gwrthod ffi safonol y Cyngor gan nodi nad yw'n ddigonol, ac yn mynnu pris uwch am y lleoliad. Os nad yw'r Cyngor yn gallu canfod lleoliad arall sy'n addas i'r unigolyn o fewn ffi safonol y Cyngor, ni fydd dewis ond talu'r ffi y mae'r cartref yn ei fynnu.	73,000
<b>CYFANSWM BIDIAU REFENIW</b>			<b>4,336,690</b>



**BIDIAU REFENIW UN TRO 2020/21**

	Teitl y Bid	Manylion y Bid	Swm a Argymhellir (£)
<b>ADDYSG</b>			
Un tro 1	Gwaith maes craidd ar gyfer Darpariaeth Ysgolion Uwchradd Meirionnydd	Ariannu 3 ymgynghorwr allanol i edrych yn fanwl ar yr heriau sydd wedi codi wrth geisio gwella cydweithio strategol rhwng yr Awdurdod ac Ysgolion Uwchradd Meirionnydd.	21,000
Un tro 2	Cymorth Adrannol Band B	I ariannu cefnogaeth arbenigol i wireddu Band B o'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif sydd yn cynnwys buddsoddiad strategol allweddol ar gyfer gwella stad addysgol ar draws y Sir.	42,500
<b>PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD</b>			
Un tro 3	Swyddog Cefnogi Teuluoedd Maethu	Mae lleoliadau maethu gyda theulu yn medru bod yn gymhleth i'w gefnogi, sydd yn ei dro yn cael effaith ar amser y tim i gefnogi gofawyr maeth cyffredinol. 2 Swyddog Cefnogi Teuluoedd Maethu am gyfnod o ddwy flynedd.	150,000
<b>PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL</b>			
Un tro 4	Gwywiad yr Onnen	Gwywiad yr onnen yw'r clefyd mwyaf i gael effaith ar y DU. Bydd gwywiad yr onnen yn arwain at newidiadau i'n tirwedd a phoblogaeth goed, newidiadau i fioamrywiaeth, cymeriad y tirwedd ac o bosib cynyddu effeithiau tebyg i lifogydd. I gyflogi 2.5 swydd i asesu a chasglu data ar y clefyd "Gwywiad yr Onnen". Mae angen asesu'r effaith ar ein sefydliad h.y. sawl coeden onnen sydd ganddom a faint sydd gyda'r gwywiad.	98,000
<b>CYFANSWM BIDIAU REFENIW UN TRO</b>			<b>311,500</b>

Tud. 284

**BIDIAU CYFALAF 2020/21**

	Teitl y Bid	Manylion y Bid	Swm a Argymhellir (£)
<b>AMGYLCHEDD</b>			
Cyf 1	Darpariaeth pwyntiau gwefru cerbydau cyhoeddus	<p>Mae bwriad o gyflwyno cais i Lywodraeth Prydain am arian cyfalaf er mwyn cael mwy o bwyntiau gwefru cyhoeddus i gerbydau trydan. Ond ni fydd y Llywodraeth yn ariannu 100% o'r prosiect - Dim ond meysydd parcio arhosiad hir sy'n gymwys. Nid yw'r grant yn cyllido 100% o'r costau yn y safleoedd sydd yn gymwys.</p> <p><u>Meysydd Parcio sydd ddim yn gymwys am grant:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Intec, Bangor</li> <li>• Byw'n Iach – Bala, Bangor, Bethesda, Porthmadog, Caernarfon, Dolgellau, Pwllheli, Tywyn</li> <li>• Maes Parcio – Glanrafon (Bangor), Glan-y-Môr Uchaf (Caernarfon), Gilfach Ddu (Llanberis), Ffordd y Cob (Pwllheli)</li> </ul> <p><u>Meysydd Parcio sydd yn gymwys am grant</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Aberdyfi</li> <li>• Abermaw</li> <li>• Safle Shell, Caernarfon</li> <li>• Llyn Bach, Porthmadog</li> <li>• Sgwâr Kyffin, Bangor</li> <li>• Ffordd Balaclafa, Caernarfon</li> <li>• Ger-y-Llyn, Llanberis</li> <li>• Bron-y-Graig Uchaf, Harlech</li> </ul>	456,000
<b>ECONOMI A CHYMUNED</b>			
Cyf 2	Cronfa Datblygu Gwirfoddol - Cyfalaf (CIST Gwynedd)	Mae CIST Gwynedd yn darparu grantiau refeniw a chyfalaf i grwpiau gwirfoddol ar draws y sir i ddatblygu a gwireddu prosiectau cymunedol. Cyflwynwyd bid am £70k yn 2019/20 a cymeradwywyd £50k, gyda'r arian wedi ei neilltuo i gefnogi 6 prosiect.	50,000
Cyf 3	Pont Aberdyfi	Cyflwr Pont Aberdyfi wedi dirywio ac wedi dod i ddiwedd ei oes. Amcan gost am osod pont newydd yw £100k. Cyflwynir y bid ar y sail y byddai'r elusen Outward Bound (OB) yn cwrdd â 50% o gost y cynllun. Cafodd bid ei gyflwyno yn 2018/19 am swm o £114k. Ail-gyflwyno'r bid gan adlewyrchu cyfraniad OB a rhai arbedion yn sgil adolygu dyluniad y bont.	50,000

Tud. 285

<b>TAI AC EIDDO</b>			
Cyf 4	Gwella diogelwch swyddfeydd Cae Penarlâg a Ffordd y Cob	I ariannu system Cerdyn Mynediad (System fynediad drysau AIT) i Ffordd y Cob a Chae Penarlâg.	30,000
<b>PRIFYRDD A BWRDEISTREFOL</b>			
Cyf 5	Golchi cerbydau graeanu Ardal Arfon	Mae'r angen i gael man golchi pwrpasol yn Storfa Halen Cibyn er sicrhau bod y cerbydau graeanu a'r cerbyd llwytho yn cael eu glanhau ar ddiwedd pob gweithred. Nid yw'r drefn bresennol yn cyfarfod y gofynion nac ychwaith yn cyd fynd â rheoliadau delio a dŵr llygredig.	65,000
Cyf 6	Adeiladu pont newydd (Bodfel) dros yr Afon Rhyd-hir (Boduan)	Bu trafodaeth gyda Cadw a swyddogion Cadwraeth y Cyngor am ledu yr hen bont tra wrthi'n cario allan y gwaith cynnal, ond nid oedd hyn yn dderbyniol. Rydym felly wedi gwyntyllu adeiladu pont newydd ar y safle y bont dros dro er ymateb pryderon diogelwch defnyddwyr yr hen ffordd dros y bont oherwydd ei bod yn gul ac ond lled un rhes o draffig. Bydd yr opsiwn yma hefyd yn lleihau ein gwariant anorfod o godi allan y pridd sydd o fewn yr hen bont a'i ail osod gyda concrid.	1,200,000
<b>OEDOLION, IECHYD A LLESIANT</b>			
Cyf 7	Darpariaeth Di-wifr o fewn Cartrefi Preswyl y Cyngor	Helpu'r preswylwyr fod yn fwy annibynnol a llai unig. Galluogi gweithwyr o fewn y cartref i archebu nwyddau, cyflawni hyfforddiant ayyb ar-lein. Galluogi gweithwyr cymdeithasol/gweithwyr gofal i asesu ac arolygu achosion o fewn y Cartrefi a chofnodi yn y fan a'r lle. Sicrhau fod unigolion yn gallu "gweld" arbenigwyr mewn ysbytai ble mae diffyg trafndiaeth i fynychu apwyntiadau.	94,360
Cyf 8	RITA - System therapi atgof digidol mewn Cartrefi Preswyl	System fyddai yn atgyfnerthu bywyd unigolion sy'n byw gyda Dementia yn ein cartrefi preswyl. Gall gefnogi a hwyluso bywyd dydd i ddydd, cefnogi gweithgareddau ystyrlon, gan helpu gyda gwneud defnydd effeithiol o gapasiti y staff yn y gweithle.	58,860
<b>CYFANSWM BIDIAU CYFALAF</b>			<b>2,004,220</b>

## **ATODIAD 3**

### **ARBEDION**

Yr arbedion a ddewiswyd at ddibenion cwrdd ag elfen o'r galwadau ychwanegol am wasanaethau'r Cyngor wrth osod cyllideb 2020/21.

1. Ar 23 Gorffennaf 2019 bu i'r Cabinet ystyried adroddiad a oedd yn ceisio darogan y sefyllfa ariannol y byddwn yn ei wynebu yn 2020/21.
2. Fe nodwyd bryd hynny, oherwydd nad oedd y grant yr oeddem wedi bod yn ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru dros y 12 mlynedd diwethaf wedi bod yn ddigonol i gwrdd â chwyddiant, a chan fod galwadau mewn amrywiol feysydd fel gofal oedolion a phlant yn cynyddu hefyd, roeddem wedi bod mewn cylch parhaus o orfod darganfod arbedion.
3. Oherwydd hynny tra byddai yna gyfleoedd cyfyngedig i geisio darganfod mwy o arbedion effeithlonrwydd roeddem bellach wedi cyrraedd sefyllfa lle y byddai unrhyw angen am arbedion o sylwedd yn debygol o olygu toriadau i wasanaethau.
4. Ar ben hynny, gan nad oeddwn yn gwybod beth fyddai'r cytundebau tâl fyddai'n cael ei gytuno ar gyfer y gweithlu nac ychwaith yn gwybod beth fyddai'r setliad grant gan y Llywodraeth ar gyfer 2020/21, roedd yn hynod heriol i ddarogan gyda hyder beth fyddai maint y bwlc ariannol y byddem yn ei wynebu yn 2020/21.
5. Roedd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 23 Gorffennaf 2019 yn darogan bwlc ariannu rhwng £1.7m a £7.3m yn 2020/21 (gyda chynnydd treth 3.5%).
6. Felly, penderfynwyd gofyn i adrannau ddarganfod eu siâr nhw o £2m i adnabod arbedion ar gyfer 2020/21, gan ofyn i'r Pwyllgorau Craffu ystyried holl gynlluniau 'posib' a gyflwynwyd gan yr adrannau (ac ysgolion).
7. Roedd yr holl adrannau wedi adrodd ar eu cynigion i'r pwyllgorau craffu, ac yng nghyfarfod 17 Rhagfyr 2019, cyflawnodd aelodau'r Cabinet y dasg o ddethol y cynlluniau cyflwynir yma'n y rhestr ganlynol (gwerth £1m) gyda'r ardrawiad lleiaf ar drigolion yn y meysydd unigol.
8. Yn gyffredinol, roedd y pwyllgorau craffu yn gytûn mai dyna oedd wedi cael ei sefydlu, ond gyda rhai eithriadau.

9. Wedi adnabod bwlch ariannu tebygol 2020/21 yn sgil 'setliad' dangosol Llywodraeth Cymru gwell na'r disgwyl ar gyfer awdurdodau lleol, roedd y Cabinet yn cefnogi barn y pwyllgorau craffu wrth benderfynu ymwrthod rhag defnyddio'r arbedion canlynol –
  - Cynigion Adrannau Plant a Theuluoedd ac Economi a Chymuned sy'n ymwneud â gwasanaethau dewisol eu natur gwerth cyfanswm o **£31,000**;
  - Cynnig gwerth **£112,530** o fewn maes Addysg i leihau'r gyllideb ADY ganolog yn sgil lleihad mewn gwariant perthnasol (£110,000 eisoes yn cael ei ddefnyddio i gyfarch bwlch mewn cynllun arbedion nad yw'n gwireddu);
  - Cynigion gwerth cyfanswm o **£331,000** o fewn maes Oedolion oedd am gael ardrawiad ar wasanaethau rheng flaen;
  - Cynnig i leihau dyraniad cyllidebau cyffredinol ysgolion o **£463,900**.
10. Wedi gwrandao ar adborth cefnogol aelodau yn y 'Gweithdai Cyllideb' ar 20-27 Ionawr, mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid yn cyflwyno'r rhestr ganlynol o arbedion gwerth cyfanswm o £1,062,320 i'w gwireddu yn 2020/21.
11. Ni ddylai'r arbedion "effeithlonrwydd" yma gael effaith o sylwedd ar drigolion Gwynedd.
12. Hefyd, er mwyn cyfarch bwlch ariannol 2020/21, amcangyfrifir gellid gwireddu gwerth £923,080 o gynlluniau arbedion sydd eisoes wedi'u cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol (felly ddim yn destun penderfyniad eleni).
13. Gall gweithredu rhai o'r arbedion, wrth gwrs, orfod dilyn prosesau statudol a byddent yn ddarostyngedig i ganlyniadau prosesau o'r fath. Yn amlwg mae'r argymhelliad ac unrhyw benderfyniad yn cydnabod hyn ac nid yw yn rhagfarnu eu deilliannau.
14. Byddai'r cynigion a nodir yn y rhestr ganlynol yn cynhyrchu'r arbedion £1,062,320 yn 2020/21.

Swm £	Pennawd Cyllideb a Chynigion	Effaith ar Drigolion
----------	------------------------------	----------------------

## Plant a Chefnogi Teuluoedd

£53,000	Amrywiol - addasu cyfraddau chwyddiant.	Dim effaith ar drigolion. Mae'r Gwasanaeth yn ddiweddar wedi mynd drwy broses ail strwythuro dyletswyddau. Roedd swydd yn wag yn y gwasanaeth ac roedd modd ail ddyrannu'r gwaith ar draws y timau heb ardrawiad negyddol ar ddarparu gwasanaethau uniongyrchol.
£30,000	Staffio - dileu swydd yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.	Dim effaith ar drigolion. Mae'r Gwasanaeth yn ddiweddar wedi mynd drwy broses ail strwythuro dyletswyddau. Roedd swydd yn wag yn y gwasanaeth ac roedd modd ail ddyrannu'r gwaith ar draws y timau heb ardrawiad negyddol ar ddarparu gwasanaethau uniongyrchol i bobl ifanc a'u teuluoedd.
<b>£83,000</b>	<b>Cyfanswm</b>	

## Oedolion, Iechyd a Llesiant

£43,850	Ildio Chwyddiant - i. ildio chwyddiant (CPI tua 1.5%) ar gyllidebau amrywiol ond eithrio cyllidebau ar gyfer comisiynu gwasanaethau 3ydd Sector lle mae costau staffio.	Byddai hyn yn rhoi elfen o bwysau ychwanegol ar ystod eang o gyllidebau ond oherwydd eu natur ni ddylai hynny gael effaith sylweddol ar drigolion. Gallai yr elfennau sydd a chostau staffio gael rhyw gymaint o effaith ar raglenni lle mae y 3ydd sector yn cefnogi gwaith yn y gymuned.
£7,550	ii. ildio chwyddiant (CPI tua 1.5%) comisiynu 3ydd Sector lle mae costau staffio.	
£16,660	iii. ildio chwyddiant contractau mudiadau 3ydd sector.	

Swm £	Pennawd Cyllideb a Chynigion	Effaith ar Drigolion
£39,850	Cyllidebau sydd yn tanwario'n flynyddol - mae nifer fechan o gyllidebau o fewn yr Adran yn tanwario o flwyddyn i flwyddyn. Yn hytrach na defnyddio yr arian i gynorthwyo gyda cyllidebau sydd yn gorwario yn flynyddol, cynigir bod y symiau yn cael eu cynaeafu fel arbediad.	Er na fyddai cynaeafu yr arian yn cael effaith ar y penawdau cyllideb dan sylw mae'n bosib y byddai'r gwasanaethau sydd yn cael eu cynorthwyo o flwyddyn i flwyddyn yn cael eu rhoi dan fwy o bwysau gyda risg uwch o orwariant o 2020/21 ymlaen. Byddai unrhyw effaith ar drigolion yn dibynnu ar lwyddiant i reoli galw a gwariant yn y cyllidebau hynny.
£49,360	Cefnogaeth Busnes - ail strwythuro y Gwasanaeth Busnes gan leihau'r gefnogaeth a roir i'r timau adnoddau cymunedol integredig.  Addasu a lleihau ymhellach y gefnogaeth fusnes a roddir i dimau rheng flaen yr Adrannau Oedolion a Plant.	Mae'r timau yma eisoes wedi eu lleihau yn y cylch toriadau diwethaf. Rhagwelir y byddai y cynllun hwn yn arwain at ostyngiad sylweddol mewn perfformiad ar draws y Gwasanaeth Busnes o ran arbenigedd, llwyth gwaith ac arweiniad a sgil effaith hynny fyddai effaith negyddol ar allu'r Adrannau Oedolion a Plant i fod yn cyflawni eu pwrpas. Byddai hynny, ynghyd a'r angen i neilltuo cyfran o amser staff maes i ymgymryd â dyletswyddau gweinyddol yn cael effaith ar groes-doriad eang o unigolion a theuluoedd sy'n cael cefnogaeth.
<b>£157,270</b>	<b>Cyfanswm</b>	

Tud. 290

**Tai ac Eiddo**

£35,000	Cynnal a Chadw Adeiladau - mewnnoli'r gwaith statudol o archwilio systemau dŵr yn holl adeiladau'r Cyngor i amddiffyn defnyddwyr rhag Clefyd y Llengfilwyr.	Dim. Mae hwn yn arbediad effeithlonrwydd a fydd yn golygu y bydd y gwaith yn dal i gael ei gwblhau ond mewn ffordd ratach. Mae contractwyr allanol arbenigol yn gwneud y gwaith ar hyn o bryd. Rydym wedi bod yn meithrin yr arbenigedd hwn yn fewnol yn ddiweddar ac, nawr, trwy benodi dau swyddog ychwanegol, gallwn wneud y gwaith hwn ein hunain am gôst is na thalu cwmni preifat i'w wneud ar ein rhan. Bydd hyn hefyd yn golygu y gallwn warantu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg o hyn ymlaen - nid yw hyn bob amser yn wir wrth ddefnyddio contractwyr allanol.
---------	---	---

Swm £	Pennawd Cyllideb a Chynigion	Effaith ar Drigolion
£25,000	Cynnal a Chadw Adeiladau - mewnoli gwaith cynnal a chadw trydanol yn adeiladau'r Cyngor.	<p>Dim. Mae hwn yn arbediad effeithlonrwydd a fydd yn golygu y bydd y gwaith yn dal i gael ei gwblhau ond mewn ffordd ratach.</p> <p>Yn draddodiadol, mae'r Cyngor wedi bod yn penodi contractwyr allanol i gwblhau ei holl waith cynnal a chadw adeiladau. Yn gyffredinol, mae hyn yn gweithio'n effeithiol ond mae problemau parhaus wrth geisio gwneud gwaith ar raddfa fach, sy'n werth ychydig gannoedd o bunnoedd ar y tro. Roedd yr amser arwain i mewn yn hir i gwsmeriaid a'r gôst yn uwch na'r hyn sy'n dderbyniol.</p> <p>Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi penodi ein seiri a'n plymwyr ein hunain i wneud y math hwn o waith, ac mae hyn wedi caniatáu i ni leihau'r amser arwain i'n cwsmeriaid ac wedi caniatáu i ni sicrhau ein bod yn cael gwell gwerth am arian. Rydym wedi creu achos busnes sy'n dangos y gellid gwireddu arbedion pellach trwy gyflogi dau drydanwr ein hunain.</p> <p>Bydd hyn hefyd yn golygu y gallwn warantu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg o hyn ymlaen - nid yw hyn bob amser yn wir wrth ddefnyddio contractwyr allanol.</p>
£60,000	Cyfanswm	



Swm £	Pennawd Cyllideb a Chynigion	Effaith ar Drigolion
----------	------------------------------	----------------------

## Addysg ac Ysgolion

## Ysgolion

£31,620	Lwfans y pen - peidio ychwanegu chwyddiant yn llawn	Lleihad cymharol fychan yn yr adnoddau addysgol fydd ar gael i ddisgyblion a thrwy hynny angen i'r ysgolion fod yn fwy effeithlon gyda defnydd o'u hadnoddau.
<b>£31,620</b>	<b>Is-gyfanswm</b>	

## Adran Addysg

£17,630	Amrywiol - peidio ychwanegu chwyddiant yn llawn ar adnoddau nad ydynt yn staff.	Dim effaith ar drigolion ar y sail y bydd swyddogion yn ymdopi gyda'r arbediad trwy fod yn fwy effeithlon gyda defnydd o adnoddau.
£55,900	Lleihad côst cytundeb blynyddol Cyd Bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) - mae'r lleihad yn y gôst eisoes wedi'i gyflawni trwy gyfuniad o ymdrechion ar y cyd rhwng CBAC, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru i ddarganfod arbedion effeithlonrwydd ariannol.	Dim effaith ar drigolion.
£46,500	Lleihau'r gronfa datblygu - mae gan yr Adran Addysg gronfa ddatblygu (cymharol fechan) gwerth £89,710, cyn gweithredu'r arbediad yma. Mae'r gronfa yn galluogi'r Adran i fuddsoddi mewn blaenoriaethau un tro yn amserol ac sydd y tu allan i Gynllun y Cyngor. Yn dilyn asesiad o gyllideb yr Adran Addysg ac ymarferiad blaenoriaethu, y consensws yw y gellid lleihau'r gronfa ddatblygu. Er hynny, pwysleisir nad fan hyn y byddwn yn troi ato os bydd angen darganfod arbedion pellach yn y dyfodol.	Lleihau gallu'r Adran Addysg i gyllido rhai blaenoriaethau y tu allan i Gynllun y Cyngor, allai arwain at effaith cymharol fychan ar drigolion.
<b>£120,030</b>	<b>Is-gyfanswm</b>	
<b>£151,650</b>	<b>Cyfanswm</b>	

Swm £	Pennawd Cyllideb a Chynigion	Effaith ar Drigolion
----------	------------------------------	----------------------

## Economi a Chymuned

£17,530	Peidio ychwanegu chwyddiant yn llawn neu yn rhannol ar benawdau gellir eu rheoli – penawdau cyflenwadau a gwasanaethau yn bennaf.	Arbedion ymylol ar benawdau y gellir eu rheoli – nid oes disgwyl i'r arbedion yma gael effaith ar drigolion Gwynedd.
£8,290	Peidio ychwanegu chwyddiant yn llawn neu yn rhannol ar gyllidebau sydd yn cyfrannu at gronfeydd adnewyddu. Cronfeydd Morwrol ac Hamdden yn benodol.	Yn golygu lleihad yn y buddsoddiad i adnewyddu offer yn y dyfodol all effeithio maes o law ar ansawdd y gwasanaeth a'r targed incwm.
£1,920	Peidio ychwanegu chwyddiant ar bennawd Grantiau Celfyddydau.	Yn golygu lleihad yn y grant y gellir ei ddosrannu i bartneriaid yn y dyfodol i hyrwyddo'r celfyddydau.
£12,820	Diddymu cyllideb wrth gefn Gwasanaeth Hamdden. Wrth drosglwyddo rheolaeth gwasanaeth hamdden i Cwmni Byw'n Iach 1/4/19 sefydlwyd cyllideb ar gyfer gwariant annisgwyl sydd tu allan i reolaeth yr Adran. E.e. eleni mae gwaith cynnal a chadw brys yn Canolfan Glaslyn yn sgil pibell ddŵr yn gollwng wedi golygu cost uwch na'r disgwyl ar y gyllideb "prynu ddŵr".	Dim effaith uniongyrchol ar drigolion ond mae'r cynnig hwn yn golygu nad oes ffynhonnell gan yr Adran i ariannu materion annisgwyl heb reolaeth arnynt fydd yn arwain at orwariant.
£2,650	Arbedion y Gwasanaeth Archifau – trwy ddefnyddio dulliau digidol i atgynhyrchu lluniau a hyrwyddo digwyddiadau.	Arbedion effeithlonrwydd felly dim effaith ar drigolion Gwynedd.
£7,200	Arbedion trwy ddiddymu swydd Cydlynnydd Digidol Gwasanaeth Llyfrgelloedd. Mae'r swydd yn wag ac yn sgil adolygiad Ffordd Gwynedd mae'r gwasanaeth wedi ailystyried ei flaenoriaethau ac yn cynnig diddymu rhan o'r swydd fel toriad heb effaith uniongyrchol ar y maes darpariaeth digidol.	Arbedion effeithlonrwydd felly dim effaith ar drigolion Gwynedd.

Swm £	Pennawd Cyllideb a Chynigion	Effaith ar Drigolion
£4,000	Arbedion yn Parc Padarn yn deillio trwy ail-strwythuro trefniadau staffio a wnaed yn dilyn targed arbedion effeithlonrwydd ac ymddeoliad cynnar Rheolwr y Parc nôl yn 2014/15.	Arbedion effeithlonrwydd felly dim effaith ar drigolion Gwynedd.
£500	Arbedion Rheolaeth yr Adran – peidio prynu papurau newydd dyddiol.	Arbedion effeithlonrwydd felly dim effaith ar drigolion Gwynedd.
£2,000	Arbedion prydles Stad y Goron yn y Gwasanaeth Morwrol. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i gytundeb "composite lease" gyda Stad y Goron ar gyfer arfordir Gwynedd. Mae trafodaethau wedi cychwyn i addasu prydles yr Hafan i fod yn seiliedig ar drosiant cyfredol yn hytrach na trosiant hanesyddol. Mae'r gytundeb presennol yn ymrwymo y Cyngor i wariant o £144,990 yn yr Hafan, Pwllheli. Mae'r gyllideb presennol yn £153,200 ond nid oes gwybodaeth eto am beth fydd yn ddyledus i'r dyfodol. Fodd bynnag rhagwelir fod digon o sgôp i roi £2,000 i fyny fel arbedion.	Arbedion effeithlonrwydd felly dim effaith ar drigolion Gwynedd.
£6,000	Cwtogi gwariant ar nifer o benawdau tim cefnogi busnes gan gynnwys costau swyddfa, marchnata, rhwydweithio, tanysgrifiadau, ayb.	Bydd rhan o'r toriad yn arbediad effeithlonrwydd drwy newid strwythur a cyfuno unedau gwasanaeth, ond bydd elfen o'r toriad yn lleihau gallu'r Gwasanaeth i ymgysylltu gyda busnesau drwy leihau nifer ymgyrchoedd marchnata a rhwydweithio.
£3,000	Cwtogi'r gwariant ar nifer o benawdau'r Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau yn bennaf cyllidebau penodol ar gyfer marchnata a digwyddiadau allanol.	Bydd lleihad yn y gefnogaeth sydd ar gael i fusnesau lleol gyda llai o ymgyrchoedd marchnata a sesiynau i ymgysylltu gyda'r sector dwristiaeth.
<b>£65,910</b>	<b>Cyfanswm</b>	

Swm £	Pennawd Cyllideb a Chynigion	Effaith ar Drigolion
----------	------------------------------	----------------------

## Cefnogaeth Gorfforaethol

£16,140	Peidio rhoi chwyddiant ar gyllidebau deunyddiau a chyflenwadau o fewn yr Adran.	Dim - o ystyried cynigion eraill i dorri ar gyllidebau deunyddiau a chyflenwadau, ni ystyrir peidio rhoi chwyddiant ar y cyllidebau hyn yn 2020/21 yn gam a fyddai'n effeithio ar allu'r Adran i gyflawni ei swyddogaeth.
£7,200	Peidio adnewyddu trwydded Cyswllt Cwsmer.	Dim - yn bresennol, defnyddir meddalwedd NDL ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth o'r Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer yn uniongyrchol i system APAS o fewn y Gwasanaeth Cynllunio. Mae newidiadau yn y modd y gweithredir oddi ar y 1af o Ebrill 2020 yn golygu na fydd angen buddsoddi yn y drwydded hon i'r dyfodol.
£24,000	Lleihau amryw gyllidebau canolog ac o fewn y Gwasanaeth Cefnogi Busnes a'r Gwasanaeth Cefnogol yn benodol.	Dim - ceir cyfuniad yma o arbedion bychain yn deillio o ail-strwythuro blaenorol o fewn yr Adran, gostyngiad mewn gwariant ar argraffu dogfennau corfforaethol e.e. Cynllun y Cyngor, Adroddiad Perfformiad, yn ogystal â lleihau gwariant ar ddeunyddiau a chyflenwadau.
£10,000	Denu incwm ychwanegol o ffynonellau newydd.	Dim - darparu gwasanaethau i sefydliad allanol o'r newydd.
£4,000	Lleihad gwariant ar gyflogau o fewn y Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer.	Dim - yr arbediad yma yn deillio o'r symud cynyddol i ddefnyddio darpariaeth hunanwasanaeth ochr yn ochr ag ail-strwythuro o fewn trefniadau rheoli'r Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer yn ddiweddar.
<b>£61,340</b>	<b>Cyfanswm</b>	

## Cyllid

£14,000	Chwyddiant - Amrywiol - peidio ychwanegu chwyddiant am 2020/21 ar rai cyllidebau heblaw am staff.	Dim effaith ar drigolion Gwynedd - gall yr Adran barhau i gyflawni ei swyddogaeth tra'n peidio rhoi chwyddiant ar rai penawdau cyllideb.
£14,000	Cyfrifeg/Rheoli - denu incwm ychwanegol drwy gytundebau o'r newydd.	Dim effaith ar drigolion Gwynedd - daw'r incwm o ddarparu gwasanaethau i sefydliad allanol o'r newydd.

Swm £	Pennawd Cyllideb a Chynigion	Effaith ar Drigolion
£11,000	Technoleg Gwybodaeth - denu incwm ychwanegol, cyfuniad o gytundebau newydd a gweithgareddau ychwanegol.	Dim effaith ar drigolion Gwynedd - derbynnir incwm gan gwsmer allanol am lefel uwch o ddarpariaeth.
£12,000	Trethi Annomestig - denu incwm ychwanegol o ffi gweinyddu cynllun Ardal Gwella Busnes (AGB).	Dim effaith ar drigolion Gwynedd - mae'r incwm 'newydd' yma'n dod o gytundeb sydd bellach yn ddibynadwy.
£7,930	Moderneiddio - lleihau nifer o gyllidebau drwy weithredu ffyrdd newydd o weithio ar draws yr adran.	Dim effaith ar drigolion Gwynedd - wrth ddefnyddio gwasanaethau ar-lein, rydym am wario llai ar bostio, rhybuddion statudol ac ar wasanaethau arbenigol.
<b>£58,930</b>	<b>Cyfanswm</b>	

## Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol

Lud. 296	£5,000	Hepgor chwyddiant ar rai penawdau cyllidebol y Tîm Arweinyddiaeth, Cyfreithiol, Cofrestru Etholwyr a'r Crwner.	Dim effaith amlwg - dylid medru dygymod gyda'r cyllidebau dan sylw ar eu lefelau presennol.
	£3,000	Tîm Arweinyddiaeth a Swyddog Monitro - Lleihau cyllideb postio, offer a dodrefn.	Dim - yn sgil symud i fwy o ddefnydd technoleg rydym yn gwario llai ar y gyllideb postio a gellir ei leihau'n sylweddol.
	£3,390	Tîm Arweinyddiaeth - Lleihau cyllideb cynadleddau.	Dim - yn sgil y bwriad i gadw un swydd Cyfarwyddwr yn wag bydd yna lai o allu i fynd i gyfarfodydd ar ran y Cyngor ac felly llai o wariant cefnogol yn gwneud hynny.
	£2,500	Darfod achrediad Cyfreithiol Lexcel.	Dim - bwriedir hepgor achrediad allanol Lexcel gyda threfniadau rheoli swyddfa yn parhau i gael eu cynnal yn unol â'r un egwyddorion.
	£2,910	Cyfreithiol - Incwm.	Dim - dros y blynyddoedd a fu, er mwyn cwrdd â thargedau incwm bu'r Uned Gyfreithiol yn gwneud gwaith allanol er mwyn denu incwm. Dengys lefelau presennol ein bod yn cynhyrchu mwy na ddisgwyliwyd yn wreiddiol.
	<b>£16,800</b>	<b>Cyfanswm</b>	

Swm £	Pennawd Cyllideb a Chynigion	Effaith ar Drigolion
----------	------------------------------	----------------------

## Amgylchedd

£9,580	Gweithiau - rhewi chwyddiant.	Ni ragwelir effaith ar drigolion Gwynedd wrth rewi chwyddiant am un flwyddyn yn unig gan fod yn swm eithaf bychain.
£4,000	Rheolaeth Adeiladu - ffioedd darparu cyngor ymlaen llaw.	Nid yw'r ffioedd yma'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd, ond mae trefn debyg mewn bodolaeth yn y Gwasanaeth Cynllunio. Mae'r adborth gan y sawl sy'n derbyn y sylwadau yn gadarnhaol dros ben, gyda thrigolion yn teimlo eu bod yn cael cyngor llawer mwy defnyddiol a'i fod yn werth am arian.
£5,000	Lleihau cyllideb Hyfforddiant.	Ni ragwelir effaith sylweddol yma ar drigolion Gwynedd. Fe fydd angen i'r Adran fod yn fwy penodol ar ba hyfforddiant sydd wirioneddol ei angen i lenwi bylchau mewn gwybodaeth ac i fod yn cwrdd â gofynion newydd ynghyd a datblygu staff.
£15,000	Gwaith stryd - torri hanner swydd.	Gall colli hanner swydd arwain at ardrawiad sylweddol, ond rhagwelir bod posib lleihau'r effaith yn sylweddol drwy well defnydd o dechnoleg a chydweithio agosach gyda'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.
£2,000	Deunyddiau swyddfa.	Mae'r holl fesurau arbedion yma yn ymwneud â phrynu'n rhatach, prynu llai, neu beidio â phrynu o gwbl drwy wneud gwell defnydd o dechnoleg (e.e. defnyddio llai o bapur, argraffu llai). Mae'r adran mewn gwirionedd yn gor-gyflawni o dan y pennawd 'Rheolaeth Categori' yn eu rhestr arbedion Adranol. Ni ragwelir effaith ar drigolion Gwynedd.
£8,000	Argraffu/llungopïo.	
£5,000	Gwasanaeth proffesiynol/technegol.	
£7,420	Tanysgrifiadau.	
£25,000	Offer a chelfi.	
£15,560	Arbedion trwy brynu'n rhatach (meddalwedd).	
<b>£96,560</b>	<b>Cyfanswm</b>	

Swm £	Pennawd Cyllideb a Chynigion	Effaith ar Drigolion
----------	------------------------------	----------------------

## Priffyrdd a Bwrdeistrefol

£15,000	Lleihad yn nefnydd trydan Twannel Caernarfon.	Dim effaith ar drigolion - Lleihad yn y costau yn dilyn newid i'r system reoli a goleuo yn cynnwys cyflwyno lampau LED.
£3,000	Nwy yr Amlogfa (defnydd).	Dim effaith ar drigolion - Defnydd o'r ynni wedi lleihau yn dilyn gwell rheolaeth/systemau newydd.
£80,000	Côt ymdrin â gwastraff masnachol.	Dim effaith ar drigolion - Erbyn hyn rydym yn trin ein gwastraff gweddilliol yn safle Parc Adfer sydd yn safle llosgi ar y cyd gydag Awdurdodau'r Gogledd. Mae strwythur y ffi wedi sicrhau lleihad yn ein costau.
£46,250	Chwyddiant.	Dim effaith ar drigolion - Gweithio o fewn y gyllideb gyfredol 2019/20 a gweithio'n agos gyda'r Tîm Categori Priffyrdd a Bwrdeistrefol.
£20,000	Chwyddiant - deunyddiau cyffredinol.	Dim effaith ar drigolion - Addasu Cyllidebau - gweithio o fewn cyllidebau cyfredol 2019/20, gweithio mwy effeithlon ac yn agosach gyda'r Tîm Categori Priffyrdd a Bwrdeistrefol.
£7,000	Ar-ddyletswydd Bwrdeistrefol.	Dim effaith ar drigolion - Sefydlu un drefn ar-ddyletswydd ar draws yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.
£12,940	Gwariant amrywiol fflyd.	Dim effaith ar drigolion - Mae gwaith diweddar y Tîm Categori wedi adnabod cyfleoedd o weithio yn fwy effeithlon.
£50,000	Ail-strwythuro'r Adran.	Dim effaith ar drigolion - Cyflwyno strwythur newydd o fewn yr Adran er sicrhau gwell effeithlonrwydd/cydweithio ar draws y gwasanaethau.

Swm £	Pennawd Cyllideb a Chynigion	Effaith ar Drigolion
£35,000	Cynllun Cau Cilgwyn.	Dim effaith ar drigolion - Mae Cynllun Cau yn ei le ar gyfer safle Cilgwyn sydd wedi bod a gofynion eithaf caeth mewn perthynas â gwaith monitro. Mae'r safle bellach wedi cau ers peth amser ac mae'r Adran wedi agor trafodaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar leihad gofynion y Cynllun Cau sydd wedi ei gytuno mewn egwyddor. Wrth weld y cynllun newydd yn ei le bydd gofyn am waith monitro misol yn newid i un pob chwarter sydd am leihau ar yr holl waith profi.
£12,000	Coed - dim didoli.	Dim effaith ar drigolion - Yn flaenorol roedd rhaid didoli rhai mathau o goed er sicrhau ein bod yn gallu cyfrif y gwastraff tuag at ffigyrau ailgylchu. Erbyn hyn, gan weld Parc Adfer yn weithredol ac ein bod yn gallu cyfrif 'bottom ash' nid yw'n ofynnol didoli'r coed.
<b>£281,190</b>	<b>Cyfanswm</b>	

Lud. 299

**Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)**

£7,260	Trwy wneud addasiadau i wariant a chyllidebau YGC mae effaith net o leihad yn y gwariant. Mae hyn yn rhannol wedi ei gyflawni trwy dorri'n ôl ar aelodaeth YGC o sefydliadau fel NSAN (National Skills Academy Nuclear) a hefyd dorri ar wariant ar gylchgronau a thebyg, gan fod y rhain bellach ar gael trwy ffurf electronig neu ar y we.	Dim effaith ar drigolion.
£22,410	Cynyddu adnoddau o fewn Unedau YGC sy'n galluogi'r Adran gynyddu incwm. Mae'r Ffurflenni Newid Strwythur diweddar wedi cynyddu'r capasiti o fewn meysydd Ymgynghoriaeth Costau ac Coleg.	Dim effaith ar drigolion.
<b>£29,670</b>	<b>Cyfanswm</b>	

**£1,062,320 CYFANSWM**



## ATODIAD 4

### CYFALAF

1. Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau, ac mae ymhlygiadau refeniw i wariant cyfalaf sydd heb ei ariannu drwy grant penodol.
2. Gosodaf isod raglen arfaethedig ar gyfer y cynlluniau am y dair mlynedd nesaf:

<b>RHAGLEN GYFALAF</b>			
	<b>2020/21</b>	<b>2021/22</b>	<b>2022/23</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
<b>Cynlluniau Asedau'r Cyngor :</b>			
Cynlluniau Ysgolion 21 Canrif	1,521	1,895	995
Cynlluniau Tai	2,100	2,525	2,225
Hwb Iechyd a Gofal Penygroes	750	1,750	1,000
Cartrefi/ Canolfannau Oedolion	1,476	650	450
Ffyrdd, Pontydd a Bwrdeistrefol	745	776	1,145
Cynlluniau Eraill	2,513	2,980	2,214
Bidiau Cyfalaf	1,000	500	500
<b>Cynlluniau Eraill :</b>			
Cynnal a Chadw Ysgolion – Disodli o 19/20	1,975	0	0
Cefnogi Ysgogiad Economaidd – o 19/20	925	0	0
Bidiau Cyfalaf	1,004	0	0
Strategaeth Tai	4,150	2,700	2,700
Cynlluniau Eisoedd wedi eu cymeradwyo	26,088	4,134	0
<b>CYFANSWM Y RHAGLEN</b>	<b>44,247</b>	<b>17,910</b>	<b>11,229</b>

3. Byddwn yn ariannu'r rhaglen fel a ganlyn:

<b>ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF</b>			
	<b>2020/21</b>	<b>2021/22</b>	<b>2022/23</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Benthyca Gyda Chefnogaeth	4,053	4,053	4,053
Benthyca Arall	3,563	2,567	0
Grantiau a Chyfraniadau	13,510	2,557	2,557
Derbyniadau Cyfalaf	827	0	0
Refeniw Corfforaethol	1,004	0	0
Cronfa Cyfalaf	257	3,801	0
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	21,033	4,932	4,619
<b>CYFANSWM ARIANNU'R RHAGLEN</b>	<b>44,247</b>	<b>17,910</b>	<b>11,229</b>

4. Sefydlwyd strategaeth asedau newydd o 2019/20 ymlaen gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2019. Bydd y strategaeth asedau newydd yn weithredol am y cyfnod 2019/20 hyd at 2028/29. Fe'i ymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf.

5. Sefydlwyd proffil tair mlynedd o 2019/20 gan y Cabinet ar 2 Ebrill 2019, gyda'r bedwaredd blwyddyn yn cael ei broffilio yn y rhaglen gyfalaf 2022/23.
6. Mae'r tabl uchod felly yn adlewyrchu'n fras y gofynion cyfalaf (ynghyd â'r ariannu) ar gyfer gosod cyllideb 2020/21 i 2022/23, tra bod y manylder ar y cynlluniau unigol wedi ei sefydlu gan y Cyngor yn y strategaeth asedau 10 mlynedd 2019/20 hyd 2028/29.
7. Felly, gofynnir i'r Cyngor llawn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £44,247,260 ar gyfer 2020/21, i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn y tabl o dan rhan 3 uchod.

## ATODIAD 5

### YMDRIN Â'R GYLLIDEB YSGOLION YN 2020/21

1. Wrth ddatblygu strategaeth arbedion a chyllideb drafft ar gyfer 2020/21, cytunwyd ffordd ymlaen er mwyn osgoi trosglwyddo targed arbedion o sylwedd i ysgolion Gwynedd eto eleni. Mae'r cynnig gerbron yn cynnwys un arbediad effeithlonrwydd i'r ysgolion, gwerth £31k (0.04% o'r cwantwm arian dirprwyedig) ymysg £1.9m o arbedion bydd y Cyngor yn gwiroddu erbyn 2020/21. Wrth gwrs, penderfynwyd yn y Cabinet ar 17 Rhagfyr 2019 i beidio torri £464k o'r pennawd cyllideb staff dysgu (arbediad posibl roedd dan sylw). Felly, erbyn 2020/21 bydd dim newid i'r gymhareb disgybl:athro cyfredol yn y fformiwla dyrannu cyllidebau ysgolion.
2. Bydd y gyllideb ysgolion yn cynyddu eleni oherwydd yr addasiadau "demograffi" arferol, sy'n deillio o newidiadau yn niferoedd disgyblion. Defnyddir gwir nifer disgyblion Medi 2019 i gyfrifo dyraniadau 2020/21. Mae'r sefyllfa yn gwahaniaethu o ysgol i ysgol, ond ar y cyfan mae effaith cynnydd niferoedd disgyblion yn golygu y byddai'r gyllideb ysgolion yn ei gyfanrwydd yn codi £300k, sy'n cynnwys lleihad -£152k cynradd a chynnydd +£452k uwchradd.
3. Mae Llywodraeth San Steffan wedi codi cyfradd cyfrannu cyflogwyr i'r Cynllun Pensiwn Athrawon o 16.5% i 23.6% o Fedi 2019. Bydd cost hyn yn £1.2m am y 5 mis yn 2020/21 sy'n effaith blwyddyn lawn o £2.8m gyda'r £1.6m ychwanegwyd eisoes. Mae'n 7% o gost cyflogau athrawon, ond yn gynydd 40% mewn cyfraniadau pensiwn cyflogwr.
4. Gwelir yn y rhan bidiau (Atodiad 2) o'r adroddiad hwn fod argymhelliad i gytuno i ariannu bidiau gwerth £334k, tuag at gyllidebau cludiant yr Adran Addysg, sy'n golygu y bydd cost 'Addysg' yn cynyddu eto rhwng 2019/20 a 2020/21. Yn sicr, wedi cymryd chwyddiant dros £2.3m a £1.2m pensiwn athrawon i ystyriaeth, bydd y gyllideb ysgolion dipyn uwch yn 2020/21 na lefel 2019/20.
5. Tra mae grantiau penodol gwerth £2m am tâl a phensiwn athrawon wedi trosglwyddo i'r setliad, bydd yna nifer o grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru yn parhau ym maes Addysg yn 2020/21 ar lefel tebyg i 2019/20. Hefyd, bydd grant newydd am ADY allasai fod gwerth £280k i Addysg yng Ngwynedd.

## ATODIAD 6

### TRETH CYNGOR

1. Mae'n benderfyniad allweddol i aelodau'r Cyngor llawn wneud, yn sgil yr ystyriaethau cyflwynir yma, i sefydlu union lefel y cynnydd Treth Cyngor ar gyfer 2020/21. Yr allwedd i hyn yw cael y balans yn briodol rhwng yr angen i wario ar wasanaethau i'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas, a'r cynnydd treth sydd yn addas i'w godi ar drigolion Gwynedd.
2. Yn y tybiaethau hanesyddol a wnaed yn ein strategaeth ariannol tymor canolig, defnyddiwyd ffigwr o 3.5%, fel amcangyfrif o'r cynnydd cyfartalog yng Nghymru. Erbyn 2019/20, roedd setliad grant Llywodraeth Cymru yn siomedig, ac roedd raid codi'r dreth 5.8%.
3. Eleni, erbyn 2020/21 argymhellir codi'r dreth 3.9%, fydd yn cynhyrchu £74.3m o dreth, yn cynnwys £2.7m o gynnyrch Premiwm a £2.8m o incwm ychwanegol tuag at y bwlch. Byddai hynny'n gyfystyr i gynnydd yn y Dreth Cyngor o £54.09 i eiddo mewn Band D, neu £1.04 yr wythnos. Bydd y dreth a godir gan y cynghorau cymuned a'r Awdurdod Heddlu yn ychwanegol i hyn wrth gwrs.
4. Mae dros 15.6% o dai sy'n atebol i dalu treth yng Ngwynedd yn derbyn rhyw elfen o gymorth tuag at eu Treth Cyngor, ac mae dros 60% o eiddo Gwynedd mewn bandiau is na band D. Byddai pob 0.1% ychwanegol o dreth yn addasu'r bwlch ariannol y byddem angen ei ddarganfod o tua £71,460. Felly, byddai 0.5% yn golygu addasu'r bwlch ariannol tua £357,310 tra byddai 1% yn golygu addasu'r bwlch ariannol o tua £714,620.
5. Nodir isod y cynnydd a welwyd yn Nhreth Cyngor Gwynedd, a'r cynnydd a welwyd ar gyfartaledd ar draws Cymru, ers 2014/15:

<b>Blwyddyn</b>	<b>Gwynedd</b>	<b>Cymru</b>
2019/20	5.8%	6.2%
2018/19	4.8%	5.0%
2017/18	2.8%	3.1%
2016/17	4.0%	3.7%
2015/16	4.5%	4.3%
2014/15	3.9%	4.2%
Cyfanswm 2014-20	25.8%	26.5%
Cyfartaledd 2014-20	4.3%	4.4%

Yn 2019/20 roedd lefel Treth Cyngor Band D Cyngor Gwynedd yn £1,376, tra roedd lefel treth cyfartalog siroedd Cymru yn £1,294.

<https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-03/council-tax-levels-in-wales-april-2019-march-2020-651.pdf>

6. Ni wyddom yn union eto beth fydd y cyfartaledd cynnydd ar draws Cymru yn 2020/21, ond yr wybodaeth ddiweddaraf sydd gennyf yw bydd y cyfartaledd ar draws Cymru tua 4.5%. Felly, mae'r cynnig gerbron am fod yn is na lefel cyfartaledd Cymru erbyn 2020/21, ac felly yn cadw at y polisi hir-dymor.
7. Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a threthu o hyd yn un anodd, wrth gwrs, a mater i'r holl aelodau yw pwyso a mesur a dod i'r balans y maent yn ystyried sy'n briodol. Fodd bynnag, ymhellach i sawl sgwrs anffurfiol yn y gweithdai aelodau, **argymhellir cynnydd Treth Cyngor o 3.9%, fyddai'n gynnydd wythnosol o £1.04, neu £54.09 yn flynyddol, gyda threth 'Band D' o £1,430.31 am 2020/21.**

#### **CYNNYRCH PREMIWM TRETH CYNGOR AR EIDDO GWAG AC AIL GARTREFI**

8. Yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 19 Rhagfyr 2019, penderfynwyd parhau gyda'r premiwm o 50% ar ail gartrefi ac ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy am 2020/21. Amcangyfrifir bydd y Cyngor yn derbyn £2.7m o incwm ychwanegol yn 2020/21 trwy godi'r premiwm, a bwriedir neilltuo'r arian mewn cronfa er mwyn gweithredu'r Strategaeth Tai, fydd yn anelu i ddarparu tai ar gyfer pobl ifanc yn ein cymunedau.
9. Rhaid ymgorffori'r holl incwm a cyfarch gwariant perthnasol yng nghyllideb 2020/21.

## ATODIAD 7

### BALANSAU

1. Mae awdurdodau lleol angen lefel darbodus o 'gyfalaf gweithio' i gynnal llif arian digonol ac i gyfarch gwariant annisgwyl. Rhagwelir bydd gan y Cyngor falansau cyffredinol o £7.5m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, yn cynrychioli tua 1.8% o wariant refeniw gros y Cyngor.
2. 'Rydym wedi nodi, ar fwy nag un achlysur, oherwydd yr amgylchiadau tymhestlog y byddwn yn eu hwynebu dros y blynyddoedd i ddod, ei fod yn briodol cadw symiau wrth gefn er mwyn medru ymdrin gyda phroblemau allasai godi.
3. Nid oes unrhyw beth wedi digwydd yn y cyfamser i newid y farn yma, gyda'r cynnydd mewn galw am wasanaethau gofal, ansicrwydd Brexit ac adolygiad gwariant Llywodraeth San Steffan ar y gweill, yn golygu fod y risg yn parhau. Felly, mae'r angen i sicrhau fod gennym falansau priodol i fedru dygymod gydag unrhyw sioc ariannol dal yn berthnasol.
4. Wedi defnyddio £312k o danwariant corfforaethol 2019/20 er mwyn ariannu'r bidiau un-tro, **argymhellir peidio defnyddio balansau cyffredinol yn 2020/21.**
5. **Mae gan y Cyngor nifer o reserfau penodol** sydd wedi eu sefydlu i gwrdd ag anghenion gwariant penodol. Mae'r rhain hefyd yn rhan o gyllideb y Cyngor, wrth gwrs, ac wedi'u craffu yn flynyddol. Rhoddwyd sylw i'r reserfau penodol gan y Cabinet ar 21 Mai 2019 a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu hefyd ar 13 Mehefin 2019, pryd cymeradwywyd trosglwyddo £4m o gronfeydd a darpariaethau tuag at flaenoriaethau / anghenion corfforaethol. Rwy'n adolygu lefel y reserfau yma'n barhaus, a **bwriedir cynnal adolygiad trylwyr eto erbyn Mai/Mehefin 2020**, i ystyried faint o le fydd yna i'r Cyngor newid ei flaenoriaethau tu mewn i'r reserfau yma.
6. Yn ei adroddiad "Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru" (2014), mae **Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) wedi datgan** (ym mharagraff 1.8):

*"Gall cyngorau ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i'w helpu i gydbwysu eu cyllidebau lle nad yw cynlluniau arbedion yn cyflawni'r canlyniadau disgwylidig neu lle mae'r incwm yn llai na'r disgwyl. Fodd bynnag, **ni fyddai fel arfer yn briodol cyllido gwariant rheolaidd o gronfeydd wrth gefn.** Mae lefel synhwyrol o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn elfen allweddol o sefydlogrwydd ariannol; bydd isafswm y lefel briodol yn amrywio gan ddibynnu ar rwymedigaethau hysbys a phosibl awdurdod a'i gynlluniau gwariant. Ceir arwyddion bod ambell gyngor yn dibynnu gormod ar gronfeydd wrth gefn cyffredinol i ymdrin â diffyg yn y gyllideb, yn hytrach na cheisio mabwysiadu dulliau mwy cynaliadwy, sy'n aml yn golygu gwneud penderfyniadau amhoblogaidd."*

Ategwyd y neges yma mewn cyfarfod adborth diweddar gyda SAC, a disgwylir iddynt adrodd yn fuan ar gynaliadwyedd a gwytnwch ariannol awdurdodau lleol Cymru.

7. Hefyd, ar 10 Ionawr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad am gronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol, sy'n rhoi cyd-destun defnyddiol i'n sefyllfa ac yn dangos Cyngor Gwynedd ar lefel rhesymol yn ganol amrediad o gronfeydd defnyddiadwy awdurdodau Cymru.  
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/cronfeydd-yr-awdurdodau-lleol-2018-19.pdf>

8. Rwy'n argyhoeddedig fod defnydd y Cyngor o gronfeydd penodol (y Gronfa Trawsffurfio, ayb) i ariannu gofynion un-tro (fel bydd rheiny yn codi) yn weithred cwbl briodol, a ni argymhellir unrhyw ddefnydd o falansau'r Cyngor i fantoli cyllideb 2020/21.
9. Wrth gwrs, gallai sefyllfa ariannol 2020/21 wedi bod yn wahanol. Eleni, mae balansau'r Cyngor wedi bod yn arf allweddol roedd yn caniatáu i ni aros i weld beth oedd sefyllfa'r setliad grant, cyn hyd yn oed ystyried lefel arbedion uwchben y £2m. Roedd bodolaeth ein balansau yn 'prynu amser' ac osgoi 'hel bwganod' am doriadau nad oedd eu hangen erbyn 2020/21. Gan nad oeddem wedi gorfod defnyddio balansau eleni i 'bontio' hyd nes byddai cynlluniau arbedion ychwanegol wedi'u cymeradwyo a'u gweithredu, mae cadw'r balansau yn caniatáu i ni ddefnyddio'r un rhesymeg eto erbyn cyllideb 2021/22.

## ATODIAD 8

### ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

1. Mae'r gyllideb a amlinellir yma'n ceisio parhau i ddarparu'r deilliannau priodol i holl drigolion y sir, ond gan fu cynnydd annigonol yn ein incwm i gwrdd â'r galw am wasanaethau yn ogystal â chwyddiant, mae'n rhaid gweithredu'r cynlluniau arbedion roedd wedi'u cymeradwyo eisoes ynghyd â'r pecyn o gynlluniau ychwanegol sy'n Atodiad 3.
2. Gydag arbedion, mae posibilrwydd i ni gael ardrawiad fyddai'n effeithio'n anghymesur ar rai gyda nodweddion gwarchodedig, ond mae'r adrannau sy'n berchen ar yr arbedion wedi cynnig cynlluniau arbedion effeithlonrwydd yn hytrach na thoriadau. Hefyd, mae'r cynlluniau arbedion unigol wedi bod yn destun asesiadau effaith priodol sy'n cefnogi'r penderfyniadau ariannol gerbron yma. Lle'n briodol, yn Atodiad 3, gwelir sylwadau perthnasol gyferbyn â'r cynlluniau unigol.
3. Ein nod oedd sicrhau fod ein penderfyniadau ariannol yn cydymffurfio â dyletswyddau'r Ddeddf Cydraddoldeb, sef:
  - Diddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol, ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd dan y Ddeddf.
  - Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
  - Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.Wrth asesu, roeddem wedi ceisio canfod sut i wneud y gorau o bob cyfle i wella cydraddoldeb yn ogystal â cheisio osgoi neu liniaru unrhyw effaith negyddol hyd orau ein gallu.
4. Wrth gynllunio ein cyllidebau ar gyfer parhad gwasanaethau'r Cyngor, mae ein cyfrifwyr wedi rhoi ystyriaeth i gydraddoldeb ar bob lefel, gan ddefnyddio data a thystiolaeth am ddemograffi a thueddiadau wrth gynllunio ar lefel strategol. Yn yr un modd (ond yn fwy penodol) wrth ddod i benderfyniad ar gynlluniau arbedion unigol, mae penaethiaid adrannau'r Cyngor wedi dadansoddi effaith cynlluniau ar wasanaethau, a monitro'r effaith yn briodol.
5. Mae'r gyllideb a argymhellir yn gwneud mwy na chwrdd â chostau chwyddiant. Mae o hefyd yn ceisio sicrhau fod pwysau cyllidebol anorfod sy'n disgyn ar wasanaethau (oherwydd galwadau uwch a roddir arnynt, yn sgil nifer uwch o gleientau, disgyblion, a.y.b.) hefyd yn cael eu cyfarch trwy wneud penderfyniadau cyllidebol cydwybodol a rhesymol (gweler y gofynion gwario ychwanegol, gan gynnwys 'demograffi', yn rhan 3 o'r adroddiad).
6. Mae gan bob gwasanaeth yr hawl i gyflwyno cais am adnodd os yw'n ystyried fod angen cyllideb ychwanegol i sicrhau fod gwasanaethau'n parhau. Mae'r symiau a welir o dan y pennawd "pwysau ar wasanaethau" yn gydnabyddiaeth fod y Cyngor yn darparu cyllid digonol er mwyn sicrhau nad yw ein trefniadau ariannol yn cael effaith andwyol ar lefel y gwasanaethau a ddarperir. Fe geir manylion llawn yn Atodiad 2 ac fe welir fod rhan sylweddol (dros £4m) o'r cyfanswm bidiau refeniw parhaol (£4.34m) yn mynd i'r maes gofal cymdeithasol (yn cynnwys Digartrefedd, Gofal Oedolion a Gofal Plant), a bod mwyafrif y gweddill (£334k) ohono'n mynd at gludiant ysgolion ar gyfer disgyblion gydag anghenion arbennig.



Derbyniwyd cymorth gan Delyth Gadlys Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb y Cyngor, wrth i ni lenwi'r ffurflen yma.

## **ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchoddedig).

### **1) Manylion**

#### **1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?**

Arbedion 2020/21

#### **1.2 Beth ydi pwrpas yr adroddiad sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?**

Arbedion i gwrdd â bwloch ariannol mae'r Cyngor yn ei wynebu yng Nghyllideb 2020/21. Pob Adran wedi cael targed yn wreiddiol o 0.78% o'u cyllidebau gros, oedd yn gyfanswm £2 filiwn. Wedi cael ei leihau i £1.062 miliwn yn dilyn asesiad o'r cynigion, a peidio gweithredu'r rhai allai gael effaith ar drigolion.

#### **1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?**

Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid.

#### **1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?**

Bu asesiad anffurfiol cyn cyfarfod Cabinet 17/12/19. Cychwynwyd yr asesiad ffurfiol yma ar 31 Ionawr 2020.

### **2) Gweithredu**

#### **2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?**

Adrannau'r Cyngor  
Pobl Gwynedd  
Aelodau'r Pwyllgorau Craffu a Phwyllgor Archwilio a Llywodraethu  
Y Cabinet  
Aelodau Etholedig mewn Gweithdai Cyllideb

## 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchoddedig?

Yn ystod 2018 gwnaed ymgynghoriad o'r enw "Pa Wasanaethau sy'n Bwysig i Chi?" i adnabod beth oedd blaenoriaethau pobl Gwynedd ar gyfer penderfyniadau'r gyllideb ar gyfer 2019-22. Defnyddir yr ymgynghoriad yma yn weithredol am y dair blynedd.

At ddiben arbedion newydd 2020/21 yn y Gyllideb yma, cynhaliwyd trafodaethau mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, er mwyn craffu holl gynigion yr Adrannau (gwerth £2m).

Cynhaliwyd 4 Seminar Cyllideb – 1 yn Dolgellau, 1 yn Pwllheli a 2 yng Nghaernarfon i edrych ar y gyllideb gan gynnwys yr arbedion (gwerth £1.062m i'w cyflwyno am benderfyniad).

## 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Roedd yr ymgynghoriad "Pa Wasanaethau sy'n Bwysig i Chi?" yn dangos fod y rhan fwyaf o bobl Gwynedd yn teimlo mai Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg oedd y gwasanaethau mwyaf pwysig i'w gwarchod.

Yn sgil y craffu, penderfynwyd cyfyngu'r arbedion i £1.062m, sef y cynigion na ddylai gael effaith ar drigolion (gweler adroddiad Cabinet 17 Rhagfyr 2019 sy'n cynnwys tabl gan y Prif Weithredwr sy'n graddio'r arbediad o ran effaith).

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Cyflwynir Cyllideb 2020/21 a'r cynlluniau arbedion gerbron yng nghyd-destun Setliad Grant Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol Cymru, sy'n darparu adnoddau ychwanegol digonol i gyfarch chwyddiant, ond ddim digon er mwyn cyfarch y galw ychwanegol, yn bennaf, mwy o alw am wasanaethau gofal cymdeithasol, plant ac oedolion.

Felly, er mwyn rhoi blaenoriaeth i'r pobl bregus yng Ngwynedd sy'n derbyn y gwasanaethau gofal, rhaid blaenoriaethu a sicrhau arbedion mewn meysydd gyda llai o ardrawiad.

Gwybodaeth Adrannau'r Cyngor – Mae gan yr Adrannau wybodaeth craidd o'u gwasanaethau. Maent wedi edrych yn ofalus ar eu gwaith ac wedi adnabod arbedion pellach fydd ddim yn cael effaith, neu'n cael effaith bychan, ar drigolion Gwynedd. Maent wedi gallu gwneud hyn oherwydd pethau fel newidiadau mewn technoleg, neu arferion gwell.

## 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Nac oes

### 3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae croeso i chwi ychwanegu nodweddion eraill os ydych chi'n dymuno.

Nodweddion	Sut fath o effaith?	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
<b>Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)</b>	dim	Nid oes effaith wedi ei adnabod ar y nodwedd yma, ond mae'n angenrheidiol i'r Adrannau sicrhau eu bod yn cadw golwg ac adnabod a lliniaru unrhyw effaith sy'n cael ei amlygu wrth weithredu.
<b>Yr iaith Gymraeg</b>	dim	Nid oes effaith wedi ei adnabod ar yr iaith Gymraeg, ond mae'n angenrheidiol i'r Adrannau sicrhau eu bod yn cadw golwg ac adnabod a lliniaru unrhyw effaith sy'n cael ei amlygu wrth weithredu.
<b>Anabledd</b>	negyddol	Mae'r Adran Oedolion wedi adnabod y posibilrwydd o effaith, ond nid effaith sylweddol, ar y rhai sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Bydd angen i'r Adran honno sicrhau eu bod yn lliniaru unrhyw effaith.
<b>Rhyw</b>	dim	Nid oes effaith wedi ei adnabod ar y nodwedd yma, ond mae'n angenrheidiol i'r Adrannau sicrhau eu bod yn cadw golwg ac adnabod a lliniaru unrhyw effaith sy'n cael ei amlygu wrth weithredu.
<b>Oedran</b>	negyddol	Mae'r Adran Oedolion wedi adnabod y posibilrwydd o effaith, ond nid effaith sylweddol, ar y rhai sy'n defnyddio eu gwasanaethau.  Mae effaith, ond nid effaith sylweddol, wedi ei adnabod hefo rhai o cynigion yr Adran Addysg hefyd.  Bydd angen i'r Adrannau sicrhau eu bod yn lliniaru unrhyw effaith.
<b>Cyfeiriadedd rhywiol</b>	dim	Nid oes effaith wedi ei adnabod ar y nodwedd yma, ond mae'n angenrheidiol i'r Adrannau sicrhau eu bod yn cadw golwg ac adnabod a lliniaru unrhyw effaith sy'n cael ei amlygu wrth weithredu.
<b>Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)</b>	dim	Nid oes effaith wedi ei adnabod ar y nodwedd yma, ond mae'n angenrheidiol i'r Adrannau sicrhau eu bod yn cadw golwg ac adnabod a lliniaru unrhyw effaith sy'n cael ei amlygu wrth weithredu.
<b>Ailbennu rhywedd</b>	dim	Nid oes effaith wedi ei adnabod ar y nodwedd yma, ond mae'n angenrheidiol i'r Adrannau sicrhau eu bod yn cadw golwg ac adnabod a lliniaru unrhyw effaith sy'n cael ei amlygu wrth weithredu.

<b>Beichiogrwydd a mamolaeth</b>	dim	Nid oes effaith wedi ei adnabod ar y nodwedd yma, ond mae'n angenrheidiol i'r Adrannau sicrhau eu bod yn cadw golwg ac adnabod a lliniaru unrhyw effaith sy'n cael ei amlygu wrth weithredu.
<b>Priodas a phartneriaeth sifil</b>	dim	Nid oes effaith wedi ei adnabod ar y nodwedd yma, ond mae'n angenrheidiol i'r Adrannau sicrhau eu bod yn cadw golwg ac adnabod a lliniaru unrhyw effaith sy'n cael ei amlygu wrth weithredu.

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

<b>Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb</b>	<b>A yw'n cael effaith?</b>	<b>Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?</b>
<b>Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth</b>	Nac ydi	Ni chredir fod yr effaith a soniwyd amdano yn 3.1 yn ddigonol i arwain at gamwahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth
<b>Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal</b>	Posib	Gan fod effaith wedi ei adnabod, bydd yn rhaid gweithredu yn ofalus i sicrhau nad yw'r newidiadau'n effeithio'r ddyletswydd yma.
<b>Meithrin perthnasau da</b>	Posib	Gan fod effaith wedi ei adnabod, bydd yn rhaid gweithredu yn ofalus i sicrhau nad yw'r newidiadau'n effeithio'r ddyletswydd yma.

#### **4) Dadansoddi'r canlyniadau**

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?**

Nid oes effaith sylweddol bositif wedi ei adnabod o ganlyniad i weithredu arbedion, ond bydd effaith cyffredinol bositif o barhad y gwasanaethau ystyriwyd yn flaenoriaeth i'w hamddiffyn a'u ariannu i'r lefel galw ychwanegol.

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?**

Mae effaith wedi ei adnabod, ond ni chredir y bydd yn sylweddol, oherwydd mai arbedion effeithlonrwydd yn hytrach na thoriadau sydd yma.

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	X

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Bydd yr Adrannau yn gweithio i sicrhau eu bod yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol.

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

Gweler uchod.

**5) Monitro**

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

Bydd yr arbedion yn cael eu herio yn y Cyfarfodydd Herio Perfformiad 3 gwaith y flwyddyn ac yn cael eu hadrodd i'r Cabinet fel rhan o adroddiadau perfformiad yr Aelodau Cabinet unigol. Hefyd, bydd adroddiad Trosolwg Arbedion yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ac i'r Pwyllor Archwilio a Llywodraethu tair gwaith y flwyddyn.

## ATODIAD 9

### DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

1. Mae'r gwaith o gynllunio a pharatoi'r argymhellion wedi digwydd o fewn cyd-destun gofynion y Ddeddf uchod. Er bod yr argymhellion yn deillio o ddewisiadau ariannol anodd, mae'r Cyngor wedi gweithredu ar seiliau'r egwyddor o weithredu mewn modd sydd yn cyfarch y ddyletswydd statudol yn Adran 3 i ymgymryd â datblygu cynaliadwy a chyflawni Amcanion Llesiant y Cyngor. Mae hyn yn cael ei gyfarch wrth adnabod a chloriannu'r dewisiadau o ran arbedion, ond hefyd wrth benderfyniadau a dewisiadau o safbwynt darparu adnoddau digonol er mwyn cynnal lefel briodol o wasanaethau.
2. Mae'r gyllideb hon yn adlewyrchu'r pum ffordd o weithio canlynol y mae'r Cyngor yn ystyried wrth gymhwyso datblygu cynaliadwy.
  - Edrych i'r tymor hir – Mae gyllideb yn cynllunio ar gyfer y dyfodol, gan adnabod anghenion a galw am wasanaethau yn y dyfodol, a chymryd agwedd strategol i sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy.
  - Deall problemau a'u hatal - Mae'r broses gyllidebu yn hwyluso dealltwriaeth o'r sefyllfa ariannol, fel y gellir mynd i'r afael â gwreiddiau materion. Hefyd, mae'r gyfres o Weithdai Aelodau wedi hwyluso dealltwriaeth o'r strategaeth ariannol.
  - Cymryd agwedd integredig – Mae polisiâu ac arferion cyllidebu Cyngor Gwynedd, a'r cynigion cyllideb eleni wedi'u ystyried o safbwynt yr holl nodau llesiant.
  - Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol - Lle gellir darparu gwasanaethau gwell trwy gydweithredu, a gweithio gyda phartneriaid, mae'r broses gyllidebol a'r strategaeth arbedion yn annog hyn, yn fewnol ac allanol, lle mae hynny'n fwy cynaliadwy.
  - Cynnwys y boblogaeth mewn penderfyniadau - Mae rhan o'r broses gyllidebu a'r strategaeth arbedion hir-dymor wedi cynnwys ymgysylltu â thrigolion, cwsmeriaid a phartneriaid.
3. Prif gasgliadau am gyllideb 2020/21 ynglŷn â'r 7 nod llesiant:
  - Llewyrchus – Niwtral (ychwanegu at adnoddau gwasanaethau sy'n rhoi diwedd ar dlodi)
  - Cydnerth - Positif (agwedd darbodus, hir-dymor at ariannu gwasanaethau a galluogi Cynllun y Cyngor)
  - Iachach – Positif (ariannu Unedau Dementia, a gofynion eraill 'Gofal')
  - Mwy Cyfartal – Positif (trethu er mwyn ariannu gwasanaethau 'lles')
  - Cymunedau Cydlynus – Niwtral (parhau i ariannu gwasanaethau sy'n cadw pobl yn ddiogel)
  - Diwylliant a'r Gymraeg – Positif (drwy ariannu gwasanaethau dwy-ieithog)
  - Byd-eang Gyfrifol – Niwtral (parhau i ariannu prosiectau digidol, amgylcheddol, cydweithredol)
4. Ynglŷn â chynlluniau arbedion ariannol penodol, fel rhan o'r gyfundrefn arbedion gorfforaethol ac adrannol, lle'n briodol bu asesiad llesiant penodol fesul cynllun unigol, ac ystyriaeth o hynny yn y pwyllgorau craffu trefnwyd i'w ystyried ac i flaenoriaethu arbedion i'w gweithredu.
5. Yn gyffredinol, wedi'i gplysu gyda Chynllun y Cyngor a'r Amcanion Llesiant, mae'r gyllideb yma'n cefnogi'r Cyngor i wireddu amcanion strategol.

## ATODIAD 10

### CADERNID YR AMCANGYFRIFON

1. Yn unol ag Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd ar gadernid yr amcangyfrifon cyllidebol a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn arfaethedig. Mae Atodiad 7 yn amlinellu sefyllfa'r balansau a chronfeydd wrth gefn, tra mae'r atodiad yma'n cadarnhau cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol sy'n sail i'r gyllideb.
2. Mae amcangyfrifon y gyllideb yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch gwariant ac incwm yn y dyfodol ac mae'n anochel eu bod yn cynnwys elfen o risg yn sgil rhagdybio. Gall effaith y risg hon gael ei lliniaru drwy gynlluniau wrth gefn, cyllidebau wrth gefn a chronfeydd ariannol wrth gefn.
3. Nid yw cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol yn gwestiwn syml os ydynt wedi'u cyfrifo yn gywir. Yn ymarferol, mae llawer o gyllidebau wedi'u seilio ar amcangyfrif neu ragolygon, a bydd elfen o risg ynghylch gwireddu cynlluniau a chyflawni targedau. Ystyrir gwahanol risgiau i'r gyllideb isod:
4. **Risg Chwyddiant** - Mae risg gall chwyddiant droi allan yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaeth a wnaed yn y gyllideb. Ar gyfer 2020/21, caniatawyd chwyddiant ar sail y wybodaeth ddiweddaraf am tâl a phrisiau, ond mae risg y bydd chwyddiant yn codi eto yn ystod 2020/21 ac ansicrwydd ynghylch y lefel tebygol. Gall cynnydd mewn chwyddiant ychwanegu at gostau'r Cyngor, ond gellir lleddfu hyn drwy ddefnyddio cyllideb wrth gefn fel bo'r angen.
5. **Risg Cyfraddau Llog** - Gall cyfraddau llog effeithio'r gyllideb refeniw drwy'r llog a enillir - h.y. byddai cynnydd yn y gyfradd llog yn golygu mwy o incwm. Yn unol â Strategaeth Fuddsoddi'r Cyngor (eitem ddilynol ar raglen y cyfarfod hwn), nid yw'r gyllideb yn dibynnu ar ddychweliadau rhy uchel. Mae cyfraddau llog yn parhau i fod ar eu hisaf erioed ac nid ydynt yn debygol o godi cyn o leiaf 2021/22. Felly, ystyrir bod y risg o ran cyfraddau llog yn isel a byddai'n digolledu'r risg chwyddiant, oherwydd bod un yn debygol o gynyddu gyda'r llall.
6. **Risgiau Grantiau Penodol** - Mae'r risgiau ynghlwm â'r nifer fawr o grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru, a chyrrff eraill sy'n cefnogi cyfran o wariant y Cyngor. Gall rhai o'r rhain ostwng, neu cael eu torri, ac nid oes gennym ddarlun cyflawn wrth i'r flwyddyn ariannol gychwyn. Bydd rhaid i'r gwariant cysylltiedig orffen pan daw grant i ben, ond mae'n bosibl fydd telerau contract yn golygu na all gwariant gael ei dorri mor gyflym â'r grant, neu bod costau diswyddo i'w hariannu. Ymhellach, efallai bydd gweithgaredd a ariennir mor bwysig i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor ei hun, a'r Cyngor yn penderfynu parhau â'r gwariant (fel y grant £500k ym maes Plant erbyn 2020/21). Byddwn yn lliniaru'r risg hon drwy sicrhau bod gennym yr wybodaeth orau sydd ar gael am grantiau, ond mae'r cyrrff ariannu (Llywodraeth, ayb) yn rheoli'r sefyllfa hyn.
7. **Risgiau Incwm** - Mae'r gyllideb yn seiliedig ar sicrhau cynnydd penodol mewn incwm ffioedd sydd cyfwerth â'r cynnydd mewn costau perthnasol. Os bydd galw am wasanaethau'r Cyngor yn disgyn, ac nad yw targedau incwm yn cael eu cyflawni, gall hynny arwain at orwario ar gyllidebau adrannol. Bydd angen monitro gwir sefyllfa'r gyllideb yn ofalus yn ystod y flwyddyn ac, os oes angen, torri yn ôl ar wariant i gyfateb i'r gostyngiad mewn incwm. Bydd hynny ddim yn bosib gyda rhai cyllidebau mawr corfforaethol, lle rhaid gosod amcangyfrifon incwm ar lefel darbodus.

8. **Risg ag Arbedion** - Un risg sylweddol yn yr amgylchiadau presennol yw bod y Cyngor yn or-optimistaidd o ran gwireddu cynlluniau arbedion. Petai'r prosiectau hyn yn rhedeg i drafferthion ac yn methu cyflawni'r arbedion a gymerwyd allan o'r gyllideb, gallai hynny arwain at orwario sylweddol. Yn unol â'r drefn arferol, byddwn yn lliniaru'r risg drwy sicrhau fod cynlluniau arbedion ym mherchnogaeth adrannau ac aelodau'r Cabinet, a monitro'r cynnydd perthnasol yn rheolaidd. Hefyd, erbyn 2020/21, rydym wedi gwneud amcangyfrif darbodus o'r gwerth (£0.9m) arbedion cymeradwy o flynyddoedd blaenorol y bydd modd i ni gynhaefu).
9. **Costau Diswyddo Staff** - Mae rhai gwasanaethau yn ailstrwythuro eu staff er mwyn cyflawni arbedion, a staff yn cael eu rhyddhau drwy ddiswyddiad. Lle'n briodol, caiff costau diswyddo eu cyllido o gronfa wrth gefn ganolog, ac mae swm addas wedi cael ei neilltuo i'r perwyl hyn, sy'n lliniaru'r risg.
10. **Premiwm y Dreth Cyngor** - Wrth benderfynu ar y Sylfaen Drethiannol, aseswyd nifer yr ail gartrefi a thai gwag i'w cynnwys yn y ffigyrau yn ddarbodus. Mae risg bod nifer yr eiddo fydd yn talu wedi'i or-amcan a'r incwm a gesglir yn is na'r swm amcangyfrifwyd (oherwydd eiddo'n trosglwyddo i'r rhestr treth fusnes). Rydym yn rheoli'r risg drwy gyflogi arolygwyr sy'n gwirio'r ffeithiau, a thrwy beidio ymrwymo'r holl gynnyrch treth posibl o'r Premiwm cyn daw'r sefyllfa'n fwy eglur.
11. **Barn y Swyddog Cyllid Statudol** - Wedi ystyried yr holl risgiau a nodir uchod a'r camau lliniaru, mae'r Pennaeth Cyllid (Swyddog Adran 151) o'r farn bod y cyllidebau yn gadarn, yn ddigonol, ac yn gyraeddadwy.



# Eitem 9

## CABINET CYNGOR GWYNEDD



### Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>18fed Chwefror 2020</b>
<b>Aelod Cabinet:</b>	<b>Y Cynghorydd Dafydd Meurig</b>
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	<b>Aled Davies</b>
<b>Rhif Ffôn Cyswllt:</b>	<b>01286 682815 Est 34815</b>
<b>Teitl yr Eitem:</b>	<b>Cais am arian o'r gronfa trawsffurfio i ariannu Cynllun Gwasanaethau Cefnogi Dementia yn y Gymuned (sy'n cynnwys Dementia Go) am ddwy flynedd.</b>

#### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Cafodd Cynllun Gwasanaethau Cefnogi Dementia yn y Gymuned (sy'n cynnwys Dementia Go), ei gefnogi gan Gabinet Cyngor Gwynedd ar y 4ydd o Fehefin 2019 a neilltuwyd £97,660 o'r Gronfa Trawsffurfio i'w weithredu. Yn dilyn y llwyddiant dechreuol, gwneir cais yn awr i ymestyn y cyfnod hwn am ddwy flynedd, hyd at Mawrth 2022, er mwyn defnyddio'r amser i sefydlu dull ffurfiol o fesur effaith y rhaglen ac i dystiolaethu'r cyswllt rhwng mynychu dosbarthiadau Dementia Go a darpariaeth gofal cymdeithasol a iechyd dros gyfnod o amser. Gwneir cais am £200,000 i ariannu 2 swydd llawn amser (ym Mhwlheli a Porthmadog) a dwy swydd 7 awr yr wythnos wedi eu lleoli yn Nhywyn a Chaernarfon. Mae costau offer, teithio a hyfforddiant yn gynwysiedig yn y swm hwn.

#### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae'r Cynllun Gwasanaethau Cefnogi Dementia yn y Gymuned wedi ei sefydlu ers 2016 i gefnogi unigolion sy'n byw gyda dementia, a'u teuluoedd, drwy wahanol weithgareddau mewn 12 canolfan gymunedol ar draws Gwynedd. Gwnaethpwyd gwaith ymgysylltu manwl gyda mynychwyr y dosbarthiadau Dementia Go a'r gweithgareddau eraill, i fesur gwerth y Cynllun o'u safbwynt hwy, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol yn y maes iechyd a gofal sydd wedi gweld effaith y rhaglen ar unigolion.

Dyma gasgliad annibynnol yr ymchwilwyr o'r Tîm Ymchwil a Dadansoddeg y Cyngor:

*"Mae yna nifer o ddarnau o wybodaeth ansoddol sy'n tystiolaethu fod y rhaglen DementiaGo yn cynnig budd i'r mynychwyr unigol, a hynny trwy eu galluogi i fyw*

*bywyd gwell a bywyd mwy annibynnol.”*

Dywedir ymhellach:

*“O’r dystiolaeth a gyflwynwyd i ni mae’n ymddangos bod y rhaglen DementiaGo yn enghraifft dda o brosiect sydd wedi’i gynllunio’n lleol o safbwynt yr hyn mae defnyddwyr lleol ei angen, ac wedi gallu addasu a datblygu dros amser heb fod llawer o fiwrocratiaeth neu rwystrau “cyfundrefnau” ynghlwm efo hynny.*

*Yn ogystal, mae’n ymddangos y bu’r prosiect yn llwyddiannus o safbwynt torri ar draws ffiniau sefydliadol er mwyn cyd-gynhyrchu cynllun o safbwynt y defnyddiwr.”*

Argymhelliad terfynol yr adroddiad yw bod angen cyfnod hirach o amser i dystiolaethu’r cyswllt rhwng mynychu’r rhaglen DementiaGo a darpariaeth gofal cymdeithasol a iechyd a bod angen rhoi sylw i hyn wrth i’r rhaglen ddatblygu. Golyga hyn dracio pecynnau gofal gaiff defnyddwyr ar ôl iddynt gychwyn ar y rhaglen, gan eu cymharu gydag achosion “tebyg” sydd heb fynychu DementiaGo.

Gofynnir am gyllid am gyfnod estynedig o ddwy flynedd o’r Gronfa Trausffurfio er mwyn gallu cynnal yr ymchwil hollbwysig yma. Trwy hynny, byddwn yn gallu tynnu sylw at gryfderau’r rhaglen o ran cryfhau llesiant yr unigolyn ac yn deillio o hynny, gobeithir gallu tystiolaethu bod y Cynllun yn gwneud arbedion ariannol i’r Cyngor yn y tymor hir.

### 3 CYFLWYNIAD

Mae’r gyllideb y gofynnir amdano hyd at diwedd Mawrth 2022 yn fodd o gyflawni y 5 maes rhaglen ganlynol:ganlynol:

- Byw’n dda gyda Dementia : Dosbarthiadau gweithgaredd corfforol cymunedol.12 dosbarth ymhob rhan o Wynedd gyda pwyslais ar lesiant corfforol a chymdeithasol.
- Prosiect “Munud i symud”(Moving moments) Cartrefi Gofal Cyngor Gwynedd. Cynnal cefnogaeth i gartrefi preswyl Cyngor Gwynedd i gefnogi symudedd y preswylwyr drwy annog ymarferion corfforol ysgafn a chreu awyrgylch o hwyl yr un pryd.
- Hyfforddi grwpiau a chymunedau drwy’r rhaglen “ffrindiau Dementia” sy’n fodd o arfogi pobol Gwynedd efo gwybodaeth a dealltwriaeth gwell o’r cyflwr dementia. Mae’n torri’r stigma o gwmpas dementia.
- Cefnogaeth a grymuso pobol, a’u teuluoedd, sy’n byw gyda dementia. Crewyd cangen o’r grwp DEEP: Dementia Empowerment and Engagement Project i roi llais i bobol sy’n byw gyda dementia.
- Ansawdd bywyd a chysylltu pobol. Cynnigir digwyddiadau cymdeithasol megis Cyngair Boccia lle mae grwpiau o bobol bregus, yn cynnwys

dosbarthiadau Dementia Go, yn cystadlu yn erbyn ei gilydd mewn awyrgylch o hwyl a chefnogaeth.

#### 4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Mae'r Tim Dadansoddeg ag Ymchwil wedi amcangyfrif y nifer o bobl sy'n byw gyda dementia yng Ngwynedd ar hyn o bryd sef 2,049 sef 1.67% o'r boblogaeth. Maent wedi tynnu sylw at un ystadegyn trawiadol sef bod amcangyfrif bod etholaeth Dwyfor-Meirionnydd â chyfradd neilltuol o uchel o bobol sy'n byw gyda dementia sef 2.06% o'r boblogaeth. Mae hyn ar sail proffil oedran hyn yr ardal yma, a dyma'r gyfradd 4ydd uchaf ymhlith y 650 etholaeth ym Mhrydain.

Maent yn tynnu sylw at y ffaith bod astudiaethau cenedlaethol yn amcangyfrif cost y cyflwr fesul achos gyda costau yn amrywio gyda difrifoldeb y cyflwr, o tua £26,200 y flwyddyn ar gyfer achosion llai difrifol, i £39,300 ar gyfer achosion cymedrol, i £41,200 yn yr achosion mwyaf difrifol. Mae'r costau yma yn cynnwys cost gofal iechyd, gofal cymdeithasol (p'run ai yn disgyn ar awdurdodau lleol neu gyfraniad yr unigolyn / teulu at y costau), a chost cyfatebol ffrindiau a theuluoedd yn darparu gofal di-dâl. Maent wedi amcangyfrif cyfanswm cost blynyddol dementia yng Ngwynedd, a faint o'r gost yma sy'n debygol o fod yn disgyn ar y Cyngor, a gwelir fod y swm yn £11 miliwn yn flynyddol.

Dyma gasgliad y TîmYmchwil a Dadansoddeg am waith y Cynllun Gwasanaethau Cefnogi Dementia:

*“Os oes yna arbediad yn deillio, yna dim ond nifer fach o achosion 'llwyddiannus' fyddai ei angen er mwyn i'r arbediad hwnnw fod yn un eithaf sylweddol:*

*Ar sail cost gweithredu'r rhaglen DementiaGo (tua £100k yn 2019/20), a chost safonol gofal nyrsio dementia (£662.53 yr wythnos yn 2019/20) yna pe bai y rhaglen yn llwyddo i oedi trosglwyddiad rhai unigolion i ofal am, dyweder, dim ond 6 wythnos yr un – yna fe fyddai'r rhaglen yn talu am ei hunan ar sail tua 25 o achosion o'r fath ar draws Gwynedd bob blwyddyn.”*

Mae'r Cynllun DementiaGo yn unigryw i Wynedd ac mae wedi cael cydnabyddiaeth ar lefel Brydeinig yng Ngwobrau'r Gymdeithas Alzheimers yn Llundain ar y 14eg o Dachwedd 2019 yn y categori “Trailblazer of the Year”. Mae'r gwaith wedi'i enwebu ar gyfer Gwobrau Cenedlaethol dan nawdd Gofal Cymdeithasol Cymru a mae tim o feirniaid wedi ymweld a dosbarth Dementia Go ar yr 28ain o Ionawr 2020. Rydym yn gadarn yn y farn bod gwaith y Cynllun hwn yn cefnogi llesiant unigolion a'u teuluoedd: mae'r mynychwyr eu hunain yn tystiolaethu hynny'n gyson.

Dyma rai o'u sylwadau:

*'Rwy'n teimlo'n fwy heini ac yn gryfach ac rwy'n gwneud fy ngorau glas i fyw'n dda gyda fy Mharkinsons a Dementia - ac mae hyn oll i wneud gyda gallu dod i'r dosbarthiadau DementiaGo'*

*'Mae'r grŵp wedi dod â mi allan o'm cragen, nid wy'n teimlo'n isel mwyach.... bod ynghanol pobl a chanddynt broblemau tebyg i mi ac sy'n deall yr hyn yr wyf i'n byw drwyddo'*

*'Rwyf wirioneddol wrth fy modd yn mynychu'r dosbarthiadau. Maent yn gwneud i mi deimlo'n hapus ac yn rhoi mwy o egni i mi'.*

## 5 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Byddwn yn mynd ymlaen i sefydlu y gwaith ymchwil ar seiliau cadarn o fod yn llwyddiannus yn y cais hwn. Bydd y Tim Dadansoddeg ag Ymchwil yn amlinellu sut a pha achosion newydd sydd yn mynd i gael eu tracio yn erbyn unigolion eraill fydd ddim yn mynychu sesiynau Dementia Go. Bydd staff y Tim DementiaGo yn derbyn cyfarwyddiadau ar sut i gyflwyno'r gwaith ymchwil i'r defnyddwyr addas gan fod yn agored gyda hwy o'r cychwyn am fwriad y gwaith ymchwil a derbyn eu caniatâd hwy a'u teuluoedd. Byddwn yn cwrdd yn rheolaidd gyda'r Tim Ymchwil i strwythuro'r gwaith a'i amserlennu dros y ddwy flynedd gyda'r bwriad o gyhoeddi'r casgliadau mewn adroddiad ymhen dwy flynedd.

Yn y cyfamser, bydd y Tim yn bwrw ymlaen i ddatblygu y gwasanaethau ar sail adborth cyson gan y mynychwyr. Byddwn yn parhau i roi croeso i'r nifer cynyddol o bobl allanol sydd yn cymeryd diddordeb yn y rhaglen waith a sydd eisiau dysgu o'i llwyddiannau.

## 6 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Prif Swyddog Cyllid :

*Nodaf fod cais yma am £200,000 o adnoddau un tro o'r Gronfa Trawsffurfio'r Cyngor. Bydd nifer o geisiadau haeddiannol yn deillio o Gynllun y Cyngor yn cystadlu am adnoddau prin o'r Gronfa Trawsffurfio. Mater i aelodau'r Cabinet fydd blaenoriaethu'r ceisiadau sy'n gwneud gwahaniaeth wrth ddyrannu adnoddau o'r Gronfa. Cadarnhaf fod darpariaeth ddigonol i ariannu'r cynlluniau sydd wedi'u cyflwyno i'r Cabinet, a bod arian pellach ar gael o'r Gronfa ar gyfer rhai prosiectau fydd yn cyrraedd cyfarfodydd dilynol o'r Cabinet am gymeradwyaeth.*

Swyddog Monitro:

*Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.*